

# Y Llawlyfr Cyfrannau Cymunedol

Y canllaw diffiniol ar gyfer cyfranddaliadau cymunedol - sy'n cwmpasu'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol a safonau arfer da gwirfoddol ar gyfer cynnig cyfranddaliadau.

**Mae'r Llawlyfr hwn yn rhoi arweiniad i gymdeithasau ac ymarferwyr sy'n rhoi cyngor am gyfranddaliadau cymunedol, sy'n derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfalaf cyfranddaliadau y gellir eu tynnu yn ôl i gymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol.**

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n cofrestru cymdeithasau ym Mhrydain Fawr. Mae Gorchymyn Cymdeithasau Cydfuddiannol 2013, a drosglwyddodd y cyfrifoldeb hwn o'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar 1 Ebrill 2013, yn nodi "rhaid i'r Awdurdod gynnal trefniadau sy'n ei alluogi i bennu a yw unigolion yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n cael eu gosod arnynt gan ddeddfwriaeth y gymdeithas gydfuddiannol". Mae gan yr Awdurdod y pŵer i ddiddymu cofrestriad cymdeithas os nad yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth y gymdeithas.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am reoleiddio hyrwyddiadau ariannol, ond mae cymdeithasau'n cael eu heithrio o'r rhan fwyaf o'r rheoleiddiadau hyn. Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i sicrhau nad yw cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn torri telerau eu heithriad o'r rheoleiddiadau, ac annog arfer da ym mhob math o hyrwyddiad ariannol, fel rhan o'i gyfrifoldebau diogelu cwsmeriaid.

Cafodd y Llawlyfr hwn ei gynhyrchu gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol, dan oruchwyliaeth Pwyllgor Technegol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Trysorlys ei Mawrhydi, y Comisiwn Elusennau a chynghorydd cyfreithiol annibynnol.

Mae Adran 1 yn y Llawlyfr yn rhoi cyflwyniad i gyfranddaliadau cymunedol i gynghorwyr busnes sy'n anghyfarwydd â'r syniad. Mae gweddill y Llawlyfr yn cynnig arweiniad ar ddau brif fater:

- Gofynion deddfwriaeth cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol
- Arfer da yn ymwneud â hyrwyddo cyfranddaliadau cymunedol

Mae'r arweiniad ar y gofynion cyfreithiol yn mynd i'r afael â materion sy'n cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth neu gyfraith achosion y mae'n rhaid i gymdeithasau eu dilyn. Lle bo'n briodol, mae'r Llawlyfr yn amlygu'r gofynion gorfodol hyn trwy ddefnyddio'r 'rhaid' gorchmynnol, ac mewn rhai manau, mae'n cyfeirio at y deddfwriaeth berthnasol trwy ddefnyddio ei henw.

Mae'r arweiniad ar arfer da yn edrych ar yr egwyddorion, moeseg a safonau ymddygiad sylfaenol sydd i'w disgwyl gan gymdeithasau sy'n cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Defnyddir y term 'dylai' wrth gyfeirio at yr arferion gwirfoddol, ond dymunol, hyn.

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo arferion da gan gymdeithasau sy'n gwneud cynigion cyfranddaliadau cymunedol. Er nad oes gan yr Uned bwerau ffurfiol sy'n gorchymyn cymdeithasau i ddilyn yr arweiniad yn y Llawlyfr hwn, sefydlodd y Nod Safon Cyfranddaliadau cymunedol fel ffordd o

gydnabod a hyrwyddo arfer da. Mae'r Nod yn cael ei ddyfarnu i gynigion cyfranddaliadau cymunedol gan ymarferwyr sydd wedi derbyn trwydded gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol i wneud y gwaith hwn ar ei ran. Caiff y Llawlyfr ei ddiweddarau'n rheolaidd, yn seiliedig ar sylwadau ac adborth gan ymarferwyr, ac mae'n gweithredu fel ffordd o rannu arfer da.

## Tabl cynnwys

|  |           |
|--|-----------|
| <b>1 CYFLWYNIAD I GYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL</b>          | <b>2</b>  |
| <b>1.1 ECWITI AR GYFER MENTRAU CYMDEITHASOL</b>          | <b>2</b>  |
| <b>1.2 SUT MAE CYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL YN GWEITHIO</b> | <b>3</b>  |
| 1.2.1 Tarddiad   | 3         |
| 1.2.2 Beth yw cyfranddaliadau cymunedol?                 | 3         |
| 1.2.3 Cymhelliad cyfranddalwyr                           | 4         |
| 1.2.4 Adenillion ar fuddsoddiad                          | 5         |
| 1.2.5 Enillion cyfalaf                                   | 5         |
| 1.2.6 Dylanwad cyfranddalwyr                             | 6         |
| 1.2.7 Cwmnïau budd cymunedol                             | 7         |
| <b>1.3 Y MODEL BUSNES</b>                                | <b>8</b>  |
| <b>1.4 MANNAU CYCHWYN</b>                                | <b>8</b>  |
| 1.4.1 Ysgogiad cychwynnol                                | 8         |
| 1.4.2 Mentrau cyn-gychwyn                                | 9         |
| 1.4.3 Caffael a phrynu cyfran                            | 9         |
| 1.4.4 Busnesau cychwynnol                                | 10        |
| 1.4.5 Mentrau cymdeithasol sefydledig                    | 10        |
| <b>1.5 BUDDSODDIAD SEFYDLIADOL</b>                       | <b>11</b> |
| <b>2 DEDDFWRIAETH CYMDEITHASAU</b>                       | <b>15</b> |
| <b>2.1 MATHAU O GYMDEITHASAU</b>                         | <b>15</b> |
| 2.1.1 Cyflwyniad   | 15        |
| 2.1.2 Cymdeithasau cydweithredol go iawn                 | 16        |
| 2.1.3 Cymdeithasau budd cymunedol                        | 18        |
| 2.1.4 Cymdeithasau budd cymunedol elusenol               | 19        |
| 2.1.5 Dewis rhwng mathau o gymdeithasau                  | 20        |

|  |           |
|--|-----------|
| <b>2.2 CYFALAF CYFRANDDALIADAU MEWN CYMDEITHASAU</b>   | <b>21</b> |
| 2.2.1 Mathau o gyfranddaliadau   | 21        |
| 2.2.2 Cyfranddaliadau y gellir eu codi   | 22        |
| 2.2.3 Cyfranddaliadau trosglwyddadwy   | 22        |
| 2.2.4 Cyfranddaliadau buddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr   | 23        |
| 2.2.5 Cyfranddaliadau a thanysgrifiadau aelodaeth  | 24        |
| 2.2.6 Dosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal  | 24        |
| 2.2.7 Ecwiti ymdrech   | 25        |
| <b>2.3 HYLIFEDD CYFRANDDALIADAU Y GELLIR EU CODI</b>   | <b>25</b> |
| <b>2.4 DARPARIAETHAU CLO ASED AU</b>   | <b>28</b> |
| <b>2.5 DYLED</b>   | <b>29</b> |
| 2.5.1 Benthycia  | 29        |
| 2.5.2 Bondiau  | 30        |
| 2.5.3 Benthyciadau a stoc benthyciadau   | 31        |
| <b>2.6 TROSI STRWYTHURAU CYFREITHIOL</b>   | <b>32</b> |
| 2.6.1 Trosi cwmni'n gymdeithas   | 32        |
| 2.6.2 Trosi cwmni budd cymunedol yn gymdeithas   | 32        |
| 2.6.3 Trosi elusen gofrestrdig yn gymdeithas budd cymunedol elusennol                                    | 33        |
| 2.6.4 Trosi gymdeithas yn gwmni  | 34        |
| 2.6.5 Trosi gymdeithas yn sefydliad corfforedig elusennol neu'n sefydliad corfforedig elusennol yr Alban | 35        |
| 2.6.6 Trosi rhwng ffurfiau gymdeithasau  | 35        |
| <b>2.7 CYFUNO A THROSGLWYDDO YMRWYMIADAU</b>   | <b>36</b> |
| <b>2.8 BUDDSODDIADAU MEWN ENDIDAU CYFREITHIOL ERAILL</b>   | <b>36</b> |
| 2.8.1 Egwyddorion arweiniol  | 37        |
| 2.8.2 Is-gwmnïau a berchenogir yn llwyr  | 38        |
| 2.8.3 Mentrau a berchenogir gan fwyafrif   | 39        |
| 2.8.4 Mentrau ar y cyd   | 39        |
| 2.8.5 Buddiant lleiafrifol   | 39        |
| 2.8.6 Buddsoddi mewn cymdeithasau eraill   | 40        |
| 2.8.7 Tryloywder buddsoddiadau   | 40        |
| <b>2.9 ANSOLFEDD A DIDDYMU</b>   | <b>40</b> |

|  |    |
|--|----|
| 2.9.1 Cyflwyniad   | 40 |
| 2.9.2 Trefniant gyda chredydwyd  | 41 |
| 2.9.3 Trefniant gwirfoddol yn seiliedig ar drefniant gwirfoddol ar ran cwmni (CVA) | 41 |
| 2.9.4 Gweinyddu  | 41 |
| 2.9.5 Dirwyn i ben a diddymu   | 42 |

### **3 DOGFENNAU LLYWODRAETHU** **44**

#### **3.1 PROSESAU COFRESTRU** **44**

#### **3.2 RHEOLAU STATUDOL** **45**

|  |    |
|--|----|
| 3.2.1 Enw  | 45 |
| 3.2.2 Amcanion   | 46 |
| 3.2.3 Cyfeiriad  | 47 |
| 3.2.4 Derbyn aelodau                                     | 47 |
| 3.2.5 Cynnal cyfarfodydd                                 | 48 |
| 3.2.6 Aelodau pwyllgor rheoli                            | 49 |
| 3.2.7 Uchafswm daliadau cyfranddaliadau                  | 50 |
| 3.2.8 Benthyciadau ac ernesau                            | 51 |
| 3.2.9 Telerau ac amodau ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau | 51 |
| 3.2.10 Archwiliadau ac archwilwyr                        | 52 |
| 3.2.11 Terfynu aelodaeth                                 | 53 |
| 3.2.12 Defnyddio elw                                     | 53 |
| 3.2.13 Dogfennau swyddogol                               | 54 |
| 3.2.14 Buddsoddiadau                                     | 54 |

#### **3.3 CYRFF SY’N NODDI A RHEOLAU ENGHREIFFTIOL** **55**

#### **3.4 DIWYGIO RHEOLAU** **55**

#### **3.5 RHEOLAU EILAIDD** **56**

#### **3.6 RHWYMEDIGAETHAU COFRESTRU** **56**

### **4 DOGFENNAU CYNNIG** **58**

#### **4.1 EGWYDDORION ARWEINIOL** **58**

#### **4.2 CYNIGION AELODAETH** **59**

|                 |    |
|-----------------|----|
| 4.2.1 Diben     | 59 |
| 4.2.2 Strwythur | 59 |

|  |           |
|--|-----------|
| 4.2.3 Cynnwys  | 59        |
| <b>4.3 GWYBODAETH SYLFAENOL</b>                                | <b>60</b> |
| <b>4.4 CYNIGION ARLOESI</b>                                    | <b>61</b> |
| 4.4.1 Diben  | 61        |
| 4.4.2 Strwythur  | 62        |
| 4.4.3 Cynnwys  | 62        |
| <b>4.5 CYNIGION Â CHYFYNGIAD AMSER</b>                         | <b>63</b> |
| 4.5.1 Diben  | 63        |
| 4.5.2 Cynlluniau busnes  | 64        |
| 4.5.3 Hylifedd cyfalaf cyfranddaliadau                         | 65        |
| 4.5.4 Gofynion cyfalaf a thargedau codi arian                  | 65        |
| 4.5.5 Cyfnod ac amserlen y cynnig                              | 67        |
| 4.5.6 Cyfranddaliadau isaf ac uchaf                            | 68        |
| 4.5.7 Ailagor cynigion â chyfyngiad amser                      | 69        |
| 4.5.8 Cynnwys  | 69        |
| 4.5.9 Cynigion a wneir gan gymdeithasau presennol              | 70        |
| <b>4.6 CYNIGION AGORED</b>                                     | <b>71</b> |
| 4.6.1 Diben  | 71        |
| 4.6.2 Strwythur  | 72        |
| 4.6.3 Cynnwys  | 72        |
| <b>4.7 FFURFLENNI CAIS</b>                                     | <b>73</b> |
| <b>5 HYRWYDDO CYNIGION</b>                                     | <b>75</b> |
| <b>5.1 CYFLWYNIAD</b>  | <b>75</b> |
| <b>5.2 YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED</b>                              | <b>76</b> |
| <b>5.3 DIOGELU DATA, PREIFATRWYDD A CHYFATHREBU ELECTRONIG</b> | <b>77</b> |
| <b>5.4 DULLIAU CYFATHREBU</b>                                  | <b>78</b> |
| 5.4.1 Cyhoeddusrwydd o flaen llaw                              | 78        |
| 5.4.2 Sylw yn y newyddion                                      | 79        |
| 5.4.3 Gwefannau  | 79        |
| 5.4.4 Cyfathrebu trwy e-bost a negeseuon testun                | 79        |
| 5.4.5 Galwadau ffôn  | 80        |

|   |           |
|---|-----------|
| 5.4.6 Dosbarthu deunyddiau o ddrws i ddrws                            | 80        |
| 5.4.7 Cyfryngau cymdeithasol  | 80        |
| 5.4.8 Dogfennau cyhoeddedig   | 80        |
| 5.4.9 Cyfarfodydd cyhoeddus   | 81        |
| <b>5.5 GWERTHU CYFRANDDALIADAU</b>                                    | <b>81</b> |
| 5.5.1 Gwerthu o flaen llaw a gwystlo                                  | 81        |
| 5.5.2 Ceisiadau papur   | 81        |
| 5.5.3 Ceisiadau ar-lein   | 82        |
| 5.5.4 Dulliau talu  | 82        |
| <b>5.6 DERBYN ARIAN</b>   | <b>83</b> |
| <b>5.7 CYLLIDO TORFOL</b>   | <b>83</b> |
| <b>5.8 CEISIADAU GAN BOBL NAD YDYNT YN BYW YN Y DEYRNAS UNEDIG</b>    | <b>84</b> |
| <b>5.9 CYFRANDDALIADAU FEL RHODDION</b>                               | <b>85</b> |
| <b>5.10 PRYNU CYFRANDDALIADAU MEWN RHANDALIADAU</b>                   | <b>86</b> |
| <b>5.11 CYMHELLION</b>  | <b>86</b> |
| <b>5.12 ENWEBU BUDDIOLWYR</b>   | <b>87</b> |
| <b>6 LLOG CYFRANDDALIADAU A DEFNYDDIO ELW NEU ARIAN DROS BEN</b>      | <b>88</b> |
| 6.1 EGWYDDORION ARWEINIOL   | 88        |
| 6.2 LLOG AR GYFALAF CYFRANDDALIADAU                                   | 89        |
| 6.3 DOSBARTHU MEWN CYMDEITHASAU CYDWEITHREDOL                         | 91        |
| 6.4 DEFNYDDIO ELW MEWN CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL                    | 93        |
| 6.5 LLOG AC ARIAN DROS BEN MEWN CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL ELUSENNOL | 93        |
| <b>7 RHEOLEIDDIO A CHANLLAWIAU</b>                                    | <b>95</b> |
| 7.1 CYFLWYNIAD  | 95        |
| 7.2 BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW                                       | 96        |
| 7.3 DEDDF GWASANAETHAU A MARCHNADOEDD ARIANNOL 2000                   | 97        |
| 7.3.1 Cefndir   | 97        |

|                                   |     |
|-----------------------------------|-----|
| 7.3.2 Gweithgareddau a reoleiddir | 97  |
| 7.3.3 Hyrwyddiadau ariannol       | 98  |
| 7.3.4 Gofynion prosbectws         | 98  |
| 7.3.5 Derbyn ernesau              | 99  |
| 7.3.6 Gwyngalchu arian            | 99  |
| 7.3.7 Diogelu defnyddwyr          | 100 |

## **7.4 CYFRAITH CONTRACT 100**

## **7.5 YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL 101**

|                                    |     |
|------------------------------------|-----|
| 7.5.1 Y Tîm Cwmniau Cydfuddiannol  | 101 |
| 7.5.2 Archwiliadau ac ymchwiliadau | 101 |
| 7.5.3 Sancsiynau                   | 102 |
| 7.5.4 Atal a chanslo cofrestriad   | 102 |

## **7.6 CANLLAWIAU'R UNED CYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL 103**

|  |     |
|--|-----|
| 7.6.1 Cyflwyniad                             | 103 |
| 7.6.2 Y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol | 103 |
| 7.6.3 Trwyddedu ymarferwyr                   | 104 |

## **8 TRINIAETH DRETH 106**

### **8.1 CYFLWYNIAD 106**

### **8.2 PRYNU A GWERTHU CYFRANDDALIADAU 106**

### **8.3 TRETH INCWM 106**

### **8.4 Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN MENTRAU 107**

### **8.5 Y CYNLLUN BUDDSODDI CYCHWYNNOL MEWN MENTRAU 110**

### **8.6 GOSTYNGIAD YN Y DRETH AR GYFER BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL 110**

### **8.7 TRETH ETIFEDDIANT 112**

### **8.8 GOSTYNGIAD YN Y DRETH AR GYFER BUDDSODDIAD CYMUNEDOL 112**

### **8.9 TRINIAETH DRETH CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL ELUSENNOL 113**

### **8.10 TRETH GORFFORAETH 114**

|                   |     |
|-------------------|-----|
| 8.10.1 Cyflwyniad | 114 |
|-------------------|-----|

|   |     |
|---|-----|
| 8.10.2 Masnachu cydfuddiannol               | 114 |
| 8.10.3 Segur at ddibenion Treth Gorfforaeth | 115 |





## 1 CYFLWYNIAD I GYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL

### 1.1 ECWITI AR GYFER MENTRAU CYMDEITHASOL

Mae angen i bob menter gael cyfalaf risg i ddechrau, i dyfu, ac i fod yn gynaliadwy. Fel arfer, darperir y cyfalaf hwn gan berchenogion y fenter sy'n dal cyfranddaliadau, yn ogystal â chyllid gan fenthycwyr ac, wrth gwrs, gan y busnes ei hun, trwy ailfuddsoddi ei elw. Mae cyfalaf risg yn caniatáu i'r fenter ymdopi â throeon datblygu, sydd i'w disgwyl wrth geisio cyflawni nodau busnes uchelgeisiol, heriol neu arloesol.

Un o'r prif resymau pam mae'n gallu bod yn anodd i fentrau cymdeithasol gystadlu â mentrau preifat yw eu diffyg cyfalaf risg. Un o achosion sylfaenol y tangyfalafu hwn yw'r gred na all, neu na ddylai, mentrau cymdeithasol gael cyfranddalwyr. Mae buddsoddi ecwiti yn cael ei ystyried yn anathema, oherwydd bod cyfranddaliadau'n rhoi teitl cyfreithiol, sy'n golygu bod y fenter yn cael ei pherchen, ei rheoli a'i chynnal er budd buddsoddwyr.

Mae sefydliadau buddsoddi cymdeithasol wedi datblygu dewisiadau eraill: lled-ecwiti, cyfalaf tymor estynedig, a bondiau effaith gymdeithasol. Ond, math o ddyled yw'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion hyn, yn y pen draw, ac mae unrhyw ddyledrwydd yn fath gwael o gyfalaf risg, yn enwedig i fentrau cymdeithasol, lle gallai'r lefelau uchel o broffidioldeb y mae eu hangen i ad-dalu'r ddyled fod yn anghydnaws â'u nodau cymdeithasol. Mae'n rhaid i bob dyled, pa estynedig bynnag yw ei thymor, gael ei had-dalu yn y diwedd.

Diffinnir mentrau cymdeithasol fel busnesau a chanddynt "brif amcanion cymdeithasol y mae eu harian dros ben yn cael ei ailfuddsoddi at y diben hwnnw'n bennaf yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na chael eu sbarduno gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf ar gyfer cyfranddalwyr a pherchenogion".

Mae diben, amcanion ac ymddygiad menter gymdeithasol wedi'u hymgorffori yn ei ffurf gyfreithiol a'i dogfen lywodraethu. Mae sawl gwahanol fath o fenter gymdeithasol, gan gynnwys elusennau, sefydliadau corfforedig elusennol, sefydliadau corfforedig elusennol yr Alban, cwmnïau nid er elw sy'n gyfyngedig trwy warant, cwmnïau budd cymunedol, cymdeithasau cydweithredol, a chymdeithasau budd cymunedol. Mae gan bob un o'r rhain ymagwedd unigryw at amcanion cymdeithasol, perchenogaeth, rheolaeth a chyllid cyfalaf.

Mae'r term "cyfranddaliadau cymunedol" yn cyfeirio at gyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy, y gellir ei godi; math o ecwiti sy'n unigryw i deddfwriaeth cymdeithasau cydweithredol a budd cymunedol. Mae'r gangen hon o gyfraith corfforaethol yn darparu llawer o'r un nodweddion â deddfwriaeth cwmnïau, fel statws corfforaeth gorfforedig ac atebolrwydd cyfyngedig, ond mae ganddi rai nodweddion unigryw hefyd, yn enwedig ei darpariaethau ar gyfer aelodau a chyfalaf cyfranddaliadau.

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn ffordd ddelfrydol i gymunedau fuddsoddi mewn mentrau sy'n gwasanaethu diben cymunedol. Mae gweddill yr adran hon yn esbonio sut mae cyfranddaliadau cymunedol yn gweithio a pham yr ystyrir mai deddfwriaeth cymdeithasau cydweithredol a budd cymunedol yw'r ffurf gyfreithiol orau ar gyfer cyfranddaliadau cymunedol, y model busnes sy'n sail i

gyfranddaliadau cymunedol, a'r manau cychwyn niferus ar gyfer mentrau cyfranddaliadau cymunedol.

## 1.2 SUT MAE CYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL YN GWEITHIO

### 1.2.1 Tarddiad

Bathwyd y term cyfranddaliadau cymunedol gan y Gymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu (DTA) (a adwaenir bellach fel Locality) yn ei chyhoeddiad o 2008, *Cyhoeddiadau Cyfranddaliadau Cymunedol a Bondiau*, a oedd yn archwilio sut oedd nifer gynyddol o fentrau cymunedol yn cael cyfalaf buddsoddi gan eu cefnogwyr lleol. Yn ystod yr un flwyddyn, cyhoeddodd Co-operatives UK ddogfen o'r enw *Buddsoddi Cymunedol: defnyddio deddfwriaeth cymdeithasau diwydiannol a darbodus*, a oedd yn mynd i'r afael â'r un ffenomen, ond yn canolbwyntio'n benodol ar gymdeithasau. (Yn sgil Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, dilëwyd y term cymdeithas ddiwydiannol a darbodus o'r ddeddfwriaeth.) Amlygodd 39 cymdeithas, yr oedd pob un ohonynt wedi codi mwy na £10,000 mewn cyfranddaliadau cyfalaf trwy gynigion cyfranddaliadau cyhoeddus ers y 1990au cynnar, ar gyfradd o oddeutu pedair menter newydd y flwyddyn. Tua diwedd 2008, daeth y DTA a Co-operatives UK at ei gilydd i sefydlu'r rhaglen Cyfranddaliadau Cymunedol, sef partneriaeth ymchwil weithredu a ariannwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG). Bu'r rhaglen ar waith o 2009 hyd at 2011. Mae mwy na 70 o gymdeithasau newydd a gofrestrodd yn ystod y cyfnod hwn wedi cwblhau cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn llwyddiannus erbyn hyn.

Lansiwyd yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol ym mis Hydref 2012. Mae'n parhau fel menter ar y cyd rhwng Locality a Co-operatives UK, gyda chyllid gan y DCLG. Ers 2009, mae mwy na 750 o gymdeithasau newydd sydd â chwmpas i gyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol wedi cael eu cofrestru, ac mae mwy na 350 o gynigion cyfranddaliadau cymunedol wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae cyfanswm o fwy na £100 miliwn o gyfalaf cyfranddaliadau wedi cael ei godi o fwy na 120,000 o fuddsoddwyr.

### 1.2.2 Beth yw cyfranddaliadau cymunedol?

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn diffinio cyfranddaliadau cymunedol fel cyfranddaliadau anhrosoglwyddadwy, y gellir eu codi, mewn cymdeithas sydd â chlo asedau gwirfoddol neu statudol. Mae'r term yn cael ei gymhwyso i gymdeithasau sydd ag o leiaf £10,000 mewn cyfalaf cyfranddaliadau ac o leiaf 20 o aelodau, i ganolbwyntio ar fentrau a berchenogir gan y gymuned o ddifrif ac i atal cymdeithasau sy'n cynnig cyfranddaliad £1 yn unig am aelodaeth rhag cael eu dosbarthu'n gymdeithasau cyfranddaliadau cymunedol. Mae gan gyfranddalwyr yr hawl i godi eu cyfalaf cyfranddaliadau, yn amodol ar y telerau a'r amodau a nodir yn nogfen rheolau a chynnig cyfranddaliadau'r gymdeithas. Ond ni allant werthu na throsglwyddo eu cyfranddaliadau, na dirwyn y busnes i ben i gyflawni elw cyfalafol.

Mae'r gallu i godi cyfranddaliadau'n datrys problem hylifedd sy'n wynebu cyfranddalwyr lleiafrifol mewn menter fach. Fel arfer, gellir trosglwyddo cyfranddaliadau mewn cwmnïau, ond nid eu codi.

Mewn amgylchiadau arferol, ni chaniateir i gwmnïau adbrynu eu cyfranddaliadau. Yn lle hynny, mae'n rhaid i'r cyfranddaliwr ddod o hyd i brynwr parod ar gyfer y cyfranddaliadau, sy'n gallu bod yn anodd iawn i gyfranddalwyr lleiafrifol, yn enwedig os yw'r cwmni'n rhy fach i gael ei restru ar farchnad gyfranddaliadau.

Wrth ddatrys y broblem hylifedd ar gyfer cyfranddalwyr, mae cymdeithasau'n creu problem hylifedd iddyn nhw eu hunain. Mae'n rhaid i gymdeithas gynllunio sut y bydd yn cynhyrchu digon o arian parod i ganiatáu i gyfalaf cyfranddaliadau gael ei godi. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw trwy ddenu aelodau newydd a chyfranddalwyr newydd, i ddisodli aelodau a chyfranddalwyr sy'n gadael y gymdeithas (gweler Adran 2.3).

---

### 1.2.3 Cymhelliad cyfranddalwyr

---

Mae'r cymhelliad i brynu cyfranddaliadau mewn cymdeithas yn gwbl wahanol i'r cymhelliad i brynu cyfranddaliadau mewn cwmni. Adlewyrchir hyn yn y gwahaniaethau rhwng cyfraith cwmnïau a chyfraith cymdeithasau, a sut mae'r ffurfiau corfforaethol hyn yn cael eu rheoleiddio pan fyddant yn ceisio cael cyfalaf gan y cyhoedd.

Derbynnir yn gyffredinol mai diben menter breifat yw cynyddu cyfoeth perchenogion a chyfranddalwyr i'r eithaf. Mae cyfranddalwyr yn cael eu cymell gan y refeniw a gânt ar ffurf difidendau, a chan yr elw cyfalafol y gallent ei gyflawni trwy gynnydd yng ngwerth y fenter. Mae cyfraith cwmnïau yn darparu ar gyfer hyn trwy ganiatáu i gwmnïau ddefnyddio eu helw i dalu difidendau digyfngiad, trwy roi hawliau llawn i gyfranddalwyr dros asedau'r fenter, a thrwy ganiatáu i gyfranddalwyr werthu neu drosglwyddo eu cyfranddaliadau i drydydd parti am bris sy'n dderbyniol i'r ddau.

Mae mentrau cymdeithasol yn cael eu cymell gan amcanion cymdeithasol a diben cymdeithasol. I fentrau cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru fel cymdeithasau, mae'r diben cymdeithasol hwn naill ai er budd yr aelodau mewn cymdeithas gydweithredol go iawn, er budd y gymuned ehangach mewn cymdeithas budd cymunedol, neu er budd y cyhoedd a diben elusennol mewn cymdeithas budd cymunedol elusennol. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn cymhelliad buddsoddwyr wedi'u hymgorffori mewn cyfraith cymdeithasau trwy gyfrwng terfynau ar yr adenillion ariannol ar fuddsoddiad, cyfyngiadau cloi asedau ar y cwmpas ar gyfer enillion cyfalaf, a therfynau ar faint o gyfalaf y gall unigolyn ei fuddsoddi. Ymdrinnir â'r holl faterion hyn yn fanylach isod.

Y prif gymhelliad ar gyfer prynu cyfranddaliadau mewn cymdeithas yw cefnogi diben ac amcanion cymdeithasol y fenter. Mae cymhelliad ariannol yn fater eilaidd ar ei orau, ac mae'n fwy priodol ystyried unrhyw adenillion ar gyfalaf fel digollediad yn hytrach na gwobr am gymryd risg.

Oherwydd y gwahaniaethau hyn mewn cymhelliad buddsoddwyr, mae cymdeithasau fel arfer wedi'u heithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol wrth hyrwyddo gwerthu cyfalaf cyfranddaliadau i'r cyhoedd (gweler Adran 7).

---

## 1.2.4 Adenillion ar fuddsoddiad

---

Yn wahanol i fathau eraill o fusnesau, nid yw cymdeithas yn ceisio cynyddu elw i'r eithaf ar gyfer aelodau a chyfranddalwyr. Yn ôl yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, sy'n gyfrifol am gofrestru cymdeithasau, "y gyfradd llog uchaf wedi'i datgan [ar gyfalaf cyfranddaliadau] yw'r gyfradd isaf sy'n ddigonol i gael yr arian angenrheidiol gan aelodau sydd wedi ymrwymo i gyflawni amcanion y gymdeithas".

Yn ôl Adran 2(3) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Cymunedol 2014, "nid yw cymdeithas gydweithredol yn cynnwys cymdeithas sy'n cynnal busnes, neu'n bwriadu cynnal busnes, gyda'r nod o wneud elw yn bennaf i dalu llog, difidendau neu daliadau bonws ar arian sydd wedi'i fuddsoddi yn y gymdeithas neu unrhyw unigolyn arall, ei adneuo gyda hi/gydag ef, neu ei fenthyca iddi/iddo". I fod yn wirioneddol gydweithredol, mae'n rhaid i gymdeithas gydymffurfio â Datganiad Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion y Gynghair Gydweithredol Ryngwladol (ICA). Mae Trydedd Egwyddor y Datganiad hwn yn dweud "y bydd aelodau'n derbyn digollediad cyfyngedig fel arfer, os o gwbl, am gyfalaf sy'n cael ei gyfrannu fel amod aelodaeth".

Er nad yw Deddf 2014 yn gwneud datganiad tebyg ynglŷn â chymdeithasau budd cymunedol, mae Adran 2 (2)(ii) yn egluro bod "busnes y gymdeithas yn cael ei gynnal, neu y bwriedir iddo gael ei gynnal, er budd y gymuned". Ystyrir, yn gyffredinol, fod hyn yn atal cynnal gweithgareddau sydd â'r prif nod o wneud elw y gellir ei ddsbarthu.

---

## 1.2.5 Enillion cyfalaf

---

Am y rhesymau a esboniwyd eisoes yn yr Adran hon, mae enillion cyfalaf yn anghydnaws ag egwyddorion cyfranddaliadau cymunedol. Mae'r cyfle i gyfranddaliwr mewn cymdeithas wneud enillion cyfalaf naill ai wedi'i gyfyngu neu ei ddileu gan ddwy brif drefn, sef natur cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, a'r clo asedau.

Nid oes modd gwerthu na throsglwyddo cyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy, y gellir ei godi, i drydydd partïon, heblaw pan fydd yr aelod wedi marw ac mae rheolau'r gymdeithas yn caniatáu i'r cyfranddaliadau gael eu trosglwyddo ar farwolaeth aelod. Yn lle hynny, gellir codi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi o'r gymdeithas, yn ddarostyngedig i delerau ac amodau (gweler Adran 2.2.2). Bydd hyn fel arfer am werth llawndaledig y cyfranddaliadau, er bod gan rai cymdeithasau reolau sy'n caniatáu iddynt ddisgowntio gwerth y cyfalaf cyfranddaliadau mewn amgylchiadau arbennig.

Gall cymdeithasau gyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy a allai, yn ddamcaniaethol o leiaf, fod yn ddarostyngedig i enillion (neu golledion) cyfalaf. Gall cyfranddalwyr trosglwyddadwy werthu neu drosglwyddo eu cyfranddaliadau am ba bris bynnag y mae prynwr yn cytuno ei dalu. Fodd bynnag, mae cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy y tu hwnt i gwmpas yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol am resymau a esbonnir mewn man arall yn y Llawlyfr (gweler Adran 2.2.3). Ni all cymdeithasau budd cymunedol elusennol gyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy, oherwydd byddai hyn yn torri rheolau budd cyhoeddus elusennol.

Gallai cyfranddalwyr gyflawni enillion cyfalaf hefyd pe byddai'r gymdeithas yn gallu dosbarthu

asedau gweddilliol wrth iddi gael ei diddymu, neu ei throsi'n ffurf gyfreithiol arall. Mae hyn yn cael ei gyfyngu neu ei atal yn sgil y ffaith bod y gymdeithas yn defnyddio clo asedau; rheol sy'n gwahardd dosbarthu unrhyw asedau gweddilliol i aelodau. Gall cloeon asedau fod yn wirfoddol, gallant gael eu rhagnodi'n gyfreithiol, neu gallant fod â rhyw fath arall o sail statudol.

Gall cymdeithas budd cymunedol fod â chlo asedau gwirfoddol, neu gall fod â chlo asedau statudol trwy ddod yn gymdeithas budd cymunedol rhagnodedig (gweler Adran 2.4). Mae cymdeithas budd cymunedol elusennol yn ddarostyngedig i'r un gofynion clo asedau sy'n berthnasol i bob elusen yn y Deyrnas Unedig.

Mae sefyllfa cymdeithasau cydweithredol yn gymhleth. Mae gan y rhan fwyaf o gymdeithasau cydweithredol glo asedau gwirfoddol sy'n atal dosbarthu asedau gweddilliol i aelodau. Ond nid oes clo asedau statudol ar gael ar gyfer cymdeithasau cydweithredol.

Yn ôl Datganiad Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion yr ICA, "mae rhan, o leiaf, o'r cyfalaf [hwinnw] yn eiddo cyffredin i'r gymdeithas gydweithredol, fel arfer" a dylai cymdeithasau cydweithredol ddefnyddio rhywfaint o'u harian dros ben i sefydlu "cronfeydd wrth gefn, y byddai rhan ohonynt, o leiaf, yn anwahanadwy". Mae hyn yn awgrymu y dylai cymdeithasau cydweithredol fod â chlo asedau rhannol o leiaf. Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth cymdeithasau'n cynnwys unrhyw beth i atal cymdeithas gydweithredol rhag troi'n gwmni, a fyddai, yn ei dro, yn ei galluogi i ddosbarthu asedau gweddilliol i aelodau.

Er bod enillion cyfalaf yn anghydnaws â chyfranddaliadau cymunedol, mae twf mewn daliadau cyfranddaliadau aelodau yn gyffredin mewn cymdeithasau sy'n credydu taliadau cyfranddaliadau i gyfrifon cyfranddaliadau aelodau. Gallai'r math hwn o ailfuddsoddi fod yn elfen bwysig o ddarpariaethau hylifedd cyfalaf cymdeithas (gweler Adran 2.3).

---

### 1.2.6 Dylanwad cyfranddalwyr

---

Cyfyngir ar faint o ddylanwad a rheolaeth y gall cyfranddalwyr ac aelodau cymdeithasau ei arfer yn unigol. Cyflawnir hyn trwy ddwy drefn gyfreithiol. Mae'n rhaid i gymdeithasau ddatgan yn eu rheolau sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd cyffredinol. Mae'n ofynnol i gymdeithasau cydweithredol go iawn weithio yn unol â'r egwyddor gydweithredol un aelod, un bleidlais, ni waeth faint o gyfalaf cyfranddaliadau a ddelir gan unigolyn. Nid yw deddfwriaeth cymdeithasau'n darparu ar gyfer dyrannu trefniadau pleidleisio ar sail daliadau cyfranddaliadau, felly mae'r egwyddor un aelod, un bleidlais yn berthnasol i bob cymdeithas budd cymunedol hefyd yn ddiodyn.

Cyfyngir ar ddylanwad cyfranddalwyr hefyd trwy osod terfyn cyfreithiol ar yr uchafswm cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi y caiff unigolyn ei ddal mewn cymdeithas. £100,000 yw'r terfyn hwn, ac mae'n atal cymdeithas rhag mynd yn or-ddibynnol ar fuddsoddwyr mawr. Gall cymdeithas ddewis mabwysiadu terfyn uchaf is yn ei rheolau neu gynigion cyfranddaliadau, a argymhellir ar gyfer cymdeithasau llai, oherwydd gallai £100,000 fod yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyfalaf y bydd arnynt ei angen (gweler Adran 3.2.7).

---

## 1.2.7 Cwmnïau budd cymunedol

---

Mae cwmnïau budd cymunedol yn gallu gwerthu cyfranddaliadau i fuddsoddwyr a chael cyfalaf gan y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Ond mae'n rhaid iddynt wneud hyn mewn ffordd sy'n gwbl wahanol i gymdeithasau.

Mae cwmnïau budd cymunedol yn fath o gwmni rheoledig. Fel y cyfryw, maen nhw'n gwbl ddarostyngedig i gyfraith cwmnïau, yn ogystal â darpariaethau penodol rheoliadau cwmnïau budd cymunedol. Darparodd y ddeddfwriaeth cwmnïau budd cymunedol, a gyflwynwyd yn 2005, fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n llywodraethu'r tri phrif fath o gwmni: cwmni preifat cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, cwmni cyfyngedig trwy warrant, a chwmni cyfyngedig cyhoeddus (ccc).

Mae Adran 755 Deddf Cwmnïau 2006 yn gwahardd cwmnïau preifat rhag gwneud cynigion cyfranddaliadau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod rhaid i unrhyw gwmni sy'n bwriadu cynnig ei warannau yn gyhoeddus newid i fod yn ccc cyn gwneud y cynnig cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau budd cymunedol, y mae'n rhaid iddynt ddod yn gwmnïau budd cymunedol ccc. Mae'n ofynnol i gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus feddu ar £50,000 o leiaf mewn cyfalaf cyfranddaliadau llawndaledig ac mae'n rhaid iddynt fodloni safonau archwilio ac adrodd cyhoeddus llymach. Mae Gorchymyn Hyrwyddo Ariannol 2005 (gweler Adran 7.3.3) yn mynnu bod hyrwyddiadau ariannol yn cael eu goruchwyllo gan unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, oni bai bod yr hyrwyddo wedi'i eithrio o'r darpariaethau hyn. Mae'r Gorchymyn yn nodi amrywiaeth o eithriadau, gan gynnwys eithriad ar gyfer cymdeithasau, ond nid ar gyfer cwmnïau budd cymunedol. Mae eithriadau eraill, a allai fod yn berthnasol i gwmnïau budd cymunedol, yn cynnwys unigolion â gwerth net uchel, buddsoddwyr soffistigedig, a 'grŵp budd cyffredin' cwmni. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylid ceisio cyngor proffesiynol i bennu sut gallai'r eithriadau hyn fod yn berthnasol i amgylchiadau cynnig cyfranddaliadau gan gwmni budd cymunedol.

Mae'n bosibl na fydd cwmnïau budd cymunedol yn ffurf syml ar gyfer cyfranddaliadau cymunedol am resymau ariannol a llywodraethu hefyd. Yn wahanol i gymdeithasau, ni all cwmnïau gyhoeddi cyfranddaliadau y gellir eu codi; mae'n rhaid i'w cyfranddaliadau fod yn drosglwyddadwy neu'n adbrynadwy, sy'n gofyn am ymagwedd wahanol at hylifedd cyfalaf. Ar y llaw arall, ni chyfyngir ar faint o gyfalaf cyfranddaliadau y caiff unigolyn ei ddal mewn cwmni budd cymunedol. Gallai'r terfyn difidendau ar gwmnïau budd cymunedol ganiatáu i fuddsoddwyr gael adenillion uwch ar gyfalaf nag y gellir eu cynnig ar gyfranddaliadau mewn cymdeithasau, gan ei fod wedi'i seilio ar gyfran o'r elw (35% ar hyn o bryd) yn hytrach na chyfradd difidendau fesul cyfranddaliad.

Er nad yw'r ffurf cwmni budd cymunedol yn rhwydd iawn ar gyfer buddsoddi cymunedol o bosibl, mae'n ffurf addas ar gyfer buddsoddi ecwiti gan fuddsoddwyr cymdeithasol o hyd. Gallai fod yn arbennig o addas i fuddsoddwyr cymdeithasol sy'n dymuno rheoli eu buddsoddiad, oherwydd bod cwmnïau budd cymunedol yn gweithio yn unol â'r egwyddor un cyfranddaliad, un bleidlais. Gallai lleoli ecwiti cwmni budd cymunedol yn breifat gyda buddsoddwyr cymdeithasol, yn ei dro, gael ei hwyluso gan gyfryngwyr ariannol buddsoddi cymdeithasol sy'n deall cyfyngiadau'r Gorchymynion Hyrwyddo Ariannol ac sydd â mynediad at fuddsoddwyr soffistigedig ac unigolion â gwerth net uchel. O ran cwmnïau budd cymunedol sy'n ceisio denu buddsoddiad, ac mae nifer sydd wedi gwneud hyn yn llwyddiannus, argymhellir eu bod yn ceisio cyngor neu rwydweithiau arbenigol i gael arweiniad ychwanegol.

## 1.3 Y MODEL BUSNES

Mae buddsoddi mewn cyfranddaliadau cymunedol yn golygu bod cymunedau'n rhan o gylch rhinweddol lle y mae er eu budd nhw fel aelodau a buddsoddwyr i fod yn weithredol fel cwsmeriaid, cefnogwyr, a gwirfoddolwyr. Mae'r un peth yn wir am randdeiliaid eraill, gan gynnwys cyflogeion a chyflenwyr, sy'n rhoi ystyr newydd i'r term amlranddeiliad, lle mae'r un unigolyn yn ymgysylltu â'r fenter trwy nifer fawr o rolau rhanddeiliaid.

Mae hyn yn cyferbynnu â'r model busnes confensiynol, lle mae buddiannau rhanddeiliaid yn groes i rai rhanddeiliaid eraill. Mae elw'n cael ei gynyddu i'r eithaf ar draul cwsmeriaid, cyflenwyr, cyflogeion a buddsoddwyr eraill. Nid oes cymhelliad i wirfoddoli, na dod yn gefnogwr gweithredol menter sy'n gweithio er budd rhywun arall.

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn hyrwyddo model busnes gwahanol, sy'n golygu ei bod er budd yr holl randdeiliaid i gydweithio er mwyn creu cyfoeth a defnyddio eu hawliau democrataidd i bennu sut y dosberthir y cyfoeth hwnnw. Mae er budd yr holl randdeiliaid i ddod yn aelodau ac yn fuddsoddwyr, nid yn unig pan fydd y gymdeithas yn cael ei sefydlu, ond yn barhaus wrth i'r fenter dyfu a datblygu. Gellir annog cwsmeriaid, cyflenwyr a chyflogeion newydd i ddod yn aelodau ac yn fuddsoddwyr, er mwyn disodli'r cyfalaf cyfranddaliadau a godir gan aelodau hyn pan fyddant yn gadael y gymdeithas.

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn dibynnu'n drwm ar ymgysylltu â'r gymuned; cynnwys pobl ym mywyd y fenter. Mae angen i gymdeithasau ddiffinio eu cymunedau targed, a datblygu hunaniaeth y cymunedau hyn. Mae'r rhan fwyaf o gymunedau'n ddaearyddol eu natur, ond nid yw eu ffiniau bob amser yn eglur, na ph'un a oes gan bobl yn y gymuned honno hunaniaeth a rennir.

Gall hunaniaeth gymunedol fynd ymhellach na daearyddiaeth a chanolbwyntio yn lle hynny ar ddiddordebau, gwerthoedd, pryderon, neu gredoau cyffredin. Mae enghreifftiau'n cynnwys diddordeb a rennir mewn ynni adnewyddadwy, cynhyrchu bwyd yn lleol, tai fforddiadwy, cefnogi clwb pêl-droed, neu wasanaethau cymunedol a ddarperir gan grŵp ffydd.

Gall cyfranddaliadau cymunedol roi mantais gystadleuol i fenter trwy gynnwys rhanddeiliaid mewn ymatebion newydd i achosion methiant yn y farchnad. Er enghraifft, mae llawer o fusnesau bach yn methu oherwydd nid yw'r perchennog yn gallu dod o hyd i brynwr sy'n fodlon neu'n gallu prynu'r busnes. Gall cymunedau ledaenu cost a risg caffael ar draws nifer fawr o gyfranddalwyr. Gallai busnes fod yn methu o ganlyniad i ddiffyg galw; gall cymunedau fynd i'r afael â hyn trwy gydgrynhoi'r galw a sicrhau bod y busnes yn gwasanaethu'r gymuned. Efallai na fydd busnes yn gallu rheoli costau, gan arwain at brisiau rhy ddrud; gall cymuned leihau costau trwy wirfoddoli, neu drwy ddarparu cyfalaf rhatach.

## 1.4 MANNAU CYCHWYN

### 1.4.1 Ysgogiad cychwynnol

Ers i'r rhaglen Cyfranddaliadau Cymunedol ddechrau yn 2009, mae mwy na 90% o'r cynigion



cyfranddaliadau cymunedol wedi cael eu gwneud gan gymdeithasau newydd. Ffurfiwyd y rhan fwyaf o'r cymdeithasau hyn gan gymunedau mewn ymateb i un neu fwy o'r canlynol:

- mae cymuned ar fin colli gwasanaeth lleol, er enghraifft, tafarn, siop neu swyddfa bost, neu unrhyw wasanaeth cymunedol arall sy'n wynebu methiant yn y farchnad
- mae cymuned yn cael ei gwasanaethu'n wael gan fenter bresennol, er enghraifft, gallai cefnogwyr clwb pêl-droed deimlo nad yw'r perchenogion presennol yn gwasanaethu eu buddiannau, neu gallai gwasanaeth lleol fod yn rhy ddrud neu fethu â bodloni anghenion lleol
- nid yw angen neu fuddiant cymunedol yn cael ei fodloni, er enghraifft, dim cyfleusterau chwaraeon lleol, cysylltiadau band eang gwael, neu ddiffyg gweithleoedd hyblyg ar gyfer busnesau newydd
- mae cymuned yn cael ei hysbrydoli gan syniadau neu gyfleoedd newydd i weithredu ar y cyd, er enghraifft, gan y cyfle i sefydlu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol, mentrau bwyd lleol, neu ddatblygu ymddiriedolaethau tir cymunedol ar gyfer tai fforddiadwy.

Mae'r ysgogiadau hyn yn arwain at ffurfio cymdeithasau newydd fel mentrau cyn-gychwyn, neu i weithredu fel cyfrwng ar gyfer caffael a phrynu cyfran reoli mewn mentrau presennol sy'n methu yn y cymunedau hyn.

---

### 1.4.2 Mentrau cyn-gychwyn

---

Mae pedair prif her yn wynebu pob menter cyn-gychwyn sy'n cael ei ffurfio gan fenter gymunedol:

- datblygu grŵp llywio neu ddim datblygu cadarn a chymwys sy'n gallu gwireddu'r syniad
- sefydlu'r achos busnes ar gyfer y fenter arfaethedig; profi hyfywedd busnes y syniad a dangos y bydd y fenter yn dwyn elw; sicrhau bod graddfa'r datblygiad arfaethedig yn addas i'r gymuned darged
- amlygu'r gymuned darged ar gyfer y fenter; sefydlu cysylltiad â'r gymuned hon, ac ennill ei chefnogaeth ar gyfer y fenter; cynnwys y gymuned yn y broses ddatblygu
- cael yr adnoddau i dalu am y costau datblygu cyn-gychwyn, sy'n gallu bod o leiaf 5% i 10% o'r costau cyfalaf wrth gychwyn.

Yn ôl pob tebyg, diffyg adnoddau yw'r rhwystr mwyaf ar gyfer mentrau cyn-gychwyn; mae'n cymryd tair blynedd neu fwy i rai cymdeithasau newydd ddod yn barod ar gyfer buddsoddi.

---

### 1.4.3 Caffael a phrynu cyfran

---

Mae caffael a phrynu cyfran yn digwydd fel arfer pan fydd cymuned yn cael ei hysgogi i achub busnes lleol sydd mewn perygl o gau neu, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd y gymuned o'r farn ei bod yn cael ei gwasanaethu'n wael gan y busnes. Mae cymunedau sy'n ymwneud â chaffael a phrynu cyfran yn wynebu'r un heriau â mentrau cyn-gychwyn, ond gyda'r beichiau ychwanegol canlynol:

- gorfod gweithredu'n gyflym, yn enwedig os oes cystadleuaeth i brynu'r busnes neu ei brif asedau
- gorfod ymrwymo i gostau datblygu heb sicrwydd y bydd yn llwyddo i gaffael y busnes, sy'n golygu bod perygl colledion sylweddol
- anhawster cytuno ar brisiad teg ar gyfer y busnes, yn enwedig pan fydd y prif asedau'n werth

mwy fel asedau nad ydynt yn ymwneud â'r busnes.

Gellir cymedroli'r cyntaf o'r heriau hyn trwy ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Lleoliaeth 2011 i restru Asedau o Werth Cymunedol. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi chwe mis i gymunedau baratoi cynnig i brynu ased rhestredig os yw'n cael ei roi ar werth.

O gymharu â menter sy'n dechrau o'r newydd, un o fanteision caffael a phrynu cyfran yw bod gan y busnes dan sylw hanes gweithredu, o leiaf, sy'n darparu meincnod ar gyfer cynllunio gwelliannau i berfformiad.

---

#### 1.4.4 Busnesau cychwynnol

---

Hyd yn oed pan fydd menter newydd wedi mynd trwy'r cam cyn-gychwyn ac yn gallu profi ei bod yn barod ar gyfer buddsoddi, mae llawer i'w wneud o hyd cyn iddi allu lansio cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Mae angen iddi lunio pedair prif ddogfen:

- dogfen lywodraethu sy'n amlinellu rheolau'r gymdeithas, gan ddiffinio ei diben, amcanion, aelodaeth, rheolaeth a math o gyfalaf cyfranddaliadau
- dogfen gynnig, wedi'i bwriadu ar gyfer y gymuned darged, sy'n hyrwyddo gwerthu cyfalaf cyfranddaliadau; mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol fel arfer wedi'u heithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol, ond maen nhw'n parhau i fod yn rhwym wrth gyfraith contract i gydymffurfio ag arfer da a dilyn canllawiau ar y materion hyn
- cynllun busnes sy'n darparu'r dystiolaeth i ategu'r tybiaethau a'r honiadau a wneir yn y ddogfen gynnig
- cynllun ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer recriwtio aelodau i'r gymdeithas, eu cynnwys yn y model busnes, a sicrhau eu buddsoddiad.

Mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn wahanol iawn i gynigion cyfranddaliadau a wneir gan fenter preifat, yn y ffyrdd canlynol:

- Fel arfer, mae mentrau preifat yn gwneud cynigion cyhoeddus yn gymharol hwyr yn eu datblygiad yn unig, a hynny'n nodweddiadol yn rhan o strategaeth ymadael ar gyfer ecwiti preifat. Mewn cyferbyniad, mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn tueddu i gael eu gwneud gan fentrau newydd nad oes ganddynt hanes profedig o lwyddiant.
- Fel arfer, mae mentrau preifat newydd yn cael cyfalaf cyfranddaliadau gan deulu, ffrindiau, angylion busnes a mathau eraill o fuddsoddwyr soffistigedig, tra bod cynigion cyfranddaliadau cymunedol wedi'u hanelu at bobl sy'n annhebygol o feddu ar brofiad, gwybodaeth neu gymwyseddau blaenorol yn ymwneud â buddsoddi mewn menter.
- Mae mentrau cychwynnol preifat yn tueddu i gael cyfalaf cyfranddaliadau trwy leoliadau preifat, a allai arwain at lond dyrnaid o fuddsoddwyr yn prynu budd mewn cyfrannau o £50,000 i £100,000. Mewn cyferbyniad, y nifer gyfartalog o fuddsoddwyr mewn cynnig cyfranddaliadau cymunedol yw 200, a'r swm cyfartalog a fuddsoddir yw £1,000 gan bob buddsoddwr.

---

#### 1.4.5 Mentrau cymdeithasol sefydledig

---

Canfu arolwg gan Social Enterprise UK mai amcan mwyaf cyffredin mentrau cymdeithasol yw gwelliant cymunedol, a nodwyd gan 25% o'r ymatebwyr. Ond dim ond llond dyrnaid o'r mentrau

cymdeithasol hyn sydd wedi manteisio ar yr hyn sydd gan gyfranddaliadau cymunedol i'w gynnig o ran cyllid cyfalaf ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae llawer o fentrau cymdeithasol wedi'u strwythuro fel elusennau cofrestredig neu gwmnïau cyfyngedig trwy warant, nad yw'r naill na'r llall yn gallu cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau. Fodd bynnag, fel yr esbonnir yn Adran 2.6, gall y ddau fath o sefydliad gael eu troi'n gymdeithasau heb newid eu hamcanion.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Power to Change yn 2016 yn amcangyfrif bod 7,085 o fusnesau cymunedol yn Lloegr. Mae'r ymchwil yn amlygu sectorau marchnad penodol y mae busnesau cymunedol yn ymwneud â nhw, y mae rhai ohonynt hefyd yn cael eu cynrychioli'n gryf gan gymdeithasau sy'n cyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol, fel ynni cymunedol, siopau a thafarnau. Amlygodd hefyd sectorau'r farchnad lle na fu cymaint o weithgarwch cyfranddaliadau cymunedol o gymharu, fel neuaddau pentref, trafniadaeth, tai, chwaraeon, hamdden a llyfrgelloedd, yn ogystal â chanolfannau celfyddydau a chyfleusterau, parciau, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sectorau hyn yn cynnig cyfle pwysig ar gyfer twf cyfranddaliadau cymunedol.

Mae rhai o'r sectorau hyn, yn enwedig tai a chwaraeon, yn cynnwys llawer o fentrau cymunedol hen sefydledig sydd wedi'u strwythuro fel cymdeithasau. Mae mwy nag 8,000 o gymdeithasau yn y Deyrnas Unedig sy'n hŷn na 10 mlynedd, ond dim ond tua 40 o'r cymdeithasau hyn sydd erioed wedi cyhoeddi symiau sylweddol o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi. Mae hyn yn cynnwys mwy na 1,500 o gymdeithasau yn y sector tai a mwy na 400 o gymdeithasau yn y sector chwaraeon. Ychydig iawn o gymdeithasau sefydledig sy'n defnyddio cwmpas llawn eu ffurf gorfforaethol i ymgysylltu â'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, ac mae'n bur debyg mai ychydig iawn o'r cymdeithasau hyn sydd wir yn sylweddoli'r gallu a gynigir gan eu ffurf gorfforaethol i gael cyfalaf buddsoddi ac ymgysylltu â'u cymunedau ar yr un pryd.

## 1.5 BUDDSODDIAD SEFYDLIADOL

Gall cyfranddaliadau cymunedol ddarparu'r sylfaen ar gyfer datblygu strwythur cyfalaf cadarn mewn cymdeithas. Efallai y bydd rhai cymdeithasau'n gallu cael yr holl gyfalaf y mae arnynt ei angen gan aelodau unigol. Ond, yn amlach na pheidio, mae cyfranddaliadau cymunedol yn gweithredu fel sbardun i gael buddsoddiad sefydliadol. Gallai'r buddsoddiad hwn fod ar ffurf grantiau, benthyciadau neu ecwiti. Gallai'r sefydliadau fod yn gyrff cyllido cyhoeddus, arbenigwyr ar fuddsoddi cymdeithasol, banciau, cronfeydd buddsoddi moesegol, elusennau, a chorfforaethau, gan gynnwys cymdeithasau eraill.

Diffinnir buddsoddiad sefydliadol yma fel buddsoddiad gan sefydliadau sy'n fwy na'r terfynau a osodir yn wirfoddol ar ddaliadau cyfranddaliadau unigol gan aelodau, sef 10% o gyfalaf cyfranddaliadau'r gymdeithas, fel arfer. Diben terfynau gwirfoddol yw atal cymdeithasau rhag dibynnu gormod ar aelodau unigol. Pan fydd buddsoddwr sefydliadol yn darparu mwy na 10% o gyfalaf y gymdeithas, bydd angen sefydlu mesurau i ddiogelu buddiannau aelodau cyffredin. Yn aml, gall buddsoddwyr sefydliadol gael cysur o gyfranddaliadau cymunedol. Mae cyfranddaliadau cymunedol yn dangos cefnogaeth gymunedol i'r fenter, a'i gwasanaethau. Mae'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol i fenthycwyr sefydliadol, sy'n gwybod eu bod yn uwch ar y rhestr credydwyr na chyfranddalwyr. Mae'n brawf o ymrwymiad tymor hir aelodau i sicrhau bod y fenter yn llwyddo ac yn gallu ymdopi ag unrhyw gyfnod anodd neu heriol.

Mae buddsoddiad sefydliadol yn cael ei groesawu gan gymdeithasau fel arfer, yn amodol ar bryderon ynglŷn â'i effaith bosibl ar fuddsoddiad aelodau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â dibynnu gormod ar un ffynhonnell buddsoddiad. Mae'r pryderon hyn yn dibynnu ar natur a graddfa'r buddsoddiad. Bydd y pwyslais yma ar dri math o fuddsoddiad sefydliadol – grantiau, benthyciadau ac ecwiti – ac ar raddfa yn amrywio o 10% i fwy na 90% o gyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol.

Nid yw cyllid grant sefydliadol yn achosi llawer o bryder yn gyffredinol, yn enwedig pan fydd yn gyllid cyhoeddus ar gyfer mentrau budd cyhoeddus. Mae dibyniaeth ar gyllid grant yn llai o broblem pan fydd y grant ar gyfer dibenion cyfalaf, yn hytrach na gweithgareddau refeniw'r gymdeithas. Mae grantiau cyfalaf yn cael effaith gadarnhaol ar gymdeithasau trwy leihau cost cyfalaf. Hyd yn oed pan fydd grant cyfalaf yn fwy na 90% o gyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol, mae'n annhebygol o gael effaith niweidiol ar gymdeithas, oni bai ei fod yn lleihau cymhelliad y gymuned leol i ddod yn aelodau ac yn fuddsoddwyr yn y gymdeithas, neu'n golygu bod cymdeithas yn ymgymryd â phrosiect buddsoddi cyfalaf sy'n fwy o lawer nag y gall ei gefnogi yn nhermau refeniw.

Mewn cyferbyniad, mae nifer o bryderon yn gysylltiedig â benthycia sefydliadol a dylid ei ystyried yn ofalus, gan gydnabod ar yr un pryd fod dyled yn rhan hanfodol o'r cymysgedd cyllido i'r rhan fwyaf o fusnesau. O'i wneud yn iawn, gall benthycia fod yn hyblyg, yn ymatebol ac, mewn rhai achosion, yn rhatach i gymdeithas yn y pen draw. Mae benthycia sefydliadol i gymdeithasau'n cael ei wneud mewn tair ffordd yn gyffredinol; cyllid cyfalaf tymor hir gwarantedig ar gyfer asedau sefydlog, cyllid tymor byrrach ar gyfer cyfalaf gweithio, a benthyciadau pontio. Nid yw mathau eraill o gyllid dyled, fel gorddrafftiau, ffactoreiddio a chardiau credyd corfforaethol, yn cael eu hystyried yma.

Yn nodweddiadol, defnyddir benthyciadau cyfalaf tymor hwy, am dymhorau o bum mlynedd neu fwy, i brynu asedau sefydlog, lle yr ystyrir bod cyfalaf y cyfranddaliadau cymunedol a gwerth ailwerthu'r asedau sefydlog yn lleihau'r risg i'r benthyciwr. Gallai benthycwyr fod yn fodlon benthycia hyd at 80% o gyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol gan gymdeithas, yn enwedig ar gyfer ased sefydlog fel eiddo, sy'n annhebygol o ddibrisio'n gyflym. Bydd talu llog ac ad-dalu cyfalaf ar gyfer benthyciadau gwarantedig yn cael blaenoriaeth dros unrhyw daliad i aelodau sy'n gyfranddalwyr, neu i gredydwyr anwarantedig fel cyflenwyr. Bydd talu llog benthyciadau'n lleihau faint o arian dros ben sydd ar gael i'r budd cymunedol, llog cyfranddaliadau a chodi cyfranddaliadau. Gallai benthyciadau fod yn ddrutach na chyfranddaliadau cymunedol hefyd. Bydd cyfrannau uchel o ddyledion gwarantedig yn y pecyn cyllido cyfalaf cyffredinol yn cynyddu effaith yr anfanteision hyn i gymdeithas.

Fel arfer, gwneir benthyciadau tymor byrrach, am hyd at bum mlynedd, i ddarparu cyfalaf gweithio, a fydd yn galluogi cymdeithas i brynu cyflenwadau, neu dalu costau staffio pan fydd yn dechrau gweithredu. Mae'r math hwn o fenthycia'n darparu rhwyd ddiogelwch i gymdeithasau y mae eu gofynion llif arian yn anrhagweladwy neu'n amrywio'n fawr, neu sydd â diffyg arian parod pan fyddant yn dechrau. Dylai benthyciadau o'r fath gael eu cyfyngu i swm y gall y gymdeithas ei ad-dalu'n realistig o'r llif arian o fewn tymor y benthyciad.

Yn olaf, gallai rhai sefydliadau fod yn barod i ddarparu cyllid pontio. Gall cyllid o'r fath helpu cymdeithasau y mae angen iddynt weithredu'n gyflym i brynu asedau sefydlog, neu sy'n ymwneud â chynnig cystadleuol am yr asedau, ac nad ydynt eisiau cyhoeddi cynnig cyfranddaliadau cymunedol sy'n darparu manylion llawn am eu cynlluniau cyfalaf. Neu efallai y bydd angen cyllid i fynd i'r afael â diffyg llif arian dros dro a achoswyd, er enghraifft, gan daliadau TAW neu oedi wrth

gael cyllid grant. Fe'u gelwir yn fenthyciadau pontio oherwydd eu bod yn pontio bwlch mewn cyllid, felly maent am gyfnod tymor byr iawn fel arfer, ac yn gymharol ddrud. Yng nghyd-destun cyfranddaliadau cymunedol, mae benthyciadau pontio fel arfer yn cael eu disodli gan elw cynnig cyfranddaliadau cymunedol llwyddiannus. Bydd angen i'r gymdeithas fod yn hyderus bod y broblem yn un dros dro yn unig, neu y gall sicrhau digon o gyfalaf cyfranddaliadau cymunedol i ddisodli'r benthyciad pontio, neu ei leihau, i lefel ymarferol.

Fel arfer, bydd pob math o gyllid dyled yn ddarostyngedig i gytundebau cyfreithiol a allai gynnwys cyfamodau sy'n cyfyngu ar ryddid y gymdeithas. Y ddau gyfamod mwyaf cyffredin yw sefydlu gwarant dros asedau cymdeithas, a mynnu bod cyfarwyddwyr yn ceisio caniatâd gan y benthyciwr sefydliadol cyn llunio unrhyw gytundebau cyllid dyled eraill.

Dylai cymdeithasau ochel rhag derbyn benthyciadau am fwy na 50% o gyfanswm eu gofynion cyfalaf. O ran benthyciadau rhwng 25% a 50% o gyfanswm eu gofynion cyfalaf, dylent hefyd fod yn ofalus os yw cost y benthyciad yn sylweddol fwy na'r gyfradd llog uchaf sy'n daladwy ar gyfranddaliadau cymunedol, neu os yw'r benthyciwr yn mynnu bod y cyfalaf yn cael ei ad-dalu'n llawn ymhen llai na phum mlynedd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai aelodau a darpar aelodau cymdeithas gael yr holl wybodaeth am sut y gallai'r benthyciadau effeithio ar eu buddiannau ariannol.

Gall cyllid dyled fod yn ffordd effeithiol iawn o fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn cyllid a gafwyd trwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol. Mae Adran 4.5.4 yn argymhell bod cymdeithasau sy'n gwneud cynnig â chyfyngiad amser yn pennu tri tharged codi arian; lleiafswm, swm delfrydol, ac uchafswm. Gellir defnyddio cyllid dyled i lenwi'r bwlch rhwng y swm a gafwyd a'r targed delfrydol neu uchaf. Fodd bynnag, gellir gwneud hyn dim ond os yw'r benthyciwr yn cytuno i addasu ei fenthyciad i lenwi unrhyw ddiffyg o'r targedau. Gallai rhai buddsoddwyr sefydliadol ddymuno codi ffi uwch am wneud trefniant o'r fath, er mwyn sicrhau y bydd eu costau'n cael eu talu.

O gymharu â benthyciadau, mae buddsoddiad sefydliadol ar ffurf ecwiti yn ddewis gwell i gymdeithasau fel arfer, yn enwedig os bydd buddsoddwyr sefydliadol yn derbyn yr un telerau ac amodau ar gyfer eu cyfranddaliadau ag aelodau unigol. Mae Adranau 3.2.7 a 4.5.6 yn argymhell y dylai'r uchafswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddelir gan unigolion gael ei gyfyngu'n wirfoddol i ddim mwy na 10% o gyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol, os yw'r swm hwn yn llai nag £1 filiwn. Y terfyn uchaf cyfreithiol ar gyfer daliadau unigol o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn cymdeithas yw £100,000. Nid yw'r terfyn hwn yn berthnasol i gymdeithasau sy'n buddsoddi mewn cyfalaf cyfranddaliadau cymdeithasau eraill. Felly, pe byddai buddsoddwr sefydliadol yn dymuno buddsoddi mwy na £100,000 mewn cyfalaf cyfranddaliadau cymdeithas arall, byddai angen iddo gael ei strwythuro fel cymdeithas, gyda'r pwerau angenrheidiol i fuddsoddi mewn cymdeithasau eraill.

Lle y bwriedir caniatáu i sefydliad brynu mwy o gyfranddaliadau na'r terfyn uchaf gwirfoddol, dylai'r gymdeithas ddilyn y weithdrefn ganlynol. Os yw'r buddsoddwr sefydliadol yn ceisio telerau blaenoriaethol o ran codi cyfranddaliadau neu log cyfranddaliadau, mae'n rhaid datgan y telerau hyn yn eglur yn y ddogfen gynnig. Os yw'r cynnig hwn yn cael ei wneud gan gymdeithas sefydledig, sydd eisoes ag aelodau sy'n gyfranddalwyr, dylai'r gymdeithas geisio cymeradwyaeth ei haelodau cyn cynnig y telerau blaenoriaethol hyn. Ym mhob achos, dylai cymdeithasau geisio recriwtio o

leiaf 20 aelod, sef lleiafswm nifer yr aelodau sy'n ofynnol i gyfiawnhau'r term cyfranddaliadau cymunedol (gweler Adran 1.2.2). O ran cymdeithas newydd a chanddi lai nag 20 aelod, mae'n ddigon i amlinellu telerau'r cytundeb gyda'r buddsoddwr sefydliadol yn y ddogfen gynnig. Yna, gall darpar aelodau benderfynu drostynt eu hunain p'un a yw'r cytundeb yn dderbyniol.

Os yw'r buddsoddwr sefydliadol yn fodlon derbyn yr un telerau ag aelodau eraill, mae'n ddigon i'r gymdeithas ddatgan hyn yn ei dogfen gynnig, gan nodi pa gyfran neu swm y caiff y buddsoddwr sefydliadol ei buddsoddi/fuddsoddi. O ran arfer da, dylai cymdeithasau roi blaenoriaeth i aelodau cyffredin ar draul aelodau sefydliadol os oes gormod o geisiadau am gynnig. Bydd angen cytuno ar hyn o flaen llaw gyda'r buddsoddwr sefydliadol.

Dylai buddsoddwyr sefydliadol sy'n cytuno ar delerau cyfartal gyfyngu eu ceisiadau am godi cyfranddaliadau i swm nad yw'n fwy na'r uchafswm y caiff unrhyw aelod arall ofyn amdano, neu y ceir ei ganiatáu. Felly, os oes gan gymdeithas derbyn daliad cyfranddaliadau gwirfoddol, dyma'r uchafswm y gallai buddsoddwr sefydliadol wneud cais i'w godi hefyd. Os bydd swm y cyfalaf cyfranddaliadau sydd ar gael i'w godi yn cael ei gyfyngu, dylid caniatáu i'r buddsoddwr sefydliadol godi cyfalaf ar yr un telerau cyfyngedig ag aelodau eraill yn unig.

Er enghraifft, os yw cymdeithas yn ceisio cael uchafswm o £250,000 mewn cyfranddaliadau cymunedol, dylai bennu terfyn uchaf gwirfoddol o £25,000 ar gyfer dal cyfranddaliadau. Gellid caniatáu i fuddsoddwyr sefydliadol fuddsoddi hyd at yr uchafswm cyfreithiol o £100,000 neu fwy os yw hefyd yn gymdeithas sydd â phwerau i wneud buddsoddiad o'r math hwn. Fodd bynnag, oni bai bod y cyfranddaliwr sefydliadol wedi cytuno ar delerau blaenoriaethol â'r gymdeithas, dylai gytuno i gyfyngu ar godi cyfranddaliadau i £25,000 mewn unrhyw un cyfnod, os yw wedi buddsoddi mwy na hyn. Os yw'r gymdeithas wedi derbyn ceisiadau am godi mwy o gyfranddaliadau na'r swm sydd ar gael i'w godi yn y cyfnod hwnnw, dylai ddyfeisio ffordd deg o ddogni codi cyfranddaliadau y dylid ei chymhwyso'n gyfartal i bob cais am godi cyfranddaliadau.

Pan fydd cymdeithas yn defnyddio cynnig agored i gynhyrchu hylifedd i ariannu codi cyfranddaliadau, dylai unrhyw delerau blaenoriaethol sydd gan aelodau sy'n fuddsoddwyr sefydliadol gael eu hegluro i ymgeiswyr yn y ddogfen gynnig.

## 2 DEDDFWRIAETH CYMDEITHASAU

### 2.1 MATHAU O GYMDEITHASAU

#### 2.1.1 Cyflwyniad

Daeth Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 i rym ar 1 Awst 2014, gan gydgrynhoi a disodli deddfwriaeth flaenorol yn ymwneud â chymdeithasau diwydiannol a darbodus, gan gynnwys Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965, a ailenwyd yn Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol ac Undebau Credyd 1965.

Dylid nodi nad yw Deddf newydd 2014 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, lle mae ffurf ddiwygiedig ar Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969 yn berthnasol o hyd, er y gallai newid o dan ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Undebau Credyd a Chymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Gogledd Iwerddon) 2016. Mae'r Ddeddf newydd hon yn diwygio ac ailenwi deddfwriaeth cymdeithasau flaenorol yng Ngogledd Iwerddon, ond, yn wahanol i Ddeddf 2014, nid yw'n cydgrynhoi cyfraith cymdeithasau.

Yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig, lle mae cymdeithasau'n cael eu cofrestru gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), Adran yr Economi sy'n gyfrifol am gofrestru cymdeithasau yng Ngogledd Iwerddon.

Un o brif ganlyniadau Deddf 2014 yw creu dau gategori ar gyfer cymdeithasau:

- Cymdeithasau a gofrestrwyd cyn 1 Awst 2014
- Cymdeithasau a gofrestrwyd o dan y Ddeddf newydd o 1 Awst 2014 ymlaen.

Mae cymdeithasau a gofrestrir o dan y Ddeddf newydd yn cael eu cofrestru'n benodol fel cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol (gan gynnwys cymdeithas budd cymunedol elusennol). Cyn 1 Awst 2014, bu'n rhaid i gymdeithas feddu ar nodweddion cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol, ond nid oedd yn cael ei chofrestru fel math penodol o gymdeithas. Nid oedd yr FCA, na'i gyrff cofrestru rhagflaenol, yn cadw cofnod o ba fath o gymdeithas oedd yn cael ei gofrestru. Mae'r FCA yn cyfeirio at gymdeithas a gofrestrwyd cyn 1 Awst 2014 fel cymdeithas cyn-gychwyn, a rhaid iddi ei disgrifio ei hun fel "cymdeithas gofrestredig" neu "gymdeithas" ar bapur ysgrifennu'r busnes; ni chaiff gyfeirio ati hi ei hun fel cymdeithas gydweithredol na chymdeithas budd cymunedol. Mae'n rhaid i gymdeithas gofrestredig sy'n dymuno cyfeirio ati hi ei hun fel math penodol o gymdeithas ar bapur ysgrifennu'r busnes, gofrestru cymdeithas newydd a throsglwyddo ei hymrwymiaidau i'r gymdeithas newydd hon (gweler Adran 2.7).

Arweiniodd Deddf 2014 at newidiadau eraill o bwys, gan gynnwys terfyn uchaf o £100,000 ar ddaliadau cyfranddaliadau unigol o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, gweithdrefnau newydd ar gyfer cymdeithasau sy'n wynebu ansolfedd, a phwerau newydd ychwanegol i'r FCA ymchwilio i gymdeithasau.

Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynodd Deddf 2016 rai, ond nid pob un, o'r newidiadau a grëwyd gan Ddeddf 2014 ym Mhrydain Fawr. Y prif newid oedd cyflwyno terfyn uchaf newydd o £100,000 ar ddaliadau cyfranddaliadau unigol o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, a newidiadau i'r terfynau oedran sy'n berthnasol i aelodau a chyfarwyddwyr cymdeithasau. Daeth y ddau newid i rym ym mis Mehefin 2016. Daeth newidiadau eraill yn ymwneud â datganiadau blynyddol, cyfrifon anarchwiliedig, diddymu a mân faterion eraill, i rym ym mis Ebrill 2016. Mae rhai newidiadau, fel ailenwi Deddf 1969 yn Ddeddf Undebau Credyd a Chymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Gogledd Iwerddon) 1969, a chyflwyno dwy ffurf gyfreithiol newydd, sef cymdeithas gydweithredol a chymdeithas budd cymunedol, heb ddod i rym eto (mis Mai 2017). Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd yr FCA ei ganllawiau terfynol ar ei swyddogaeth gofrestru o dan Ddeddf 2014. Daeth hyn ar ôl cyfnod ymgynghori cyhoeddus hir ar newidiadau arfaethedig i'w ganllawiau, yn sgil y newidiadau deddfwriaethol hyn a phryderon eraill ynglŷn ag arferion presennol.

Mae'r Llawlyfr hwn yn canolbwyntio ar y tri phrif fath o gymdeithas: cymdeithasau cydweithredol go iawn, cymdeithasau budd cymunedol, a chymdeithasau budd cymunedol elusennol. Mae mathau eraill o gymdeithasau'n bodoli, gan gynnwys undebau credyd, cymdeithasau adeiladu a chymdeithasau cyfeillgar, ond mae'r rhain yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar wahân a'r tu hwnt i gwmpas y Llawlyfr hwn.

---

## 2.1.2 Cymdeithasau cydweithredol go iawn

---

Nid yw Deddf 2014 yn diffinio nac yn disgrifio beth yw cymdeithas gydweithredol go iawn. Yn absenoldeb diffiniad statudol, mae'r FCA yn darparu canllawiau ynglŷn â sut mae'n penderfynu p'un a yw cymdeithas yn un gydweithredol go iawn. Mae'n defnyddio dau brawf, a amlinellir yn y paragraffau canlynol.

Yn ôl Adran 2(3) Deddf 2014, *"nid yw cymdeithas gydweithredol yn cynnwys cymdeithas sy'n cynnal busnes, neu'n bwriadu cynnal busnes, gyda'r nod o wneud elw yn bennaf i dalu llog, difidendau neu daliadau bonws ar arian sydd wedi'i fuddsoddi yn y gymdeithas neu unrhyw unigolyn arall, ei adneuo gyda hi/gydag ef, neu ei fenthycu iddi/iddo"*. Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn egluro y bydd yn defnyddio'r adran hon o'r Ddeddf wrth benderfynu p'un a all cymdeithas gael ei chofrestru'n gymdeithas gydweithredol, a pharhau i gael ei chofrestru felly. Bydd yr FCA yn gwneud hyn trwy archwilio'r rheolau arfaethedig, newidiadau i reolau, ffurflenni cais, cyfrifon blynyddol a gwybodaeth arall gyhoeddedig, a allai gynnwys dogfen gynig cyfranddaliadau cymunedol, yn ôl pob tebyg. Nid yw'r ymagwedd hon at ddiffinio cymdeithas gydweithredol yn golygu na all cymdeithas gydweithredol ddsbarthu ei harian dros ben i aelodau; ymdrinnir â'r mater hwn yn fanylach yn Adran 6 y Llawlyfr.

Mae'r ail brawf a ddefnyddir gan yr FCA wedi'i seilio ar *Ddatganiad Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol* y Gynghair Gydwethredol Ryngwladol, sy'n diffinio cymdeithas gydweithredol fel *"cymdeithas ymreolaethol o unigolion sydd wedi uno'n wirfoddol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol cyffredin trwy fenter a berchenogir ar y cyd ac a reolir yn ddemocrataidd."*

Mae'r FCA yn defnyddio'r diffiniad hwn i bennu p'un a yw cymdeithas yn un gydweithredol go iawn.



Mae hefyd yn defnyddio'r gwerthoedd a'r egwyddorion a gyflwynir isod i ddilysu a chadarnhau p'un a yw rheolau a threfniadau llywodraethu cymdeithas yn gyson â rhai cymdeithas gydweithredol.

**Gwerthoedd** Mae cwmnïau cydweithredol wedi'u seilio ar werthoedd hunangymorth, hunangyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb, tegwch, ac undod. Yn nhraddodiad eu sylfaenwyr, mae aelodau cwmnïau cydweithredol yn credu mewn gwerthoedd moesegol gonestrwydd, bod yn agored, cyfrifoldeb cymdeithasol, a gofalu am bobl eraill.

**Egwyddorion** Canllawiau yw'r egwyddorion cydweithredol y mae cwmnïau cydweithredol yn eu dilyn wrth roi eu gwerthoedd ar waith.

1. **Aelodaeth Wirfoddol ac Agored:** Sefydliadau gwirfoddol yw cwmnïau cydweithredol, sy'n agored i bob unigolyn sy'n gallu defnyddio eu gwasanaethau ac sy'n fodlon derbyn cyfrifoldebau aelodaeth, heb wahaniaethu ar sail rhyw, statws cymdeithasol, hil, gwleidyddiaeth, na chrefydd.
2. **Rheolaeth Ddemocrataidd gan Aelodau:** Sefydliadau democrataidd yw cwmnïau cydweithredol a reolir gan eu haelodau, sy'n cyfrannu'n weithredol at lunio eu polisiau a gwneud penderfyniadau. Mae dynion a menywod sy'n gwasanaethu fel cynrychiolwyr etholedig yn atebol i'r aelodau. Mewn cwmnïau cydweithredol sylfaenol, mae gan aelodau hawliau pleidleisio cyfartal (un aelod, un bleidlais), ac mae cwmnïau cydweithredol ar lefelau eraill yn cael eu trefnu mewn modd democrataidd hefyd.
3. **Cyfranogiad Economaidd Aelodau:** Mae aelodau'n cyfrannu'n deg at gyfalaf eu cwmni cydweithredol, ac yn ei reoli'n ddemocrataidd. Bydd rhan o'r cyfalaf hwnnw o leiaf yn eiddo cyffredin i'r cwmni cydweithredol, gan amlaf. Bydd aelodau'n cael digollediad cyfyngedig fel arfer, os o gwbl, ar gyfalaf a danysgriwiwyd fel amod aelodaeth. Mae aelodau'n dyrannu arian dros ben at un o'r dibenion canlynol, neu bob un ohonynt: datblygu eu cymdeithas gydweithredol, trwy sefydlu cronfeydd wrth gefn o bosibl, y byddai rhan ohonynt o leiaf yn anwahanadwy; rhoi budd i aelodau yn gymesur â'u trafodion â'r gymdeithas gydweithredol; a chefnogi gweithgareddau eraill a gymeradwyir gan yr aelodau.
4. **Ymreolaeth ac Annibyniaeth:** Sefydliadau hunangymorth ymreolaethol yw cwmnïau cydweithredol a reolir gan eu haelodau. Os byddant yn llunio cytundebau â sefydliadau eraill, gan gynnwys llywodraethau, neu'n cael cyfalaf o ffynonellau allanol, gwnânt hynny ar delerau sy'n sicrhau rheolaeth ddemocrataidd gan eu haelodau ac yn cynnal eu hymreolaeth gydweithredol.
5. **Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth:** Mae cwmnïau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant i'w haelodau, cynrychiolwyr etholedig, rheolwyr, a chyflogeion fel y gallant gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu cwmnïau cydweithredol. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd – yn enwedig pobl ifanc ac arweinwyr barn – ynglŷn â natur a buddion cydweithredu.
6. **Cydweithredu ymhlith Cwmnïau Cydweithredol:** Mae cwmnïau cydweithredol yn gwasanaethu eu haelodau'n fwyaf effeithiol ac yn cryfhau'r mudiad cwmnïau cydweithredol trwy gydweithio trwy strwythurau lleol, cenedlaethol, rhanbarthol, a rhyngwladol.
7. **Gofalu am y Gymuned:** Mae cwmnïau cydweithredol yn gweithio er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy eu cymunedau trwy bolisiau a gymeradwywyd gan eu haelodau."

Mae'r FCA yn disgwyl gweld egwyddorion 1 i 4 yn cael eu mynegi yn rheolau a threfniadau llywodraethu cymdeithas, tra bod egwyddorion 5 i 7 yn fwy tebygol o gael eu mynegi ym mholisiau a gweithredoedd cymdeithas. Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn rhoi pwyslais penodol ar nodweddion cysylltiadol cymdeithasau cydweithredol, gan ganolbwyntio ar y berthynas rhwng

aelodau. Diben cymdeithas gydweithredol yw gwasanaethu buddiannau aelodau. Gall ddosbarthu rhan o'i harian dros ben neu elw i aelodau ar ffurf dididend ar eu trafodion â'r gymdeithas gydweithredol. Mae'r FCA yn cydnabod natur amrywiol mentrau cydweithredol, a'r nifer o wahanol drefniadau rhwng aelodau ar gyfer gwasanaethu eu cydfuddiannau, yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredol. Mae cymdeithasau cydweithredol yn rhydd i benderfynu pwy all fod yn aelod, yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai'r fenter fod ar agor i bawb sy'n gallu defnyddio ei gwasanaethau. Mae cyfranogiad aelodau nad ydynt yn ddefnyddwyr yn destun canllawiau penodol gan yr FCA.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae cymdeithasau'n cael eu cofrestru gan Adran yr Economi o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969, nad yw'n gwahaniaethu rhwng gwahanol ffurfiau.

---

### 2.1.3 Cymdeithasau budd cymunedol

---

Diben cymdeithas budd cymunedol yw gwasanaethu buddiannau ehangach y gymuned, yn wahanol i gymdeithasau cydweithredol sy'n gwasanaethu buddiannau aelodau. Mae Deddf 2014 yn mynnu bod cymdeithas budd cymunedol yn "cynnal busnes, diwydiant neu fasnach" sydd "yn cael ei weithredu/gweithredu, neu y bwriedir ei weithredu/gweithredu er budd y gymuned". Ond nid yw'r Ddeddf yn rhoi diffiniad na disgrifiad manylach o beth yw cymdeithas budd cymunedol, gan greu dibyniaeth ar ganllawiau cofrestru'r FCA. Mae'r FCA yn canolbwyntio ar bedair prif nodwedd cymdeithas budd cymunedol:

**Diben:** Yn ôl yr FCA, "rhaid i fusnes cymdeithas budd cymunedol gael ei gynnal yn gyfan gwbl er budd y gymuned." Ni chaniateir unrhyw ddibenion amgen nac eilaidd, gan gynnwys unrhyw rai a allai roi budd ffafriol i'r aelodau.

**Aelodaeth:** Yn yr un modd â phob cymdeithas, disgwylir i gymdeithasau budd cymunedol fod ag aelodau sy'n dal cyfranddaliadau. Mae'r FCA yn disgwyl i gymdeithasau budd cymunedol gael eu cynnal ar sail ddemocrataidd un aelod, un bleidlais.

**Cymhwyso elw:** Mae'n rhaid i unrhyw elw a wneir gan gymdeithas budd cymunedol gael ei ddefnyddio er budd y gymuned. Yn wahanol i gymdeithas gydweithredol, ni ellir dosbarthu'r elw i aelodau cymdeithas budd cymunedol. Mae llog ar gyfalaf cyfranddaliadau yn draul weithredu a dylai fod yn ddarostyngedig i gyfradd uchaf wedi'i datgan (gweler Adran 6 am fwy o fanylion).

**Defnyddio asedau:** Mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol ddefnyddio eu hasedau er budd y gymuned yn unig. Os caiff cymdeithas budd cymunedol ei gwerthu, ei throsi, neu ei chyfuno ag endid cyfreithiol arall, mae'n rhaid i'w hasedau barhau i gael eu defnyddio er budd y gymuned ac ni cheir eu dosbarthu i aelodau. Gellir atgyfnerthu'r clo hwn ar asedau cymdeithas budd cymunedol trwy fabwysiadu'r geiriad rhagnodedig ar gyfer clo asedau statudol (gweler Adran 2.4).

Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn cydnabod y gallai cymdeithas budd cymunedol ddiffinio'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, ond ni ddylai hyn atal y budd i'r gymuned yn gyffredinol; mewn geiriau eraill, ni ddylai'r budd cymunedol gael ei gyfyngu i aelodau yn unig. Nid yw'r FCA yn rhoi arweiniad ynglŷn â phwy all fod yn aelod o gymdeithas budd cymunedol. Yng nghyd-destun cyfranddaliadau cymunedol, tybir bod aelodaeth ar agor i unrhyw unigolyn sy'n cefnogi diben y

gymdeithas, heb y gwahaniaeth a geir mewn cymdeithasau cydweithredol rhwng aelodau sy'n ddefnyddwyr ac aelodau nad ydynt yn ddefnyddwyr.

---

## 2.1.4 Cymdeithasau budd cymunedol elusennol

---

Mae cymdeithas budd cymunedol elusennol yn gymdeithas budd cymunedol a chanddi ddibenion elusennol yn unig. Mae cydnabod a rheoleiddio elusennau yn fater datganoledig.

Yng Nghymru a Lloegr, mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn darparu arweiniad ar yr hyn sy'n gyfystyr â diben elusennol, yn seiliedig ar Ddeddf Elusennau 2011, sy'n amlinellu 12 prif ddiben elusennol yn ogystal ag unrhyw ddibenion eraill y gellir eu cydnabod yn elusennol o dan y gyfraith bresennol. (Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [www.gov.uk/running-charity/setting-up](http://www.gov.uk/running-charity/setting-up))

Yn yr Alban, mae Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban yn darparu arweiniad ar yr hyn sy'n gyfystyr â diben elusennol, yn seiliedig ar Ddeddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005. (Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://www.oscr.org.uk/charities/becoming-a-charity>)

Mae'n bosibl y bydd safbwyntiau Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon ynghlŷn â chymdeithasau budd cymunedol elusennol yn wahanol i'r rhai a fynegir yn y Llawlyfr hwn.

Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol ymgymryd â gweithgareddau sy'n hybu ei hamcanion elusennol yn unig. Golyga hyn y gallai fod rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol sy'n bwriadu ymgymryd â gweithgareddau masnachu nad ydynt yn ymwneud â'i phrif ddiben nac yn ategol i'r diben hwnnw, sefydlu is-gwmni masnachu i gynnal y fasnach honno.

Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol fod â chlo asedau. Mae'n rhaid i hwn fod ar ffurf rheol sy'n datgan os caiff y gymdeithas ei diddymu, bod rhaid i unrhyw asedau gweddilliol gael eu trosglwyddo i elusen arall sydd â'r un dibenion elusennol neu rai tebyg. Ni ellir defnyddio'r rheolau clo asedau a ragnodir gan Reoliadau Cymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngiad ar Ddefnyddio Asedau) 2006, a'r rheoliadau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, gan nad ydynt yn rhoi hawliau unigryw i elusennau. (Ymdrinnir â'r mater hwn yn fanylach yn Adran 2.4.)

Yng Nghymru a Lloegr, ni all cymdeithas budd cymunedol elusennol gofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau. Yn lle hynny, rhaid iddi wneud cais i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) i gael ei chydabod fel elusen eithriedig at ddibenion treth. Cyflwynodd Deddf Elusennau 2006 newidiadau i'r ffordd y mae elusennau eithriedig yn cael eu rheoleiddio, gan fynnu bod gan bob elusen eithriedig brif reoleiddiwr. Fodd bynnag, nid oes prif reoleiddiwr wedi'i benodi eto ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol elusennol nad ydynt yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. (I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Y Comisiwn Elusennau, CC23 Elusennau eithriedig.)

Caiff cymdeithas budd cymunedol elusennol gynnwys y geiriau 'elusen' neu 'elusennol' yn ei henw os yw wedi cael caniatâd o flaen llaw gan yr awdurdodau perthnasol (gweler Adran 3.2.1). Bydd y Comisiwn Elusennau ond yn caniatáu i endidau y mae'n ystyried eu bod yn elusennol ddefnyddio'r geiriau hyn.

Mae gan elusennau eithriedig hawl i'r un buddion treth ag elusennau cofrestredig. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad mewn treth incwm, treth gorfforaeth a threth enillion cyfalaf, eithriad o dreth

etifeddiant a gostyngiad mewn ardrethi busnes neu annomestig.

Yn yr Alban, nid oes y fath derm ag 'elusen eithriedig', felly er mwyn bod yn gymdeithas budd cymunedol elusennol, rhaid i'r gymdeithas wneud cais i Reoleiddiwr Elusennau yr Alban i fod yn elusen gofrestrdig hefyd. I gael buddion treth, bydd rhaid i'r sefydliad wneud cais i HMRC hefyd. Mae'r un peth yn wir yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol elusennol ddod yn elusennau cofrestrdig gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon, a gwneud cais ar wahân i HMRC am fuddion treth.

Mae'r Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban wedi cydnabod y caiff cymdeithasau budd cymunedol elusennol gyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol a thalu llog i aelodau ar gyfalaf cyfranddaliadau, yn ddarostyngedig i nifer o amodau. (Gweler Adran 6.5 am fwy o fanylion.)

Wrth gofrestru cymdeithas budd cymunedol elusennol newydd, rhaid darparu gwybodaeth am ymddiriedolwyr yr elusen. Mae hyn yn cynnwys eu henw llawn, manylion cyswllt, galwedigaeth, dyddiad geni a llofnod. Bydd yr FCA yn gwirio nad yw'r unigolion a enwir wedi'u hanghymhwysu rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr elusen. Fodd bynnag, nid yw'r FCA yn rhoi statws elusen eithriedig; ymdrinnir â'r mater hwn trwy gais ar wahân i HMRC.

---

### 2.1.5 Dewis rhwng mathau o gymdeithasau

---

Mae'r tri math o gymdeithas yn gwasanaethu tri grŵp gwahanol o fuddiolwyr. Mae cwmnïau cydweithredol er budd aelodau, mae cymdeithasau budd cymunedol er bydd y gymuned, ac mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol er budd y cyhoedd. Mae gwahaniaethau pwysig, ac eto cynnil, rhwng budd aelodau, y gymuned a'r cyhoedd. Mae cysyniad budd cyhoeddus yn ganolog i'r gyfraith elusennau, ac yn canolbwyntio'n llwyr ar amcanion elusennol, ond nid yw budd cymunedol yn elusennol o reidrwydd nac yn benodol. Mae budd aelodau mewn cymdeithas gydweithredol yn cael ei ffurfio gan werthoedd ac egwyddorion cydweithredol, sy'n ei wahaniaethu o fudd preifat cyfranddalwyr cwmni.

Mae manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â'r tri math o gymdeithas. Caiff cwmnïau cydweithredol ddsbarthu elw i aelodau ar ffurf difidend yn seiliedig ar lefel eu trafodion â'r gymdeithas gydweithredol, sy'n gallu cymell ffyddlondeb aelodau a chryfhau'r model busnes. Gallai cymdeithasau budd cymunedol a chanddynt glo asedau statudol roi mwy o sicrwydd i gyllidwyr cyhoeddus a chyrff sy'n rhoi grantiau, ar yr un pryd â rhoi'r rhyddid i gymdeithasau o'r fath ymwneud ag ystod eang o weithgareddau busnes nad ydynt yn gyfyngedig i amcanion elusennol. Mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol yn manteisio ar yr holl fuddion treth sy'n berthnasol i elusennau, ond fe'u cyfyngir i ddibenion elusennol yn unig.

Gallai cwmnïau cydweithredol apelio mwy at aelodau sy'n cael eu denu gan fuddion cydfuddiannaeth a chymuned; gallai cymdeithasau budd cymunedol apelio mwy at aelodau sy'n rhoi mwy o bwys i fuddiannau'r gymuned ehangach na'u cydfuddiannau nhw. Dim ond cymdeithasau cydweithredol sy'n gallu dosbarthu arian dros ben i aelodau ar ffurf difidend ar drafodion aelodau. Mae'r opsiwn o dalu difidendau'n ffordd ddarbodus o reoli cyllid cymdeithas, ac annog ffyddlondeb aelodau.

Gall y tri math o gymdeithas ddefnyddio clo asedau, sy'n nodwedd ddiffiniol o gyfranddaliadau cymunedol yn ôl polisi'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol. Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol gael clo asedau statudol, a ddiffinnir gan gyfraith elusennau, ond gall cymdeithas budd cymunedol ddewis rhwng clo asedau statudol a chlo asedau gwirfoddol. Gall cymdeithas gydweithredol ddewis mabwysiadu clo asedau gwirfoddol, er nad oes gofyniad i wneud hynny, ac mae'r FCA yn cofrestru cymdeithasau cydweithredol heb y nodwedd hon.

Mae dewis rhwng strwythur cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol yn bwysig oherwydd, er bod modd trosi cymdeithas gydweithredol yn gymdeithas budd cymunedol, nid oes modd trosi cymdeithas budd cymunedol yn gymdeithas gydweithredol, nac i gymdeithas budd cymunedol elusennol roi'r gorau i fod yn elusen.

Yn y Deyrnas Unedig, gall cymdeithas gydweithredol fabwysiadu unrhyw ffurf gyfreithiol, ar yr amod bod ei ddogfen lywodraethu'n ymgorffori'r gwerthoedd a'r egwyddorion cydweithredol a amlinellir yn Natganiad Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion yr ICA. Mae llawer o gymdeithasau budd cymunedol yn croesawu gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol ac yn aelodau cydweithredol o Co-operatives UK.

## 2.2 CYFALAF CYFRANDDALIADAU MEWN CYMDEITHASAU

### 2.2.1 Mathau o gyfranddaliadau

Gall cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol gyhoeddi cyfranddaliadau sy'n drosglwyddadwy neu'n anhrosglwyddadwy, ac y gellir eu codi neu na ellir eu codi. At ddibenion y Llawlyfr hwn, cyfeirir at gyfranddaliadau anhrosglwyddadwy, na ellir eu codi, fel cyfranddaliadau aelodaeth. Mae cyfranddaliadau cymunedol yn gyfranddaliadau anhrosglwyddadwy, y gellir eu codi, mewn cymdeithas sydd â chlo asedau gwirfoddol neu statudol. Mae cyfranddaliadau trosglwyddadwy, p'un a ellir eu codi ai peidio, y tu allan i gwmpas yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol am y rhesymau a esbonnir yn Adran 2.2.3. Mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban wedi derbyn y gall cymdeithas budd cymunedol elusennol gyhoeddi cyfranddaliadau y gellir eu codi, ond nid ydynt wedi ystyried p'un a fyddai'n dderbyniol i gymdeithas o'r fath gyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth gyfreithiol i gymdeithasau gyhoeddi cyfranddaliadau adbrynadwy, sy'n unigryw i gyfraith cwmnïau yn y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal â'r ffaith bod gwahanol fathau o gyfranddaliadau ar gael, gall cymdeithas gyhoeddi mwy nag un dosbarth o gyfranddaliadau o'r un math, gyda gwahanol hawliau'n gysylltiedig â phob dosbarth, a esbonnir yn eglur yn rheolau'r gymdeithas. Fel arfer, bydd hawliau pleidleisio ac aelodaeth yn gysylltiedig â chyfalaf cyfranddaliadau, er bod rhai cymdeithasau a chanddynt sawl dosbarth cyfranddaliadau yn cyhoeddi cyfranddaliadau nad oes hawliau pleidleisio'n gysylltiedig â nhw. Archwilir hyn yn fanylach yn Adran 2.2.6.

Ni waeth pa fath o gyfranddaliadau a gyhoeddir gan gymdeithas, mae'n arferol i'r tri math o gymdeithas arfer democratiaeth aelodau, yn seiliedig ar yr egwyddor un aelod, un bleidlais, yn hytrach nag un cyfranddaliad, un bleidlais, sef y drefn ddiodyn mewn cyfraith cwmnïau. Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn ddistaw ynglŷn â sut

mae hawliau pleidleisio'n cael eu dyrannu mewn cymdeithas, er bod canllawiau cofrestru newydd yr FCA yn egluro ei fod yn disgwyl i bob math o gymdeithas fabwysiadu'r egwyddor un aelod, un bleidlais, fel amod cofrestru.

---

## 2.2.2 Cyfranddaliadau y gellir eu codi

---

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn gyfranddaliadau anhrosglwyddadwy, y gellir eu codi, mewn cymdeithas sydd â chlo asedau gwirfoddol neu statudol. Caniateir i aelodau godi'r math hwn o gyfalaf, yn amodol ar reolau'r gymdeithas. Gall y rheolau bennu'r telerau ar gyfer codi cyfranddaliadau, fel cyfnod o rybudd o'r bwriad i godi cyfranddaliadau, cyfran cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei chodi ar unrhyw un adeg, yn ogystal â hawl y pwyllgor rheoli i atal codi cyfranddaliadau neu gynnig mymryn o werth eu cyfalaf cyfranddaliadau yn unig i ymgeiswyr.

Yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol, os yw cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi am gael ei gofnodi fel ecwiti at ddibenion cyfrifyddu, mae'n rhaid i'r gymdeithas feddu ar bwerau disgresiwn i atal neu wrthod codi cyfranddaliadau, wedi'u datgan yn eglur yn ei rheolau. Os nad oes gan gymdeithas y pwerau hyn, mae'n rhaid i'r cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi gael ei drin fel rhwymedigaeth tymor hir.

Mae terfyn cyfreithiol ar faint o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi y caniateir i aelod unigol ei ddal, sef £100,000 ar hyn o bryd. Diben y terfyn yw atal aelod rhag cael dylanwad ariannol gormodol, neu atal y gymdeithas rhag dibynnu gormod ar nifer fach o aelodau.

Nid yw cyfranddaliadau y gellir eu codi yn drosglwyddadwy fel arfer, oni bai bod aelod yn marw, pryd y caiff ei gyfranddaliadau eu trosglwyddo yn rhan o'i ystad. Mae deddfwriaeth cymdeithasau'n cynnwys darpariaeth benodol sy'n caniatáu i aelodau enwebu'r unigolyn neu'r unigolion a fydd yn elwa o'u heiddo yn y gymdeithas, gan gynnwys cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi.

---

## 2.2.3 Cyfranddaliadau trosglwyddadwy

---

Mae cyfranddaliadau trosglwyddadwy yn gyfranddaliadau y gellir eu masnachu rhwng prynwyr a gwerthwyr am bris y cytunir arno ar y cyd. Mae unrhyw fath o gymdeithas yn rhydd i gyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy, ar yr amod bod ei rheolau'n darparu ar gyfer hyn. Ni ellir codi cyfranddaliadau trosglwyddadwy o gymdeithas, oni bai bod y rheolau'n datgan fel arall. Fel y cyfryw, mae cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy'n rhan o gyfalaf parhaol y gymdeithas, sy'n ei rhyddhau o unrhyw gyfrifoldeb i ddarparu ar gyfer hylifedd. Yn lle hynny, y cyfranddaliwr sy'n gyfrifol am ddod o hyd i brynwr os yw eisiau sylweddu gwerth ei gyfranddaliadau. Ers 2012, ni fu terfyn uchaf ar faint o gyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy y gall unigolyn ei ddal mewn cymdeithas.

Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn mynnu bod gan unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu cyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy reolau sy'n darparu ar gyfer y math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau, gan gynnwys ei ffurf trosglwyddo, cofrestru'r cyfryw gyfranddaliadau, a'r gofyniad bod rhaid i'r bwrdd gydsynio ag unrhyw drosglwyddiad arfaethedig o gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'r FCA hefyd yn dweud ei fod o'r farn y byddai unrhyw drefniant marchnad sy'n caniatáu i gyfranddaliwyr

trosglwyddadwy wneud enillion cyfalaf yn anghyson â chofrestru fel arfer.

Y brif broblem mewn perthynas â chyfranddaliadau trosglwyddadwy yw diffyg cymhelliad i brynu'r cyfryw gyfranddaliadau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi gan gymdeithas. Mae prynu cyfranddaliadau pan gânt eu cyhoeddi gyntaf, mewn cymdeithas y mae angen iddi gael y cyfalaf i gychwyn, yn rhoi cymhelliad cymdeithasol amlwg i'r buddsoddwr. Ond bydd prynu'r un cyfranddaliadau gan gyfranddaliwr presennol yn helpu'r cyfranddaliwr hwnnw i gael ei arian yn ôl yn unig; nid yw o fudd i'r gymdeithas; nid oes cymhelliad cymdeithasol. Wrth gwrs, fe allai fod yn bosibl i gymdeithas greu cymhelliad ariannol trwy gynnig cyfraddau llog uchel ar gyfranddaliadau trosglwyddadwy, ond gallai hyn fod yn groes i ddiben y gymdeithas, sy'n gymdeithasol yn bennaf yn hytrach nag ariannol.

Problem arall sy'n ymwneud â chyfranddaliadau trosglwyddadwy yw na fyddant wedi'u heithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol os cânt eu cyhoeddi gan gymdeithas gydweithredol, sy'n golygu y bydd rhaid i gyfathrebiadau'r math hwn o gymdeithas gael eu harchwilio gan gynghorwr a awdurdodwyd gan yr FCA os bydd yn penderfynu cyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy. Mae'n bosibl y bydd angen iddi gydymffurfio â'r rheoliadau prosectws hefyd os bydd faint o gyfalaf cyfranddaliadau a gynigir yn uwch na'r lleiafswm. Yr unig eithriad i hyn yw cymdeithas budd cymunedol, sydd wedi'i heithrio o'r rheoliadau prosectws wrth gyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy ar yr amod bod yr arian a geir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ei dibenion busnes. Fodd bynnag, gallai cymdeithas budd cymunedol sy'n cynnig cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy fod yn gwneud cynnig hyrwyddo ariannol uniongyrchol, sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Hyrwyddo Ariannol 2005 a rheol 4.7 Llawlyfr Ymddygiad Busnes yr FCA. Mae'n rhaid i gyfathrebiadau cymdeithas o'r fath gael eu goruchwilio gan unigolyn a awdurdodwyd gan yr FCA (gweler Adran 7.3.3). Am y rhesymau hyn, mae cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy y tu allan i gylch gorchwyl yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

Yn ddamcaniaethol, mae'n bosibl cyhoeddi cyfranddaliadau sy'n drosglwyddadwy ac y gellir eu codi, ond tybir y byddai cyfalaf o'r fath yn ddarostyngedig i'r terfyn £100,000 ar ddal cyfranddaliadau unigol, ac ni fyddai ychwaith wedi'i eithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol. Mae'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau y tu allan i gylch gorchwyl yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol hefyd.

---

## 2.2.4 Cyfranddaliadau buddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr

---

Er bod aelodaeth a buddsoddi ar agor i unrhyw un sy'n cefnogi diben cymdeithas budd cymunedol fel arfer, mewn cymdeithas gydweithredol, mae'r FCA yn gwahaniaethu rhwng defnyddwyr ac aelodau nad ydynt yn ddefnyddwyr. Mae'n darparu'r canllawiau cofrestru canlynol i gymdeithasau cydweithredol sy'n bwriadu cael cyfalaf gan aelodau nad ydynt yn ddefnyddwyr:

- "Mae rheolau cymdeithas sy'n dymuno cael cyfalaf gan aelod-fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr yn darparu'n benodol ar gyfer cyfranddaliadau buddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr, ac mae'r telerau sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau hyn wedi'u datgan yn eglur
- Mae rheolau'r gymdeithas yn cyfyngu ar hawliau pleidleisio buddsoddwyr-gyfranddalwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr. Mae rheolau'r gymdeithas yn atal y categori hwn o gyfranddalwyr rhag pleidleisio ar gynnig i drosi'r gymdeithas gydweithredol yn gwmni. Fodd bynnag, gall cymdeithasau gynnwys pŵer i ethol un neu fwy o gynrychiolwyr buddsoddwyr-gyfranddalwyr

nad ydynt yn ddefnyddwyr i'r bwrdd

- Bydd pennaf reolaeth y gymdeithas yn aros gydag aelodau heblaw am aelod-fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr bob amser. Nid oes gan aelod-fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr hawliau pleidleisio a fyddai, gyda'i gilydd, yn golygu y byddai aelodau sy'n ddefnyddwyr yn colli rheolaeth ar y gymdeithas."

Yn wahanol i statud Ewropeaidd, sy'n cyfyngu pŵer pleidleisio cyfunol aelod-fuddsoddwyr i ddim mwy na chwarter o'r cyfanswm, nid yw'r FCA yn esbonio'r hyn y mae'n ei olygu wrth bennaf reolaeth. Gellid tybio ei fod yn golygu bod rhaid i aelodau sy'n ddefnyddwyr bob amser fod mewn sefyllfa i ennill pleidlais ar benderfyniad, gan gynnwys penderfyniad arbennig, a fyddai'n golygu bod rhaid i aelodau sy'n ddefnyddwyr, gyda'i gilydd, ddal o leiaf 75% o'r pleidleisiau.

---

### 2.2.5 Cyfranddaliadau a thanysgrifiadau aelodaeth

---

Cyfeirir at gyfranddaliadau anhrosoglwyddadwy, na ellir eu codi, fel cyfranddaliadau aelodaeth yn y Llawlyfr hwn. (Dylid nodi bod pob math o gyfranddaliadau mewn cymdeithas yn rhoi aelodaeth, oni bai bod y gymdeithas yn mabwysiadu rheolau sy'n eithrio'r cyfryw hawliau'n benodol o ddosbarth cyfranddaliadau.) Gall y tri math o gymdeithas gyhoeddi'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau. Pe byddai'r cyfranddaliwr yn peidio â bod yn aelod o'r gymdeithas, byddai'r cyfalaf cyfranddaliadau'n cael ei ganslo a'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn cyffredinol y gymdeithas. Mae'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau o werth sefydlog ac enwol fel arfer, yn amrywio o £1 i £25 yn nodweddiadol, er nad oes terfyn cyfreithiol ar y swm. Fodd bynnag, ni ddylai cymdeithas gydweithredol go iawn osod cyfyngiadau artiffisial ar aelodaeth agored, a gallai cyfranddaliad aelodaeth pris uchel gael ei ystyried yn gyfyngiad o'r fath.

Mae'r rheolau sy'n pennu sut mae aelodaeth yn cael ei therfynu yn bwysig wrth benderfynu ar bris cyfranddaliad aelodaeth. Gall cymdeithas godi tanysgrifiad blynyddol ar aelod, a bydd methiant i dalu'r tanysgrifiad hwn yn sail i derfynu aelodaeth fel arfer. Pan fydd cymdeithas yn codi tanysgrifiad blynyddol ar aelodau, mae'n gyffredin i'r cyfranddaliad aelodaeth fod â gwerth enwol isel, a ddidynnir o danysgrifiad y flwyddyn gyntaf fel arfer.

Mae'n rhesymol i gyfranddaliad aelodaeth gael ei osod am bris sefydlog uwch os nad yw'r gymdeithas yn codi tanysgrifiad blynyddol, ar y sail fod rhaid i bris y cyfranddaliad aelodaeth dalu am gost darparu gwasanaethau aelodaeth.

---

### 2.2.6 Dosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal

---

Mae'r FCA wedi cymeradwyo rheolau cymdeithas enghreifftiol a chanddynt ddosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal, gan gynnwys cyfranddaliadau nad oes ganddynt hawliau aelodaeth, cyfranddaliadau a chanddynt wahanol hawliau aelodaeth, a chyfranddaliadau a chanddynt wahanol delerau ac amodau. Ymdrinnir â phob un o'r amrywiadau hyn yn eu tro yn yr is-adran hon.

Mae'n anarferol i gymdeithas gyhoeddi cyfranddaliadau nad oes ganddynt hawliau aelodaeth, a phan fydd hyn yn digwydd, mae'n gyffredin i gyfyngu gwerthu'r cyfranddaliadau hyn i aelodau yn unig. Gwneir hyn, fel arfer, oherwydd bod gan y gymdeithas aelodaeth sefydledig eisoes, yn



seiliedig ar gyfranddaliadau aelodaeth a thanysgrifiadau blynyddol, a'i bod eisiau cynnal goruchafiaeth cyfranddaliadau aelodaeth ar draul yr ail fath hwn o gyfranddaliadau. Fodd bynnag, gallai'r trefniant hwn atal buddsoddwyr newydd, sy'n annhebygol o ddymuno talu tanysgrifiad blynyddol i gynnal eu buddsoddiad.

Mae'r FCA wedi cymeradwyo rheolau enghreifftiol ar gyfer cymdeithasau a chanddynt ddosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal sydd â gwahanol hawliau pleidleisio. Os bydd cymdeithas gydweithredol go iawn eisiau cynnig dosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal, bydd rhaid iddi barhau i gynnal egwyddor democratiaeth aelodau, er y bydd modd cael cynrychiolaeth adrannol ar y pwyllgor rheoli, a gellir eithrio dosbarth aelodaeth rhag pleidleisio ar faterion sensitif.

Gellir defnyddio dosbarthiadau cyfranddaliadau amryfal i amrywio telerau ac amodau pob dosbarth o gyfranddaliadau hefyd. Er enghraifft, gallai cymdeithas gymell buddsoddi mewn cymdeithas cyn-gychwyn trwy roi telerau ffafriol i fuddsoddwyr cynnar ar gyfer codi cyfranddaliadau a/neu gyfraddau llog ffafriol. Neu, gallai cymdeithas benderfynu sefydlu dosbarth newydd o gyfranddaliadau ar gyfer prosiect buddsoddi penodol, gyda'i delerau codi cyfranddaliadau a'i gyfraddau llog ei hun, sy'n wahanol i'r telerau sy'n berthnasol i'r dosbarth cyfranddaliadau gwreiddiol. Mae trefniadau o'r fath yn gosod dyletswydd ar y gymdeithas i gynnal gweithdrefnau cyfrifyddu ac adrodd ariannol tryloyw.

---

### 2.2.7 Ecwiti ymdrech

---

Mae llawer o gymdeithasau newydd yn ddibynnol iawn ar eu haelodau sefydlu a gwirfoddolwyr i wneud gwaith di-dâl i helpu i gychwyn y fenter. Cyfeirir at hyn weithiau fel ecwiti ymdrech. Os bydd cymdeithas yn penderfynu cyhoeddi ecwiti ymdrech, dylai wneud hynny trwy dalu'r unigolyn am y gwasanaethau a ddarparwyd, gan ddilyn cyfraith treth incwm y Deyrnas Unedig, a dylai'r unigolyn hwnnw brynu cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yn wirfoddol ar yr un telerau ac amodau ag aelodau eraill. Dylai cymdeithasau newydd roi ystyriaeth ofalus i'r colledion gweithredu a ddaw yn sgil hyn, a'i effaith bosibl ar ddiddyledrwydd.

## 2.3 HYLIFEDD CYFRANDDALIADAU Y GELLIR EU CODI

Mae cyfranddaliadau y gellir eu codi yn cynnig ffordd i fuddsoddwyr dynnu'n ôl o fuddsoddiad nad yw ar gael i fuddsoddwyr mewn cyfranddaliadau trosglwyddadwy. Yr hylifedd hwn yw'r prif reswm pam mae'r math hwn o gymdeithas mor addas i fenter gymunedol sydd â llawer o fuddsoddwyr. Y ffordd orau y gellir cyflawni hylifedd i fuddsoddwyr a chanddynt gyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy yw i'r fenter fod yn ddigon mawr i gael ei rhestru ar gyfnewidfa stoc. Mae cyfnewidfa stoc yn gweithio pan fydd digon o brynwyr a gwerthwyr yn dangos diddordeb mewn cyfranddaliadau menter i gynhyrchu hylifedd. Fel arfer, bydd angen i fenter fod wedi cyhoeddi rhwng £10 miliwn a £25 miliwn o gyfalaf cyfranddaliadau cyn iddi gyflawni hylifedd ar gyfnewidfa stoc. O ran mentrau llai, darperir hylifedd fel arfer trwy werthu'r holl gyfranddaliadau i unigolyn neu fenter arall, ond gellir gwneud penderfyniadau o'r fath yn rhwydd dim ond os yw perchenogaeth y fenter wedi'i chyfyngu i lond dyrnaid o gyfranddalwyr sydd â rheolaeth fwyafrifol. Fel arall, mae rhai mentrau'n ymwneud â gwasanaethau cyfateb bargaen, sy'n golygu bod darparwr gwasanaeth trydydd parti'n cyfateb prynwyr a gwerthwyr cyfranddaliadau trosglwyddadwy, ar ran y fenter.

Mae cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yn datrys problem hylifedd ar gyfer buddsoddwyr, ond mae'n gwneud hynny trwy greu cyfrifoldeb i gymdeithasau ddarparu'r hylifedd hwnnw. Dyma un o'r gwahaniaethau mawr rhwng cymdeithas a chwmni, nad yw'n gyfrifol am ddarparu hylifedd ar gyfer cyfranddaliadwyr oni bai ei fod wedi cyhoeddi cyfranddaliadau adbrynadwy.

Yn ôl canllawiau cofrestru newydd yr FCA, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, dylai cymdeithas ganiatáu codi cyfranddaliadau dim ond "os oes ganddi arian dros ben o fasnachu sy'n cyfateb i werth y cyfranddaliadau dan sylw neu'n fwy na hynny, ac mae'r cyfarwyddwyr yn credu bod y gymdeithas yn gallu fforddio talu ei dyledion o ystyried ei holl rwymedigaethau (gan gynnwys p'un a fydd yn gallu talu ei dyledion ar y dyddiad codi, ac am flwyddyn wedi hynny, unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol neu arfaethedig), a sefyllfa'r gymdeithas ar ddyddiad y trafodyn".

Dyma'r tro cyntaf i'r FCA wneud datganiad polisi cyhoeddus ynglŷn â chodi cyfalaf cyfranddaliadau. Nid yw Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn dweud llawer am godi cyfalaf cyfranddaliadau. Fodd bynnag, mae Adran 124 y Ddeddf yn gwneud aelodau'n gwbl atebol am werth eu cyfalaf cyfranddaliadau a ddaliwyd hyd at flwyddyn cyn i'r gymdeithas gael ei dirwyn i ben, pe byddai'r gymdeithas yn mynd yn ansolfent, hyd yn oed os yw'r aelod wedi codi ei gyfalaf cyfranddaliadau ac wedi peidio â bod yn aelod o'r gymdeithas. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar gyfarwyddwyr i beidio â chaniatáu codi cyfalaf cyfranddaliadau os oes sail i gredu y gallai'r gymdeithas fynd yn ansolfent. Dylai codi cyfalaf cyfranddaliadau gael ei gyfyngu neu ei atal os bydd rhwymedigaethau'r gymdeithas yn mynd yn fwy na'i hasedau, neu mewn perygl o fynd felly yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Y prif arwydd sy'n dangos y gallai cymdeithas fynd yn ansolfent yw os yw wedi cronni colledion neu gronfeydd wrth gefn negyddol. Bydd unrhyw swm o gronfeydd wrth gefn negyddol yn golygu na fyddai'r gymdeithas yn gallu talu gwerth llawndaledig llawn ei chyfalaf cyfranddaliadau pe byddai'n peidio â masnachu. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai cymdeithas naill ai atal codi cyfranddaliadau, neu ganiatáu codi cyfranddaliadau gostyngol yn unig os yw ei rheolau'n darparu ar gyfer trefniant o'r fath (gweler Adran 3.2.9). Os bydd cronfeydd wrth gefn negyddol cymdeithas yn fwy na chyfanswm ei chyfalaf cyfranddaliadau, golyga hynny ei bod yn ansolfent, a dylai roi'r gorau i fasnachu, oni bai bod gan y cyfarwyddwyr sail i gredu bod y gymdeithas yn masnachu'n broffidiol ac y gall leihau ei cholledion cronedig.

Ystyrir bod gofyniad yr FCA sy'n mynnu y dylai arian dros ben o fasnachu gyfateb i gyfranddaliadau a godir, neu fod yn fwy na nhw, yn golygu na ddylai cymdeithas ganiatáu codi cyfranddaliadau os yw'r gymdeithas yn ansolfent, neu os gallai fynd yn ansolfent, oni bai bod rheolau'r gymdeithas yn darparu ar gyfer codi cyfranddaliadau cyfyngedig mewn amgylchiadau o'r fath. Byddai'r dehongliad hwn o bolisi'r FCA yn golygu y gallai codi cyfranddaliadau gael ei ariannu hefyd gan fewnlif cyfalaf cyfranddaliadau newydd, ailfuddsoddi llog cyfranddaliadau a difidendau gan aelodau, a gostyngiadau mewn gofynion cyfalaf cymdeithas.

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng diddyledrwydd a hylifedd. Nid yw'r ffaith syml bod gan gymdeithas arian parod i dalu am godi cyfranddaliadau yn golygu ei bod yn solfent, nac y gellir caniatáu codi cyfranddaliadau. Yn yr un modd, gallai cymdeithas solfent sydd ag elw cronedig fod mewn sefyllfa lle nad yw'n gallu caniatáu codi cyfranddaliadau oherwydd nid oes ganddi arian parod ar gael i wneud hynny. Mae gan gymdeithas solfent ddyletswydd i gynnal sefyllfa arian parod sy'n caniatáu iddi gyflawni telerau ac amodau ei chyfalaf cyfranddaliadau.

Gall cymdeithas reoli ei hylifedd cyfalaf mewn sawl ffordd. Mae ganddi bwerau i osod telerau ac amodau ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau yn ei rheolau (gweler Adran 3.2.9). Mae hyn fel arfer yn cynnwys rheolau sy'n mynnu bod aelodau'n rhoi cyfnod rhybudd penodol, o wythnos i flwyddyn, o'u cais i godi rhywfaint o'u cyfalaf neu eu holl gyfalaf; rheolau sy'n gosod terfyn ar gyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn unrhyw flwyddyn ariannol; a rheolau sy'n caniatáu i'r gymdeithas ostwng gwerth ei chyfalaf cyfranddaliadau. Yn ogystal, gall cymdeithas fabwysiadu rheol sy'n galluogi'r pwyllgor rheoli i atal codi cyfranddaliadau. Mae'r rheol hon yn orfodol os yw'r gymdeithas am gyflwyno ei chyfalaf cyfranddaliadau fel ased ar ei mantolen.

Pa ddull bynnag o ddarparu hylifedd a ddefnyddir, bydd angen i'r gymdeithas sefydlu balansau arian parod sy'n gallu bodloni ceisiadau am godi cyfranddaliadau. Gall cymdeithas ddarparu hylifedd ar gyfer aelodau mewn pum prif ffordd. Mae'r holl dulliau hyn yn dibynnu ar y ffaith bod y gymdeithas yn solfent yn y lle cyntaf. Cyn cyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol, dylai cymdeithas benderfynu pa un o'r dulliau hyn y bydd yn defnyddio, a sicrhau bod hyn wedi'i adlewyrchu yn ei chynllun busnes a'i dogfen cynnig cyfranddaliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar fan cychwyn y gymdeithas, ei gweithgareddau masnachu, ei hamcanion a'i diben. Gellir defnyddio'r dulliau yn unigol neu gyda'i gilydd.

- **Cael cyfalaf cyfranddaliadau newydd:** Gellir cyflawni hyn trwy gynnig agored, a fydd yn galluogi'r gymdeithas i recriwtio aelodau newydd a chael cyfalaf cyfranddaliadau newydd. Mae cynigion agored yn gweithio orau pan fydd y gymuned eisoes yn ymwneud â'r gymdeithas fel cwsmeriaid, gwirfoddolwyr, cyflogeion, neu gyflenwyr, a fydd yn gwneud y gwahoddiad i ddod yn aelod ac yn fuddsoddwr yn fwy atyniadol. Gellir annog aelodau presennol i fuddsoddi cyfalaf ychwanegol newydd hefyd.
- **Ailfuddsoddi gan aelodau presennol:** Mae'n gyffredin i gymdeithasau gredydu cyfrifon cyfranddaliadau aelodau presennol â llog cyfranddaliadau a/neu daliadau difidend, gan felly ailfuddsoddi'r arian hwn yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r gymdeithas. Yn dibynnu ar raddfa'r taliadau hyn, gallant fod yn ffynhonnell sylweddol o gyfalaf newydd. Y twf canlyniadol yng ngwerth cyfrif cyfranddaliadau aelod fydd yr agosaf y daw aelod at gyflawni enillion cyfalaf mewn cymdeithas.
- **Adbrynu o gronfeydd wrth gefn:** Caiff cymdeithas broffidiol sy'n cronni cronfeydd wrth gefn ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i ariannu codi cyfranddaliadau a lleihau ei rhwymedigaeth am log cyfranddaliadau.
- **Gostyngiad mewn gofynion cyfalaf:** Mae rhai cymdeithasau, yn enwedig y rhai hynny yn y sector ynni cymunedol, yn cynllunio ar gyfer gostwng eu gofynion cyfalaf yn ystod oes eu hasedau sefydlog, a dirwyn y gymdeithas i ben ar ryw adeg yn y dyfodol a bennwyd o flaen llaw. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhesymol caniatáu codi cyfalaf cyfranddaliadau yn unol â dibrisiad asedau sefydlog y gymdeithas.
- **Disodli â chyfalaf benthyciadau:** Gallai cymdeithasau solfent sydd wedi ailfuddsoddi cronfeydd wrth gefn mewn asedau busnes ac nad oes ganddynt arian parod i ariannu codi cyfranddaliadau benderfynu benthycia cyfalaf i ddarparu hylifedd.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau newydd yn atal codi cyfalaf cyfranddaliadau am gyfnod cychwynnol o hyd at bum mlynedd. Gellir cyfiawnhau hyn gan amcanestyniadau ariannol y gymdeithas a phan fydd yn disgwyl cael elw argadwedig cronedig. Fodd bynnag, mae anfanteision yn gysylltiedig ag atal codi cyfranddaliadau am gyfnodau hir, yn enwedig os yw hyn yn golygu nad yw cymdeithas yn gallu gwneud cynnig agored a recriwtio aelodau newydd (gweler Adran 4.6).

## 2.4 DARPARIAETHAU CLO ASEDAU

Dyfais gyfansoddiadol yw clo asedau sy'n atal dosbarthu asedau gweddilliol i aelodau. Diben clo asedau yw sicrhau nad oes modd i fudd cyhoeddus neu fudd cymunedol unrhyw arian dros ben argadwedig neu werth gweddilliol gael ei feddiannu er budd preifat aelodau. Mae cloeon asedau'n nodwedd ddiffiniol o gyfranddaliadau cymunedol, oherwydd eu bod yn dileu'r cyfle i aelodau wneud enillion cyfalaf tybiannol o ganlyniad i ddiddymu neu waredu cymdeithas, neu ei throsi'n gwmni.

Mae gan elusennau (gan gynnwys cymdeithasau budd cymunedol elusennol) a Chwmnïau Budd Cymunedol gloeon asedau statudol. Gall cymdeithasau fabwysiadu clo asedau gwirfoddol, ond dim ond cymdeithasau budd cymunedol all fabwysiadu clo asedau statudol.

Cyflwynodd Rheoliadau Cymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngiad ar Ddefnyddio Asedau) 2006, a'r rheoliadau cyfatebol ar gyfer Gogledd Iwerddon, ddewis i gymdeithasau budd cymunedol fabwysiadu clo asedau statudol a chanddo nodweddion tebyg i'r rhai sydd ar gael i Gwmnïau Budd Cymunedol. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at gymdeithasau budd cymunedol sy'n mabwysiadu'r cyfyngiad hwn fel 'cymdeithasau budd cymunedol rhagnodedig'. Gall unrhyw gymdeithas budd cymunedol, heblaw am y rhai hynny sy'n gymdeithasau budd cymunedol elusennol neu'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, fod yn rhagnodedig.

Mae'r cyfyngiad hwn ar ddefnyddio asedau'n golygu bod rhaid i unrhyw asedau gweddilliol, ar ôl i gyfalaf cyfranddaliadau'r holl aelodau gael ei ad-dalu yn unol â rheolau'r gymdeithas, gael eu trosglwyddo i un neu fwy o'r canlynol: cymdeithas budd cymunedol rhagnodedig arall, cwmni budd cymunedol, elusen, cymdeithas budd cymunedol elusennol, landlord cymdeithasol cofrestredig (yn ddarostyngedig i amodau), neu unrhyw gorff cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon neu dalaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Gall y cyfyngiad gael ei gynnwys yn rheolau cymdeithas budd cymunedol newydd, neu gall cymdeithas budd cymunedol bresennol ei fabwysiadu trwy benderfyniad

arbennig. Mae Atodlen 1 y Rheoliadau'n nodi union eiriad y rheolau y mae'n rhaid eu mabwysiadu. Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol fod â'r math hwn o glo asedau statudol, neu fod yn gymdeithas budd cymunedol elusennol, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (gweler Adran 8.6).

Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol fod â chlo asedau sy'n bodloni gofynion y gyfraith elusennau. Ni ellir defnyddio Rheoliadau 2006 at y diben hwn gan nad ydynt yn cyfyngu'r defnydd o asedau gweddilliol i ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r FCA yn mynnu bod gan bob cymdeithas budd cymunedol reolau sy'n atal yr elw neu'r asedau rhag cael eu dosbarthu i aelodau, boed hynny'n glo asedau statudol neu'n glo asedau gwirfoddol. Mae ganddo bwerau ychwanegol o dan is-ddeddfwriaeth i orfodi clo asedau statudol, sy'n cynnwys y pŵer i gyhoeddi hysbysiadau rhybudd a gorfodi, ac i fynnu iawndal gan swyddogion y gymdeithas.

Mae cymdeithasau budd cymunedol sydd wedi dewis peidio â mabwysiadu'r cyfyngiadau a osodir

yn Rheoliadau 2006 yn rhydd i ddiwygio eu rheolau ynglŷn â defnyddio asedau, yn amodol ar gymeradwyaeth yr FCA. Gallai hyblygrwydd y math hwn o glo asedau fod yn fwy atyniadol i gymdeithas budd cymunedol, oherwydd gallai ddiwygio ei rheolau yn y dyfodol a gwneud cais i fod yn gymdeithas budd cymunedol elusennol, sy'n rhywbeth na allai cymdeithas â'r clo asedau rhagnodedig ei wneud.

Mae sefyllfa cymdeithasau cydweithredol yn llai eglur. Nid yw'r FCA yn darparu canllawiau penodol ar gloeon asedau ar gyfer cymdeithasau cydweithredol. Fodd bynnag, mae'n amlygu pwysigrwydd Datganiad yr ICA ar Hunaniaeth Gydweithredol wrth benderfynu p'un a yw cymdeithas yn un gydweithredol go iawn, ac mae'r drydedd egwyddor ynglŷn â chyfranogiad economaidd aelodau'n cyfeirio at y ffaith bod gan gymdeithasau cydweithredol eiddo cyffredin a chronfeydd wrth gefn anwahanadwy, er ei bod yn goleddfu hyn trwy ddefnyddio geiriau megis 'fel arfer' ac 'o bosibl' (gweler Adran 2.1.2). Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau cydweithredol yn mabwysiadu clo asedau gwirfoddol yn eu rheolau. Mae lle i bennu bod y rheolau hyn yn hollbwysig i'r gymdeithas trwy fynnu trothwy pleidleisio uwch i newid y rheolau hyn. Fodd bynnag, nid oes cyfrwng cyfreithiol i ymsefydlu'r rheolau hyn er mwyn eu hatal rhag cael eu newid mewn unrhyw amgylchiadau.

Mae'r un peth yn berthnasol i gloeon asedau gwirfoddol mewn cymdeithasau budd cymunedol. Yr unig ffordd y gellir ymsefydlu'r rheol clo asedau yw trwy fabwysiadu clo asedau statudol.

Gall cymdeithas gael ei throsi'n gwmni, yn amodol ar ddarpariaethau Adrannau 112-113 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, sy'n mynnu bod cymdeithasau sy'n dymuno trosi'n gwmni yn pasio penderfyniad arbennig i'r perwyl hwnnw, a gefnogir gan bleidlais fwyafrifol gan dri chwarter o leiaf y mae hanner yr aelodau o leiaf wedi cymryd rhan ynddi (gweler Adran 2.6.4.)

## 2.5 DYLED

### 2.5.1 Benthycia

Mae'n ofynnol i bob cymdeithas ddatgan yn ei rheolau y telerau a'r amodau ar gyfer benthycia cyfalaf oddi wrth aelodau ac eraill, gan gynnwys ffynonellau masnachol. Gallai'r telerau hyn gynnwys manylion y warant a gynigir i fenthycwyr a'r uchafswm y gellir ei fenthycia. Mae deddfwriaeth cymdeithasau'n nodi gwahaniaeth pwysig rhwng benthyciadau ac adneuron: defnyddir benthyciadau at ddibenion busnes y gymdeithas, tra gellir defnyddio adneuron at ddibenion eraill. Fodd bynnag, mae derbyn adneuron yn weithgaredd a reoleiddir ac mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n mabwysiadu rheolau sy'n ei wahardd yn benodol.

Nid oes cyfyngiadau cyfreithiol ar delerau ac amodau'r trefniadau benthycia y bydd cymdeithas yn cytuno arnynt. Ymdrinnir â hyn fel penderfyniad masnachol y gymdeithas. Nid oes terfyn ar faint o arian y caiff aelod, neu unigolyn arall, ei fenthycia i gymdeithas, heblaw'r uchafswm a nodir yn rheolau'r gymdeithas. Golyga hyn y gallai aelodau sy'n dymuno buddsoddi mwy na'r uchafswm cyfreithiol ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi fenthycia cyfalaf ychwanegol, ar delerau a gytunwyd gyda'r gymdeithas. Gellir gwarantu'r benthyciadau hyn yn erbyn asedau penodol, neu'n amodol ar arwystl cyfnewidiol yn erbyn pob ased, neu gallant fod heb warant. Mae'r ddwy ochr yn rhydd i gytuno ar ba gyfraddau llog a thelerau ad-dalu bynnag ag y dymunant.

Mae Adrannau 59 i 64 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn cynnwys darpariaethau i gymdeithas gofrestru arwystl yn erbyn ei hasedau gyda'r FCA. Mae darpariaethau ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr, ar gyfer yr Alban, ac ar gyfer Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae'n bosibl cofrestru arwystl cyfnewidiol yn unig yn erbyn asedau cymdeithas. Yng Nghymru a Lloegr, mae'n bosibl cofrestru arwystlon sefydlog a chyfnewidiol. Yn y ddau achos, mae darpariaethau Deddf 2014 yn ffurfio un rhan o gyfres gymhleth o reolau cyfreithiol sy'n penderfynu ar effaith a blaenoriaeth y warant a roddir i'r credydwr dros asedau'r gymdeithas. Bydd y rhan fwyaf o gredydwr gwarantiedig yn mynnu cofrestru eu harwystl gyda'r FCA, felly mae'n ofynnol i'r graddau hynny. Hefyd, mae arwystlon cofrestredig ar gael i'w harchwilio ar Gofrestr Cwmnïau Cydfuddiannol yr FCA, a fydd o ddiddordeb i gredydwr cymdeithas ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, ac sydd hefyd yn cyfrannu at bennu blaenoriaeth arwystlon dros eiddo'r gymdeithas. Mae proses gofrestru debyg yn berthnasol i gymdeithasau a gofrestrir yng Ngogledd Iwerddon.

Mae cymdeithas sy'n ceisio cael cyfalaf trwy gynnig offerynnau dyled anhrosglwyddadwy, gan gynnwys bondiau, stoc benthyciadau, dyledebau neu unrhyw fath arall o offeryn dyled, wedi'i heithrio o reoliadau prosectws a hyrwyddo ariannol. Mae offerynnau dyled trosglwyddadwy a gyhoeddir gan gymdeithas wedi'u heithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol hefyd, ond mae hyn yn berthnasol i gyfathrebiadau nad ydynt yn amser real neu gyfathrebiadau amser real a geisiwyd yn unig (gweler Adran 7.3.3).

---

## 2.5.2 Bondiau

---

Math o gytundeb benthyciad rhwng unigolyn a menter yw bond. Mae cyfalaf yn cael ei fenthycu mewn gwerthoedd bach, rhwng £100 a £500 yn nodweddiadol, a rhoddir tystiolaeth ohono trwy fond neu gytundeb sy'n datgan bod y gymdeithas yn addo talu llog ac ad-dalu'r cyfalaf i ddeiliad y bond ar ddyddiad penodol. Gellir trosglwyddo bondiau rhwng trydydd partion fel arfer. Defnyddir bodiau'n helaeth gan awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau credyd a chwmnïau, ond anaml y'u defnyddir gan fentrau cymunedol bach. Nid yw bondiau'n rhoi aelodaeth na hawliau pleidleisio.

Mae'n well gan y rhan fwyaf o gymdeithasau gyhoeddi cyfranddaliadau na bondiau, a hynny am resymau eithaf syml. Mae'n rhaid ad-dalu dyled yn unol ag amserlen y cytunwyd arni o flaen llaw, a bydd cyfradd llog a drefnwyd o flaen llaw yn berthnasol iddi fel arfer. Nid yw ecwiti, yn enwedig cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, yn ddarostyngedig i unrhyw amserlen ad-dalu na chyfraddau llog a drefnwyd o flaen llaw.

Ond bydd bondiau'n briodol mewn rhai sefyllfaoedd, wrth gwrs. Oherwydd eu bod yn cynnig mwy o sicrwydd, gallai bondiau fod yn fenter ariannol fwy atyniadol i fuddsoddwyr. Ni all elusennau cofrestredig gyhoeddi ecwiti sy'n dwyn didendau, felly gallai bondiau fod yn ddewis arall da. Gallai sefydliadau eraill, fel cwmnïau cydweithredol gweithwyr, hoffi'r syniad o gael cyfalaf gan eu cefnogwyr heb orfod cyfaddawdu eu hegwyddorion rheolaeth gan weithwyr. Mae bondiau'n cynnig datrysiad da i'r broblem hon gan nad oes hawliau pleidleisio'n gysylltiedig â nhw. Gallai bondiau fod yn atyniadol i aelodau sydd eisoes wedi buddsoddi'r uchafswm o £100,000 a ganiateir mewn cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi ond sy'n dymuno buddsoddi mwy o hyd, er y dylai cymdeithasau fod yn ofalus ynglŷn â dibynnu gormod ar aelodau, a dylent fel arfer atal unrhyw aelod rhag buddsoddi mwy na 10% o'r cyfalaf a gafwyd gan gymdeithas. Mae'n bosibl y byddai'n well gan rai buddsoddwyr bondiau â chyfraddau llog a chyfnodau adbrynu sefydlog.

Mae rhai cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau tai mwy wedi troi at farchnad fondiau Cyfnewidfa Stoc Llundain i gael cyfalaf, ond gan nad yw'r cyhoeddiadau hyn wedi'u targedu at y cyhoedd, ni ellir eu hystyried yn fath o gyllid cymunedol.

Nid yw bondiau'n darparu ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Nid yw deiliaid bondiau'n aelodau, ac nid oes ganddynt hawliau pleidleisio ym materion y gymdeithas. Nid yw'r un cyfle ar gael i gynnwys deiliaid bondiau yng ngweithgareddau busnes y gymdeithas fel cwsmeriaid, gwirfoddolwyr neu aelodau pwyllgor rheoli. Nid yw bondiau'n rhoi teitl cyfreithiol i'r fenter nac yn cyfleu perchenogaeth gymunedol.

Mae anfanteision eraill yn gysylltiedig â bondiau. Rhaid eu had-dalu erbyn dyddiad penodol, sy'n golygu y bydd rhaid gwneud elw a'i neilltuo i ariannu'r ad-daliadau hyn. Er y gallai fod yn bosibl disodli hen fondiau â chyhoeddiad newydd, bydd hyn yn golygu cost unwaith eto wrth gael cyfalaf, a'r risg gysylltiedig na fydd buddsoddwyr eisiau adnewyddu eu bondiau. Gall bondiau fod yn ddrutach hefyd, yn enwedig os cânt eu cyhoeddi gyda chyfradd llog sefydlog uchel sy'n fwy na chost dyled fasnachol yn ystod yr un cyfnod.

Mae ffyrdd eraill o gael cyfalaf benthyciadau gan y cyhoedd, gan gynnwys cynnig stoc benthyciadau neu stoc dyledebau: mae'r cyntaf yn cynrychioli risg lwyr, tra bod yr olaf fel arfer yn cael ei gwarantu yn erbyn ased penodol a ddelir gan y fenter. Mae gwerthu unrhyw fath o gynnyrch dyled i'r cyhoedd yn weithgaredd a reoleiddir, sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a'i Gorchmynion Rheoleiddio cysylltiedig, oni bai bod eithriadau. Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol wedi'u heithrio fel arfer.

---

### 2.5.3 Benthyciadau a stoc benthyciadau

---

Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn cynnwys canllawiau i gymdeithasau sy'n bwriadu cyhoeddi stoc benthyciadau neu fathau tebyg o warrant ar gyfer dyled. Mae'n ceisio sicrhau nad yw unrhyw hawliau a roddir i'r deiliad stoc benthyciadau neu fenthycwyr eraill yn tansilio gallu'r gymdeithas i gydymffurfio â'r amodau cofrestru. Mae tri phrif faes sy'n achosi pryder.

Yn gyntaf, mae'r FCA yn awyddus i sicrhau nad yw'r cytundeb stoc benthyciadau'n rhoi unrhyw hawliau cyfansoddiadol i'r deiliad stoc benthyciadau neu'r benthyciwr a allai beryglu rheolaeth aelodau o'r gymdeithas.

Yn ail, er bod yr FCA yn derbyn bod y gyfradd llog ar unrhyw fath o fenthyciad yn fater masnachol, ni ddylai'r cytundeb benthyciad fod yn gyfrwng i ddosbarthu elw. Mae hyn yn awgrymu na fyddai unrhyw fath o drefniant rhannu elw yn dderbyniol i'r FCA.

Yn olaf, mae'r FCA yn cydnabod bod llawer o gytundebau stoc benthyciadau'n cynnwys trefniant i ganiatáu i stoc benthyciadau gael ei throsi'n gyfranddaliadau yn y dyfodol. Os yw trefniadau o'r fath am gael eu cynnwys mewn cytundeb, rhaid iddynt fod ar ffurf sy'n sicrhau bod y gymdeithas yn parhau i gydymffurfio â'r amodau ar gyfer cofrestru. Dylai hyn gynnwys darpariaethau i gynnwys y cyfranddaliadau unigol uchaf y caniateir i aelod eu dal yn gyfreithiol mewn cymdeithas, a'r trefniadau ar gyfer cyfranddaliadau buddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr a amlygwyd yn Adran 2.2.4.

## 2.6 TROSI STRWYTHURAU CYFREITHIOL

### 2.6.1 Trosi cwmni'n gymdeithas

Gall cwmni, trwy benderfyniad arbennig, gael ei drosi'n gymdeithas gofrestredig. Mae gofynion ychwanegol yn berthnasol i gwmnïau budd cymunedol (gweler Adran 2.6.2).

Penderfyniad arbennig yw penderfyniad sy'n cael ei basio gan fwyafrif o dri chwarter o leiaf o'r cyfranddaliadau pleidleisio, os yw'n gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, neu dri chwarter yr aelodau sy'n pleidleisio, os yw'n gwmni cyfyngedig trwy warant. Mae'n rhaid i gopi o'r penderfyniad arbennig hwn, wedi'i lofnodi gan ysgrifennydd y cwmni a chadeirydd y cyfarfod y cymeradwywyd y penderfyniad ynddo, gael ei gyflwyno gyda'r cais i drosi'n gymdeithas.

Gall cwmni ailgofrestru naill ai fel gymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol, oni bai bod y cwmni'n elusen gofrestredig. Gall elusen gofrestredig drosi'n gymdeithas budd cymunedol elusennol yn unig, yn amodol ar gydsyniad y rheoleiddiwr elusennau ar gyfer y wlad y mae'r elusen wedi'i lleoli ynddi (gweler Adran 2.6.3). Mae'n rhaid i reolau'r gymdeithas newydd gael eu lofnodi gan yr ysgrifennydd a thri aelod o'r cwmni.

Os yw'r fenter yn gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, rhaid gofalu na fydd gwerth y cyfranddaliadau y gellir eu codi a ddelir gan unrhyw aelod unigol yn y gymdeithas newydd yn fwy na £100,000, sef yr uchafswm a ganiateir gan y gyfraith. Os yw aelod o'r cwmni'n dal mwy na £100,000 o gyfalaf cyfranddaliadau llawndaledig, dylai gweddill y cyfalaf cyfranddaliadau gael ei ddynodi'n gyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy yn y gymdeithas, a rhaid i'r rheolau gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r gymdeithas gyhoeddi'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau. Fel arall, gallai'r cwmni benderfynu adbrynu cyfranddaliadau aelodau y mae eu daliadau cyfranddaliadau'n fwy na £100,000, ar yr amod bod ganddo'r cronfeydd wrth gefn i wneud hynny, neu gallai ofyn i aelodau drosi unrhyw daliadau cyfranddaliadau sy'n weddill yn gytundeb benthyciad. Byddai angen i'r cytundebau hyn fod ar waith cyn i'r cwmni gael ei drosi.

Os yw'r cwmni'n gwmni cyfyngedig trwy warant, rhaid cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i aelodau'r cwmni ddod yn aelodau'r gymdeithas trwy brynu'r lleiafswm cyfalaf cyfranddaliadau a nodir yn ei rheolau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n elusen gofrestredig, y bydd rhaid iddo gael cydsyniad y rheoleiddiwr elusennau yn y wlad y mae wedi'i lleoli ynddi yn gyntaf (gweler Adran 2.6.3).

### 2.6.2 Trosi cwmni budd cymunedol yn gymdeithas

Mae Adran 6A Rheoliadau Cwmnïau Budd Cymunedol 2005 yn caniatáu i gwmni budd cymunedol drosi'n gymdeithas, ond dim ond ar ffurf gymdeithas budd cymunedol sydd â chyfyngiad ar ddefnyddio ei hasedau yn unol â Rheoliadau Cymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngiad ar Ddefnyddio Asedau) 2006 neu'r rheoliadau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon (gweler Adran 2.4). Ni all cwmni budd cymunedol drosi'n gymdeithas gydweithredol.

Er mwyn trosi, mae'n rhaid i benderfyniad arbennig gael ei basio gan bleidlais fwyafrifol o dri



chwarter o blaid. Mae'n rhaid i gopi o'r penderfyniad arbennig hwn gael ei gyflwyno i'r Cofrestrydd Cwmnïau, a fydd yn ei anfon ymlaen at y Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol. Mae'n rhaid cyflwyno copi o reolau'r gymdeithas newydd gyda'r penderfyniad arbennig, ynghyd â datganiad gan aelod awdurdodedig o'r cwmni sy'n cadarnhau, yn ei farn ef, pan fydd y rheolau newydd yn dod i rym, y bydd y cwmni'n dod yn gymdeithas budd cymunedol sydd â'r cyfyngiad gofynnol ar ddefnyddio asedau.

Mae'n rhaid i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol benderfynu p'un a yw'r cwmni'n gymwys i beidio â bod yn gwmni budd cymunedol. Bydd y cwmni'n gymwys os, o dan Ddeddf Cwmnïau (Archwilio, Ymchwiliadau a Mentrau Cymunedol) 2004, nad yw'n destun ymchwiliad gan archwilydd, cyfarwyddwr neu reolwr a benodwyd gan y Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol; nad yw'n destun achos sifil ar hyn o bryd a gychwynwyd gan y Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol; nad yw unrhyw ran o'i eiddo'n cael ei dal gan y Daliwr Eiddo Swyddogol fel ymddiriedolwr y cwmni; ac nad yw'n destun unrhyw ddeiseb i gael ei ddirwyn i ben fel cwmni.

Mae'n rhaid i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol roi gwybod i'r cwmni am ei benderfyniad. Os bydd y Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol yn datgan bod y cwmni'n gymwys i beidio â bod yn gwmni budd cymunedol, rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei anfon i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ynghyd â chopi o'r penderfyniad arbennig i drosi, a rheolau'r gymdeithas sy'n cynnwys y cyfyngiad ar ddefnyddio asedau. Yn olaf, mae'n rhaid i dystysgrif a roddwyd gan yr FCA sy'n cadarnhau bod y gymdeithas wedi cael ei chofrestru, ynghyd â chopi o benderfyniad y Rheoleiddiwr Cwmnïau Budd Cymunedol, gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd Cwmnïau er mwyn i'r trosi ddod i rym.

Os yw'r cwmni budd cymunedol yn gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, dylai ddefnyddio'r un ymagwedd at gyfalaf cyfranddaliadau ag unrhyw gwmni preifat arall sy'n gyfyngedig trwy gyfranddaliadau (gweler Adran 2.6.1).

Nid yw'n bosibl trosi cwmni budd cymunedol yn gymdeithas budd cymunedol elusennol yn uniongyrchol, o ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodir gan y Rheoliadau Cwmnïau Budd Cymunedol ar y math o glo asedau y mae'n rhaid i'r gymdeithas budd cymunedol ei fabwysiadu. Yn lle hynny, byddai'n rhaid i gwmni budd cymunedol wneud cais yn gyntaf i'r rheoleiddiwr elusennau perthnasol i drosi'r cwmni budd cymunedol yn gwmni elusennol, ac yna gwneud cais i'r FCA i drosi'n gymdeithas budd cymunedol elusennol, unwaith eto gyda chydsyniad y rheoleiddiwr elusennau perthnasol.

---

### 2.6.3 Trosi elusen gofrestredig yn gymdeithas budd cymunedol elusennol

---

Yng Nghymru a Lloegr, gall elusen gofrestredig sydd hefyd yn gwmni cyfyngedig trwy warant gael ei throsi'n gymdeithas budd cymunedol elusennol, ond dim ond gyda chydsyniad y Comisiwn Elusennau. Byddai angen i unrhyw fath arall o elusen gofrestredig ddilyn y gweithdrefnau diddymu yn ei dogfen lywodraethu. Gallai hyn olygu cael cydsyniad gan y Comisiwn Elusennau, ond nid o reidrwydd. Os nad yw'r ddogfen lywodraethu'n cynnwys pwerau diddymu, neu os yw eiddo'r elusen yn cynnwys gwaddol parhaol, mae'n bosibl y bydd angen i'r elusen gael cydsyniad y Comisiwn Elusennau (gweler [www.gov.uk/guidance/how-to-close-a-charity](http://www.gov.uk/guidance/how-to-close-a-charity)).

Yn yr Alban, ym mhob achos, mae'n rhaid i'r elusen wneud cais i Reoleiddiwr Elusennau yr Alban i newid ei ffurf gyfreithiol. (Gweler [www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/making-changes-to-your-charity](http://www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/making-changes-to-your-charity)). Mae'r un peth yn wir yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i gais i newid ffurf gyfreithiol gael ei gyflwyno i Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'r holl gymdeithasau budd cymunedol elusennol yng Nghymru a Lloegr yn elusennau eithriedig. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer diwygio rheoleiddio elusennau eithriedig, gan gynnwys penodi prif reoleiddwyr neu ddileu statws elusen eithriedig. Yn ôl Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr:

"Nid oes penderfyniad pendant wedi cael ei wneud ar reoleiddio cymdeithasau budd cymunedol [a chymdeithasau cyfeillgar] fel elusennau yn y dyfodol. Un posibilrwydd yw y gallai'r rhai sy'n ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig barhau i fod yn eithriedig tra gallai eraill golli eu statws eithriedig os na ellir dod o hyd i brif reoleiddiwr addas." (Y Comisiwn Elusennau CC23 Elusennau Eithriedig, Medi 2013)

Ar hyn o bryd, felly, yng Nghymru a Lloegr, byddai cwmni elusennol cofrestredig sy'n trosi'n gymdeithas budd cymunedol elusennol gyda chydysyniad y Comisiwn Elusennau i newidiadau i'w erthyglau yn dod yn elusen eithriedig yn awtomatig, a byddai'n cael ei ddileu o gofrestr y Comisiwn Elusennau. Nid yw'r Comisiwn Elusennau'n cynnig arweiniad ar y mater hwn, ond bydd yn ystyried pob cais yn unigol. Ni fydd y Comisiwn Elusennau'n cydsynio os, yn ei farn ef, byddai'r trosi'n arwain at gymdeithas budd cymunedol nad yw'n elusennol. Felly, trwy gytuno ar drosi, mae'r Comisiwn Elusennau'n rhoi ei gymeradwyaeth ymhlwg i natur elusennol y ffurf newydd. HMRC sydd i benderfynu p'un a yw cymdeithas budd cymunedol elusennol yn elusen eithriedig, ond bydd fel arfer yn ildio i farn y Comisiwn Elusennau wrth benderfynu p'un a yw endid cyfreithiol yn elusennol.

---

## 2.6.4 Trosi cymdeithas yn gwmni

---

Gall cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol drosi'n gwmni, heblaw am gymdeithas budd cymunedol ragnodedig, sydd â rheol sy'n cyfyngu ar ddefnyddio ei hasedau (gweler Adran 2.4). Gall cymdeithas budd cymunedol sydd â'r rheol hon drosi'n gwmni dim ond os bydd ei hasedau gweddilliol yn cael eu trosglwyddo i gymdeithas budd cymunedol arall sydd â chlo asedau tebyg, neu landlord cymdeithasol cofrestredig, cwmni budd cymunedol, elusen, neu gorff cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, a byddai angen iddi gael cydsyniad o flaen llaw gan y rheoleiddiwr priodol.

Mae Adrannau 112-3 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer pasio penderfyniad arbennig gan aelodau sy'n cymeradwyo trosi. Mae'r gofynion hyn yn datgan bod rhaid i o leiaf hanner aelodau cymwys y gymdeithas bleidleisio ar y penderfyniad arbennig i drosi, naill ai'n bersonol neu drwy ddirprwy, os yw'r rheolau'n caniatáu hynny, a rhaid i dri chwarter o leiaf o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio fod o blaid y penderfyniad arbennig er mwyn iddo gael ei basio. Aelod cymwys yw aelod o'r gymdeithas sydd â hawl i

bleidleisio o dan reolau'r gymdeithas. Mae'n rhaid cynnal ail gyfarfod i gadarnhau'r penderfyniad arbennig rhwng 14 diwrnod ac un mis ar ôl y cyfarfod cyntaf. Mae'n rhaid i'r penderfyniad i gadarnhau gael ei basio gan fwyafrif yr aelodau cymwys hynny sy'n pleidleisio, a rhaid i'r cyfarfod fod â chworwm o dan reolau'r gymdeithas.

Dylai geiriad y penderfyniad arbennig ddangos p'un a yw'r gymdeithas yn trosi'n gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau neu'n gwmni cyfyngedig trwy warant. Os yw'r gymdeithas yn trosi'n gwmni cyfyngedig trwy warant, dylid cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i aelodau dynnu'n ôl neu ganslo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau maen nhw'n ei ddal yn y gymdeithas.

Ni all cymdeithas gael ei throsi'n gwmni sydd eisoes yn bodoli. Cyn cofrestru'r penderfyniad arbennig gyda'r FCA, mae'n rhaid i'r gymdeithas wneud cais i Dŷ'r Cwmnïau i gofrestru'r cwmni, gan ddweud wrtho fod y cais yn cael ei wneud gan gymdeithas gyda'r bwriad o drosi'n gwmni. Dylai'r gymdeithas ofyn i'r cais beidio â chael ei gofrestru hyd nes y bydd dyddiad trosi wedi cael ei gytuno gan yr FCA a Thŷ'r Cwmnïau.

---

## 2.6.5 Trosi cymdeithas yn sefydliad corfforedig elusennol neu'n sefydliad corfforedig elusennol yr Alban

---

Yng Nghymru a Lloegr, mae Deddf Elusennau 2011 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi cymdeithas budd cymunedol elusennol i drosi'n sefydliad corfforedig elusennol. Fodd bynnag, mae angen rheoliadau ychwanegol i gwblhau'r fframwaith cyfreithiol a fydd yn caniatáu i gymdeithas drosi'n sefydliad corfforedig elusennol. Oni bai a hyd nes bod y rheoliadau hyn yn cael ei gweithredu, ni fydd yn bosibl i gymdeithas drosi'n sefydliad corfforedig elusennol.

Yn yr Alban, mae Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi cymdeithas budd cymunedol elusennol a chymdeithas i drosi'n sefydliad corfforedig elusennol yr Alban (SCIO).

Nid oes darpariaeth i ffurfio sefydliad corfforedig elusennol yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

---

## 2.6.6 Trosi rhwng ffurfiau cymdeithasau

---

Caiff cymdeithas gydweithredol a gofrestrwyd cyn i Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ddod i rym ar 1 Awst 2014, drosi'n gymdeithas budd cymunedol heb orfod cofrestru cymdeithas newydd, ond nid fel arall.

Ers 1 Awst 2014, mae cymdeithasau'n cael eu cofrestru'n gymdeithasau cydweithredol neu'n gymdeithasau budd cymunedol ac ni allant drosi o un ffurf i'r llall. Yn lle hynny, byddai angen i gymdeithas sy'n dymuno newid ffurf ei chymdeithas gofrestru cymdeithas newydd a chael caniatâd i drosglwyddo ei hymrwymiaidau i'r endid newydd hwn. Ni fyddai cymdeithas budd cymunedol a chanddi glo asedau rhagnodedig yn cael trosglwyddo ei hymrwymiaidau i gymdeithas gydweithredol, ac mae'n annhebygol y byddai'r FCA yn caniatáu i gymdeithas budd cymunedol heb y clo asedau rhagnodedig wneud hynny ychwaith.

## 2.7 CYFUNO A THROSGLWYDDO YMRWYMIADAU

Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn rhoi arweiniad manwl ar gyfuno a throsglwyddo ymrwymadau rhwng cymdeithasau ac endidau cyfreithiol eraill. Crynhoir y canllawiau hyn yn yr adran hon. Fodd bynnag, dylai unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu gwneud hyn ddilyn canllawiau'r FCA ar y materion hyn, a pheidio â dibynnu ar y crynodeb a gyflwynir yma.

Mae cyfuno'n golygu bod un gymdeithas yn cael ei huno â chymdeithas neu gwmni arall i ffurfio endid cyfreithiol newydd. Mae throsglwyddo ymrwymadau'n golygu throsglwyddo busnes cymdeithas i gymdeithas arall, neu i gwmni. Mae Adrannau 109-13 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn darparu ar gyfer y ddwy weithred hyn.

Caiff unrhyw ddwy gymdeithas neu fwy gyfuno i ffurfio un gymdeithas newydd wrth i bob cymdeithas basio penderfyniad arbennig, a gefnogir gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'i haelodau o leiaf mewn cyfarfod cyffredinol, ac a gadarnheir wedi hynny gan fwyafrif syml mewn ail gyfarfod cyffredinol a gynhelir rhwng 14 diwrnod ac un mis ar ôl y cyfarfod cyntaf.

Bydd aelodau pob cymdeithas sy'n cyfuno yn dod yn aelodau'r gymdeithas newydd ac yn dal cyfranddaliadau yn y gymdeithas honno yn lle'r cyfranddaliadau a ddaliwyd ganddynt yn y cymdeithasau ar wahân cyn iddynt gael eu cyfuno. Bydd eiddo pob cymdeithas yn cael ei freinio yn y gymdeithas newydd heb angen unrhyw fath o drawsgludo. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau arbennig gael eu cofrestru a'u cymeradwyo gan yr FCA. Yn achos throsglwyddo ymrwymadau o un gymdeithas i un arall, bydd aelodau'r gymdeithas sy'n throsglwyddo yn dod yn aelodau ac yn gyfranddalwyr y gymdeithas arall, a bydd y gymdeithas sy'n throsglwyddo'n peidio â bodoli.

Yn achos cymdeithas sy'n cyfuno â chwmni neu'n throsglwyddo ei hymrwymadau i gwmni, mae'n rhaid i'r penderfyniad arbennig sy'n cynnig y newid hwn sicrhau mwyafrif tri chwarter o blaid, gydag o leiaf hanner yr holl aelodau cymwys yn cymryd rhan yn y bleidlais. Mae'n rhaid i'r penderfyniad arbennig ddarparu ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau a hawliau pleidleisio aelodau'r gymdeithas yn y cwmni sy'n deillio o'r broses hon. Mae'n rhaid i'r penderfyniad arbennig gael ei gadarnhau gan bleidlais fwyafrif syml mewn ail gyfarfod cyffredinol a gynhelir rhwng 14 diwrnod ac un mis ar ôl y cyfarfod cyntaf. Bydd y gymdeithas yn peidio â bodoli pan fydd y cyfuno neu'r throsglwyddo wedi cael ei gwblhau.

Gall cymdeithasau budd cymunedol rhagnodedig a chymdeithasau budd cymunedol elusennol gyfuno â chymdeithasau budd cymunedol rhagnodedig a chymdeithasau budd cymunedol elusennol eraill, neu drosglwyddo eu hymrwymadau iddynt, yn ôl eu trefn. Gallant hefyd gyfuno neu drosglwyddo eu hymrwymadau i gwmni elusennol cofrestredig.

Mae'n rhaid i unrhyw gymdeithas a gofrestrwyd cyn 1 Awst 2014 sy'n dymuno cyfeirio ati hi ei hun fel math penodol o gymdeithas ar bapur ysgrifennu'r busnes, gofrestru cymdeithas newydd o'r math hwn a throsglwyddo ei hymrwymadau i'r gymdeithas newydd hon.

## 2.8 BUDDSODDIADAU MEWN ENDIDAU CYFREITHIOL ERAILL

---

## 2.8.1 Egwyddorion arweiniol

---

Mae Adran 2 (1) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu bod pob cymdeithas yn cynnal "diwydiant, busnes neu fasnach", sy'n golygu na all cymdeithas gael ei chofrestru os yw'n bodoli i greu cyfalaf cyfranddaliadau i'w fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill.

Mae Adran 2 (3) y Ddeddf yn atal cymdeithasau cydweithredol rhag cynnal gweithgareddau gyda'r nod o wneud elw i dalu difidendau, llog neu daliadau bonws i aelodau ar yr arian a fuddsoddwyd yn benodol. Mae hefyd yn cyfyngu cymdeithasau budd cymunedol i fusnes sydd o fudd i'r gymuned.

Mae Adran 27 y Ddeddf yn caniatáu i gymdeithasau fuddsoddi cyllid mewn cymdeithasau cofrestredig eraill, cymdeithasau adeiladu, cwmnïau neu warannau a gyhoeddwyd gan "awdurdod perthnasol", sy'n golygu mathau penodol o gyrff llywodraeth leol. Nid yw'n darparu ar gyfer buddsoddi mewn partneriaethau, gan gynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod cymdeithasau'n datgan yn eu rheolau p'un a cheir buddsoddi unrhyw ran o'u cyllid ac, os felly, trwy ba awdurdod ac ym mha fodd.

Caniateir i gymdeithas fuddsoddi rhywfaint o'i chronfeydd wrth gefn cyffredinol mewn endidau cyfreithiol eraill, ond dylai wneud hynny i hybu amcanion y gymdeithas yn unig, ac mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y gymdeithas i gynnal hylifedd a diddyledrwydd. Byddai hyn yn cynnwys arferion arferol trysorlys o gadw arian parod mewn cyfrifon cadw a mathau eraill o fuddsoddi hylifol.

Dylid gwahaniaethu rhwng buddsoddi cronfeydd wrth gefn cyffredinol cymdeithas, a buddsoddi cyfalaf a gafwyd trwy gynnig cyfranddaliadau cyhoeddus y bwriadwyd ei fuddsoddi mewn endid cyfreithiol arall. Yn yr ail achos, dylai cymdeithas sicrhau ei bod yn buddsoddi'r cyfalaf mewn ffordd sy'n caniatáu iddi reoli telerau ac amodau'r cyfalaf cyfranddaliadau y'i cyhoeddodd. Mae hyn yn cynnwys y telerau a'r amodau ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau.

Ni ddylai cymdeithas geisio cyfalaf gyda'r bwriad penodol o'i fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill and oes ganddi reolaeth gyffredinol drostynt, na gweithredu fel cyfrwng buddsoddi cyfunol, oni bai bod yr FCA wedi'i hawdurdodi i wneud hynny.

Dyma'r egwyddorion arweiniol:

- Dylai cymdeithas fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill dim ond pan fydd hynny'n hybu amcanion a busnes y gymdeithas.
- Rhaid i gymdeithas weithredu o fewn ei rheolau ei hun ar fuddsoddi bob amser.
- Dylid ceisio cyfalaf dim ond i hybu amcanion a gweithgareddau busnes cymdeithas, ac nid i'w fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill nad oes ganddi reolaeth gyffredinol drostynt.
- Dylai unrhyw gyfalaf a gafwyd gan gymdeithas trwy gynnig cyhoeddus gael ei fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill mewn ffordd sy'n llwyr amddiffyn telerau'r cynnig cyhoeddus yn unig.
- Ni ddylai cymdeithas geisio cyfalaf cyfranddaliadau gyda'r bwriad penodol o fuddsoddi'r cyfalaf hwnnw mewn endid cyfreithiol arall nad oes ganddi reolaeth gyffredinol drosti.

---

## 2.8.2 Is-gwmnïau a berchenogir yn llwyr

---

Endid cyfreithiol a reolir yn gyfan gwbl gan y rhiant-sefydliad yw is-gwmni a berchenogir yn llwyr. Gall yr is-gwmni gael ei strwythuro fel cwmni, ond nid fel cymdeithas fel arfer. Ni all cymdeithas fod yn is-gwmni a berchenogir yn llwyr oherwydd bod rhaid i gymdeithas fod â thri aelod o leiaf fel arfer, neu ddau aelod os yw'r ddau aelod hyn yn gymdeithasau.

Os yw'r rhiant-sefydliad yn gymdeithas gydweithredol, rhaid i'w is-gwmnïau a berchenogir yn llwyr fod yn gwbl ymrwymedig i werthoedd ac egwyddorion cydweithredol hefyd (gweler Adran 2.1.2).

Os yw'r is-gwmni'n gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, rhaid i'r gymdeithas berchen ar yr holl gyfranddaliadau pleidleisio, neu, os yw'r is-gwmni'n gwmni cyfyngedig trwy warant, rhaid i'r gymdeithas lwyr feddu ar y pŵer i benodi a diswyddo cyfarwyddwyr.

Os yw cymdeithas yn buddsoddi cronfeydd wrth gefn cyffredinol (arian dros ben argadwedig a/neu roddion), gall ddefnyddio pa ddull buddsoddi bynnag a ddymuna, boed hynny ar ffurf ecwiti, dyled neu rodd, gan ystyried ei rheolau ei hun, lefel gyffredinol ei chronfeydd wrth gefn, a'r gwahanol driniaethau treth a allai fod yn berthnasol i'r mathau hyn o fuddsoddiad. Os bydd cymdeithas yn dewis buddsoddi ar ffurf ecwiti trosglwyddadwy, rhaid iddi fod yn fodlon gwerthu'r is-gwmni, ac yn gallu ei werthu, os bydd hynny er pennaf les y gymdeithas.

Os yw cymdeithas yn buddsoddi cyfalaf a gafwyd trwy gynnig cyhoeddus, dylai fuddsoddi mewn is-gwmni mewn ffordd sy'n ei galluogi i gynnal telerau'r cynnig cyhoeddus yn unig. Os yw'r gymdeithas wedi cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, dylai'r cyfalaf hwn gael ei fuddsoddi yn yr is-gwmni dim ond ar ffurf benthyciad neu, mewn amgylchiadau eithriadol, fel cyfalaf cyfranddaliadau adbrynadwy os yw'r is-gwmni'n gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gosod cyfyngiadau ar gyfranddaliadau adbrynadwy, gan ganiatáu i gwmni adbrynu'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau dim ond trwy ddefnyddio elw y gellir ei ddosbarthu, neu gyfranddaliadau newydd eu cyhoeddi, oni bai ei fod yn gwmni preifat sy'n mabwysiadu gweithdrefnau arbennig i amddiffyn credydwy. Mae hyn yn golygu bod cyfranddaliadau adbrynadwy'n offeryn anaddas ar gyfer buddsoddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn is-gwmni, oni bai bod rhesymau i gredu y gellir bodloni telerau codi'r cynnig cyhoeddus o hyd.

Mae'n rhaid i'r amserlen ad-dalu ar gyfer y benthyciad fod yn gyson â'r telerau a'r amodau ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau o'r gymdeithas. Er enghraifft, os yw cymdeithas yn gwneud cynnig agored (gweler Adran 4.6) ac yn cyfyngu cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn unrhyw un flwyddyn i 10%, rhaid i'r cyfalaf a fuddsoddir yn yr is-gwmni fod yn ad-daladwy ar y gyfradd 10% hon. Os yw cymdeithas yn cael cyfalaf trwy gynnig â chyfyngiad amser, dylid defnyddio perfformiad busnes rhagolygol yr is-gwmni i bennu telerau'r cynnig.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r llog neu'r difidendau sy'n daladwy ar unrhyw fuddsoddiad fod yn gyson ag unrhyw enillion ariannol a grybwyllir yn y ddogfen gynnig. Bob amser, mae'n rhaid i'r gymdeithas reoli'r is-gwmni er pennaf les ei haelodau, a bod yn fodlon gwerthu'r is-gwmni pe byddai hynny er pennaf les y gymdeithas.

---

### 2.8.3 Mentrau a berchenogir gan fwyafrif

---

Endid cyfreithiol yw menter a berchenogir gan fwyafrif, lle mae cymdeithas yn dal dros hanner y cyfranddaliadau pleidleisio, ac unigolion eraill yn berchen ar weddill y cyfranddaliadau pleidleisio.

Os yw cymdeithas yn berchen ar fwyafrif rheolaethol o'r cyfranddaliadau, sef tri chwarter y cyfranddaliadau pleidleisio fel arfer, ac nid oes unrhyw gytundebau cyfranddalwyr sy'n rhoi unrhyw bwerau arbennig i gyfranddalwyr lleiafrifol, yna, at ddibenion buddsoddi, gellir ei thrin yr un ffordd ag is-gwmni a berchenogir yn llwyr.

Os yw cymdeithas yn berchen ar fwyafrif o'r cyfranddaliadau pleidleisio ond nid oes ganddi reolaeth lwyr ar yr endid cyfreithiol, gall fuddsoddi yn yr endid cyfreithiol hwn o hyd, yn amodol ar y mesurau diogelu canlynol. Dylai amcanion y fenter a berchenogir gan fwyafrif fod yr un fath â rhai'r gymdeithas. Dylai'r gymdeithas fuddsoddi cyfalaf ar ffurf benthyciadau neu gyfranddaliadau adbrynadwy yn unig, ni waeth p'un a yw'r cyfalaf hwn yn rhan o'i chronfeydd wrth gefn cyffredinol neu wedi dod trwy gynnig cyhoeddus. Os cafwyd y cyfalaf sy'n cael ei fuddsoddi trwy gynnig cyhoeddus, dylai telerau'r buddsoddiad adlewyrchu telerau'r cynnig cyhoeddus hwnnw. Dylai'r gymdeithas feddu ar y pŵer i atal unrhyw newidiadau i ddogfen lywodraethu'r endid cyfreithiol, neu unrhyw gytundeb cyfranddalwyr cysylltiedig.

---

### 2.8.4 Mentrau ar y cyd

---

Ystyrir bod menter ar y cyd yn golygu endid cyfreithiol a berchenogir gan ddau bartner neu fwy ar delerau cydradd, fwy neu lai. Esboniodd Adran 2.8.1 nad yw Deddf 2014 yn cynnwys darpariaeth i gymdeithasau fuddsoddi mewn partneriaethau, gan gynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Yn lle hynny, mae'n rhaid i'r fenter ar y cyd fod yn gymdeithas gofrestredig neu'n gwmni.

Os yw cymdeithas yn buddsoddi ei chronfeydd wrth gefn cyffredinol mewn menter ar y cyd, dylai wneud hynny er mwyn hybu ei hamcanion a'i busnes yn unig. Dylai fuddsoddi mewn menter ar y cyd dim ond os oes ganddi ddylanwad dros y fenter sydd wedi'i ysgrifennu yn y cytundeb cyfranddalwyr, neu drwy ddal o leiaf chwarter unrhyw hawliau pleidleisio. Ni ddylai'r swm a fuddsoddir fod mor fawr fel y byddai'n cael effaith niweidiol ar ei hylifedd neu ei diddyledrwydd ei hun, pe byddai'r fenter ar y cyd yn mynd i drafferthion ariannol.

Ni ddylai cymdeithas gael cyfalaf trwy gynnig cyhoeddus i fuddsoddi mewn menter ar y cyd oni bai bod ganddi reolaeth lwyr ar y fenter ar y cyd (yn yr achos hwnnw, byddai'n fwy priodol ei disgrifio'n fenter a berchenogir gan fwyafrif (gweler Adran 2.8.3)).

---

### 2.8.5 Buddiant lleiafrifol

---

Diffinnir buddiant lleiafrifol fel daliad cyfranddaliadau mewn endid cyfreithiol nad yw'n rhoi digon o hawliau pleidleisio i'r buddsoddwr i amddiffyn ei fuddiannau. Mae hyn yn wir, fel arfer, pan fydd gan y buddsoddwr lai na chwarter cyfanswm yr hawliau pleidleisio.

Mae gan gymdeithas yr hawl i fuddsoddi rhywfaint o'i chronfeydd wrth gefn cyffredinol mewn endidau cyfreithiol eraill, cyn belled â'i bod yn gweithredu o fewn ei rheolau ac nid yw'r swm a fuddsoddir mor fawr fel y byddai'n cael effaith niweidiol ar ei hylifedd neu ei diddyledrwydd ei hun, pe byddai'r endid cyfreithiol yn mynd i drafferthion ariannol. Dylai geisio buddsoddi mewn ffordd sy'n gwasanaethu buddiannau busnes y gymdeithas orau, yn nodweddiadol ar ffurf benthyciadau, bondiau neu ddyledebau gwarantedig. Dylid prynu cyfranddaliadau dim ond os yw'r endid cyfreithiol wedi'i restru ar farchnad stoc, os yw'r cyfranddaliadau'n adbrynadwy neu y gellir eu codi, neu os oes rhyw fath arall o drefniant ar waith i ganiatáu i'r gymdeithas werthu ei buddsoddiad.

Ni ddylai cymdeithas geisio cyfalaf cyfranddaliadau i gaffael buddiant lleiafrifol mewn endid cyfreithiol arall.

---

### 2.8.6 Buddsoddi mewn cymdeithasau eraill

---

Mae'n dderbyniol i un gymdeithas fuddsoddi mewn cymdeithas arall, yn amodol ar y canllawiau yn yr adran hon. Ond dylid gofalu peidio â thrawsfuddsoddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, pan fydd dwy gymdeithas neu fwy yn buddsoddi yn ei gilydd, a allai gryfhau mantolenni'r holl gymdeithasau sy'n rhan o'r trefniant yn artifisial.

---

### 2.8.7 Tryloywder buddsoddiadau

---

Fel mater o arfer da, dylai cymdeithas ddatgan yn ei chyfrifon a'i hadroddiad blynyddol, fanylion unrhyw fuddsoddiadau y mae wedi'u gwneud mewn endidau cyfreithiol eraill, ynghyd â manylion unrhyw fuddsoddiad corfforaethol y mae wedi'i dderbyn.

## 2.9 ANSOLFEDD A DIDDYMU

---

### 2.9.1 Cyflwyniad

---

Mae'n ddyletswydd ar y pwyllgor rheoli i weithredu os bydd cymdeithas yn mynd yn ansolfent ac yn methu â thalu ei dyledion pan fyddant yn ddyledus. Os na fydd yn gweithredu a bod y gymdeithas yn parhau i fasnachu, gallai fod mewn perygl o fasnachu anghyfiawn, a gallai aelodau'r pwyllgor rheoli ddod yn atebol yn bersonol am ddyledion y gymdeithas.

Cyflwynodd Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 newidiadau mawr i'r ffordd y gellir mynd i'r afael ag ansolfedd mewn cymdeithas. Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o'r hyn sy'n dilyn yn berthnasol i gymdeithasau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr yn unig. Mae gan yr Alban ei system dderbynyddiaeth ei hun ac nid yw Deddf 2014 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Yn 2014, rhoddodd rheoliadau newydd (Offeryn Statudol 2014, Rhif 229) y rhan fwyaf o'r un opsiynau i gymdeithasau sy'n wynebu ansolfedd ag sydd eisoes ar gael i gwmnïau. Gall cymdeithas lunio trefniant gwirfoddol gyda chredydwy'r yn seiliedig ar drefniant gwirfoddol ar ran cwmni (CVA), neu fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, sydd ill dau wedi'u hamlinellu yn Neddf Ansolfedd 1986. Fel arall,



gall lunio trefniant gyda chredydwy'r yn seiliedig ar Ran 26 Deddf Cwmnïau 2006. Nid yw'r trefniadau hyn ar gael i gymdeithasau sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ac, yn wahanol i gwmnïau, ni all cymdeithasau fynd i dderbynyddiaeth weinyddol lle mae'r derbynydd yn gweithio i gredydwr wedi'i warantu, yn hytrach na'r credydwy'r yn gyffredinol.

Mae canllawiau cofrestru'r FCA yn rhoi arweiniad manwl ar y trefniadau ar gyfer ansolfedd a diddymu cymdeithas. Crynhoir y canllawiau hyn yn yr adran hon. Fodd bynnag, dylai unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu gwneud hyn ddilyn canllawiau'r FCA ar y materion hyn, a phheidio â dibynnu ar y crynodeb a gyflwynir yma.

---

## 2.9.2 Trefniant gyda chredydwy'r

---

Mae trefniant gyda chredydwy'r, a elwir hefyd yn gynllun trefniant, yn drefniant cyfreithiol rwymol a wneir gan gymdeithas gyda'i haelodau a'i chredydwy'r i fynd i'r afael â'i hansolfedd. Mae'r broses yn dechrau gyda gorchymyn llys sy'n galw cyfarfodydd credydwy'r ac aelodau i gymeradwyo cynigion i fynd i'r afael â'r ansolfedd. Mae'r dewisiadau'n cynnwys lleihau rhwymedigaethau a/neu gynyddu asedau'r gymdeithas, neu gyfuno, uno neu drosglwyddo i endid cyfreithiol solfent arall. Mae'n rhaid i bob dosbarth credydwy'r (wedi'u gwarantu, heb eu gwarantu, ac ati) ac aelodau gymeradwyo'r cynigion trwy bleidlais lle mae mwyafrif o dri chwarter o blaid, gydag aelodau'n pleidleisio ar sail un unigolyn, un bleidlais, a chredydwy'r yn pleidleisio yn ôl gwerth y credyd maen nhw'n ei gynrychioli. Pan geir cefnogaeth dri chwarter yr holl ddosbarthiadau credydwy'r ac aelodau, cyflwynir y cynllun trefniant i'r llys i'w gymeradwyo. Bydd y llys yn gwirio bod yr FCA yn fodlon nad yw'r trefniant yn torri Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, cyn iddo ganiatáu'r cynllun a rhoi gorchymyn llys sy'n gwneud y cynllun yn gyfreithiol rwymol ar yr holl gredydwy'r ac aelodau. Mae'n rhaid i'r cynllun gael ei gofrestru gyda'r FCA hefyd.

---

## 2.9.3 Trefniant gwirfoddol yn seiliedig ar drefniant gwirfoddol ar ran cwmni (CVA)

---

Yn lle ceisio dod i drefniant gyda chredydwy'r, gall cymdeithas ddewis trefniant gwirfoddol yn seiliedig ar drefniant gwirfoddol ar ran cwmni (CVA). Mae hyn yn golygu penodi ymarferydd ansolfedd trwyddedig a fydd yn gyfrifol am ddatblygu'r trefniant gyda chredydwy'r, sicrhau eu cefnogaeth i'r trefniant hwn, a gweinyddu'r broses o'i roi ar waith. Mae'n rhaid i'r CVA gael ei gymeradwyo gan gredydwy'r sy'n cynrychioli o leiaf 75% o'r ddyled. Nid oes angen cymeradwyaeth aelodau ar CVA oherwydd ni all gynnwys ailstrwythuro, cyfuno na throsglwyddo perchenogaeth y gymdeithas ei hun. Yn lle hynny, mae CVA fel arfer yn golygu gwneud taliadau rheolaidd i gredydwy'r trwy'r ymarferydd ansolfedd hyd nes y bydd y dyledion hyn yn cael eu clirio.

---

## 2.9.4 Gweinyddu

---

Mae gweinyddu'n golygu penodi gweinyddwr (ymarferydd ansolfedd trwyddedig) a fydd yn meddiannu rheolaeth y gymdeithas, gan ddisodli'r pwyllgor rheoli. Diben gweinyddu yw gwerthu'r busnes fel busnes gweithredol, neu, os nad yw hynny'n bosibl, cyflawni canlyniad gwell i gredydwy'r na phe byddai'r gymdeithas yn cael ei dirwyn i ben trwy ryw fath o drefniant gwirfoddol o bosibl neu, o leiaf, sylweddu asedau'r gymdeithas i'w dosbarthu i gredydwy'r gwarantedig. Gall cymdeithas

fynd i ddwylo gweinyddwyr yn wirfoddol neu drwy orchymyn llys. Bydd y gweinyddwr yn asesu p'un a all y gymdeithas barhau i fasnachu fel y gellir gwerthu'r busnes fel busnes gweithredol. Mae gweinyddwyr yn gyfrifol am gysylltu â'r holl gredydwyr, a llunio cynnig ysgrifenedig ynglŷn â dyfodol y gymdeithas o fewn wyth wythnos o'u penodi. Wedi hynny, mae'r gweinyddwr yn gyfrifol am gyd-drafod cytundeb â'r credydwyr a chyflawni canlyniad sy'n foddhaol i bawb sy'n gysylltiedig.

---

### 2.9.5 Dirwyn i ben a diddymu

---

Gellir dirwyn cymdeithas i ben o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 os yw'n ansolfent, neu drwy gyfrwng Offeryn Diddymu, os yw'n dal i fod yn solfent. Mae risg lwyr i gyfalaf cyfranddaliadau aelodau, a bydd modd sylweddu unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau sy'n eiddo i aelod dim ond ar ôl i holl gredydwyr eraill y gymdeithas gael eu had-dalu'n llawn.

Os yw cymdeithas yn ansolfent, caiff ei dirwyn i ben o dan Ddeddf Ansolfedd 1986, yn amodol ar unrhyw weithdrefnau gweinyddol eraill (gweler Adran 2.9.4). Bydd aelodau'n colli eu cyfalaf cyfranddaliadau, ond, mewn amgylchiadau arferol, ni fydd rhaid iddynt gyfrannu tuag at ddyledion y gymdeithas. Fodd bynnag, o dan Adran 124 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, bydd aelodau sydd wedi codi cyfalaf cyfranddaliadau hyd at flwyddyn cyn y dyddiad ansolfedd yn parhau i fod yn atebol am ddyledion y gymdeithas, hyd at werth y cyfalaf cyfranddaliadau a godwyd ganddynt, os nad yw cyfalaf cyfranddaliadau'r aelodau presennol yn ddigonol i dalu'r dyledion hyn. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar gymdeithasau i atal pob cais i godi cyfalaf cyfranddaliadau os a phryd y gwyddys eu bod yn ansolfent.

Os yw cymdeithas yn solfent ac mae ei wybodaeth flynyddol yn gyfredol, gall wneud cais i'r FCA am offeryn diddymu i derfynu ei chofrestriad fel cymdeithas. Dogfen yw'r offeryn hwn sy'n amlinellu asedau a rhwymedigaethau'r gymdeithas, nifer aelodau'r gymdeithas a natur eu buddiannau yn y gymdeithas, yr holl hawliadau gan gredydwyr a'r darpariaethau i fodloni'r hawliadau hyn, a chynigion ar gyfer gwaredu unrhyw asedau gweddilliol yn y modd a ragnodir gan reolau cofrestredig y gymdeithas. Mae'n rhaid i benderfyniad yn seiliedig ar yr offeryn diddymu gael ei gefnogi gan dri chwarter yr aelodau o leiaf mewn cyfarfod cyffredinol o'r gymdeithas. Os yw'r gymdeithas yn segur, mae'n rhaid i'r offeryn gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad arbennig sy'n cael ei basio mewn dau gyfarfod cyffredinol, gyda phleidlais fwyafrif dwy ran o dair yn y cyfarfod cyntaf, a phleidlais fwyafrif syml yn yr ail gyfarfod, a gynhelir rhwng 14 diwrnod ac un mis yn ddiweddarach. Mae'n rhaid i offeryn diddymu gael ei hysbysebu gan yr FCA yn Gazette Llundain neu Gaeredin, yn ogystal â phapur newydd sy'n lleol i'r gymdeithas, gan roi tri mis o rybudd i'r cyhoedd o ddiddymu'r gymdeithas a hawl credydwyr i ofyn i'r llys wrthod ei diddymu. Os yw'r gymdeithas yn solfent, ac mae'r holl gredydwyr wedi cael eu bodloni, dylai'r gymdeithas ddychwelyd cyfalaf cyfranddaliadau'r aelodau. Yna, dylai unrhyw asedau gweddilliol gael eu gwaredu yn unol â rheolau'r gymdeithas. Gall cymdeithas sydd ag asedau gweddilliol o lai na £1,000 wneud cais i ganslo ei chofrestriad. Ni fydd angen cydsyniad aelodau na phenderfyniad arbennig i wneud hyn, ond gall fod yn destun her gyfreithiol.

Y cam olaf yn y broses ddiddymu yw i'r gymdeithas gyflwyno tystysgrif Adran 126 i'r FCA ar ôl i'r cyfnod rhybudd tri mis ddod i ben, yn ardystio bod yr holl eiddo a freiniwyd yn y gymdeithas wedi cael ei drosglwyddo i'r unigolion sydd â hawl iddo.

Bydd rhaid i gymdeithasau budd cymunedol elusennol sydd wedi'u cofrestru â Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban geisio ei gydsyniad cyn dirwyn i ben neu ddiddymu. Mae hyn yn ofynnol o dan adran 16 Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, a rhaid iddynt geisio cydsyniad o leiaf 42 niwrnod cyn y dyddiad diddymu arfaethedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma <http://www.oscr.org.uk/media/1589/dissolving-your-charity.pdf>.

## 3 DOGFENNAU LLYWODRAETHU

### 3.1 PROSES AU COFRESTRU

Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno bod yn gymdeithas gydweithredol neu'n gymdeithas budd cymunedol ym Mhrydain Fawr gofrestru ei rheolau gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n rhaid i gymdeithasau gael eu cofrestru â'r Adran Fenter, Masnach a Buddsoddi (DETINI). Mae swyddogaeth gofrestru'r FCA ar wahân i'w rôl fel rheoleiddiwr y diwydiant gwasanaethau ariannol yn y Deyrnas Unedig.

Mae sawl mater i'w ystyried wrth benderfynu pryd i gofrestru cymdeithas newydd. Gall cofrestru'n gynnar rhoi rhywfaint o fomentwm i fenter newydd, rhoi hunaniaeth gyfreithiol iddi, a chyfyngu ar atebolrwydd personol yr hyrwyddwyr. Bydd hefyd yn galluogi cymdeithas i ddechrau gwaith ymgysylltu â'r gymuned, gan ganiatáu i bobl ddod yn aelodau o'r gymdeithas. Un o anafateision cofrestru'n gynnar yw'r gost sy'n gysylltiedig. Mae'n bosibl na fydd gan grwpiau cyn-gychwyn yr adnoddau i dalu am gost cofrestru. Mae perygl hefyd y bydd rheolau'n cael eu mabwysiadu na fyddant yn addas i ddibenion y gymdeithas erbyn iddi fod yn barod i fasnachu.

Mae gwefan yr FCA yn cynnwys adran benodol ar gofrestru cymdeithasau newydd, sy'n darparu'r holl ffurflenni a nodiadau angenrheidiol. Mae'r ffurflen gais yn datgan mai safon wasanaeth yr FCA ar gyfer cymdeithasau yw cofrestru 90% o geisiadau dilys o fewn 15 niwrnod gwaith. Nid oes darpariaeth i aelodau pwyllgor rheoli cymdeithasau hunanardystio bod y ddogfen lywodraethu'n cydymffurfio â chyfraith cymdeithasau, fel sy'n wir ar gyfer cwmnïau.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno set o reolau y mae'n rhaid iddynt ymdrin â 14 mater sy'n ofynnol gan y gyfraith (gweler Adran 3.2). Gall rheolau ymdrin â materion ychwanegol ar yr amod nad ydynt yn gwrthdaro â deddfwriaeth a'u bod yn dderbyniol i'r FCA. Mae'n rhaid i gymdeithas ddilyn ei rheolau pan fyddant wedi'u cymeradwyo, felly mae'n bwysig ei bod yn ymrwymedig i weithredu'r holl reolau y mae'n eu mabwysiadu, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ategol i'r rheolau sy'n ofynnol gan y gyfraith. Gellir ychwanegu, diwygio neu ddiddymu rheolau, ond dim ond gyda chefnogaeth cyfarfod cyffredinol o aelodau a chaniatâd yr FCA.

Mae'r ffurflen gais hefyd yn mynnu bod ymgeiswyr yn datgan p'un a ydynt yn cofrestru cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol, ac i roi manylion os ydynt yn cofrestru'r olaf, gan gynnwys p'un a fydd yn gymdeithas budd cymunedol elusennol. Gellir gwneud cais i gofrestru cymdeithas newydd, neu drosi cwmni sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys cwmni budd cymunedol, yn gymdeithas, yn ddarostyngedig i amodau penodol. Gall cwmni sy'n elusen gofrestredig drosi'n gymdeithas budd cymunedol elusennol yn unig, a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan y rheoleiddiwr elusennau cenedlaethol perthnasol. Yn yr un modd, gall cwmni budd cymunedol drosi'n gymdeithas budd cymunedol rhagnodedig yn unig (gweler Adran 2.6.2).

I gofrestru cymdeithas newydd, mae angen i'r FCA gael enw, manylion cyswllt a llofnod tri aelod sefydlu o leiaf, gan gynnwys ysgrifennydd y gymdeithas arfaethedig. Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru cymdeithas budd cymunedol elusennol ddarparu gwybodaeth fanylach am holl ddarpar ymddiriedolwyr yr elusen fel bod yr FCA yn gallu gwirio nad yw'r unigolion a enwir wedi cael eu hanghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr elusen.

Mae gan yr FCA ddyletswydd i archwilio rheolau pob cymdeithas ymgeisiol. Adlewyrchir hyn yn y ffioedd y mae'r FCA yn eu codi i gofrestru cymdeithasau. Mae'r ffioedd yn is os yw'r gymdeithas ymgeisiol yn defnyddio rheolau enghreifftiol corff sy'n noddi (gweler Adran 3.3). Mae rheolau enghreifftiol wedi cael eu cymeradwyo o flaen llaw gan yr FCA. Mae'n codi ffi ychwanegol am archwilio diwygiadau i reolau enghreifftiol a wnaed gan gymdeithasau ymgeisiol.

## 3.2 RHEOLAU STATUDOL

### 3.2.1 Enw

Mae gan yr FCA bwerau i gofrestru enw cymdeithas, a phenderfynu p'un a yw enw arfaethedig yn 'annymunol'. Dylai enw fod yn unigryw, yn gofiadwy, adlewyrchu cymeriad y gymdeithas, a pheidio â bod yn sarhaus. Mae'r FCA yn dweud, yn gyffredinol, y dylai enw gynnwys cyfeiriad at weithgarwch busnes, aelodaeth, cymuned fuddiannol a/neu leoliad daearyddol y gymdeithas. Ni ellir defnyddio ieithoedd heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg oni bai y rhoddir cyfieithiad i'r FCA i'w gymeradwyo.

Ni chaiff yr enw fod yr un peth ag enw cymdeithas, cwmni neu elusen arall sydd eisoes yn bodoli, nac yn debyg iddo, oni bai bod y gymdeithas, y cwmni neu'r elusen yn gysylltiedig â'r endid arall hwn neu'n ymwneud ag ef mewn rhyw ffordd, ac wedi cael ei ganiatâd penodol. Mae'r un peth yn berthnasol i endidau darfodedig sydd wedi masnachu o fewn y 10 mlynedd flaenorol. Caniateir eithriadau i'r egwyddor hon dim ond os yw'r gweithgarwch busnes arfaethedig neu'r lleoliad yn wahanol iawn i weithgarwch busnes neu leoliad yr endid darfodedig, neu os nad oedd yr endid darfodedig wedi masnachu mewn gwirionedd.

Mae'r FCA yn darparu canllawiau ar eiriau sensitif mewn enwau, y gellir eu defnyddio dim ond os oes tystiolaeth ategol i gyfiawnhau eu defnydd, neu os yw'r gymdeithas wedi cael caniatâd yr awdurdod perthnasol. Mae tri phrif gategori geiriau sensitif: geiriau sy'n awgrymu bod y gymdeithas yn masnachu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol, geiriau sy'n awgrymu statws awdurdodol neu gynrychioliadol, a geiriau sy'n awgrymu amcan penodol neu swyddogaeth benodol. Mae'r geiriau 'elusen' a 'chydweithredol' wedi'u cynnwys yn y categori olaf, a bydd yr FCA yn caniatáu i'r math priodol o gymdeithas yn unig ddefnyddio'r rhain yn ei henw cofrestredig. Er enghraifft, ni all cymdeithas budd cymunedol ei galw ei hun yn gydweithredol yn ei henw. Ni all cymdeithas ddefnyddio geiriau eraill, fel 'cwmni'.

Mae'n rhaid i bob cymdeithas gynnwys y gair 'cyfyngedig' yn ei henw, oni bai ei bod yn gymdeithas budd cymunedol elusennol neu os yw ei hamcanion yn gwbl fuddiannol; yn yr achos hwnnw, gall wneud cais i beidio â defnyddio'r gair yn ei henw. Mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol elusennol sydd wedi'u cofrestru fel elusennau yn yr Alban hefyd gydymffurfio â gofynion cyfraith elusennau yr Alban yn ymwneud ag 'enwau annerbyniol'. Mae'r rhain yn debyg i ofynion yr FCA yn y rhan fwyaf o ffyrdd (gweler [www.oscr.org.uk/media/1591/changing-your-charity-name.pdf](http://www.oscr.org.uk/media/1591/changing-your-charity-name.pdf)).

Gall cymdeithas, fel endidau cyfreithiol eraill, ddefnyddio enw busnes sy'n wahanol i'w henw cofrestredig. Fodd bynnag, mae'r egwyddor enwau sensitif yr un mor berthnasol i enwau busnes ag ydyw i enwau cofrestredig.

---

### 3.2.2 Amcanion

---

Mae amcanion yn disgrifio diben menter a chwmpas ei gweithrediadau. Mae'r rhan fwyaf o gyrff sy'n noddi yn darparu rheolau amcanion safonol sy'n ddigon eang a hyblyg i alluogi'r fenter i ymwneud yn llawn â phob math o ddiwydiant, busnes neu fasnach. Mae rhai gyrff sy'n noddi yn annog cymdeithasau i fod yn fwy penodol ynglŷn â'u diben, er mwyn amddiffyn gweledigaeth y sylfaenwyr, ac atal cymdeithas rhag newid ei diben heb gydsyniad o leiaf dri chwarter o'i haelodau.

I gofrestru fel cymdeithas gydweithredol, mae'r gyfraith yn mynnu y dylai'r gymdeithas fod yn cynnal "*diwydiant, busnes neu fasnach*". Mae hyn yn eithrio cwmnïau cydweithredol sy'n cael eu sefydlu fel cerbydau buddsoddi yn unig er mwyn buddsoddi mewn gweithgareddau endidau cyfreithiol eraill. Atgyfnerthir hyn gan ofyniad cyfreithiol arall sy'n datgan "*ni chaiff cymdeithas fod yn gymdeithas gydweithredol go iawn os yw'n cynnal busnes gyda'r nod o wneud elw yn bennaf i dalu llog, dididendau neu daliadau bonws ar arian sydd wedi'i fuddsoddi ynddi neu ei fenthyca iddo, neu sydd wedi'i fuddsoddi yn unrhyw unigolyn arall neu ei fenthyca iddo*".

I gofrestru cymdeithas budd cymunedol, mae'n rhaid i'r rheolau ynglŷn ag amcanion fod yn gyson â gofynion eraill yr FCA i brofi p'un a yw'r gymdeithas o fudd i'r gymuned (gweler Adrannau 2.1.3 a 2.1.4).

Mae'n rhaid i amcanion cymdeithas budd cymunedol elusennol fod yn elusennol yn unig ac o fudd i'r cyhoedd er mwyn iddi gael ei chydabod fel elusen. Mae Deddf Elusennau 2011 yn rhestru'r dibenion elusennol canlynol:

- atal neu liniaru tlodi
- hybu addysg
- hybu crefydd
- hybu iechyd neu achub bywydau
- hybu dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol
- hybu'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- hybu chwaraeon amatur
- hybu hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi neu hybu cytgord crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth
- hybu gwarchod neu wella'r amgylchedd
- helpu pobl sydd mewn angen o ganlyniad i ieuencid, henaint, iechyd gwael, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall
- hybu lles anifeiliaid
- hybu effeithlonrwydd lluoedd arfog y Goron neu effeithlonrwydd yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub neu'r gwasanaethau ambiwlans
- unrhyw ddibenion eraill sy'n cyfatebol i'r dibenion uchod neu o fewn eu hysbryd

Mae'n rhaid i fusnes, diwydiant neu fasnach cymdeithas budd cymunedol elusennol ymwneud ag un o'r prif amcanion hyn, neu fod yn ategol iddo. Mae'n rhaid i unrhyw fusnes, diwydiant neu fasnach y tu allan i'r amcanion hyn fod yn achlysurol yn unig, neu gael ei gynnal/chynnal trwy is-gwmni masnachu a berchenogir yn llwyr gan y gymdeithas budd cymunedol elusennol.

Yn yr Alban, mae'n rhaid i geisiadau am statws elusennol gael eu cyflwyno i Reoleiddiwr Elusennau

yr Alban (gweler [www.oscr.org.uk/charities/becoming-a-charity](http://www.oscr.org.uk/charities/becoming-a-charity).) Yng Nghymru a Lloegr, er na all cymdeithas budd cymunedol elusennol gofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus os yw am gael ei chydabod fel elusen eithriedig gan HMRC. (Gweler [www.gov.uk/government/collections/charitable-purposes-and-public-benefit](http://www.gov.uk/government/collections/charitable-purposes-and-public-benefit))

---

### 3.2.3 Cyfeiriad

---

Mae'n rhaid i'r rheolau nodi cyfeiriad swyddfa gofrestredig y gymdeithas a enwyd, y mae'n rhaid iddo fod ym Mhrydain Fawr neu Ynysoedd y Sianel os yw'r gymdeithas wedi'i chofrestru gyda'r FCA. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r FCA os bydd cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yn newid yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gymdeithasau sydd wedi'u cofrestru â'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yng Ngogledd Iwerddon fod â chyfeiriad cofrestredig yng Ngogledd Iwerddon.

---

### 3.2.4 Derbyn aelodau

---

Mae'n rhaid i'r rheolau ddatgan pwy sy'n gallu (ac nad yw'n gallu) bod yn aelod, gan gynnwys unigolion, cyrff corfforaethol, ac enwebeion cyrff anghorfforedig. Mae hyn yn cynnwys aelodau ar y cyd, y mae'n rhaid i un aelod fod yn enwebai sy'n cynrychioli buddiannau'r aelodau ar y cyd. Mae'n rhaid i gymdeithas fod â thri aelod sefydlu o leiaf, neu ddau aelod sefydlu os yw'r ddwy yn gymdeithasau.

Nid yw cyfraith cymdeithasau'n dweud llawer am aelodaeth. Mae Adran 2 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu bod yr awdurdod cofrestru, sef yr FCA, yn fodlon bod cymdeithas gydweithredol yn gymdeithas gydweithredol go iawn, sy'n awgrymu bod rhaid iddi fodloni egwyddorion y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer aelodaeth cymdeithasau cydweithredol. Nid yw gofynion tebyg yn berthnasol i gymdeithasau budd cymunedol.

Roedd newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn 2012 wedi dileu'r oedran ieuengaf ar gyfer bod yn aelod o gymdeithas, a gostwng yr oedran ieuengaf ar gyfer ethol unigolyn yn aelod o bwyllgor rheoli i 16. Fodd bynnag, mae cymdeithasau'n rhydd i bennu oedran ieuengaf ar gyfer aelodaeth, ac mae nifer o gymdeithasau wedi dewis cadw 16 fel oedran ieuengaf ar gyfer aelodau. Caniateir i aelodau iau nag 16 oed ddal cyfalaf cyfranddaliadau mewn cymdeithas, ond mae Adran 31 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn atal unigolyn iau nag 16 oed rhag cyhoeddi derbynneb, sy'n golygu na all godi ei gyfalaf cyfranddaliadau.

Mae'r FCA yn cydnabod y dylid ystyried Datganiad y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol (ICA) ar Hunaniaeth Gydweithredol wrth bwysu a mesur p'un a yw cymdeithas yn gymdeithas gydweithredol go iawn. Egwyddor gyntaf y datganiad hwn yw "*Aelodaeth Wirfoddol ac Agored: sefydliadau gwirfoddol yw cymdeithasau cydweithredol, sy'n agored i bob unigolyn ddefnyddio eu gwasanaethau ac yn barod i dderbyn cyfrifoldebau aelodaeth, heb wahaniaethu ar sail rhyw, statws cymdeithasol, hil, gwleidyddiaeth na chrefydd*".

Ystyrir bod hyn yn golygu y dylai aelodaeth cymdeithas gydweithredol ganolbwyntio ar y berthynas

â defnyddwyr, megis cwsmer, cyflogai neu gyflenwr. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau cydweithredol yn canolbwyntio ar un grŵp defnyddwyr, er bod rhai cyrff sy'n noddi yn cynnig rheolau enghreifftiol ar gyfer cymdeithasau cydweithredol aml-randdeiliad. Nid yw bod yn fuddsoddwr yn cael ei ystyried yn berthynas â defnyddiwr fel arfer. Mae'r FCA yn darparu canllawiau cofrestru ar gyfer cymdeithasau cydweithredol sy'n dymuno darparu ar gyfer buddsoddwyr-gyfranddalwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn Adran 2.2.4.

Nid yw'r cysyniad aelod nad yw'n ddefnyddiwr yn berthnasol i gymdeithasau budd cymunedol, sy'n rhydd i dderbyn pwy bynnag a ddymunant i fod yn aelod. Mae'r rhan fwyaf o reolau enghreifftiol ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol yn diffinio aelodau fel y rhai hynny sy'n cefnogi amcanion y gymdeithas.

Gall cymdeithas fod â mwy nag un categori aelodaeth, gyda gwahanol hawliau'n gysylltiedig â'r categorïau hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gymdeithasau cydweithredol sicrhau bod rheolau aelodaeth o'r fath yn gyson â Datganiad y Gynghrair Gydwethredol Ryngwladol ar Hunaniaeth Gydwethredol.

Mae hefyd lle i osod ffi danysgrifio flynyddol fel amod aelodaeth. Mae tanysgrifiadau blynyddol yn ffordd ddefnyddiol o dalu am gost darparu gwasanaethau aelodaeth a gallant gynorthwyo'r gymdeithas i gynnal rhestr aelodaeth gyfredol, trwy fynnu bod aelodau'n cadw mewn cysylltiad â'r gymdeithas. Fodd bynnag, gall gofyn i aelodau dalu tanysgrifiad blynyddol fod yn anghydnaws ag annog aelodau i gynnal eu buddsoddiad mewn cyfalaf cyfranddaliadau, oni bai bod darpariaethau'n cael eu sefydlu i wahaniaethu rhwng y ddau fath o aelodaeth, neu danysgrifiadau'n cael eu dileu ar gyfer aelodau sy'n dal mwy na lleiafswm penodol o gyfalaf cyfranddaliadau. Mae ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r mater hwn yn cynnwys rheolau sy'n caniatáu i'r gymdeithas ddiwynnu tanysgrifiadau blynyddol o gyfrif cyfranddaliadau'r aelod, neu drosi cyfalaf cyfranddaliadau'n ddyled os terfynir aelodaeth o ganlyniad i fethu â thalu'r tanysgrifiad blynyddol.

Mae'r FCA hefyd wedi cymeradwyo rheolau enghreifftiol sy'n caniatáu i gyfranddaliadau gael eu dal gan enwebeion. Gwneir hyn pan fydd enwebai cymeradwy'n dal cyfranddaliadau ar ran ei gleientiaid, ac yn arfer eu pleidleisiau trwy ddirprwy mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn amodol ar gyfyngiadau. Fel arfer, bydd enwebeion yn gynghorwyr ariannol annibynnol neu'n rheolwyr cronfeydd buddsoddi. Er y gallai trefniadau o'r fath ei gwneud yn bosibl i ddenu buddsoddiad o ffynonellau ehangach, gallent wanhau'r agweddau ar fuddsoddiad cymunedol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned, a gwneud y gymdeithas yn agored i ddylanwad yr enwebai.

---

### 3.2.5 Cynnal cyfarfodydd

---

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cymdeithas gynnal cyfarfodydd cyffredinol o'u haelodau bob blwyddyn o leiaf i oruchwylio materion y gymdeithas. Mae rheolau cymdeithas yn amlinellu sut y dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n mabwysiadu rheolau sy'n darparu ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol, lle yr ystyrir yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, y penodir archwilwyr, yr etholir aelodau'r pwyllgor rheoli, ac y gwneir penderfyniadau ynglŷn â defnyddio elw ac unrhyw gynigion i newid rheolau'r gymdeithas.

Bydd y rheolau fel arfer yn pennu cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol, a fynegir fel arfer fel



lleiafswm o gyfanswm yr aelodaeth, sef 10% yn nodweddiadol, neu leiafswm nifer o aelodau. Mae gan rai cymdeithasau reolau sy'n pennu'r cworwm fel dewis naill ai/neu, p'un bynnag sydd isaf. Gallai rheolau gael eu mabwysiadu hefyd i ganiatáu ar gyfer pleidleisiau trwy ddirprwy, a phleidleisiau post neu electronig.

Mae'n rhaid i'r rheolau ddisgrifio sut y bydd pleidleisiau'n cael eu cynnal mewn cyfarfodydd, a'r trefniadau ar gyfer penderfynu rhwng pleidlais gyhoeddus syml a phleidlais gudd. Mae bron pob cymdeithas yn gweithio yn ôl yr egwyddor un aelod, un bleidlais (mae rhai cymdeithasau cydweithredol eilaidd a ffederal yn defnyddio rheolau aelodaeth gorfforaethol sy'n darparu ar gyfer pleidleisio cyfrannol). Nid yw'r ddeddfwriaeth cymdeithasau'n darparu ar gyfer dyrannu hawliau pleidleisio i gyfranddaliadau. Mae'n rhaid i'r rheolau hefyd bennu'r mwyafrif sy'n ofynnol i ddiwygio neu ddiddymu rheolau neu ychwanegu rheolau newydd. Mae Deddf 2014 yn mynnu penderfyniadau arbennig gyda mwyafrifoedd penodol ar gyfer penderfyniadau i gyfuno â chymdeithas arall neu gwmni, neu drosglwyddo ymrwymadau iddi/iddo (gweler Adran 2.7), neu drosi cymdeithas yn gwmni (gweler Adran 2.6.4).

---

### 3.2.6 Aelodau pwyllgor rheoli

---

Mae'r FCA yn mynnu bod rheolau pob cymdeithas yn datgan sut y bydd aelodau'r pwyllgor rheoli'n cael eu penodi a'u diswyddo, ac, yn yr un modd, sut y bydd swyddogion y pwyllgor hwn yn cael eu penodi a'u diswyddo, a'r trefniadau, os o gwbl, ar gyfer talu aelodau pwyllgor. O dan ddeddfwriaeth cymdeithasau, yr oedran ieuengaf ar gyfer bod yn aelod o bwyllgor rheoli yw 16.

Mae llywodraethu cymdeithas yn dda yn dibynnu ar fodolaeth pwyllgor rheoli gweithredol, a etholwyd gan yr aelodau, i oruchwyllo materion y gymdeithas. Wrth ethol pwyllgor rheoli, mae aelodau'n dirprwyo eu pwerau sofran i'r pwyllgor hwn. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn atebol i'r aelodau, ac yn gyfrifol am oruchwyllo'r rheolwyr a'r staff gweithredol sy'n cynnal y busnes. Gall cymdeithasau, heblaw am gymdeithasau elusennol, ddewis cymysgedd o aelodau gweithredol ac anweithredol ar eu pwyllgorau rheoli, neu ddewis pwyllgor cwbl anweithredol, a wasanaethir gan staff gweithredol. Mae gan aelodau pwyllgor rheoli cymdeithasau budd cymunedol elusennol ddyletswydd i weithredu er budd yr elusen yn unig a rhaid iddynt atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar eu penderfyniadau. Mae hyn yn golygu na allant dderbyn unrhyw dâl na budd heb awdurdod, felly mae'n anarferol i aelodau pwyllgor elusennau fod yn weithredol (gweler [www.gov.uk/payments-to-charity-trustees-what-the-rules-are](http://www.gov.uk/payments-to-charity-trustees-what-the-rules-are)).

Mae angen ystyried maint y pwyllgor rheoli, ei gyfansoddiad, a hyd gwasanaeth aelodau'r pwyllgor. Fel arfer, mynegir maint y pwyllgor yn nhermau lleiafswm ac uchafswm aelodau, sef rhwng tri a 12 yn nodweddiadol. Mae gan rai cymdeithasau aml-randdeiliad reolau sy'n neilltuo nifer benodol o leoedd ar y pwyllgor rheoli i wahanol gategoriâu aelodaeth. Gallai cymdeithasau hefyd fod â rheolau sy'n caniatáu i'r pwyllgor rheoli gyfethol unigolion sydd â sgiliau arbenigol neu broffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n mynnu bod aelodau pwyllgor rheoli naill ai'n ymddeol neu'n sefyll am ailetholiad ar ôl cyfnod diffiniedig, sef tair blynedd yn nodweddiadol, a hynny ar sail gylchdro fel arfer fel na fydd mwy na thraean o'r pwyllgor rheoli'n sefyll am etholiad, gan felly ganiatáu rhywfaint o barhad o ran aelodaeth.

Fel mater o arfer da, bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau, gan gynnwys cymdeithasau budd

cymunedol elusennol, yn talu mân dreuliau i aelodau pwyllgor rheoli. Mae rhai cymdeithasau hefyd yn talu ffi i aelodau pwyllgor yn gymesur â'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Dylai cymdeithasau budd cymunedol ddilyn canllawiau eu rheoleiddiwr elusennau cenedlaethol ynglŷn â'r mater hwn, a sicrhau bod eu rheolau'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn.

Mae'n rhaid i gymdeithas sefydlu rheolau ar gyfer diswyddo aelodau pwyllgor. Fel rheol, delir y pŵer hwn gan bleidlais fwyafrif syml o aelodau mewn cyfarfod cyffredinol. Fel arfer, bydd gan gymdeithasau reolau ar gyfer diswyddo aelodau pwyllgor sydd wedi cael eu datgan yn fethdalwr, neu yr ystyrir na allant gyflawni eu dyletswyddau am resymau meddygol. Mae gan rai cymdeithasau reolau ar gyfer diswyddo aelodau pwyllgor os nad ydynt yn bresennol mewn nifer benodol o gyfarfodydd yn olynol.

Mae'n rhaid i'r rheolau fynd i'r afael â phenodi swyddogion hefyd. Mae'n rhaid i bob cymdeithas benodi ysgrifennydd yn ôl y gyfraith. Mae swyddi eraill swyddogion, fel trysorydd, cadeirydd ac is-gadeirydd, yn ôl disgrisiwn y gymdeithas. Mae rheolau eraill dewisol yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y trafodion mewn cyfarfodydd pwyllgor rheoli, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gworymau a rôl y cadeirydd a defnyddio cyfryngau electronig i gynnal cyfarfodydd o bell.

Mae aelodau pwyllgor rheoli cymdeithas budd cymunedol elusennol yn ymddiriedolwyr elusen yn ôl y gyfraith, ac yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau personol fel ymddiriedolwyr a sicrhau bod y gymdeithas yn cydymffurfio â gofynion y gyfraith elusennau. (Gweler y Comisiwn Elusennau CC3: Yr Ymddiriedolwr Hanfodol.)

---

### 3.2.7 Uchafswm daliadau cyfranddaliadau

---

Mae'n rhaid i bob cymdeithas sefydlu rheol sy'n pennu'r uchafswm cyfranddaliadau y gall aelod ei ddal. Mae llawer o gymdeithasau'n pennu eu huchafswm daliad cyfranddaliadau yn unol â'r uchafswm a ganiateir gan y gyfraith ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, sef £100,000 ar hyn o bryd. Nid yw'r uchafswm hwn yn berthnasol i aelodau corfforaethol sy'n gymdeithasau cydweithredol cofrestredig na chymdeithasau budd cymunedol, lle nad oes terfyn uchaf yn gymwys.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gyfanswm y cyfalaf y gall unrhyw unigolyn neu endid corfforaethol unigol ei fuddsoddi mewn cymdeithas, er mwyn cyfyngu dibyniaeth ar fuddsoddwyr mwy. Gallai cymdeithasau sy'n ceisio cael llai nag £1 filiwn o gyfalaf ddewis pennu terfyn uchaf ar gyfer dal cyfranddaliadau islaw'r terfyn cyfreithiol, sef 5% i 10% o gyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol gan y gymdeithas yn nodweddiadol (gweler hefyd Adran 4.5.6). Gallai cymdeithas hefyd ddewis cyfyngu'r uchafswm y gall cymdeithas arall ei fuddsoddi ynddi, neu o leiaf sefydlu rhesymau arbennig ar gyfer caniatáu i gymdeithas arall fuddsoddi mwy na 10% o gyfanswm y cyfalaf y mae arni ei angen.

Nid oes terfyn uchaf cyfreithiol ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy a gyhoeddir gan gymdeithas. Am resymau a esbonnir yn Adran 2.2.3, nid yw'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn cynghori cymdeithasau i gynnig cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy i'r cyhoedd.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau hefyd yn mabwysiadu rheolau sy'n pennu daliad cyfranddaliadau lleiaf ar gyfer aelodaeth. Gall hyn amrywio o £1 enwol i gymaint â £1,000 neu fwy. Efallai y gellid

cyfiawnhau lleiafswm daliad cyfranddaliadau uwch os nad yw'r gymdeithas yn codi tanysgrifiad blynyddol, er mwyn talu am gost darparu gwasanaethau aelodaeth. Fodd bynnag, gallai lleiafswm daliad cyfranddaliadau uchel fod yn rhwystr rhag aelodaeth, a allai fynd yn groes i egwyddor gydweithredol aelodaeth agored, ar gyfer cymdeithasau sy'n cofrestru fel cymdeithasau cydweithredol. Gellir lliniaru hyn trwy sefydlu cyfryngau sy'n caniatáu i aelodau fuddsoddi fesul rhandaliad i gyrraedd yr isafswm.

Gallai cymdeithas benderfynu mabwysiadu isafswm uwch a/neu uchafswm is ar gyfer dal cyfranddaliadau mewn perthynas â chynnig cyfranddaliadau penodol nag a bennir yn ei rheolau. Mae hyn yn arferol i gymdeithasau newydd oherwydd gallai'r targedau ar gyfer cynnig cyfranddaliadau cychwynnol olygu bod y strategaeth hon yn un ddoeth.

---

### 3.2.8 Benthyciadau ac ernesau

---

Mae'n rhaid i gymdeithas sefydlu rheolau sy'n datgan p'un a fydd yn caniatáu i aelodau neu eraill ddal ernesau neu wneud benthyciadau i'r gymdeithas ac, os felly, o dan ba delerau ac amodau. Mae'n rhaid i'r rheolau hefyd ddatgan yr uchafswm y gellir ei fenthycyca.

Mae'r gwahaniaeth rhwng benthyciadau ac ernesau yn hollbwysig. Mae cymryd ernesau'n weithgaredd a reoleiddir, ond nid yw derbyn benthyciadau at ddibenion y busnes yn cael ei reoleiddio. Mae gwarannau dyledion fel arfer wedi'u heithrio o ofynion prospectws, a chaniateir i gymdeithas wneud cyfathrebiadau nad ydynt yn amser real ynglŷn â'i gwarannau dyledion ei hun heb gydymffurfio â'r rheolau hyrwyddo ariannol, a fyddai'n golygu fel arall bod rhaid i unigolyn awdurdodedig gymeradwyo'r deunydd a gyfathrebir.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n mabwysiadu rheolau sy'n gwahardd cymryd ernesau yn benodol, ond sy'n caniatáu i'r gymdeithas fenthycyca oddi wrth aelodau yn ogystal â ffynonellau eraill fel banciau, benthycwyr masnachol neu fuddsoddwyr sefydliadol. Mae gan rai cymdeithasau reolau sy'n pennu'r uchafswm y gellir ei fenthycyca a/neu'r gyfradd llog uchaf y gellir ei thalu ar benthyciadau. Gall benthycyca fod yn ffordd bwysig o gael cyfalaf ychwanegol, yn enwedig gan aelodau sydd eisoes yn dal y nifer uchaf o gyfranddaliadau a ganiateir.

---

### 3.2.9 Telerau ac amodau ar gyfer cyfalaf cyfranddaliadau

---

Gall cymdeithasau gyhoeddi cyfranddaliadau sy'n drosglwyddadwy a/neu y gellir eu codi, neu gyfranddaliadau anhrosglwyddadwy na ellir eu codi (mae'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau'n cael ei ganslo wrth derfynu aelodaeth, a throsglwyddir yr arian i gronfeydd wrth gefn cyffredinol y gymdeithas). Mae'n rhaid i'r rheolau ddatgan pa fath o gyfalaf cyfranddaliadau y mae'r gymdeithas yn bwriadu ei gyhoeddi, a'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'r cyfranddaliadau hyn.

Ychydig iawn o gymdeithasau sy'n dewis cyhoeddi cyfranddaliadau trosglwyddadwy, am y rhesymau a esbonnir yn Adran 2.2.3. Cyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir ei godi sy'n gyffredin mewn cymdeithasau, er bod gwahaniaethau mawr yn y telerau a'r amodau a fabwysiadir gan gymdeithasau ar gyfer y math hwn o gyfalaf sydd, yn eu tro, yn effeithio ar hylifedd y cyfranddaliadau a llifoedd cyfalaf y gymdeithas. Mae'r telerau a'r amodau hyn hefyd yn dylanwadu

ar sut mae'r cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yn cael ei drin yng nghyfrifon y gymdeithas.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n mabwysiadu rheolau sy'n rhoi disgrisiwn i'r pwyllgor rheoli atal yr hawl i godi cyfranddaliadau. Mae'r rheol hon yn angenrheidiol er mwyn i gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi gael ei drin fel ecwiti, nid dyled, ar fantolen y gymdeithas. Mae'n rhaid dweud wrth gyfranddalwyr os oes gan y pwyllgor rheoli yr hawl i atal codi cyfranddaliadau.

Y prif reswm dros atal codi cyfranddaliadau yw'r amser y mae'n ei gymryd i fuddsoddiad newydd gynhyrchu digon o arian dros ben i gyllido codi cyfranddaliadau. Mae angen i gymdeithasau gynllunio ar gyfer hylifedd eu cyfalaf cyfranddaliadau, ac adlewyrchu'r cynlluniau hyn yn nhelerau ac amodau eu cynnig cyfranddaliadau. Yn ogystal, mae angen i gymdeithasau sy'n bwriadu cyflwyno cais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (EIS) neu Ostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (SITR) ddatgan yn eglur bod codi cyfranddaliadau yn ôl disgrisiwn y pwyllgor rheoli. Mae'n rhaid i fuddiolwyr y cynlluniau hyn sy'n rhoi gostyngiad yn y dreth gynnal eu daliad cyfranddaliadau am y tair blynedd cyntaf o fasnachu o leiaf ar ôl buddsoddi (gweler Adrannau 8.4 i 8.6).

Fodd bynnag, y prif reswm pam y caiff cymdeithas atal codi cyfranddaliadau yw er mwyn diogelu buddiannau credydwyr yn hytrach na'i haelodau. Amlinellir y ddyletswydd hon yn Adran 124 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, sy'n datgan y bydd cyn aelodau'n parhau i fod yn atebol am unrhyw ddyledion a gronwyd gan y gymdeithas cyn iddynt godi eu cyfalaf cyfranddaliadau am hyd at flwyddyn ar ôl ei godi, pe byddai'r gymdeithas yn cael ei dirwyn i ben yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r pwyllgor rheoli'n gyfrifol am sicrhau nad yw sefyllfa o'r fath yn codi, trwy atal codi cyfalaf cyfranddaliadau yn ystod unrhyw gyfnod o ansolfedd disgwylidig. Ymdrinnir â'r mater hwn yn fanylach yn Adran 2.3.

Dylai'r rheolau hefyd ddatgan pa gyfnod rhybudd y mae'n rhaid i aelod ei roi pan fydd yn gofyn am gael codi rhywfaint o'i gyfalaf cyfranddaliadau neu'r cyfan ohono. Bydd hyn fel arfer yn cael ei ddatgan fel cyfnod rhybudd lleiaf, sy'n amrywio o wythnos i flwyddyn, yn nodweddiadol. Mae rhai cymdeithasau hefyd yn mabwysiadu rheolau sy'n cyfyngu ar faint o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn blwyddyn, neu sy'n cyfyngu ar godi cyfranddaliadau mewn rhyw ffordd arall, fel eu cysylltu ag elw argadwedig, neu gyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau newydd.

Amod arall sy'n cael ei gymhwyso weithiau i gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yw hawl y pwyllgor rheoli i leihau gwerth cyfranddaliadau. Mae'r hawl hon fel arfer yn gysylltiedig ag asesiad na all gwerth ased net y fenter gefnogi gwerth llawn y cyfalaf cyfranddaliadau mwyach, gan gyfiawnhau gostyngiad dros dro neu barhaol mewn gwerth cyfranddaliadau. Mae gan rai cymdeithasau reol sy'n caniatáu iddynt ddiwynnu ffi weinyddol am godi cyfranddaliadau.

Mae'r telerau a'r amodau a gymhwysir i gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi yn cael effaith fawr ar hylifedd cyfalaf cyfranddaliadau, ac felly ei atynioldeb i fuddsoddwyr posibl. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod y rheolau'n mynd i'r afael â'r holl delerau ac amodau y gallai cymdeithas ddymuno eu gosod ar ei chynigion cyfranddaliadau.

---

### 3.2.10 Archwiliadau ac archwilwyr

---

Mae'n ofynnol i bob cymdeithas sefydlu rheol sy'n datgan ei rhwymedigaeth i benodi archwilydd yn unol â'r Ddeddf berthnasol. Gall cymdeithasau, os yw eu rheolau'n caniatáu hynny, basio penderfyniad yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol sy'n eu heithrio rhag archwiliad proffesiynol llawn, os yw eu trosiant a'u hasedau islaw lefel benodedig (gweler Adran 3.6). Mae Rhan 7 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn amlinellu gofynion cymdeithasau o ran cyfrifon, archwilio a gwybodaeth flynyddol. Mae gan rai cymdeithasau reolau ychwanegol hefyd sy'n datgan eu rhwymedigaeth statudol i gyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r FCA.

---

### 3.2.11 Terfynu aelodaeth

---

Mae rheolau sy'n llywodraethu terfynu aelodaeth yn arwain at ganlyniadau tymor hir pwysig i gymdeithasau sy'n hyrwyddo buddsoddiad cymunedol. Dylai'r rheolau alluogi cymdeithas i reoli ei haelodaeth, sicrhau bod aelodau'n aros mewn cysylltiad â'r gymdeithas, a darparu modd o ymdrin ag aelodau segur neu aelodau na ellir dod o hyd iddynt.

Mae'n rhaid cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pryd y gellir terfynu aelodaeth â'r gymdeithas, a'r trefniadau ar gyfer ymdrin â therfynu. Mae'n rhaid i'r rheolau ganiatáu i aelodau ganslo eu haelodaeth, neu i aelodaeth gael ei therfynu os nad yw'r aelod yn bodloni'r meini prawf derbyn mwyach. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau hefyd yn mabwysiadu rheolau sy'n caniatáu i'r pwyllgor rheoli ddiarddel aelodau, er enghraifft, os nad yw'r aelod yn talu tanysgrifiad blynyddol, neu os nad yw'n ymateb i gyfathrebiadau dros gyfnod o ddwy flynedd, neu os na all y gymdeithas ddod o hyd iddo.

Mae'n rhaid i'r rheolau hefyd ddatgan pa ddarpariaethau a wnaed i ymdrin â hawliadau gan gynrychiolwyr aelod sydd wedi marw, neu ymddiriedolwr aelod sydd wedi cael ei ddatgan yn fethdalwr.

Yn ogystal, dylai'r rheolau ddarparu ar gyfer unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi a ddelir gan unigolyn y mae ei aelodaeth wedi cael ei therfynu. Mae gan rai cymdeithasau reolau sy'n pennu na ellir codi na throsglwyddo symiau enwol o gyfalaf cyfranddaliadau, ond byddant yn cael eu fforffedu os terfynir aelodaeth. Mae gan gymdeithasau eraill reolau sy'n caniatáu i gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi gael ei drosi'n fenthyciadau wrth derfynu aelodaeth.

---

### 3.2.12 Defnyddio elw

---

Mae gan yr FCA wahanol ymagweddau at sut y gellir defnyddio elw mewn cymdeithas gydweithredol a chymdeithas budd cymunedol. Yn ogystal â hyn, mae'r Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban wedi cytuno ar bolisi ynglŷn â defnyddio elw gan gymdeithas budd cymunedol elusenol. Mae llog ar gyfalaf cyfranddaliadau'n draul weithredu i gymdeithas, ac ni cheir ei ddefnyddio fel cyfrwng i ddosbarthu elw neu arian dros ben i fuddsoddwyr. Mae Adran 6 y Llawlyfr yn ymdrin â'r materion hyn yn fanylach.

Mae canllawiau cofrestru'r FCA ar gyfer cymdeithasau cydweithredol yn cyfeirio at Ddatganiad yr ICA ar Hunaniaeth Gydwethredol, ac mae'r bedwaredd egwyddor ar gyfranogiad economaidd

aelodau yn mynd i'r afael â defnyddio elw fel a ganlyn, "*Mae aelodau'n dyrannu arian dros ben ar gyfer un o'r dibenion canlynol, neu bob un ohonynt; datblygu eu cymdeithas gydweithredol, trwy sefydlu cronfeydd wrth gefn o bosibl, y byddai rhan ohonynt o leiaf yn anwahanadwy; bod o fudd i aelodau yn gymesur â'u trafodion â'r gymdeithas gydweithredol; a chefnogi gweithgareddau eraill a gymeradwywyd gan yr aelodaeth.*"

Mae canllawiau cofrestru'r FCA ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol yn fwy pendant o lawer: "*mae'n rhaid i unrhyw elw a wneir gan gymdeithas budd cymunedol gael ei ddefnyddio er budd y gymuned*". Gall hyn gynnwys ailfuddsoddi'r elw yn y busnes, neu ei ddsbarthu i fuddiolwyr sydd â'r un amcanion â'r gymdeithas, neu amcanion tebyg.

Mae cyfyngiadau ychwanegol ar sut y caiff cymdeithas budd cymunedol elusennol ddefnyddio elw. Mae'r Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban o'r farn bod pŵer i ddsbarthu elw yn sylfaenol anghydnaws â statws elusen, ac maen nhw wedi cytuno ar ganllawiau polisi penodol ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol elusennol sydd ag aelod-gyfranddalwyr, ynglŷn â sut y ceir talu llog i'r aelodau hyn ar eu cyfalaf cyfranddaliadau (gweler Adran 6.2).

---

### 3.2.13 Dogfennau swyddogol

---

Mae'r FCA yn mynnu bod y rheolau'n datgan p'un a yw'r gymdeithas yn bwriadu mabwysiadu 'sêl gyffredin', sef dyfais ar gyfer stampio dogfennau swyddogol fel tystysgrifau cyfranddaliadau, ac os oes ganddi sêl gyffredin, ddatgan sut y caiff ei defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer sêl gyffredin neu ddyfais gyfatebol.

Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod cymdeithasau'n defnyddio sêl gyffredin, neu'n cyhoeddi tystysgrifau cyfranddaliadau, ond os bydd cymdeithas yn penderfynu peidio â chyhoeddi tystysgrifau cyfranddaliadau, dylai wneud darpariaethau eraill fel bod aelodau'n gwybod faint o gyfalaf cyfranddaliadau sydd ganddynt.

Dylai cymdeithasau sy'n bwriadu talu llog a/neu ddifidendau, neu sy'n bwriadu codi ffi danysgrifiad flynyddol ar aelodau, ystyried cyflwyno cyfrifon cyfranddaliadau unigol ar gyfer aelodau. Yn lle anfon sieciau ar gyfer taliadau llog a/neu ddifidend, neu dystysgrifau cyfranddaliadau cyfwerth, gallai'r gymdeithas anfon datganiad blynyddol at aelodau ynglŷn â'u cyfrif cyfranddaliadau, sy'n rhestru'r holl dderbyniadau, yr holl gyfranddaliadau a godwyd a'r holl arwystlau. Byddai hyn yn golygu bod yr holl daliadau llog a difidend yn cael eu hailfuddsoddi'n awtomatig, yn ogystal â galluogi cymdeithas i godi ffi danysgrifio flynyddol heb orfod annog aelodau i wneud taliad blynyddol. Er mwyn rheoli cyfrifon cyfranddaliadau yn y modd hwn, byddai angen i gymdeithas fod â 'hawlrwym ar gyfranddaliadau', sef yr hawl i wrthbwysu dyled aelod yn erbyn ei gyfalaf cyfranddaliadau. Yn ogystal, byddai'n rhaid i'r rheolau ddatgan y bydd unrhyw daliadau i aelodau'n cael eu credydu'n awtomatig i'w cyfrifon, oni bai eu bod eisoes yn dal yr uchafswm cyfranddaliadau unigol a ganiateir.

---

### 3.2.14 Buddsoddiadau

---

Mae Adran 27 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn

caniatáu i gymdeithasau buddsoddi cyllid mewn cyrff corfforaethol eraill ac awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i gymdeithasau sefydlu rheolau sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer buddsoddi. Mae gan rai cymdeithasau reolau sy'n pennu sut mae'n rhaid i benderfyniadau buddsoddi uwchlaw gwerth penodol gael eu gwneud. Mae Adran 2.8 yn mynd i'r afael â buddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill.

### 3.3 CYRFF SY'N NODDI A RHEOLAU ENGHREIFFTIOL

Mae cyrff sy'n noddi yn cyhoeddi rheolau enghreifftiol a gymeradwywyd o flaen llaw gan yr FCA. Mae'r FCA yn cyhoeddi rhestr o noddwyr ar ei wefan. Mae'n rhestru 24 corff sy'n noddi ar hyn o bryd, ond dim ond pum noddwr sy'n cynhyrchu rheolau sy'n addas ar gyfer cyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol ac sy'n cael eu marchnata felly gan y corff sy'n noddi, sef:

- Co-operatives UK
- Plunkett Foundation
- Somerset Co-operative Services CIC
- Supporters Direct
- Wessex Community Assets.

Mae'r cyrff hyn sy'n noddi yn cynnig gwasanaeth cofrestru llawn, sy'n cynnwys cyngor ar ddiwygio eu rheolau enghreifftiol, a byddant yn cyflwyno ceisiadau i'r FCA ar ran eu cleientiaid. Amlinellir manylion eu ffioedd yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Y dewis arall yn lle defnyddio rheolau enghreifftiol yw defnyddio gwasanaethau gweithiwr cyfreithiol proffesiynol sydd â gwybodaeth a phrofiad o lunio rheolau cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, neu ysgrifennu rheolau heb gymorth proffesiynol. Nid yw'r FCA yn mynnu bod ceisiadau'n cael eu gwneud gan unigolyn proffesiynol, ond, fel y nodwyd uchod, mae'n codi mwy am archwilio ceisiadau nad ydynt wedi'u seilio ar reolau enghreifftiol, ac nid yw'r ffioedd hyn yn ad-daladwy, hyd yn oed os gwrthodir y cais.

### 3.4 DIWYGIO RHEOLAU

Gall cymdeithas ychwanegu at ei rheolau, eu dileu neu eu diwygio, yn amodol ar gefnogaeth cyfarfod cyffredinol o'i haelodau a chymeradwyaeth yr FCA. Mae'r FCA yn archwilio ceisiadau ar gyfer cofrestru newidiadau i reolau er mwyn sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac mae'n rhoi sylwadau ar geisiadau diffygiol. Ni fydd unrhyw newid i'r rheolau'n ddilys hyd nes y bydd yr FCA wedi cymeradwyo a chofrestru'r newid. Mae'n rhaid i gymdeithas ddilyn ei rheolau ei hun ar gyfer cynnal cyfarfodydd (gweler Adran 3.2.5) wrth geisio cymeradwyaeth ei haelodau i newid rheol.

Os yw rheolau cymdeithas wedi'u seilio ar reolau enghreifftiol corff sy'n noddi, fe allai fod yn werth cysylltu â'r corff sy'n noddi i bennu p'un a wnaed unrhyw newidiadau i'r rheolau enghreifftiol ers i'r gymdeithas gael ei chofrestru, neu a yw'r corff sy'n noddi wedi cynorthwyo cymdeithasau cofrestredig eraill i wneud diwygiadau tebyg.

Ni chaiff cymdeithasau budd cymunedol elusennol ddiwygio eu rheolau mewn ffordd a fyddai'n

achosi iddynt beidio â bod yn elusen (gweler Adran 197, Deddf Elusennau 2011). Yn yr Alban, mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol elusennol sydd wedi'u cofrestru â Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban roi gwybod iddo pan wneir newid i'w rheolau, a cheisio ei gydsyniad o flaen llaw pan fwriedir newid amcanion y gymdeithas. Yng Nghymru a Lloegr, mae mwy o arweiniad ar gael yn [www.gov.uk/guidance/how-to-make-changes-to-your-charity-governing-document](http://www.gov.uk/guidance/how-to-make-changes-to-your-charity-governing-document). Dylid nodi bod angen i'r Comisiwn Elusennau awdurdodi unrhyw ddiwygiad i reolau cymdeithas budd cymunedol elusennol yng Nghymru a Lloegr sydd o fudd i'r ymddiriedolwyr.

Ni fydd unrhyw ddiwygiad i reolau cymdeithas sy'n mynnu bod aelodau presennol yn buddsoddi mewn mwy o gyfalaf cyfranddaliadau, neu'n cynyddu rhwymedigaethau aelodau, yn gyfrwymol ar aelod oni bai y cafwyd ei gydsyniad ysgrifenedig. Byddai hyn yn cynnwys newid i reol sy'n cynyddu'r nifer leiaf o gyfranddaliadau y mae'n rhaid i aelod eu dal i fod yn aelod.

### 3.5 RHEOLAU EILAIDD

Caiff cymdeithas ddewis mabwysiadu rheolau sy'n mynd y tu hwnt i'r materion sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth cymdeithasau. Gall rheolau nad ydynt yn statudol gael eu cofrestru gyda'r FCA o hyd, neu gellir eu cynnal fel rheolau eilaidd gan y gymdeithas, heb gymeradwyaeth yr FCA. Mae'r rhan fwyaf o reolau enghreifftiol yn cynnwys rheolau sy'n mynd y tu hwnt i'r materion statudol yr ymdrinnir â nhw yn Adran 3.2 Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau i reolau a gofrestrwyd gyda'r FCA gael eu cymeradwyo gan yr FCA, hyd yn oed os nad yw'r rheol dan sylw yn ymdrin â mater statudol.

Mae rheolau eilaidd, a elwir hefyd yn rheoliadau, gorchmynion sefydlog, neu is-ddeddfau, fel arfer yn cael eu datblygu i wella gweithrediad y gymdeithas. Mae'n fater o arfer da i gopïau o reolau eilaidd gael eu rhoi i bob aelod, a dylai newidiadau i reolau eilaidd gael eu cymeradwyo mewn cyfarfod cyffredinol.

### 3.6 RHWYMEDIGAETHAU COFRESTRU

Pan fydd wedi'i chofrestru, rhaid i gymdeithas gadw cyfrifon priodol, cyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r FCA, a rhoi gwybod i'r FCA am unrhyw newid yn ymwneud â'i swyddfa gofrestredig. Mae'n rhaid iddi hefyd wneud cais i'r FCA i ddiwygio unrhyw un o'i rheolau neu newid ei henw. Ni fydd diwygiadau'n ddilys hyd nes y byddant wedi cael eu cofrestru a'u cymeradwyo gan yr FCA. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gymdeithasau i gael eu cynnal yn unol â'u rheolau cofrestredig, a rhoi gwybod i'r FCA os nad ydynt yn dymuno bod yn gofrestredig mwyach.

Mae'n ofynnol i gymdeithasau cofrestredig gyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r FCA. Dylai ysgrifennydd y gymdeithas lenwi ffurflen safonol a'i dychwelyd i'r FCA o fewn saith mis o ddiwedd blwyddyn ariannol y gymdeithas. Mae'n rhaid cyflwyno set o gyfrifon gyda'r ffurflen. Os yw trosiant y gymdeithas yn fwy na £5.6 miliwn (neu £250,000 os oes gan y gymdeithas amcanion elusennol), neu os yw ei hasedau'n fwy na £2.8 miliwn, mae'n rhaid i'r cyfrifon hyn gael archwiliad proffesiynol llawn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gymdeithas sy'n is-gwmni, unrhyw gymdeithas sydd ag is-gwmnïau, neu unrhyw gymdeithas sy'n ymwneud â gweithgareddau cymryd ernes.



Gall cymdeithasau sydd â throsiant nad yw'n fwy na £5.6 miliwn, neu asedau nad ydynt yn fwy na £2.8 miliwn, gael eu heithrio o archwiliad proffesiynol llawn, a chyflwyno adroddiad cyfrifydd sy'n cadarnhau'r cyfrifon yn lle hynny, os yw eu rheolau'n caniatáu hynny a bod penderfyniad wedi cael ei basio yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol. Gellir cyflwyno cyfrifon anarchwiliedig, a gadarnhawyd gan y pwyllgor rheoli, os nad yw'r trosiant yn fwy na £90,000. Os yw trosiant ac asedau'r gymdeithas islaw £5,000, a bod ganddi lai na 500 o aelodau, gall benderfynu cyflwyno archwiliad lleyg, a gadarnhawyd gan rywun nad yw'n aelod o'r pwyllgor rheoli nac yn un o swyddogion y gymdeithas.

Mae'n rhaid i gymdeithasau gynnal cofrestr gyfredol o aelodau a swyddogion. Mae'n rhaid i'r gofrestr aelodau gynnwys cyfeiriad post yr aelod, ei gyfeiriad electronig (os rhoddwyd hwnnw), ei ddaliad cyfranddaliadau ac unrhyw eiddo arall y mae'n ei ddal yn y gymdeithas, a'r dyddiad y dechreuodd ac y gorffennodd ei aelodaeth. Mae gan aelodau yr hawl i weld copi dyblyg o'r gofrestr hon, nad yw'n cynnwys manylion daliad cyfranddaliadau'r aelodau a'u heiddo yn y gymdeithas. Mae'n rhaid i'r gofrestr swyddogion gynnwys manylion y swyddi a ddelir a'r dyddiadau y dechreuwyd (ac y gadawyd) y swyddi hynny. Yn wahanol i gwmnïau, nid oes rhaid i gymdeithasau gyflwyno'r cofrestrau hyn i'w cofrestrydd. Mae'n rhaid i gymdeithasau hefyd gadw cofnodion o unrhyw fuddiolwyr a enwebwyd gan aelodau, yn achos eu marwolaeth. Gallai'r manylion hyn gael eu cynnwys yn y gofrestr aelodau.

Mae'n rhaid i gymdeithasau dalu ffi flynyddol i'r FCA hefyd, a adwaenir fel ffi gyfnodol. Pennir y ffi hon yn ôl graddfa symudol; yn 2016-17, roedd yn amrywio o £60- ar gyfer cymdeithasau a chanddynt gyfanswm asedau heb fod yn fwy na £50,000, hyd at £460 ar gyfer cymdeithasau a chanddynt gyfanswm asedau o fwy nag £1 filiwn.

Yn yr Alban, mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol elusennol gydymffurfio â gofynion yr FCA a threfniadau monitro Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban, sy'n cynnwys cyflwyno cyfrifon blynyddol (gweler [www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/annual-monitoring](http://www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/annual-monitoring)). Mae Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban yn gweithredu cyfundrefn cydsynio a hysbysu y dylai cymdeithasau budd cymunedol elusennol ymglyfarwyddo â hi. Mae hyn yn cynnwys ceisio cydsyniad i newid eu henw neu ddibenion (gweler [www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/making-changes-to-your-charity](http://www.oscr.org.uk/charities/managing-your-charity/making-changes-to-your-charity)).

## 4 DOGFENNAU CYNNIG

### 4.1 EGWYDDORION ARWEINIOL

Dogfen gynnig yw unrhyw fath o lenyddiaeth hyrwyddol sy'n annog y cyhoedd i fuddsoddi mewn cymdeithas. Er bod cymdeithas wedi'i heithrio o reoleiddio wrth gynnig cyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir ei godi i'r cyhoedd, mae rhwymedigaeth ar y gymdeithas a'i chynrychiolwyr i fod yn eirwir a chyfrifol, a chydymffurfio â'r telerau a'r amodau a amlinellir yn y ddogfen gynnig. Atgyfnerthir y rhwymedigaeth hon gan Ddeddf Camliwio 1967 (gweler Adran 7.4). Mae'n hollbwysig bod yr holl wybodaeth a ddarperir mewn dogfennau, ar fideos neu wefannau, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac mewn unrhyw gyfathrebiadau eraill â darpar fuddsoddwyr yn gywir ac yn ffrwyth ystyriaeth ofalus, ac nad yw'n gamarweiniol.

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi cyflwyno Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol ar gyfer dogfennau cynnig sy'n bodloni ei safonau arfer da. Mae mwy o fanylion am y Marc ar gael yn Adran 7.6.2. Anogir pob cymdeithas sy'n gwneud cynnig cyhoeddus o gyfranddaliadau cymunedol i wneud cais am y Marc.

Mae'r rhan hon o'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar bedwar math gwahanol o ddogfen gynnig gyfranddaliadau: cynigion aelodaeth, cynigion arloesi, cynigion â chyfyngiad amser, a chynigion agored. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar y ffurflenni cais sy'n cyd-fynd â dogfen gynnig. Mae'r dosbarthiad hwn o gynigion wedi'i seilio ar ymarfer masnachol ac nid diffiniadau cyfreithiol.

Mae'r arweiniad yn yr adran hon yn berthnasol i gynnig cyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir ei godi gan gymdeithasau. Nid yw cynnig y math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau'n weithgaredd a reoleiddir, ac mae wedi'i eithrio o reoliadau hyrwyddo ariannol a chyfarwyddebau prospectws. Ymdrinnir â seiliau'r eithriadau hyn, a materion rheoleiddiol eraill, yn Adran 7.

Y cam cyntaf wrth gynllunio cynnig cyfranddaliadau yw amlygu pa un o'r pedwar math o gynnig sy'n fwyaf priodol i'r gymdeithas ar y pryd. Bydd hyn yn newid wrth i'r gymdeithas ddatblygu, ac mae'n ddefnyddiol paratoi strategaeth tymor hwy ar gyfer sut y bydd y gymdeithas yn symud o un math o gynnig i un arall dros amser. Gallai rhai cymdeithasau ddechrau gyda chynnig aelodaeth i gynnwys y gymuned yn y fenter a dangos faint o gefnogaeth sydd i'w hamcanion. Mae'n arferol i gynnig arloesi, a gynlluniwyd i gael cyfalaf risg er mwyn paratoi ar gyfer buddsoddiad, gael ei ddilyn gyda chynnig â chyfyngiad amser, i weithredu'r cynllun buddsoddi. A bydd y rhan fwyaf o gynigion â chyfyngiad amser yn cael eu dilyn gan gynigion agored, yn y pen draw, er mwyn cynhyrchu hylifedd ar gyfer aelodau presennol a sicrhau cynaliadwyedd y gymdeithas.

Dylai dogfen gynnig a fwriadwyd ar gyfer y cyhoedd esbonio'r rhesymau pam maen nhw'n cael eu gwahodd i fuddsoddi yn y gymdeithas, y risgiau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad hwn, a'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'r cynnig. Mae'n bwysig defnyddio iaith syml, annhechnegol sy'n ddiddorol i'w darllen o'r dechrau i'r diwedd. Dylai dogfennau cynnig fod yn fyr, ond dylent hefyd fynd i'r afael â'r materion a amlygir yn rhannau perthnasol y canllawiau hyn. Dylid darparu gwybodaeth fanylach i ategu'r ddogfen gynnig pryd bynnag y nodir hynny yn y canllawiau hyn. Mae Adran 4.2 yn amlinellu'r wybodaeth sylfaenol y dylid ei chyflwyno ym mhob dogfen gynnig, ni waeth pa fath. Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi cynhyrchu canllaw i'r cyhoedd o'r enw *Buddsoddi*

*mewn Cyfranddaliadau Cymunedol*, sy'n esbonio beth yw cyfranddaliadau cymunedol, ac sydd ar gael i'w lawrlwytho a'i ddsbarthu yn rhad ac am ddim. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn darparu canllawiau ar gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi hefyd. Mae'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol yn fath o gydnabyddiaeth gyhoeddus fod cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn ymgorffori'r egwyddorion a'r canllawiau a amlinellir yn Adran hon y Llawlyfr.

## 4.2 CYNIGION AELODAETH

### 4.2.1 Diben

Prif ddiben cynnig aelodaeth yw recriwtio aelodau yn hytrach na chael cyfalaf buddsoddi. Gall cynyddu nifer yr aelodau fod yn fan cychwyn pwysig i lawer o fentrau cymunedol, yn enwedig y rhai hynny sy'n gobeithio denu symiau sylweddol o gyllid cyhoeddus. Gall aelodau hefyd gyfrannu'n sylweddol at gryfhau model busnes y sefydliad, nid yn unig trwy fuddsoddi cyfalaf ond hefyd trwy gyfrannu at y busnes fel cwsmeriaid, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, gweithredwyr, a hyd yn oed cyflenwyr neu weithwyr taledig.

Yn aml, bydd cynnig aelodaeth yn briodol i gymdeithasau ar y cam cyn-gychwyn y mae angen iddynt gael cyllid datblygu i brofi a chadarnhau hyfywedd eu cynnig busnes. Bydd y cyllid datblygu hwn ar ffurf rhoddion a grantiau fel arfer, er y gallai fod yn haws i rai cymdeithasau gael y cyllid hwn trwy gynnig cyfranddaliadau arloesi. Mae aelodau'n fwy tebygol o gyfrannu rhodd na phobl nad ydynt yn aelodau, ac er na ddylai rhoddion fyth fod yn amod aelodaeth, mae pobl yn fwy tebygol o fod yn barod i gyfrannu rhodd at gymdeithas os ydynt yn aelod ohoni.

### 4.2.2 Strwythur

Cyn gwneud cynnig aelodaeth, mae'n bwysig cynllunio sut y bydd perthynas y gymdeithas ag aelodau'n esblygu dros amser. Mae'n rhaid i reolau'r gymdeithas ei galluogi i wneud cynnig aelodaeth heb beryglu ei gallu i wneud mathau eraill o gynigion cyfranddaliadau yn y dyfodol. Gallai hyn olygu sefydlu dosbarth ar wahân o gyfranddaliadau aelodaeth (gweler Adran 2.2.5) na ellir eu codi na'u trosglwyddo. Gallai olygu y bydd rhaid i'r aelod dalu tanysgrifiad blynyddol. Dylai'r gyfradd danysgrifio adlewyrchu cost darparu gwasanaethau aelodaeth, ac ni ddylid ei defnyddio i gynhyrchu cyllid datblygu ar gyfer y gymdeithas, oni bai bod hyn wedi'i ddatgan yn benodol yn y ddogfen gynnig. Mae tanysgrifiadau blynyddol yn ffordd effeithiol o sicrhau bod aelodau'n parhau i gefnogi'r gymdeithas ac yn dymuno bod yn aelodau. Fel arall, gall rheolau aelodaeth y gymdeithas gynnwys gofynion eraill sy'n sicrhau mai'r rhai hynny sy'n mynegi diddordeb mewn aelodaeth yn unig sy'n aros yn aelodau.

### 4.2.3 Cynnwys

O gymharu â mathau eraill o ddogfennau cynnig, gall dogfen gynnig aelodaeth fod yn eithaf byr, sef dim mwy na 500 o eiriau neu un ochr A4 fel arfer. Dylai'r ddogfen ganolbwyntio ar esbonio diben y gymdeithas, buddiannau aelodaeth, a'r buddiannau y mae'n ceisio eu darparu i'r gymuned

ehangach. Dylai hefyd ddarparu'r wybodaeth sylfaenol a amlygwyd yn Adran 4.2, gan gadw'r pwyntiau canlynol mewn cof:

- Dylai'r buddsoddiad lleiaf sy'n ofynnol i fod yn aelod gael ei gyfyngu i swm enwol. Mae llawer o gymdeithasau'n gosod y swm hwn mor isel â £1, er bod hyn yn gallu bod yn gostus i gymdeithasau oherwydd y draul sy'n gysylltiedig â gwasanaethu aelodau. Mae'n fwy arferol i'r swm amrywio o £5 i £25.
- Dylai unrhyw ofyniad i dalu tanysgrifiad blynyddol i gynnal aelodaeth gael ei ddatgan yn eglur.
- Os yw'r cyfranddaliadau a gynigir yn rhai na ellir eu codi na'u trosglwyddo, dylid datgan hyn, ond mae hefyd yn dileu'r angen i ddarparu'r wybodaeth sylfaenol ganlynol: risg ariannol, cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, a chyfyngiadau ar enillion ariannol.

### 4.3 GWYBODAETH SYLFAENOL

Dylid darparu'r wybodaeth ganlynol ym mhob dogfen gynnig, ni waeth pa fath o gynnig ydyw, gyda'r unig eithriad pan nad yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i'r cynnig:

**Rhybudd o berygl i gyfalaf:** Dylai pob dogfen gynnig cyfranddaliadau cymunedol bwysleisio y gallai unrhyw un sy'n prynu cyfranddaliadau cymunedol golli rhywfaint o'r arian a fuddsoddir ganddynt, neu'r cyfan ohono, heb amddiffyniad Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol y llywodraeth, a heb allu troi at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol. Dylai'r rhybudd hwn gael ei leoli mewn man amlwg ym mhob dogfen gynnig a'i fynegi mewn iaith syml ac eglur.

**Cyfalaf cyfranddaliadau:** Dylid esbonio natur cyfalaf cyfranddaliadau, a rhoi'r telerau a'r amodau llawn sy'n berthnasol i gyfranddaliadau. Os yw cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi'n cael ei gynnig, bydd angen i ymgeiswyr wybod mai'r unig ffordd o gael eu harian yn ôl yw trwy werthu cyfranddaliadau'n ôl i'r gymdeithas, bod rhaid rhoi rhybudd o'r bwriad i godi cyfalaf cyfranddaliadau, gallai aelodau'r pwyllgor rheoli fod â'r hawl i wrthod ceisiadau i godi cyfranddaliadau, ac unrhyw gyfyngiadau neu amodau a osodwyd ar godi cyfranddaliadau. Dylid egluro na fydd gwerth cyfranddaliadau'n newid, oni bai bod y rheolau'n darparu ar gyfer gostyngiad mewn gwerth cyfranddaliadau, os felly, dylid egluro manylion darpariaeth o'r fath. Os yw'r cyfalaf cyfranddaliadau sy'n cael ei gynnig yn fath na ellir ei godi, dylid esbonio'r cyfle sydd ar gael, os o gwbl, i werthu neu drosglwyddo'r cyfranddaliadau.

**Clo asedau:** Darparu clo asedau o fewn rheolau'r gymdeithas, ac effaith hyn ar hawliau aelodau dros asedau gweddilliol y gymdeithas.

**Hawliau democrataidd:** Dylid esbonio'r drefn un aelod, un bleidlais mewn cymdeithasau, a chyferbynnu hyn â'r drefn un cyfranddaliad, un bleidlais mewn cwmnïau.

**Terfynau buddsoddi:** Dylid datgan y terfynau buddsoddi unigol uchaf ac isaf, ac esbonio'r rhesymau dros y terfynau hyn.

**Cyfyngiadau ar enillion ariannol:** Dylai rheolau'r gymdeithas ynglŷn ag enillion ariannol i aelodau, boed hynny fel llog ar gyfalaf cyfranddaliadau neu ddifidendau ar drafodion, gael eu hesbonio, ac felly hefyd ei pholisi neu arferion ar gyfer pennu ei chyfradd llog a/neu ddifidend flynyddol. Dylid cyfeirio at bolisiau'r FCA sy'n cyfyngu ar enillion ariannol a'r gofyniad arfer da y dylai enillion o'r fath

gael eu talu o elw gweithredu cyfredol yn unig.

**Cymhwysedd ar gyfer aelodaeth:** Dylai'r ddogfen gynnig egluro pwy sy'n gymwys i fod yn aelod o'r gymdeithas a buddsoddi mewn cyfalaf cyfranddaliadau. Dylai nodi'n eglur unrhyw feini prawf neu gyfyngiadau a fynegir yn rheolau'r gymdeithas, gan gynnwys gofynion yn ymwneud ag oedran ieuengaf, lleoliad daearyddol, neu'r berthynas drafodaethol â'r gymdeithas.

**Dogfen lywodraethu:** Dylid sicrhau bod copi o reolau'r gymdeithas ar gael bob amser, ar wefan y gymdeithas fel arfer, ynghyd ag unrhyw nodiadau esboniadol angenrheidiol.

Mae'n bosibl y bydd angen i rai cymdeithasau gynnwys gwybodaeth am y materion canlynol hefyd, os ydynt yn berthnasol i'r cynnig:

**Gwyngalchu arian:** Mae cymdeithasau sy'n cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi wedi'u heithrio o reoliadau gwyngalchu arian; nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar gymdeithasau i wirio pwy yw ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae rhai cymdeithasau wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Co-operatives UK ar gyfer y maes hwn, er mwyn lleihau perygl gwyngalchu arian. Os felly, dylai arferion o'r fath gael eu hamlinellu yn y ddogfen gynnig (gweler Adran 7.3.6).

**Gwrthdaro buddiannau:** Gall gwrthdaro buddiannau godi mewn rhai cynigion cyfranddaliadau, yn enwedig y rhai hynny a wneir gan gymdeithasau newydd lle mae gan y sylfaenwyr, y pwyllgor rheoli neu'r hyrwyddwyr fuddiant ariannol yng nghanlyniad y cynnig.

## 4.4 CYNIGION ARLOESI

### 4.4.1 Diben

Diben cynnig arloesi yw cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau ar gyfer cymdeithas newydd a fydd yn cael ei wario ar baratoi'r fenter ar gyfer buddsoddi. Mae risg uchel yn gysylltiedig â buddsoddi mewn menter yn ystod y cam cynnar hwn, ac oherwydd hyn, dylid gwneud cynigion arloesi dim ond os nad yw cymdeithas yn gallu cynhyrchu'r cyfalaf risg y mae arni ei angen o grantiau neu roddion.

Gall datblygu mentrau cyn-gychwyn fod yn ddrud, yn feichus o ran amser ac yn agored iawn i risg. Gallai costau datblygu cyn-gychwyn gynnwys ffioedd proffesiynol ar gyfer cyngor cyfreithiol, cofrestru'r gymdeithas, cyngor ariannol, caniatâd cynllunio, prisio asedau, arfarnu'r farchnad, astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau busnes. Ni fydd y gymdeithas yn gallu adennill y costau hyn os bydd ei chynlluniau'n annichonadwy yn y pen draw, neu os na fydd yn llwyddo i ddenu'r cyfalaf buddsoddi y mae arni ei angen i weithredu ei chynllun busnes. Os yw'r gymdeithas yn bwriadu caffael busnes neu eiddo sydd eisoes yn bodoli, mae perygl y bydd yn colli cynnig cystadleuol, ac ni fydd yn gallu symud ymlaen, er bod y cynllun yn hyfyw a'i bod yn gallu cynhyrchu'r cyfalaf angenrheidiol.

Y ffordd orau o ariannu'r costau datblygu hyn yw trwy grantiau, rhoddion a dulliau codi arian gwirfoddol eraill. Fodd bynnag, mae terfyn ar faint o arian y gellir ei godi yn y modd hwn. Gallai cefnogwyr fod yn barod i ddarparu mwy o gyllid datblygu os oes posibilrwydd, ni waeth pa mor

fach, y gallent gael eu harian yn ôl.

Mae cynnig arloesi'n gwahodd y cyhoedd i fuddsoddi cyfalaf cyfranddaliadau, a fydd yn cael ei wario gan y gymdeithas ar baratoi ar gyfer buddsoddi. Os bydd y gymdeithas yn aflwyddiannus ac yn peidio â bodoli mwyach, gallai aelodau arloesi golli'r rhan fwyaf o'u buddsoddiad, neu'r cyfan ohono. Fodd bynnag, os bydd cynlluniau'r gymdeithas yn llwyddo, a'i bod yn datblygu i fod yn fenter broffidiol, gallai'r aelod arloesi godi ei gyfalaf yn unol â thelerau'r cynnig arloesi, ac yn amodol ar unrhyw delerau wedi'u hailnegodi a amlinellir mewn dogfennau cynnig dilynol.

Cyn gwneud cynnig arloesi, mae angen i'r fenter baratoi cynllun datblygu sy'n amlygu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer buddsoddi. Dylai costau datblygu gael eu cadw'n unol ag amcangyfrifon ynglŷn â chostau cychwyn y fenter, ac ni ddylent fod yn fwy na 5% i 10% o'r costau cychwyn hyn fel arfer.

---

#### 4.4.2 Strwythur

---

Oherwydd gofynnir i fuddsoddwyr arloesi gymryd risgiau uwch o lawer na buddsoddwyr dilynol, dylid ystyried sefydlu dosbarth ar wahân o "gyfranddaliadau arloesi" sydd â thelerau ac amodau gwahanol, fel cyfradd uwch o enillion ariannol, neu hawl flaenoriaethol i godi cyfalaf cyfranddaliadau o flaen dosbarthiadau eraill o gyfranddaliadau. Gall cyflwyno mwy nag un dosbarth o gyfranddaliadau effeithio ar atynioldeb cyhoeddiadau cyfranddaliadau yn y dyfodol. Ymdrinnir â'r mater hwn yn fanylach yn Adran 2.2.6.

Dylai'r ddogfen gynnig egluro bod codi cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i atal am gyfnod amhenodol, neu hyd nes y'i disodlir gan delerau ac amodau ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau a amlinellir mewn dogfen gynnig ddilynol.

Gall cynigion arloesi gael eu gwneud gan gymdeithasau newydd nad ydynt wedi dechrau masnachu yn unig. Dylai fod targed codi arian isaf ac uchaf ar gyfer y cynnig, yn seiliedig ar y costau datblygu yn unig. Os neilltuwyd unrhyw rai o'r costau datblygu eisoes, dylid amlygu hyn, ac esbonio sut y talwyd amdanynt.

---

#### 4.4.3 Cynnwys

---

Bydd angen i ddogfennau cynnig arloesi fynd i'r afael â'r materion canlynol:

**Rhybudd o berygl i gyfalaf:** Dylai'r ddogfen gynnig gynnwys rhybudd amlwg sy'n datgan nad oes gan y gymdeithas gynllun busnes ac y bydd angen iddi gynhyrchu cyfalaf sylweddol, ychwanegol cyn iddi allu dechrau masnachu. Bydd unrhyw ymrwymiad i dalu cyfalaf cyfranddaliadau neu ganiatáu codi cyfalaf cyfranddaliadau yn dibynnu'n gyfan gwbl ar broffidioldeb y fenter yn y dyfodol, a'i gallu i adennill colledion cam cynnar sy'n deillio o'r costau datblygu a amlinellir yn y cynnig hwn. Gallai buddsoddwyr golli rhywfaint o'r arian a fuddsoddir ganddynt, neu'r cyfan ohono, heb allu troi at y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol na'r Ombwdsmon Ariannol.

**Diben y buddsoddiad:** Disgrifiad byr o'r fenter newydd arfaethedig, ei busnes, diwydiant neu

fasnach arfaethedig, graddfa'r fenter, ac amcangyfrif o faint o gyfalaf cychwynnol y bydd ei angen.

**Costau datblygu, targedau a threfniadau wrth gefn:** Dadansoddiad o'r costau datblygu, y targedau codi arian isaf ac uchaf, ffynonellau eraill o gyllid datblygu sydd ar gael i'r gymdeithas, a'r trefniadau wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r targedau hyn

**Gostyngiad yn y dreth:** Gallai cynigion cyfranddaliadau arloesi fod yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth o dan y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau, y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu Ostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (gweler Adran 8). Fodd bynnag, gallai cynnig gostyngiad yn y dreth ar y cam hwn gyfyngu'n arw ar weithredoedd y gymdeithas yn y dyfodol, gan ei hymrwymo i ymwneud â gweithgareddau busnes cymwys a mynnu ei bod yn dechrau masnachu o fewn dwy flynedd o dderbyn y buddsoddiad cymwys. Dylai'r gymdeithas geisio cyngor proffesiynol ar dreth neu sicrwydd o flaen llaw gan HMRC cyn cynnig gostyngiad yn y dreth mewn cynnig cyfranddaliadau arloesi.

**Telerau ac amodau:** Manylion y math o gyfalaf cyfranddaliadau sy'n cael ei gynnig, a'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'r dosbarth hwn o gyfranddaliadau. Dylai atal hawliau codi cyfranddaliadau am gyfnod amhenodol gael ei ddatgan yn eglur, ac felly hefyd ddibyniaeth y cynnig hwn ar lwyddiant cynigion cyfranddaliadau yn y dyfodol er mwyn i aelodau arloesi gael unrhyw obaith o gael enillion ar eu buddsoddiad.

**Amserlen:** Y dyddiad targed ar gyfer terfynu'r cynnig, ynghyd ag ymrwymiad i beidio â gwario unrhyw ran o'r cyllid a godir gan y cynnig hyd nes y cyflawnir y targedau lleiaf neu'r trefniadau wrth gefn. Amcangyfrif o ba mor hir y bydd yn ei gymryd i baratoi ar gyfer buddsoddi, cynhyrchu'r cyfalaf sy'n ofynnol, a sefydlu'r gymdeithas fel menter broffidiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd dogfennau cynnig arloesi'n fwy na 1,500 i 2,000 o eiriau.

## 4.5 CYNIGION Â CHYFYNGIAD AMSER

### 4.5.1 Diben

Cynigion â chyfyngiad amser yw cynigion sy'n ceisio cynhyrchu swm targed o gyfalaf ar gyfer prosiect penodol sy'n barod ar gyfer buddsoddi o fewn graddfa amser benodol. Os na fydd y cynnig yn cyflawni ei dargedau lleiaf, neu unrhyw un o'i drefniadau wrth gefn, dychwelir yr arian i fuddsoddwyr ac ni fydd y prosiect buddsoddi'n symud ymlaen. Mae cynigion â chyfyngiad amser yn agored i unrhyw un sy'n gymwys i fod yn aelod, ac oherwydd bod y dogfennau hyn yn hyrwyddo cyfle buddsoddi i'r cyhoedd, mae'n hanfodol eu bod yn bodloni safonau uchel o ran uniondeb. Mae Adran 5 y Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar sut y dylid hyrwyddo cynigion.

Mae'r ymrwymiad i ad-dalu ymgeiswyr os na fydd y cynnig yn cyrraedd ei dargedau lleiaf yn golygu y dylai mesurau gael eu cymryd i ddiogelu'r arian a dderbyniwyd gan ymgeiswyr hyd nes bod y cynnig yn llwyddiannus. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfrifon crog neu ysgrow a ddelir gan drydydd partion dibynadwy, neu drwy weithdrefnau talu a ddelir dros dro tan ddyddiad cau'r cynnig. Dylai cymdeithas, o leiaf, ddal arian ymgeiswyr mewn cyfrif ar wahân a sefydlwyd at y diben hwn.

Oherwydd bod cynnig â chyfyngiad amser yn gysylltiedig â chynnig buddsoddi penodol, mae'n arferol atal y gallu i godi cyfalaf cyfranddaliadau hyd nes bod y buddsoddiad wedi cael ei wneud a bod y gymdeithas yn masnachu'n broffidiol. Yn nodweddiadol, gallai'r cyfnod atal hwn bara hyd at dair blynedd.

Mae cynigion â chyfyngiad amser yn fwyaf effeithiol pan fydd diben y buddsoddiad yn eglur. Dylai diben cymunedol y buddsoddiad fod yn atyniadol i ddarpar fuddsoddwyr, gan eu galluogi i ymwneud â'r diben hwn trwy weithred syml buddsoddi. Bydd gan ddarpar fuddsoddwyr dri phryder uniongyrchol: A ydynt mewn perygl o golli rhan o'r arian a fuddsoddir ganddynt, neu'r cyfan ohono? Beth yw buddiannau cymunedol y prosiect buddsoddi? Sut gallant dynnu'n ôl o'u buddsoddiad?

Os yw'r gymdeithas yn bwriadu cael rhywfaint o'r cyfalaf y mae arni ei angen o fuddsoddwyr sefydliadol, bydd angen iddi esbonio sut y bydd y cyllid sefydliadol hwn yn effeithio ar fuddiannau cyfranddalwyr cymunedol. Mae Adran 1.5 y Llawlyfr yn archwilio buddsoddiad sefydliadol yn fanylach, ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylai fod yn berthnasol i gyfranddaliadau cymunedol.

Bydd buddsoddwyr eisiau gwybod sut y bydd yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio hefyd. A fydd yn cael ei wario ar asedau diriaethol y gellid eu gwerthu pe byddai'r gymdeithas yn tanberfformio ac yn mynd i drafferthion ariannol? Neu a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cyfalaf gweithio, gan dalu am golledion cychwynnol, gyda'r perygl cynhenid y bydd y colledion parhaus yn dihyssbyddu cyfalaf y gymdeithas?

Bydd pryderon tymor hwy hefyd ynglŷn â'r enillion ariannol ar y buddsoddiad. Ni waeth pa mor gryf yw'r ysgogiad cymdeithasol, bydd cymhellion ariannol bob amser yn hybu'r ysgogiad cyffredinol i fuddsoddi. Ond mae'n rhaid i unrhyw gynnis o enillion ariannol fod yn gredadwy, a chael ei ategu gan dystiolaeth a gyflwynir yn y cynllun busnes.

---

#### 4.5.2 Cynlluniau busnes

---

Dylai pob dogfen gynnis ar gyfer cynnis â chyfyngiad amser gael ei hategu gan gynllun busnes sy'n cyflwyno'r achos ar gyfer y prosiect buddsoddi. Fel arfer, dylai'r cynllun busnes fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd trwy wefan, a dylai gynnwys digon o wybodaeth a thystiolaeth i allu cynnal asesiad proffesiynol annibynnol o'r achos busnes dros fuddsoddi yn y gymdeithas. Dylai cynlluniau busnes fynd i'r afael â rhai o'r materion canlynol, neu bob un ohonynt, yn gymesur â graddfa'r prosiect buddsoddi:

- **Diben ac amcanion:** diben ac amcanion y gymdeithas; crynodeb o'i dechreuadau, ei hanes a'i llwyddiant blaenorol hyd yma
- **Y prosiect buddsoddi:** y cyfalaf sy'n ofynnol a sut y'i defnyddir; prisiadau, asesiadau, telerau ac amodau sy'n effeithio ar unrhyw asedau mawr sydd i'w caffael; ffynonellau cyfalaf a gynlluniwyd a chostau cyfalaf
- **Gweithgareddau masnachu arfaethedig:** disgrifiad o weithgareddau masnachu; cymwyseddau rheolwyr; cynlluniau staffio; dadansoddiad o'r farchnad a chynlluniau marchnata; cynnwys aelodau mewn gweithgareddau masnachu
- **Rhagolygon ariannol:** rhagolygon llif arian; mantolenni a chyfrifon elw a cholled rhagamcanol ar gyfer tair blynedd cyntaf y prosiect buddsoddi o leiaf



- **Cymysgedd cyllido:** ffynonellau cyfalaf sydd ar gael i'r gymdeithas, gan gynnwys cyfranddaliadau cymunedol a buddsoddiad sefydliadol ar ffurf grantiau, dyled ac ecwiti. Sut mae'r cymysgedd cyllido'n ymwneud â'r targedau codi arian a'r trefniadau wrth gefn ar gyfer y cynnig cyfranddaliadau
- **Cynnig cyfranddaliadau:** targedau codi arian, amserlen, trefniadau wrth gefn, telerau ac amodau, a darpariaethau hylifedd cyfranddaliadau; gostyngiad yn y dreth (os yw'n berthnasol)
- **Dadansoddi risg:** amlygu'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r prosiect buddsoddi, a chynlluniau ar gyfer lliniaru'r risgiau hyn
- **Llywodraethu:** mynediad at reolau'r gymdeithas; nodiadau esboniadol ar gyfer y rheolau hyn; manylion cyfansoddiad a chymwyseddau'r pwyllgor rheoli
- **Ymgysylltu â'r gymuned:** proffil o'r gymuned a dargedir gan y ddogfen gynnig; gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned hyd yma; tystiolaeth o gymorth cymunedol; cynlluniau ar gyfer hyrwyddo'r cynnig.

Mae'r ffaith bod cynllun busnes ategol ar gael yn gyhoeddus yn golygu bod y ddogfen gynnig ar gyfer cynnig â chyfyngiad amser yn gallu canolbwyntio ar gyfathrebu â buddsoddwyr ansoffistigedig, y gallant geisio cyngor ariannol annibynnol os ydynt eisiau.

---

#### 4.5.3 Hylifedd cyfalaf cyfranddaliadau

---

Dylai cymdeithasau fod â chynllun tymor hir ar gyfer darparu hylifedd cyfalaf cyfranddaliadau, a bodloni'r telerau codi cyfalaf cyfranddaliadau a amlinellir yn eu rheolau. Mae Adran 2.3 yn disgrifio pum prif ddull ar gyfer darparu hylifedd:

- Cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau newydd trwy gynnig agored
- Ailfuddsoddi llog cyfranddaliadau (a difidendau) gan aelodau presennol
- Adbrynu cyfranddaliadau o gronfeydd wrth gefn
- Lleihau gofynion cyfalaf
- Disodli â chyfalaf benthyciadau.

Dylai'r cynllun busnes ddatgan yn eglur pa un o'r dulliau hyn a ddefnyddir gan y gymdeithas. Mae gan rai cymdeithasau ofynion cyfalaf sy'n lleihau, a byddant yn cynllunio ar gyfer rhoi'r gorau i fasnachu pan ddaw asedau sefydlog y gymdeithas i ddiwedd eu hoes weithio; yn yr achos hwn, dylai hyn gael ei ddatgan yn eglur yn y ddogfen gynnig.

---

#### 4.5.4 Gofynion cyfalaf a thargedau codi arian

---

Dylai cyfanswm y cyfalaf sy'n ofynnol o bob ffynhonnell gael ei ddatgan yn eglur yn y ddogfen gynnig, ynghyd ag esboniad o sut y bydd y cyfalaf hwn yn cael ei ddefnyddio, sy'n datgan yn benodol faint a fydd yn cael ei wario ar asedau sefydlog a faint a fydd yn cael ei ddefnyddio fel cyfalaf gweithio.

Dylai'r ddogfen gynnig esbonio sut y bydd cyfanswm y cyfalaf y mae ei angen ar y prosiect buddsoddi'n cael ei gynhyrchu, gan wahaniaethu rhwng gwahanol ffynonellau a mathau o gyfalaf. Dylid rhoi manylion am unrhyw fuddsoddiad sefydliadol arfaethedig, boed hynny ar ffurf grantiau, ecwiti, benthyciadau neu fathau eraill o ddyled y mae'r gymdeithas eisoes wedi eu sicrhau neu eu

negodi, gan ganolbwyntio ar unrhyw delerau a allai gael effaith o bwys ar gyfranddalwyr cymunedol.

Dylai cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau sy'n ofynnol gael ei fynegi fel tri tharged codi arian:

- **lleiafswm** y cyfalaf cyfranddaliadau sydd i'w gynhyrchu, y bydd cynhyrchu llai o gyfalaf na hynny'n golygu bod y cynnig wedi methu, ac ni fydd y prosiect yn symud ymlaen;
- y **swm delfrydol** o gyfalaf cyfranddaliadau a geisir, sef, fel arfer, cyfanswm y cyfalaf y mae ei angen ar y gymdeithas er mwyn iddi symud ymlaen â'r prosiect buddsoddi yn llawn;
- **uchafswm** y cyfalaf cyfranddaliadau sydd i'w dderbyn, y bydd rhai ceisiadau sy'n fwy na hynny'n cael eu gwrthod neu eu lleihau, gan ddilyn y telerau a amlinellir yn y ddogfen gynnig.

Dylai'r ddogfen gynnig ddatgan sut y bydd unrhyw fwlch cyllido rhwng y lleiafswm a'r swm delfrydol yn cael ei lenwi. Er enghraifft, gallai'r bwlch gael ei lenwi trwy leihau'r prosiect buddsoddi, neu ddefnyddio buddsoddiad sefydliadol, fel arfer ar ffurf dyled, neu gyfranddaliadau o bosibl. Dylai cost y ffynonellau eraill hyn o gyfalaf gael ei datgan yn eglur, ynghyd ag esboniad o sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfranddalwyr. Os yw'r gymdeithas wedi llunio cytundeb gyda buddsoddwr sefydliadol, a fydd yn israddio cyfalaf cyfranddaliadau aelodau, dylid esbonio hyn yn llawn yn y ddogfen gynnig.

Os na fydd y lleiafswm yn cael ei gynhyrchu o fewn cyfnod y cynnig, gan gynnwys unrhyw estyniadau, ystyrir bod y cynnig wedi methu, a dylai ymgeiswyr sydd wedi trosglwyddo arian gael eu had-dalu. Dylai'r ddogfen gynnig ddatgan telerau'r ad-daliad, gan roi manylion unrhyw daliad gweinyddol y gellid ei godi.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y targed codi arian lleiaf fod yn sero. Mae hyn wedi'i gyfyngu i gymdeithasau sydd eisoes yn masnachu ac sydd â chynlluniau buddsoddi sy'n gallu ymdopi â chynhyrchu ychydig iawn o gyfalaf. Gallai amgylchiadau o'r fath fodoli pan fwriedir i'r cyfalaf a gynhyrchir ddisodli cyllid dyled, ac mae cytundeb ar waith i ganiatáu i'r gymdeithas ad-dalu swm hyblyg o'r ddyled hon. Fel arall, efallai bod y gymdeithas wedi penderfynu defnyddio cyfalaf cyfranddaliadau i gynyddu ei chyfalaf gweithio, ac mae mewn sefyllfa i addasu ei gweithgareddau masnachu i weddu i'r swm a godir, ni waeth pa mor fach.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y swm delfrydol a'r uchafswm yr un peth. Fodd bynnag, gallai cymdeithas gynnwys trefniadau wrth gefn yn ei chynllun busnes sy'n esbonio sut y bydd cyfalaf ychwanegol dros ben y swm delfrydol yn cael ei ddefnyddio. Gallai trefniadau wrth gefn o'r fath gynnwys darpariaethau i ddisodli dyled ag ecwiti, cyflwyno prosiectau buddsoddi ar gyfer y dyfodol, neu wella darpariaethau ar gyfer hylifedd cyfalaf. Yn ôl canllawiau'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol, ni ddylai'r targed uchaf fod mwy na 25% yn uwch na'r targed delfrydol, neu bydd yn tansilio hygrededd y cynllun busnes a'r targed delfrydol.

Dylai'r ddogfen gynnig esbonio beth fydd yn digwydd os bydd ceisiadau'n mynd yn fwy na'r targed codi arian uchaf. Mae sawl ffordd wahanol o fynd i'r afael â'r mater hwn:

- Gellir dyrannu cyfalaf cyfranddaliadau ar sail y cyntaf i'r felin, a chau'r cynnig pan gyrhaeddir yr uchafswm.
- Bydd y cynnig yn aros ar agor tan y dyddiad cau ac yna gellir derbyn neu wrthod ceisiadau ar sail agosrwydd daearyddol i'r gymdeithas.

- Bydd y cynnig yn aros ar agor tan y dyddiad cau ac yna gellir lleihau neu osod terfyn ar faint o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyrennir i ymgeiswyr unigol.

O ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw broses weinyddol, mae'n arferol anwybyddu gwahaniaethau bach yn yr union swm a gynhyrchwyd, o gymharu â'r targedau lleiaf a mwyaf. Yn y cyd-destun hwn, dylid defnyddio trefniadau wrth gefn dim ond os yw'r union swm a gynhyrchwyd yn amrywio 1% yn fwy o'r target.

---

#### 4.5.5 Cyfnod ac amserlen y cynnig

---

Dylai pob cynnig â chyfyngiad amser fod â dyddiad agor, pan fydd y cynnig yn cael ei lansio'n ffurfiol, a dyddiad cau, pan na ellir derbyn mwy o fuddsoddiadau. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth bennu hyd cyfnod cynnig.

Dylid rhoi'r brif ystyriaeth i ofynion y prosiect buddsoddi ei hun. Pryd bydd y cyfalaf yn cael ei ddefnyddio at y diben a nodwyd? Pa mor debygol ydyw y bydd y prosiect buddsoddi'n gallu symud ymlaen yn unol â'r cynllun? Os yw'r gymdeithas yn bwriadu prynu busnes, eiddo neu ased sydd eisoes yn bodoli, mae'n bosibl y bydd terfynau amser allanol i'w bodloni. Fel arall, gallai'r gymdeithas fod yn cynllunio datblygiad sy'n golygu bod angen caniatadau, cymeradwyaethau neu gytundebau contract, ac ni all symud ymlaen hyd nes bod y rhain ar waith. Dylai'r ddogfen gynnig gynnwys manylion amserlen y prosiect buddsoddi, gan amlygu unrhyw ffactorau ansicr a allai effeithio arni. Os yw'r prosiect buddsoddi'n annhebygol o symud ymlaen o fewn deuddeg mis o gwblhau'r cynnig cyfranddaliadau, dylid rhoi dewis i aelodau godi rhywfaint o'u cyfalaf neu eu holl gyfalaf.

Dylai amseriad a hyd cyfnod y cynnig ystyried yr effaith ar ddarpar fuddsoddwyr hefyd. Mae'n rhaid i gyfnod y cynnig fod yn ddigon hir i'r ymgyrch gyhoedduswydd a marchnata lwyddo, ond nid mor hir fel bod arian ymgeiswyr cynnar yn cael ei ddal dros dro am gyfnodau estynedig. Mae hyd cyfnodau cynnig yn amrywio o chwe wythnos i chwe mis, a'r cyfnod mwyaf cyffredin yw tri mis. Yn aml, bydd pobl yn aros tan ddiwedd cyfnod y cynnig cyn buddsoddi, yn rhannol i sicrhau nad yw eu harian yn cael ei ddal dros dro am gyfnod rhy hir, ac yn rhannol i weld pa mor llwyddiannus yw'r cynnig cyn ymrwymo eu harian. Felly, y perygl o ran cyfnodau cynnig hir yw na fydd darpar fuddsoddwyr yn ymateb i'r cyhoedduswydd cychwynnol, byddant yn oedi cyn penderfynu buddsoddi, ac yna'n anghofio gwneud penderfyniad cyn y terfyn amser.

Mae'n bwysig amseru'r cynnig yn gywir, er enghraifft, trwy osgoi cyfnodau gwyliau mawr, pan na fydd pobl yn meddwl am fuddsoddi o bosibl, neu pan fydd ganddynt bethau eraill i dalu amdanynt. Yn ystod y misoedd cyn ac ar ôl diwedd blwyddyn dreth HMRC ym mis Ebrill, mae llawer o bobl yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio eu cynilion a'u buddsoddiadau yn y ffordd fwyaf effeithlon o ran treth.

Gall cyfnodau cynnig gael eu rhagflaenu gan hyrwyddiadau, gan gynnwys gwahoddiadau i gofrestru diddordeb yn y cynnig, rhoi gwystl buddsoddi nad yw'n gyfrwymol, neu hyd yn oed dalu ernes tuag at y buddsoddiad. Dylai unrhyw ernesau gael eu dal mewn cyfrif ysgrow a dylid eu had-dalu'n llawn ar gais yn ystod cyfnod y cynnig.

Mae'r rhan fwyaf o gynigion â chyfyngiad amser yn gweld cynnydd mewn buddsoddiadau ar ddechrau cyfnod y cynnig, a ddilynir gan adeg dawel, ac yna cynnydd terfynol yn ystod yr ychydig wythnosau neu ddiwrnodau olaf. Ar ddiwedd cyfnod y cynnig, dylai'r gymdeithas roi'r gorau i hyrwyddo'r cynnig yn weithredol, er y gall barhau i dderbyn ceisiadau hwyr os nad aethpwyd dros yr uchafswm a nodwyd. Byddai hyrwyddo'n weithredol yn cynnwys rhoi'r ddogfen gynnig a'r ffurflen gais i ymholwyr, neu barhau i ganiatáu ceisiadau ar-lein.

Gellir ymestyn y dyddiad cau dim ond os yw telerau unrhyw estyniad o'r fath wedi'u hamlinellu yn y ddogfen gynnig. Fel arall, gellir trefnu estyniad os yw'r gymdeithas yn cysylltu â phob ymgeisydd i roi gwybod iddynt am yr estyniad, a rhoi dewis iddynt dynnu eu cais yn ôl.

Ni ddylai cyfnodau cynnig, gan gynnwys estyniadau, fod yn hwy na deuddeg mis.

---

#### 4.5.6 Cyfranddaliadau isaf ac uchaf

---

Ar hyn o bryd, yr uchafswm y gall unigolyn ei fuddsoddi mewn cyfalaf cyfranddaliadau cymdeithas y gellir ei godi yw £100,000. Mae cymdeithas yn rhydd i bennu ei huchafswm ei hun islaw'r terfyn cyfreithiol hwn, ar yr amod bod hyn yn cael ei ddatgan yn y ddogfen gynnig, ac yn gyson â'i rheolau. Dylai cymdeithas sy'n ceisio codi llai nag £1 filiwn ystyried cyfyngu'r buddsoddiad unigol uchaf i 10% o gyfanswm ei gofynion cyfalaf. Bydd hyn yn golygu bod y gymdeithas mewn llai o berygl o ddibynnu ar fuddsoddwyr mawr a allai, yn ei dro, greu problemau hylifedd os bydd buddsoddwr mawr eisiau codi cyfalaf cyfranddaliadau (gweler Adran 3.2.7). Gellir gwneud eithriadau ar gyfer buddsoddwyr sefydliadol, ar yr amod bod mesurau diogelu ar waith i warchod buddiannau aelodau eraill. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn Adran 1.5.

Dylid bod yn ofalus os oes gwahaniaeth mawr rhwng y cyfranddaliadau isaf ac uchaf, er mwyn sicrhau nad yw ymgeisydd yn diweddu â 30% neu fwy o gyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau yn anfwriadol. Gallai hyn wneud yr ymgeisydd yn "unigolyn cysylltiedig" ac yn anghymwys i gael gostyngiad yn y dreth (gweler Adran 8.4). Gallai'r un broblem godi os oes gwahaniaeth mawr rhwng y targedau codi arian isaf ac uchaf (gweler Adran 4.54). Gellir osgoi'r broblem trwy sicrhau bod y cyfranddaliad unigol mwyaf a ganiateir yn llai na 30% o'r targed codi arian lleiaf.

Y gymdeithas sydd i benderfynu ar y cyfranddaliad isaf. Mae'r isafswm buddsoddi a fynnir gan gynigion â chyfyngiad amser wedi amrywio o £10 i £1,000 yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae isafswm buddsoddi isel yn gwneud buddsoddi'n fwy fforddiadwy i bobl ar incwm isel, a bydd yn annog mwy o bobl i fuddsoddi oherwydd bod llai o arian yn y fantol. Bydd hyn hefyd yn cynyddu ymgysylltiad â'r gymuned, trwy gynyddu faint o'r gymuned darged sy'n gallu fforddio buddsoddi. Fel arall, gallai gosod trothwy isafswm buddsoddi uchel olygu bod mwy o gyfalaf yn cael ei fuddsoddi gan lai o bobl, gan felly leihau cost weinyddol gwasanaethu'r aelodaeth.

Gellir gwneud trothwyon isafswm buddsoddi uwch yn fwy fforddiadwy trwy gynnig cyfle i bobl fuddsoddi mewn rhandaliadau. Gellir cymell buddsoddi mewn rhandaliadau trwy gyfyngwyr ariannol sy'n cynnig benthyciadau pontio i ganiatáu i'r gweithgarwch buddsoddi barhau cyn gynted ag yr amlygir digon o fuddsoddwyr.

---

### 4.5.7 Ailagor cynnigion â chyfyngiad amser

---

Gall cymdeithas ailagor cynnig â chyfyngiad amser, gydag amserlen newydd, os llwyddodd y cynnig gwreiddiol i godi'r lleiafswm a nodwyd o leiaf, ac os na fydd y cyfalaf ychwanegol sydd i'w godi yn golygu y bydd cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau'n mynd yn fwy na'r uchafswm a nodwyd. Caiff cymdeithas ailagor cynnig er mwyn disodli cyfalaf dyled â chyfalaf cyfranddaliadau, neu lansio cam newydd o ddatblygiad a amlygwyd yn y cynllun busnes ategol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir ailddefnyddio'r un ddogfen gynnig a chynllun busnes, gyda diwygiadau i'r targedau a'r amserlen codi arian.

---

### 4.5.8 Cynnwys

---

Mae dogfennau cynnig wedi'u bwriadu ar gyfer buddsoddwyr ansoffistigedig, felly dylent gael eu hysgrifennu mewn arddull ddiddorol a rhwydd ei deall. Mae'n bwysig taro cydbwysedd priodol rhwng ysgrifennu dogfen marchnata sy'n cyfleu'r cynnig buddsoddi'n eglur, a dogfen annhechnegol sydd, er hynny, yn darparu gwybodaeth ariannol a chyfreithiol gwir.

Dylai hyd dogfen gynnig ar gyfer cynnig â chyfyngiad amser adlewyrchu maint y cynnig. Gallai cynnigion llai, ar gyfer llai na £100,000, fod yn fyrrach na 2,000 o eiriau yn nodweddiadol, tra gallai cynnigion maint canolig ar gyfer rhwng £100,000 a £500,000 olygu bod angen dogfen o hyd at 4,000 o eiriau. Dylai cynnigion sy'n ceisio codi symiau mwy fod yn gymesur o ran hyd, ond nid mor hir fel bod ymgeiswyr yn amharod i'w darllen. Dylid osgoi defnyddio print mân, iaith dechnegol, manylion diangen, neu ddyfeisiau eraill a allai atal ymgeiswyr rhag darllen y ddogfen yn llawn.

Mae pob dogfen gynnig ar gyfer cynnig â chyfyngiad amser yn cynnwys naw prif elfen:

**Diben y buddsoddiad:** Mae hyn yn disgrifio diben y fenter a sut y bydd o fudd i aelodau a/neu'r gymuned ehangach. Dylai esbonio sut y bydd y cyfryw fuddion yn cael eu darparu, gan wahaniaethu rhwng dulliau darparu mewnol ac allanol (gweler Adran 6.1).

**Cynllun busnes:** Dylai'r ddogfen ddarparu crynodeb o incwm, gwariant a phroffidioldeb rhagamcanol y gymdeithas am dair blynedd o leiaf ar ôl buddsoddi. Dylai copi o'r cynllun busnes llawn, sy'n cynnwys tystiolaeth i ategu'r amcanestyniadau hyn, fod ar gael i bob ymgeisydd fel arfer.

**Gofynion cyfalaf:** Dylai cyfanswm y cyfalaf y mae ei angen ar gyfer y prosiect buddsoddi gael ei ddatgan yn eglur, ynghyd â datganiad ynglŷn â sut y bydd y cyfalaf hwn yn cael ei ddefnyddio, gan wahaniaethu rhwng gwariant ar asedau sefydlog a chyfalaf gweithio.

**Targedau codi arian:** Dylid datgan cyfanswm y cyfalaf y mae ei angen, ynghyd â'r lleiafswm, y swm targed a'r uchafswm cyfalaf cyfranddaliadau a geisir. Os yw'r targedau'n cynnwys cyfalaf o ffynonellau eraill, dylai'r rhain gael eu datgan, ynghyd â manylion cost y cyfalaf hwn. Dylid hefyd esbonio beth fydd yn digwydd os na fydd digon o ymgeiswyr ar gyfer y cynnig neu os bydd gormod o ymgeiswyr. Dylai unrhyw daliadau gweinyddol ar gyfer buddsoddiadau a/neu ad-daliadau gael eu datgan yn eglur hefyd.

**Cyfnod y cynnig:** Dylid datgan dyddiadau agor a chau'r cynnig, ynghyd ag unrhyw drefniadau wrth

gefn ar gyfer ymestyn cyfnod y cynnig. Dylid amlinellu'r amserlen ar gyfer gweithredu'r prosiect buddsoddi hefyd, a rhoi syniad o ba bryd y disgwylir i'r gymdeithas ddechrau masnachu.

**Buddsoddiadau isaf ac uchaf:** Dylid datgan yr isafswm a'r uchafswm y gellir ei fuddsoddi gan ymgeisydd unigol, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau ar gyfer prynu cyfranddaliadau mewn rhandaliadau.

**Enillion ariannol:** Dylai fod datganiad ynghylch polisiâu'r gymdeithas ynglŷn â llog ar gyfalaf cyfranddaliadau, difidendau ar drafodion (os yw'n berthnasol), ynghyd ag unrhyw ragolygon ar gyfer cyfraddau llog a difidendau yn y dyfodol, os yw'n berthnasol. **Gostyngiad yn y dreth:** Os yw'r gymdeithas wedi cael sicrwydd o flaen llaw gan HMRC bod y cynnig yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth trwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau, y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau neu Ostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol, dylid crybwyll hyn. Os cyflwynwyd cais am sicrwydd o flaen llaw, ond ni chadarnhawyd bod hynny wedi'i ganiatáu cyn lansio'r cynnig, dylai unrhyw gyfeiriad at ostyngiad yn y dreth nodi efallai na fydd y gymdeithas yn gymwys. Cynghorir ymgeiswyr hefyd i wirio eu cymhwysedd eu hunain ar gyfer gostyngiad yn y dreth, oherwydd bod amgylchiadau unigol yn gallu amrywio, ac maen nhw yn amrywio. Mae Adrannau 8.4 i 8.6 yn rhoi mwy o wybodaeth am y cynlluniau hyn sy'n rhoi gostyngiad yn y dreth.

**Llwyddiant blaenorol:** Dylai'r ddogfen gynnig grynhoi llwyddiant blaenorol y gymdeithas, ei phwyllgor rheoli a'i huwch reolwyr (os oes rhai). Dylai hefyd amlygu unrhyw fuddiannau personol a allai fod gan aelodau'r pwyllgor rheoli yn y cynnig, ac esbonio pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl. Os yw'r cynnig yn cael ei wneud gan gymdeithas sefydledig, dylai gynnwys crynodeb o'r tair blynedd diwethaf o fasnachu a'i sefyllfa ariannol bresennol, ynghyd â mynediad at ei hadroddiadau blynyddol llawn ar gyfer yr un blynyddoedd, gan gynnwys unrhyw ddata perfformiad cymdeithasol (gweler Adran 4.5.9).

**Gwybodaeth sylfaenol:** Dylai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth a restrir yn Adran 4.2 na roddwyd mewn man arall yn y ddogfen, a gallai gynnwys datganiadau ynglŷn â'r canlynol, neu fynediad at ddogfennau sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Rhybudd o berygl i gyfalaf
- Y math o gyfalaf cyfranddaliadau a gynigir
- Hawliau democrataidd aelodau
- Cymhwysedd ar gyfer aelodaeth
- Dogfen lywodraethu
- Gwyngalchu arian
- Gwrthdaro buddiannau.

---

#### 4.5.9 Cynigion a wneir gan gymdeithasau presennol

---

Pan fydd cymdeithas bresennol yn ceisio cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau ychwanegol trwy gynnig â chyfyngiad amser, dylai geisio cymeradwyaeth ei haelod-gyfranddalwyr presennol yn gyntaf, yn enwedig os bydd y cynnig yn cael ei wneud i bobl nad ydynt yn aelodau a/neu y bydd y swm sydd i'w godi'n golygu y bydd cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau'n mynd yn fwy na'r uchafswm a dargedwyd gan unrhyw gynnig blaenorol â chyfyngiad amser (gweler 4.5.3).

Yn ogystal â chynllun busnes, dylai cymdeithas bresennol sicrhau bod ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol ar gyfer y tair blynedd blaenorol neu fwy ar gael i'r cyhoedd. Pan fydd cymdeithas yn cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau a fydd yn cael ei fuddsoddi mewn is-gwmni masnachu a berchenogir yn llwyr, dylai'r gymdeithas gyhoeddi cyfrifon grŵp neu gyfunol, sy'n dangos sut mae cyfalaf yn llifo rhwng y gwahanol endidau. Dylai'r ddogfen gynnig gynnwys dolen i grynoded o berfformiad ariannol y gymdeithas, yr enillion ariannol ar gyfalaf cyfranddaliadau, a'i hanes hylifedd cyfalaf cyfranddaliadau. Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi llunio templed crynodeb cyllid y gall cymdeithasau ei ddefnyddio i gyfleu'r wybodaeth hon, yn rhan o'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol.

Mae sawl mater arall y mae angen i bob cymdeithas bresennol sy'n gwneud cynnig â chyfyngiad amser fynd i'r afael â nhw. Os yw'r gymdeithas wedi gwneud cynnig â chyfyngiad amser yn flaenorol, dylai digon o amser fod wedi mynd heibio i'r buddsoddiad hwnnw ddod yn weithredol a'r perfformiad masnachu ddod yn hysbys, cyn i'r cynnig newydd gael ei wneud. Mewn amgylchiadau arferol, dylai blwyddyn o leiaf fynd heibio rhwng cynigion. Os yw cynnig newydd yn cael ei wneud i gynhyrchu cyfalaf ychwanegol ar gyfer yr un prosiect buddsoddi â'r cynnig blaenorol, rhaid rhoi'r rhesymau dros hyn. Mae hyn yn cynnwys rhesymau fel costau uwch, oedi neu dreuliau annisgwyl. Dylai'r ddogfen gynnig esbonio sut y bydd y cyfalaf ychwanegol yn effeithio ar ragolygon ariannol aelodau a buddsoddwyr presennol.

Os yw telerau ac amodau arfaethedig y cynnig newydd yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i aelodau presennol, bydd angen creu dosbarth newydd o aelodaeth os yw'r gwahaniaethau'n barhaol, neu bydd angen sefydlu trefniadau gweinyddol i reoli unrhyw wahaniaethau dros dro. Gallai gwahaniaethau dros dro gynnwys atal hawliau codi cyfranddaliadau a/neu dderbyn llog ar gyfalaf cyfranddaliadau.

Ni ddylai cynnig â chyfyngiad amser gael ei wneud gan gymdeithas ansolfent, oni bai bod y cynnig yn cael ei wneud yn benodol i fynd i'r afael â'r ansolfedd hwn, a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu hesbonio'n glir. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai cymdeithas geisio cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau ychwanegol gan aelodau presennol cyn gwahodd ceisiadau gan aelodau newydd.

Yn ystod cyfnod y cynnig, dylid sefydlu mesurau i ddiogelu arian ymgeiswyr rhag rhwymedigaethau cyfredol y gymdeithas. Fel arfer, gellir gwneud hyn trwy ddal arian yr ymgeiswyr mewn cyfrif ysgrow trydydd parti hyd nes y bydd y cynnig yn cau a'r targedau codi arian yn cael eu bodloni.

## 4.6 CYNIGION AGORED

### 4.6.1 Diben

Mae cynigion agored yn allweddol i lif cyfalaf cymdeithasau sefydledig, gan alluogi pobl i ymuno neu derfynu aelodaeth ac, fel aelodau, i fuddsoddi neu godi cyfalaf cyfranddaliadau. Ni ddylai cynigion agored gael eu gwneud gan gymdeithasau os yw'r pwyllgor rheoli wedi atal yr hawl i godi cyfalaf cyfranddaliadau.

Mae dau brif reswm pam y gallai cymdeithas wneud cynnig agored ar gyfer ymaelodi a buddsoddi.

Y cyntaf yw ysgogi a chefnogi twf naturiol y fenter trwy gynyddu aelodaeth a buddsoddiad. Yr ail reswm dros wneud cynnig agored yw darparu hylifedd ar gyfer ei chyfalaf cyfranddaliadau, wrth i fuddsoddiad newydd gynhyrchu'r arian i gyllido codi cyfranddaliadau. Mae hyn yn briodol pan fydd gan y gymdeithas berthynas fasnachu â'i haelodau a'i bod yn arferol i ddisgwyl trosiant mewn aelodaeth a buddsoddiad.

Bydd angen i unrhyw gymdeithas sy'n gwneud cynnig agored ystyried pa gamau y gallai eu cymryd os bydd yn denu mwy o gyfalaf cyfranddaliadau nag y mae arni ei angen, a phroblemau cysylltiedig gorgyfalafu. Dylai ddefnyddio cyfalaf cyfranddaliadau i ariannu ei busnes, diwydiant neu fasnach (d)datganedig yn unig, ac nid i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau eraill nad ydynt yn rhan o'i diben datganedig. Mae'n bosibl y bydd angen i gymdeithasau ystyried pa gamau i'w cymryd i atal gorgyfalafu. Gallai hyn gynnwys cyflwyno terfynau ar yr uchafswm cyfranddaliadau y gall unigolyn eu dal islaw'r uchafswm statudol.

---

#### 4.6.2 Strwythur

---

Nid oes gan gynnig agored gyfyngiad amser ac nid yw'n gysylltiedig â chynllun buddsoddi penodol, sy'n golygu nad yw'n ddarostyngedig i'r un gofynion gwybodaeth â chynnig â chyfyngiad amser. Fel arfer, dylai cynnig agored gael ei gyfyngu i gymdeithasau sy'n gallu dangos bod modd codi eu cyfalaf cyfranddaliadau'n rhydd. Dylai unrhyw gyfnod cychwynnol pryd yr ataliwyd codi cyfranddaliadau fod drosodd, ac ni ddylai cyfnodau rhybuddio am godi cyfranddaliadau fod yn hwy na chwe mis. Os oes cyfyngiad ar gyfran cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi, ni ddylai fod yn fwy na'r mewnlif cyfalaf cyfranddaliadau a ddisgwylir o'r cynnig agored. Mae rheolau llawer o gymdeithasau wedi gosod y cyfyngiad hwn ar 10% o gyfalaf cyfranddaliadau mewn unrhyw un flwyddyn ariannol. Dylai cymdeithas newydd, sy'n bwriadu lansio cynnig agored, ar ddiwedd cyfnod cychwynnol pryd yr ataliwyd codi cyfranddaliadau, baratoi datganiad polisi ar godi cyfranddaliadau, yn enwedig os yw'n disgwyl y bydd angen iddi gyfyngu codi cyfranddaliadau.

Os yw cymdeithas yn bwriadu lansio cynnig agored tra bod codi cyfranddaliadau wedi'i atal, dylai'r cynnig gael ei gyfyngu i aelodau presennol, ac ni ddylai gael ei hyrwyddo i'r cyhoedd. Gellir cyfiawnhau hyn pan fydd cymdeithas yn dibynnu ar ffynonellau cyfalaf allanol drud, neu y gallai ddod yn ddibynnol arnynt, ac mae'r aelodau'n fodlon darparu ffynhonnell ratach o gyfalaf.

---

#### 4.6.3 Cynnwys

---

Dylai dogfen cynnig agored esbonio pam mae'r gymdeithas yn recriwtio aelodau newydd a/neu'n annog buddsoddiad newydd, a sut y bydd unrhyw gyfalaf ychwanegol a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio gan y gymdeithas. Dylai'r ddogfen ganolbwyntio ar yr egwyddorion ehangach sy'n llywio penderfyniadau buddsoddi gan y gymdeithas, yn hytrach na rhoi manylion am unrhyw gynlluniau buddsoddi penodol.

Yn wahanol i ddogfen gynnig ar gyfer cynnig â chyfyngiad amser, dylai dogfen cynnig agored ganolbwyntio ar lwyddiant blaenorol y gymdeithas yn hytrach na rhagfynegiadau ynglŷn â'i dyfodol. Mae'n hollbwysig, fel bob amser, gymhwyso safonau uchel o gywirdeb, tryloywder a gofal wrth lunio'r ddogfen, gan fod y pwyllgor rheoli'n atebol yn gyfreithiol o dan y gyfraith contract a sifil.



Dylai dogfennau cynnig agored gynnwys y wybodaeth ganlynol:

**Diben:** Dylai'r ddogfen roi disgrifiad byr o nodau, amcanion a diben y gymdeithas, a'i rhesymau dros wneud cynnig agored ar gyfer buddsoddi. Dylai hefyd amlinellu polisiau buddsoddi'r gymdeithas.

**Enillion ar fuddsoddiad:** Crynodeb o'r llog a dalwyd ar gyfalaf cyfranddaliadau ac effaith gymdeithasol y gymdeithas yn ystod y tair blynedd diwethaf o leiaf.

**Sefyllfa gyfalafol:** Disgrifiad syml o sefyllfa gyfalafol y gymdeithas, sy'n manylu ar sut mae lefel y cyfalaf cyfranddaliadau, cronfeydd wrth gefn a dyled tymor hir wedi newid yn ystod y tair blynedd blaenorol, ynghyd â gwybodaeth am faint o aelodau sydd wedi ymuno a faint sydd wedi gadael.

**Dogfennau ategol:** Dylai'r ddogfen esbonio sut y gall darllenwyr gael copïau o gyfrifon blynyddol ac adroddiadau cymdeithasol y gymdeithas ar gyfer y tair blynedd blaenorol o leiaf, yn ogystal â chopi cyfredol o reolau'r gymdeithas.

**Gwybodaeth arall sylfaenol:** Dylai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol a restrir yn Adran 4.2 nad yw wedi cael ei darparu mewn man arall yn y ddogfen cynnig agored.

Mae llawer o'r wybodaeth uchod yn cael ei chynnwys yn y ffurflen flynyddol (AR30) y mae'n rhaid i gymdeithas ei chyflwyno i'r FCA. Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi llunio templed crynodeb cyllid y gall cymdeithasau ei ddefnyddio i gyfleu'r wybodaeth hon i aelodau ac ymgeiswyr, yn rhan o'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol.

## 4.7 FFURFLENNI CAIS

Dylai pob dogfen gynnig, o ba fath bynnag, gynnwys ffurflen gais. Gall ffurflenni cais fod yn syml iawn, gan ofyn am enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, a faint o gyfalaf cyfranddaliadau y mae'n ei brynu yn unig. Ond bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau'n gofyn am wybodaeth ychwanegol, i roi mwy o amddiffyniad cyfreithiol iddynt, i wella prosesau gweinyddu'r aelodaeth, neu i gasglu gwybodaeth bersonol arall am yr ymgeisydd. Dylai cymdeithasau sicrhau bod y ffurflen yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

Dylai'r ffurflen gais bob amser fod ynghlwm wrth y ddogfen gynnig, er mwyn annog ymgeiswyr i ddarllen y ddogfen. Gellir atgyfnerthu hyn trwy ofyn i ymgeiswyr lofnodi neu gydnabod datganiad sy'n dweud eu bod wedi darllen y ddogfen gynnig ac yn deall telerau ac amodau'r cynnig.

Mae rhai cymdeithasau'n defnyddio ffurflenni cais fel offeryn marchnata. Er enghraifft, gallai'r ffurflen gynnwys cyfres o flychau ticio i annog ymgeiswyr i fuddsoddi mwy na'r isafswm, neu fe allai wahodd ymgeiswyr i enwebu buddiolwr yn achos eu marwolaeth, gan eu hannog i feddwl am y cynnig fel buddsoddiad tymor hir.

Fel arfer, bydd llyfr rheolau cymdeithas yn datgan pwy sy'n gallu ac nad yw'n gallu bod yn aelod o'r gymdeithas. Er bod cyfyngiadau cyfreithiol ar yr oedran ieuengaf y gall unigolyn ymuno â chymdeithas wedi cael eu dileu, mae gan lawer o gymdeithasau reolau o hyd sy'n pennu oedran ieuengaf ar gyfer ymaelodi; os felly, dylai'r ffurflen gais ddatgan hyn yn eglur. Mae rhai cymdeithasau'n cyfyngu ceisiadau i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal ddaearyddol

benodol, neu nid ydynt yn caniatáu ceisiadau gan bobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Weithiau, bydd cymdeithasau'n derbyn ceisiadau am aelodaeth a dal cyfranddaliadau ar y cyd. Dylai ceisiadau o'r fath gael eu trin fel cais gan gymdeithas anghorfforedig neu bartneriaeth, sy'n gyfrifol am ei faterion/materion ei hun. Mae'n rhaid i bawb sy'n rhan o'r cais ar y cyd fod yn gymwys i fod yn aelod, ac mae'n rhaid i un o'r ymgeiswyr weithredu fel enwebai sy'n cynrychioli buddiannau'r ymgeiswyr ar y cyd. Mae ymgeiswyr ar y cyd yn cael eu trin fel un aelod sydd ag un bleidlais. Mae gan rai cymdeithasau reolau sy'n caniatáu ar gyfer dal cyfranddaliadau gan enwebai, lle mae enwebai'n gweinyddu'r daliadau cyfranddaliadau ar ran ei gleientiaid, ac mae'r cleientiaid yn aelodau unigol o'r gymdeithas, pob un â'i hawliau aelodaeth ei hun (gweler Adran 3.2.4). Gallai'r ffurflen gais hefyd ddarparu ar gyfer ymgeiswyr sy'n prynu cyfranddaliadau fel rhoddion i drydydd partion (gweler Adran 5.9).

Dylai cymdeithasau fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai cynigion gael eu defnyddio i wyngalchu arian. Mae cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi wedi'i eithrio o reoliadau gwyngalchu arian, felly nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar gymdeithasau i wirio pwy yw ymgeiswyr (gweler Adran 7.3.6). Fodd bynnag, gallai cymdeithasau sy'n bwriadu gwneud cynigion ar-lein neu dderbyn ceisiadau gan bobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ddymuno rhoi mesurau eilaidd ar waith i wirio pwy yw buddsoddwyr. Gall y rhain gynnwys cyfyngiadau ar ddulliau talu, neu gyfyngu buddsoddi i ymgeiswyr sydd â chyfrif banc yn y Deyrnas Unedig. Mae gan Co-operatives UK God Arfer Gorau ar gyfer cymdeithasau defnyddwyr sy'n cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi sy'n rhoi arweiniad ar atal gwyngalchu arian.

Mae rhai cymdeithasau wedi datblygu systemau ymgeisio a thalu ar-lein. Ar wahân i gostau sefydlu'r systemau hyn, a phryderon ynglŷn â diogelwch ar-lein, gallai hyn fod yn ffordd effeithlon iawn i rai cymdeithasau weinyddu cynnig, er y gallai eithrio rhai darpar fuddsoddwyr. Gallai hefyd effeithio ar wasgariad daearyddol ceisiadau, gydag effaith ganlyniadol ar hunaniaeth y gymuned. Ymdrinnir â'r materion hyn yn fanylach yn Adran 5.6.

## 5 HYRWYDDO CYNIGION

### 5.1 CYFLWYNIAD

Mae hyrwyddo cyfalaf cyfranddaliadau anhrosoglwyddadwy y gellir ei godi mewn cymdeithas wedi'i eithrio o reoleiddio (gweler Adran 7), ond nid yw hyn yn rhyddhau cymdeithas o'i chyfrifoldebau i ddilyn arfer gorau wrth gynnal ei gweithgareddau hyrwyddol. Mae nifer o ystyriaethau i'w cadw mewn cof wrth hyrwyddo cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi.

Mae pobl yn buddsoddi mewn cymdeithas yn bennaf am resymau cydfuddiannol, cymunedol, neu elusenol, yn hytrach nag i gynhyrchu elw ariannol preifat, felly mae'n bwysig bod y buddion hyn yn amlwg yn yr holl ddeunyddiau hyrwyddol ac yn cael blaenoriaeth dros unrhyw fuddion ariannol a gynigir i fuddsoddwyr. Ymdrinnir â'r mater hwn yn fanylach yn Adran 6. Mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol wedi'u bwriadu ar gyfer pobl nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am fuddsoddi ecwiti na'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddiad o'r fath, neu ddim gwybodaeth amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o ddarpar fuddsoddwyr yn annhebygol o ddeall esboniadau ariannol neu gyfreithiol cymhleth, neu allu cael cyngor proffesiynol arbenigol yn rhwydd. Golyga hyn fod rhaid i bob hyrwyddiad fod yn syml ac yn dryloyw, ac ni ddylai fod yn rhy hir.

Dylai dogfennau cynnig fod yn ganolbwynt unrhyw ymgyrch hyrwyddol. Mae Adran 4 yn rhoi arweiniad ar gynnwys dogfennau cynnig a ffurflenni cais. Dylai'r ymgyrch hyrwyddo a'r prosesau ymgeisio cysylltiedig gael eu cynllunio i annog darpar fuddsoddwyr i ddarllen y ddogfen gynnig cyn buddsoddi. Mae'r holl weithgareddau a deunyddiau hyrwyddol yn ffurfio rhan o'r contract gyda'r buddsoddwr a'r aelod, felly mae'n bwysig bod y gweithgareddau a'r deunyddiau hyn yn cyflwyno gwybodaeth gyson am y cynnig.

Mae llwyddiant cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn dibynnu'n drwm ar ansawdd yr ymgyrch hyrwyddo. Dylai'r ymgyrch ymgysylltu â'r gymuned darged a'u cynnwys ym materion y gymdeithas, y tu hwnt i'r weithred fuddsoddi. Heblaw am weld pobl fel darpar fuddsoddwyr, dylent hefyd gael eu hystyried yn ddarpar gwsmeriaid, cyflenwyr, cyflogeion, gwirfoddolwyr, ac, yn bwysicaf oll, aelodau gweithredol a fydd yn cyfrannu at y busnes a sicrhau ei lwyddiant.

Mae defnyddio cyfryngau a chyfathrebu electronig yn ganolog i'r rhan fwyaf o ymgyrchoedd hyrwyddo. Mae'n rhaid i unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu defnyddio'r math hwn o gyfathrebu ddeall ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r gymdeithas yn bwriadu defnyddio mwy nag un math o gyfrwng electronig i hyrwyddo ei chynnig cyfranddaliadau cymunedol.

Mae angen i gymdeithas sy'n gwneud cynnig cyfranddaliadau gynllunio sut y bydd y cyfranddaliadau'n cael eu gwerthu, gan gynnwys y broses ymgeisio a'r dull talu. Mae dulliau ar-lein, gan gynnwys cyllido torfol, yn dod yn gynyddol gyffredin, ac maen nhw'n ddarostyngedig i fathau penodol o reoleiddio. Mae angen i faterion eraill, fel prynu cyfranddaliadau gan bobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig, cyfranddaliadau fel rhoddion, a defnyddio cymhellion, gael eu hystyried yn ofalus cyn lansio'r cynnig cyfranddaliadau.

## 5.2 YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Dylai cynnig cyfranddaliadau cymunedol gael ei dargedu at gymuned ddiffiniedig, boed hynny'n gymuned ddaearyddol, cymuned fuddiant, neu gyfuniad o'r ddau. Dylai rheolau'r gymdeithas gynnwys diffiniad neu ddisgrifiad o'r gymuned y mae'n bwriadu ei gwasanaethu. Mewn byd cynyddol gymhleth, mae'r rhan fwyaf o bobl yn trigo mewn nifer o wahanol gymunedau a gallent ymgymryd â nifer o wahanol rolau rhanddeiliaid yn y cymunedau hynny.

Un o fanteision diffinio'r gymuned darged yw y dylai hynny olygu bod modd amcangyfrif maint y gymuned, disgrifio ei demograffeg, dewis strategaethau hyrwyddo priodol, a phrofi hyfywedd y model busnes arfaethedig.

Mae ennyn sylw, diddordeb a chefnogaeth pobl yn y gymuned ddiffiniedig yn gofyn am gynllunio a gweithredu gofalus er mwyn datblygu hunaniaeth gymunedol. Mae'n golygu cyfleu diben a gweithgareddau'r gymdeithas mewn ffordd sy'n cyd-fynd â buddiannau cydfuddiannol, cymunedol, neu gyhoeddus pobl. Denu cynulleidfa yw'r cam cyntaf wrth ymgysylltu â'r gymuned. Mae ystod eang o ddulliau ar gael i wneud hyn, gan gynnwys defnyddio gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd e-bost a negeseuon testun, cyfarfodydd cyhoeddus, dosbarthu taflenni o ddrws i ddrws, sylw yn y cyfryngau cyhoeddus ac, os bydd y gyllideb yn caniatáu, hysbysebu.

Y cam nesaf yw recriwtio cefnogwyr o'r gynulleidfa hon. Cefnogwr yw rhywun sydd wedi mynegi diddordeb yn y fenter, darparu manylion cyswllt a chydysnio i dderbyn cyfathrebiadau personol yn y dyfodol. Mae gan bob dull o ddenu cynulleidfa ei ffordd ei hun o recriwtio cefnogwyr; mae cyfryngau cymdeithasol yn arbennig o dda am gynnig ffordd rwydd i bobl fynegi diddordeb mewn menter a sefydlu cysylltiad. Gallai dulliau eraill fynnu mwy o ymdrech gan y gynulleidfa: llofnodi deisebau, llenwi arolygon, ymateb i negeseuon e-bost, cofrestru ar wefannau, ac yn y blaen. Mae llunio rhestr gyswllt o gefnogwyr hysbys yn amhrisiadwy i gymdeithasau newydd sy'n bwriadu cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Mae'n galluogi cyfathrebu'n uniongyrchol â'r bobl sy'n fwyaf tebygol o fuddsoddi yn y cynnig, ac yn rhoi gwybodaeth i'r gymdeithas am faint ei chymuned. Fodd bynnag, mae'n rhaid gofalu bod y rhestrau cysylltiadau hyn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â marchnata uniongyrchol (gweler Adran 5.3).

Y cam nesaf wrth ymgysylltu â'r gymuned yw troi cefnogwyr yn aelodau. Mae'n bwysig i gymdeithasau newydd benderfynu p'un a fydd aelodaeth yn cael ei chynnig cyn cynnig buddsoddi ac ar wahân iddo. Mae Adran 4 yn disgrifio pedwar math gwahanol o gynnig cyfranddaliadau cymunedol, gan gynnwys cynnig aelodaeth a chynnig arloesi, y mae'r ddau fel arfer yn rhagflaenu cynnig â chyfyngiad amser i gynhyrchu cyfalaf buddsoddi ar gyfer menter benodol.

Mae buddsoddi cymunedol yn fwyaf effeithiol pan fydd yr aelodau'n fwy na buddsoddwyr yn unig, a hefyd yn ymgysylltu fel cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr, cyflogeion, gweithredwyr, arbenigwyr, eiriolwyr, a/neu gyflenwyr. Mae cynnwys pobl mewn amryw ffyrdd yn cryfhau mantais gystadleuol y busnes. Mae aelodau sydd wedi buddsoddi yn fwy tebygol o wirfoddoli neu ddod yn gwsmeriaid ffyddlon. Gall hyn leihau costau a chynyddu trosiant. Mae'n bosibl y bydd aelod-fuddsoddwyr, sy'n cefnogi diben cymunedol y fenter, yn barod i dderbyn enillion ariannol is os yw gwerth cymdeithasol y fenter yn amlwg. Yn ogystal, mae ymgysylltu ag aelodau mewn amryw ffyrdd yn fuddiol i gynaliadwyedd tymor hir y fenter, trwy gynnig sawl

rheswm i bobl ddod yn aelodau a buddsoddi yn y fenter. Gall hyn helpu i gynnal hylifedd tymor hir y cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi hefyd (gweler Adran 2.3).

### 5.3 DIOGELU DATA, PREIFATRWYDD A CHYFATHREBU ELECTRONIG

Mae'n rhaid i bob cymdeithas gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 wrth hyrwyddo cynigion cyfranddaliadau. Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sy'n cadw data personol am unigolion gofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sy'n gyfrifol am orfodi'r Ddeddf a'r Rheoliadau.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn amlinellu wyth egwyddor yn ymwneud â defnyddio data personol gan sefydliadau. Yng nghyd-destun cyfranddaliadau cymunedol, mae'r egwyddorion hyn yn mynnu y dylai'r data personol a geir gan gefnogwyr a/neu aelodau gael ei ddefnyddio at y dibenion y'i caffaeliwyd ar eu cyfer yn unig. Dylai'r data personol hwn fod yn gywir a chyfredol, ni ddylai fod yn ormodol, a dylid ei waredu pan na fydd ei angen mwyach ar gyfer y diben neu'r dibenion gwreiddiol. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod y data hwn yn cael ei ddiogelu rhag defnydd anawdurdodedig neu anghyfreithlon, naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi'r hawl i unigolion atal eu data personol rhag cael ei ddefnyddio at ddibenion marchnata uniongyrchol. Gall unigolyn, ar unrhyw bryd, hysbysu sefydliad yn ysgrifenedig i roi'r gorau i anfon cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol. Mae'n rhaid i'r cyfathrebiadau hyn beidio o fewn cyfnod rhesymol, sef o fewn pedair wythnos ar gyfer cyfathrebu electronig a hyd at ddau fis ar gyfer cyfathrebu trwy'r post.

Mae'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig yn darparu rheolau ynglŷn â hysbysebu neu farchnata uniongyrchol trwy dulliau electronig fel negeseuon ffôn, e-bost, ffacs, testun a llun awtomataidd. Mae'r rheolau hyn nid yn unig yn berthnasol i hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau, ond i weithgareddau ymgyrchu gan sefydliadau di-elw hefyd.

Mae'r ICO yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith a'r rheoliadau, ac mae ganddo'r pŵer i osod dirwyon o hyd at £500,000 am dramgwyddau difrifol.

Un o'r tramgwyddau mwy difrifol yw defnyddio manylion cyswllt personol at ddiben gwahanol i hwnnw y'u cafwyd ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rhestr aelodaeth sefydliad cymunedol sy'n cefnogi nodau ac amcanion y gymdeithas, ond lle nad yw'r aelodau wedi cydsynio i'w manylion gael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill cysylltiedig.

Nid oes cyfyngiad ar anfon deunydd marchnata at bobl sydd wedi gofyn am ddeunydd o'r fath yn benodol. Felly, os bydd unigolyn yn llenwi ffurflen ar-lein sy'n gofyn i'r sefydliad anfon cylchlythyr, dogfen gynnig neu ryw fath arall o ddeunydd marchnata cyfranddaliadau cymunedol ato, mae'r sefydliad yn rhydd i wneud hynny.

Mae egwyddor caniatâd yn ganolog i arfer da mewn perthynas â chyfathrebiadau marchnata uniongyrchol. Os yw unigolyn wedi rhoi caniatâd yn rhydd o flaen llaw ar gyfer dull penodol o gyfathrebu ar bwnc neu fater penodol, bydd hynny'n gyfreithlon ac yn dderbyniol fel arfer. Mae rhoi caniatâd o flaen llaw ar gyfer dulliau penodol o gyfathrebu yn arbennig o bwysig os yw'r

gymdeithas yn bwriadu gwneud galwadau ffôn, oherwydd bydd hyn yn caniatáu i'r gymdeithas ffonio rhifau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Ffôn heb dorri'r rheolau.

Yn ôl yr ICO, "gall caniatâd dealedig fod yn ganiatâd dilys hefyd mewn rhai sefyllfaoedd – mewn geiriau eraill, os yw'n rhesymol o'r cyd-destun i ddod i'r casgliad bod yr unigolyn yn cydsynio, hyd yn oed os nad yw wedi dweud hynny'n benodol." Er enghraifft, os bydd unigolyn yn rhoi ei fanylion cyswllt personol ar ffurflen gais i brynu cyfranddaliadau cymunedol, mae hyn yn awgrymu ei fod yn rhoi caniatâd i gael cyfathrebiadau pellach ynglŷn â'r cynnig cyfranddaliadau a pherchen ar gyfranddaliadau wedi hynny.

Gallai egwyddor caniatâd dealedig ymestyn i ddulliau eraill o gael manylion cyswllt personol hefyd, fel dalenni cofrestru mewn cyfarfodydd cyhoeddus, llofnodi deiseb leol, neu gymryd rhan mewn arolygon, ar yr amod yr eglurir y bydd y manylion personol hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata uniongyrchol. Dylai hysbysiadau o'r fath gael eu harddangos yn amlwg ac ni ddylent gael eu cuddio mewn print mân.

Y ffordd fwyaf eglur o gael caniatâd yw cynnwys blwch optio i mewn, heb ei dicio, ar ddeunyddiau marchnata, gan gynnwys gwefannau. Mae'r rhain yn well na blychau optio allan, a allai fod yn ddrislyd ac yn anodd eu deall, hyd yn oed os rhoddir tic ynddynt o flaen llaw. Ni chaniateir defnyddio caniatâd trydydd parti, anuniongyrchol, lle mae unigolyn wedi rhoi caniatâd i'w fanylion personol gael eu trosglwyddo i drydydd parti, o dan y rheoliadau preifatrwydd ar gyfer cyfathrebu electronig ar ffurf negeseuon e-bost, negeseuon testun neu alwadau awtomataidd.

Nid yw caniatâd ar gyfer cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol yn para am byth. Nid oes terfynau amser rhagnodedig ar gyfer caniatâd, ond ystyrir ei fod yn gysylltiedig â'r pwnc neu'r mater penodol. O ran cynnig cyfranddaliadau cymunedol, mae caniatâd yn gysylltiedig â chynnig penodol ac ni fydd yn ymestyn yn awtomatig i gynigion newydd a wneir gan yr un gymdeithas yn ddiweddarach. Dylai deunyddiau marchnata uniongyrchol bob amser gynnwys gwybodaeth am sut i ganslo neu ddatdanysgrifio o'r cyfathrebiadau.

Y sefydliad sydd â'r baich o brofi bod caniatâd wedi cael ei roi, nid yr unigolyn, felly mae'n bwysig bod gymdeithasau'n cadw cofnodion o'r holl ganiatadau a gânt.

## 5.4 DULLIAU CYFATHREBU

### 5.4.1 Cyhoeddusrwydd o flaen llaw

Mae unrhyw fath o gyhoeddusrwydd sy'n cyfeirio at fwriad gymdeithas i werthu cyfranddaliadau cymunedol yn ffurfio rhan o'r contract gyda phrynwr y cyfranddaliadau hynny. Dylai'r holl gyfathrebiadau cyhoeddus, ar bob cam o ymgyrch hyrwyddol, fod yn gyson â chynnwys y ddogfen gynnig gyfranddaliadau. Ni ddylai'r cyfathrebiadau hyn ddarparu gwybodaeth ategol neu ychwanegol sy'n newid natur y cynnig yn sylweddol, neu sy'n awgrymu telerau ac amodau gwahanol.

Yn ystod camau cynnar cynllunio cynnig cyfranddaliadau cymunedol, dylai gymdeithas gyfyngu ei chyfathrebiadau cyhoeddus i faterion mwy cyffredinol, ac osgoi rhoi manylion y gallai ddymuno eu

newid yn ddiweddarach pan fydd yn barod i lansio'r cynnig. Wrth i gynlluniau ddatblygu, bydd angen gofalu bod y cyfathrebiadau'n gyson ar draws pob math o gyfryngau a ddefnyddir i hyrwyddo'r cynnig cyfranddaliadau, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â'r dogfennau cynnig cyfranddaliadau cyhoeddedig.

---

#### 5.4.2 Sylw yn y newyddion

---

Nid yw'r Llawlyfr hwn yn ymestyn i ddarparu canllawiau manwl ar sut i reoli ymgyrchoedd cyfryngau. O safbwynt cyfranddaliadau cymunedol, mae adroddiadau ffeithiol cywir am fanylion unrhyw gynnig cyfranddaliadau cymunedol yn hollbwysig. Dylai cyhoeddusrwydd o flaen llaw ganolbwyntio ar ddiben y cynnig, yn hytrach na'r cynnig ei hun. Felly, er enghraifft, os yw'r cynnig yn bwriadu achub y siop fanwerthu olaf yn y gymuned, dylai'r stori newyddion ganolbwyntio ar hynny. Dylai manylion y cynnig cyfranddaliadau cymunedol gael eu rhyddhau pan fydd y ddogfen gynnig gyfranddaliadau yn barod i'w dosbarthu yn unig.

Mae sylw yn y newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'w groesawu ac yn gyflawnadwy. Mae perchenogaeth gymunedol, buddsoddiad cymunedol a chyfranddaliadau cymunedol yn gysyniadau newydd a gallent ddenu diddordeb y wasg. Mae sawl cynnig cyfranddaliadau cymunedol wedi denu sylw yn y newyddion cenedlaethol, ond nid yw'n ymddangos bod hynny wedi newid dosbarthiad daearyddol y buddsoddwyr yn sylweddol. Yn lle hynny, mae sylw cenedlaethol yn tueddu i gryfhau cefnogaeth leol, efallai trwy atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder a hunaniaeth o fewn y gymuned darged.

---

#### 5.4.3 Gwefannau

---

Bydd angen i bob cymdeithas, heblaw am y rhai lleiaf oll, gael eu gwefannau eu hunain er mwyn cyfathrebu ag aelodau a darpar aelodau. Mae cyfathrebiadau electronig yn rhatach ac yn haws o lawer i'w gweinyddu na chyfathrebiadau papur, ac mae gwefan yn ganolbwynt ar gyfer system cyfathrebu electronig. Mae gwefan yn galluogi cymdeithas i ddarparu gwybodaeth lawn am y gymdeithas i aelodau a darpar aelodau am gost isel. Mae hefyd yn darparu cyfrwng i bobl fynegi diddordeb yn y gymdeithas a rhoi caniatâd i dderbyn cyfathrebiadau yn y dyfodol, gan alluogi'r gymdeithas i ddatblygu rhestr gyswllt o gefnogwyr (gweler Adran 5.2). I wneud hyn, bydd angen i'r wefan ennyn ymateb. Dylai gwahoddiadau i dderbyn cylchlythyrau, bwletinau e-bost, neu wneud gwystlon gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (gweler Adran 5.3), ac, fel mater o arfer da, dylent fynnu bod pobl yn optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau ar gyfer pob un o'r fformatau y mae'r gymdeithas yn bwriadu eu defnyddio yn ei hymdrechion marchnata uniongyrchol. Os yw'r wefan yn defnyddio cwcis, dylai gydymffurfio â Chyfarwyddeb 2013 y Comisiwn Ewropeaidd ar y mater hwn hefyd.

---

#### 5.4.4 Cyfathrebu trwy e-bost a negeseuon testun

---

Mae cyfathrebu trwy e-bost a negeseuon testun yn cyfrif fel cyfathrebu electronig at ddibenion y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig, ac mae storio'r data personol hwn yn electronig yn dod o dan y Ddeddf Diogelu Data (gweler Adran 5.3). Dylai cymdeithas anfon negeseuon e-bost

neu destun at bobl sydd wedi rhoi caniatâd i dderbyn deunyddiau marchnata uniongyrchol gan y gymdeithas ynglŷn â'r materion penodol sy'n derbyn sylw trwy'r cyfrwng penodol dan sylw yn unig. Mae hyn yn berthnasol i aelodau presennol, darpar aelodau a chefnogwyr sydd wedi mynegi diddordeb mewn cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

---

#### 5.4.5 Galwadau ffôn

---

Os yw cymdeithas yn bwriadu cyfathrebu ag aelodau, darpar aelodau a chefnogwyr trwy alwadau ffôn, dylai gael eu caniatâd yn gyntaf. Ond caiff wneud galwadau digymell, ar yr amod bod unrhyw restrau ffôn y mae'n eu defnyddio wedi cael eu sgrinio ar gyfer pobl sydd wedi'u cofrestru â'r Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS). Gall cymdeithas ffonio rhywun sydd wedi'i gofrestru â'r TPS dim ond os yw'r unigolyn hwnnw wedi rhoi caniatâd ar gyfer cyfathrebiadau o'r fath. Wrth wneud galwadau, mae'n rhaid i gymdeithas bob amser ddweud pwy sy'n galw, a rhoi cyfeiriad cyswllt neu rif rhadffôn os gofynnir am hynny.

---

#### 5.4.6 Dosbarthu deunyddiau o ddrws i ddrws

---

Caniateir post digymell a deunyddiau hyrwyddo digymell a ddsberthir â llaw, ond os yw'r rhain yn cael eu dosbarthu gan ddefnyddio cronfa ddata electronig, bydd y Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol o hyd (gweler Adran 5.3). Caniateir dosbarthu taflenni o ddrws i ddrws yn llwyr ym mhob achos bron. Mae llawer o gynigion cyfranddaliadau cymunedol sy'n targedu cymunedau bach yn defnyddio'r dull hwn, yn enwedig pan na fydd data personol yn cael ei storio'n electronig.

---

#### 5.4.7 Cyfryngau cymdeithasol

---

Mae ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at gynigion cyfranddaliadau cymunedol yn arfer hen sefydledig. Nid yw'r Llawlyfr hwn yn ymestyn i ddatgan sut mae'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig yn berthnasol i'r holl wahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol. Y prif fater yn hyn o beth yw p'un a yw'r neges electronig wedi'i chyfeirio at unigolyn ac yn gallu cael ei storio ganddo; os felly, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd o flaen llaw. Pan na fydd y cyfathrebiadau wedi'u cyfeirio at unigolion nac wedi'u bwriadu i gael eu storio ganddynt, mae'n bosibl na fydd y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig yn berthnasol.

---

#### 5.4.8 Dogfennau cyhoeddedig

---

Mae dogfennau cynnig cyfranddaliadau cyhoeddedig, gan gynnwys cyfryngau argraffedig a dogfennau electronig, yn ffurfio rhan o'r contract rhwng y gymdeithas a'i haelodau posibl a phresennol. Cyn gynted ag y bydd dogfennau o'r fath yn cael eu dosbarthu, neu ar gael i'r cyhoedd, ni ddylid eu haddasu na'u newid heb roi gwybod i'r holl ymgeiswyr ac aelodau presennol am y newidiadau hyn. Mae hyn yn golygu y dylid gofalu bod manylion y ddogfen gynnig yn gywir cyn ei chyhoeddi. Os gwneir unrhyw newidiadau o bwys i ddogfen gynnig ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, a chyn i'r cynnig gau, dylid cysylltu â'r holl ymgeiswyr ac aelodau presennol i roi gwybod iddynt am y newidiadau a rhoi cyfle i ymgeiswyr ganslo eu ceisiadau.



---

## 5.4.9 Cyfarfodydd cyhoeddus

---

Mae cyfarfodydd cyhoeddus yn offeryn ymgyrchu gwych i gymdeithasau sy'n ceisio ennyn cefnogaeth cymunedau i'w hamcanion, diben a phrosiectau. Mewn cyfarfodydd o'r fath, mae'n rhaid gofalu bod unrhyw beth a ddywedir am gynnig cyfranddaliadau cymunedol sydd ar ddod neu sydd eisoes ar gael yn gyson â'r ddogfen gynnig gyfranddaliadau, rheolau'r gymdeithas a'i chynllun busnes. Os defnyddir y cyfarfodydd hyn i gasglu data personol gan gefnogwyr, mae'n rhaid dilyn yr arweiniad yn yr Adran hon yn ymwneud â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Preifatrwydd Cyfathrebu Electronig.

## 5.5 GWERTHU CYFRANDDALIADAU

---

### 5.5.1 Gwerthu o flaen llaw a gwystlo

---

Mae gwerthu o flaen llaw yn cyfeirio at yr arfer o wahodd unigolyn i dalu ernes tuag at brynu cyfalaf cyfranddaliadau yn y dyfodol. Mae gwystl yn ddatganiad anghyfrwymol o fwriad i brynu cyfranddaliadau cymunedol ar ryw adeg yn y dyfodol.

Gall ymgyrchoedd gwystlo fod yn ffordd ddefnyddiol o fesur lefel y gefnogaeth gymunedol cyn cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Bydd yn rhoi rhestr gyswllt o gefnogwyr i'r gymdeithas a fydd yn amhrisiadwy pan fydd y cynnig cyfranddaliadau'n barod i gael ei lansio. Ond mae perygl hefyd na fydd yn denu digon o gefnogaeth ac yn tanseilio hyder yn y cynnig cyfranddaliadau. Mae'n rhaid i wystlon fod yn anghyfrwymol ac ni ddylid annog cefnogwyr dro ar ôl tro i gyflawni eu gwystl.

Mae gwerthu o flaen llaw trwy ofyn i fuddsoddwyr dalu ernes cyn lansio cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn dderbyniol mewn amgylchiadau arbennig yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau pan fydd y gymdeithas yn cystadlu â thrydydd partiön i brynu busnes gweithredol, neu pan fydd angen prawf o gefnogaeth i gynhyrchu ffynonellau eraill o gyfalaf, neu pan fydd rhyw reswm arwyddocaol arall sy'n cyfiawnhau gwerthu o flaen llaw. Dylai unrhyw arian a dderbynnir gan gefnogwyr gael ei gadw mewn man diogel, fel cyfrif ysgrow, neu gan drydydd parti annibynnol sy'n gwarantu unrhyw arian a ddelir ar ernes (gweler Adran 5.6). Mae'n rhaid i delerau ac amodau'r buddsoddiad fod yn eglur ac yn amlwg. Dylai hyn gynnwys yr hawl i gael ad-daliad ar unrhyw adeg hyd at ddyddiad cau'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol ei hun. Dylai fod gwybodaeth eglur am ba bryd y bydd y cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei lansio neu'r ffactorau a fydd yn pennu'r dyddiad lanio. Dylid rhoi gwybod i fuddsoddwyr am unrhyw oedi o ran y dyddiad lansio a'u hatgoffa o'u hawl i gael ad-daliad. Pan fydd y cynnig cyfranddaliadau'n cael ei lansio, dylid anfon y ddogfen gynnig gyfranddaliadau at fuddsoddwyr a'u gwahodd i gwblhau eu buddsoddiad neu dderbyn ad-daliad. Dylai unrhyw dâl gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ad-daliadau fod yn rhesymol a dylid ei ddatgan yn eglur yn y llenyddiaeth gwerthu o flaen llaw.

---

### 5.5.2 Ceisiadau papur

---

Mae Adran 4.7 yn rhoi arweiniad ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn ffurflen gais. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau'n gofyn i ymgeiswyr ddychwelyd ffurflen gais sydd ynghlwm wrth ddiwedd y

ddogfen gynnig. Mae ceisiadau papur yn feichus yn weinyddol, ond gallent fod yn fwy diogel ac yn rhatach i gynigion llai sy'n ceisio codi llai na £100,000, oherwydd gallai cost sefydlu systemau ymgeisio a thalu ar-lein fod yn ataliol.

---

### 5.5.3 Ceisiadau ar-lein

---

O ran cynigion cyfranddaliadau cymunedol uwchlaw £100,000 neu gynigion sy'n cael eu gwneud gan gymdeithas sefydledig, fe allai fod yn werth sefydlu systemau sy'n caniatáu i bobl wneud ceisiadau a thaliadau ar-lein. Ymdrinnir â dulliau talu ar-lein yn yr is-adran nesaf. Fodd bynnag, ni ddylai fyth fod yn bosibl prynu cyfranddaliadau ar-lein heb lenwi ffurflen gais ar-lein yn gyntaf. Dylai cynnwys ffurflen gais ar-lein fod yr un fath â cheisiadau papur. Dylid caniatáu mynediad at y ffurflen gais ar ddiwedd y ddogfen gynnig gyfranddaliadau, a dylid annog ymgeiswyr i ddarllen y ddogfen cyn cyflwyno cais.

---

### 5.5.4 Dulliau talu

---

Y ffordd symlaf o dderbyn taliad yw trwy siec. Mae talu trwy siec yn cyfyngu buddsoddi i bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig ac yn lleihau perygl gwyngalchu arian i'r eithaf. Dylai cymdeithasau sy'n newid sieciau cyn i'r cynnig cyfranddaliadau gau roi'r arian mewn cyfrif ysgrow (gweler Adran 5.6).

Mae taliadau gan ddefnyddio cardiau debyd neu gredyd yn golygu bod angen i'r gymdeithas sefydlu cyfrif masnachwr penodol, a sefydlu systemau sy'n bodloni Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu. Fodd bynnag, gallai cost sefydlu cyfrif masnachwr fod yn ataliol i gymdeithasau llai, neu efallai na fydd y dewis hwnnw ar gael i gymdeithasau newydd nad oes ganddynt hanes ariannol profedig.

Mae'r rhan fwyaf o broseswyr taliadau trwy gerdyn yn caniatáu trafodion o bell (trwy'r post neu ar-lein), ond, yn gyffredinol, ystyrir bod perygl uwch yn gysylltiedig â'r trafodion hynny na thrafodion wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae perygl twyll yn gymharol isel oherwydd ei bod yn amhosibl i brynwr ailwerthu cyfranddaliadau y gellir eu codi i unrhyw un heblaw am y gymdeithas ei hun.

Mae nifer o ddewisiadau talu ar-lein ar gael. Gellir prosesu taliadau cerdyn debyd a chredyd trwy gyfrif masnachwr penodol, er y gallai cost trefniadau diogelwch ar gyfer talu ar-lein fod yn ataliol i gynigion llai.

Mae BACs a Thaliadau Cyflymach yn caniatáu i bobl sydd â threfniadau bancio dros y rhyngwrdd wneud taliadau untro a throsglwyddo arian o'u cyfrif i gyfrifon banc eraill, yn gyflym ac yn rhwydd. Cyflwynwyd Taliadau Cyflymach yn 2008 ac mae'n caniatáu i arian gael ei drosglwyddo o fewn 24 awr, tra bod trafodion BACs yn cymryd tri diwrnod i'w cwblhau. Y brif broblem â'r dulliau talu hyn yw anhawster posibl adnabod y talai, gan nad oes modd iddo ddarparu ei fanylion cyswllt. Gellir mynd i'r afael â'r broblem hon trwy sicrhau bod y ffurflen gais yn cynnwys (neu'n cynhyrchu) cyfeirnod unigryw fel y gellir cyfateb ceisiadau a thaliadau. Y broblem arall sy'n gysylltiedig â defnyddio'r dulliau talu hyn yw eu bod yn dibynnu ar yr ymgeisydd yn mewnbynnu manylion banc y gymdeithas yn gywir wrth wneud y taliad; gallai fod yn anodd adennill yr arian os gwneir unrhyw gamgymeriad.

Mae PayPal yn wasanaeth talu ar-lein sy'n caniatáu i sefydliadau ac unigolion wneud a derbyn taliadau ar-lein heb angen cyfnewid manylion cyfrif banc. Nid oes rhaid i ymgeiswyr feddu ar gyfrif PayPal i ddefnyddio'r system, nac i wneud cwyn i Ganolfan Ddatrys PayPal. Ond nid yw ei bolisi diogelu taliadau'n ymestyn i eiddo, felly nid yw'n berthnasol i brynu cyfranddaliadau. Bydd angen i gymdeithas sy'n gwerthu cyfranddaliadau trwy PayPal sefydlu cyfrif PayPal, a fydd yn caniatáu iddi gynhyrchu anfonebau, a chasglu enw a chyfeiriad y prynwr. Codir ffi cyfradd sefydlog ar drafodion, sy'n daladwy gan y gwerthwr, sef 3.4% o werth y trafodyn ynghyd ag 20c ychwanegol, ar hyn o bryd. Mae PayPal yn caniatáu taliadau rhyngwladol mewn 24 o wahanol fathau o arian cyfred, ac yn trosi'r taliad i'r arian cyfred a ddymunir gan y derbynnydd yn awtomatig. Nid oes modd rhwystro taliadau PayPal rhyngwladol, felly bydd angen i gymdeithas wneud trefniadau arbennig i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'i pholisïau yn ymwneud â cheisiadau gan bobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig (gweler Adran 5.8).

## 5.6 DERBYN ARIAN

Pan fydd cymdeithas yn gwneud cynnig cyfranddaliadau cymunedol â chyfyngiad amser, ni fydd y trafodyn i brynu a gwerthu cyfranddaliadau yn cael ei gwblhau hyd nes bod y cynnig cyfranddaliadau'n cau a gall y gymdeithas fod yn sicr bod y cynnig wedi cyflawni ei tharged lleiaf ar gyfer cyhoeddi cyfranddaliadau (gweler Adran 4.5). Hyd nes bod y gymdeithas yn cyhoeddi'r cyfranddaliadau, bydd angen i unrhyw arian y mae wedi'i dderbyn gan fuddsoddwyr gael ei ddiogelu rhag rhwymedigaethau cyfredol a rhwymedigaethau digwyddiadol y gymdeithas.

Mae sawl ffordd o ddarparu'r amddiffyniad hwn. Y ffordd fwyaf diogel yw i'r gymdeithas beidio â derbyn taliad am y cyfranddaliadau hyd nes y bydd mewn sefyllfa i'w cyhoeddi. Gellid cyflawni hyn drwy roi gwybod i ymgeiswyr na fydd sieciau'n cael eu newid tan ddyddiad cau'r cynnig, a dim ond os yw'r cynnig wedi bodloni un neu fwy o'i dargedau codi arian. Neu, gallai'r gymdeithas ddefnyddio rhyw fath arall o ddull talu sy'n caniatáu i'r taliad gael ei ohirio tan ddyddiad cytunedig. Fel arall, gellid sefydlu cyfrif ysgrow i dderbyn arian. Mewn cyfrif ysgrow, mae arian yn cael ei ddal gan drydydd parti annibynnol a dibynadwy. Mae'n arferol i sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth ysgrow weinyddu'r cynnig: derbyn a phrosesu'r holl daliadau, a chwblhau'r trafodion pan fydd y cynnig yn cael ei gau. Yn ddelfrydol, dylai darparwr y gwasanaeth ysgrow indemnio'r arian y mae'n ei ddal rhag unrhyw rwymedigaethau, gan gynnwys methiannau banc. Ym mhob achos, dylid dweud wrth ymgeiswyr pan fydd y taliad yn cael ei gymryd o'u cyfrif; bydd hyn yn helpu i osgoi sefyllfa lle na fydd gan ymgeiswyr ddigon o arian yn eu cyfrif i wneud y taliad.

Dylai cymdeithas newydd sy'n cynnig cyfranddaliadau geisio lleihau ei rhwymedigaethau cyfredol a'i rhwymedigaethau digwyddiadol i'r eithaf hyd nes y bydd yn gwybod bod y cynnig cyfranddaliadau wedi bod yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu peidio â llunio cytundebau o flaen llaw ar gyfer gwerthu neu brynu, neu gyfyngu'r cyfryw gytundebau i lefelau y gellir eu talu o gronfeydd wrth gefn presennol.

## 5.7 CYLLIDO TORFOL

Mae cyllido torfol yn offeryn codi arian cynyddol boblogaidd. Mae'r FCA wedi amlygu pum prif fath o gyllido torfol: seiliedig ar roddion, seiliedig ar wobrwyon, seiliedig ar fenthyciad, seiliedig ar

fuddsoddiad, ac eithriedig. Mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn perthyn i'r olaf o'r categorïau hyn ac maen nhw wedi'u heithrio o'r angen i gael eu hawdurdodi neu eu rheoleiddio gan yr FCA.

Gallai cyllido torfol seiliedig ar roddion a chyllido torfol seiliedig ar wobrwyon fod yn ddewisiadau codi arian deniadol i gymdeithas newydd, yn enwedig un sydd ar gam datblygu cynnar y mae angen iddi godi arian i dalu am gostau cyn-gychwyn. Gall cyllido torfol seiliedig ar roddion gynhyrchu cyfalaf risg i gymdeithas, yn rhydd rhag unrhyw rwymedigaeth i ddarparu elw ariannol i'r rhoddwr. Mae cyllido torfol seiliedig ar wobrwyon yn fwy beichus yn yr ystyr bod derbynnydd arian o'r fath yn ffurfio contract i ddarparu gwobr ar ffurf cynnyrch neu wasanaeth. Mae'r ddau fath hyn o gyllido torfol yn weithgareddau anrheoledig ac nid oes angen iddynt gael eu hawdurdodi gan yr FCA.

Mae cyllido torfol seiliedig ar fenthyciad a chyllido torfol seiliedig ar fuddsoddiad yn weithgareddau rheoledig. Mae cyllido torfol seiliedig ar fenthyciad, a elwir hefyd yn fenthycia rhwng cymheiriaid, yn rhan o'r farchnad credyd defnyddwyr. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoleiddiol ar gyfer y farchnad hon o'r Swyddfa Masnachu Teg i'r FCA ar 1 Ebrill 2014. Mae'r FCA wedi cyflwyno system seiliedig ar ddatgelu i reoleiddio cyllido torfol seiliedig ar fenthyciad, a sicrhau bod gan fuddsoddwyr wybodaeth sy'n deg, yn eglur, ac nad yw'n gamarweiniol, i seilio eu penderfyniadau buddsoddi arnynt.

Mae cyllido torfol seiliedig ar fuddsoddiad yn weithgaredd rheoledig. Mae angen i bob llwyfan cyllido torfol seiliedig ar fuddsoddiad gael ei awdurdodi gan yr FCA i gynnal gweithgareddau rheoledig. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr FCA adolygiad o'r system reoleiddiol ar gyfer cyllido torfol, gan gynnwys cyllido torfol seiliedig ar fuddsoddiad mewn gwarannau na ellir eu sylweddoli'n rhwydd. Ynghyd â rheolau newydd i ddiogelu defnyddwyr a gyflwynwyd yn 2014, mae'r FCA yn mynnu bod hyrwyddiadau ariannol sy'n ymwneud â gwarannau o'r fath yn cael eu targedu at fuddsoddwyr gwerth net uchel neu soffistigedig, y rhai hynny sy'n derbyn cyngor rheoledig, neu'r rhai hynny a fydd yn cadarnhau y byddant yn buddsoddi llai na 10% o'u hasedau net yn y mathau hyn o warannau yn unig.

Mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol wedi'u heithrio o reoleiddio, ac mae angen i lwyfannau cyllido torfol sy'n hyrwyddo cynigion cyfranddaliadau cymunedol adlewyrchu nodweddion unigryw'r math hwn o gynnig cyfranddaliadau. Gall llwyfan cyllido torfol ysgafnhau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwneud cynnig cyfranddaliadau cymunedol trwy ddarparu modd o brosesu ceisiadau buddsoddi ar-lein. Mae hyn yn fanteisiol iawn i gynigion cyfranddaliadau cymunedol mwy o faint sy'n cynnwys cannoedd neu filoedd o geisiadau. Ond mae gan gyllido torfol ei anfanteision hefyd: mae'n eithrio pobl nad oes ganddynt fynediad at wefannau a dulliau talu ar-lein; gallai fod yn fwy anodd anelu'r cynnig at y gymuned darged; a gallai danseilio ymdrechion i gynnwys aelodau yng ngweithgareddau dydd i ddydd y gymdeithas.

## 5.8 CEISIADAU GAN BOBL NAD YDYNT YN BYW YN Y DEYRNAS UNEDIG

Yn sgil dyfodiad y rhyngwrwyd a systemau talu rhyngwladol fel PayPal, mae'n bosibl i unrhyw gymdeithas sy'n hyrwyddo cynnig cyfranddaliadau trwy ei gwefan ddenu ceisiadau gan bobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn ganolog i gynigion cyfranddaliadau cymunedol. Mae llawer o gymdeithasau'n dibynnu ar gyfranogiad gweithredol aelodau, nid yn unig fel buddsoddwyr ond hefyd fel cwsmeriaid, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, cyflogeion a chyflenwyr. Gallai fod yn anoddach o lawer i gynnal ymgysylltiad gweithredol aelodau sy'n byw y tu allan i'r gymuned ddaearyddol a wasanaethir gan y gymdeithas. Ar y llaw arall, gallai pobl sy'n byw yn unrhyw le yn y byd fod â rhesymau personol cryf dros uniaethu â'r gymuned a wasanaethir gan y gymdeithas.

Oni bai bod rheolau cymdeithas yn datgan fel arall, nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar ble mae aelodau cymdeithas yn byw; caniateir ceisiadau gan bobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig. Ond fe allai fod deddfau mewn gwledydd eraill sy'n cyfyngu neu'n atal unigolion rhag buddsoddi'n uniongyrchol mewn endidau corfforaethol sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig.

Mae gwerthu cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi wedi'i eithrio o reoliadau gwyngalchu arian y Deyrnas Unedig (gweler Adran 7.3.6). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cymdeithas eisiau ei bodloni ei hun nad yw'n derbyn buddsoddiadau sy'n deillio o weithgareddau troseddol neu derfysgol trwy wirio pwy yw ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig. Mae hunaniaeth ymgeiswyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael ei chadarnhau gan y banc neu'r darparwr cerdyn credyd neu ddebyd.

## 5.9 CYFRANDDALIADAU FEL RHODDION

Mae'n dderbyniol hyrwyddo gwerthu cyfranddaliadau fel rhoddion i drydydd partion, ar yr amod bod derbynnydd y rhodd yn cytuno i ddod yn aelod o'r gymdeithas ac yn gymwys i wneud hynny. Mae'n rhaid i dderbynnydd y rhodd gadarnhau ei fod yn gymwys a chytuno i ddod yn aelod cyn i'r cyfranddaliadau gael eu cyhoeddi. Dylid gosod terfyn amser ar gyfer derbyn y cadarnhad hwn, a dylid rhoi gwybod i'r rhoddwr a'r derbynnydd os na cheir cadarnhad erbyn y dyddiad hwnnw, neu os nad yw'r derbynnydd yn gymwys neu'n fodlon i fod yn aelod, bydd y rhoddwr yn cael ad-daliad. Yn yr un modd â phob ad-daliad, dylai unrhyw daliadau gweinyddol fod yn rhesymol a chael eu datgan yn eglur.

O ran cynigion cyfranddaliadau â chyfyngiad amser, ni fydd y cyfranddaliadau'n cael eu cyhoeddi fel arfer tan ddyddiad cau'r cynnig cyfranddaliadau, a gellir defnyddio'r dyddiad hwn fel terfyn amser ar gyfer derbyn cadarnhad gan dderbynnyddion rhoddion. Ond os bydd cymdeithas yn penderfynu ymestyn y terfyn amser hwn y tu hwnt i ddyddiad cau'r cynnig, dylai'r arian gael ei ddal dros dro hyd nes y ceir cadarnhad neu hyd nes y bydd y terfyn amser wedi mynd heibio. Yn ogystal, dylai'r gymdeithas sicrhau bod y rhoddwr a'r derbynnydd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng y dyddiad cau a'r terfyn amser ar gyfer cadarnhau, a dylai esbonio'r canlyniadau i'r derbynnydd os bydd gormod o geisiadau am gynnig cyn iddo gadarnhau ei gais am aelodaeth.

Amlinellir cymhwysedd ar gyfer aelodaeth yn rheolau cymdeithas (gweler Adran 3.2.4). Y cyfyngiad mwyaf cyffredin ar aelodaeth yw gofyniad oedran ieuengaf. Er nad yw'r gyfraith yn pennu oedran ieuengaf ar gyfer bod yn aelod o gymdeithas, mae gan lawer o gymdeithasau reolau sy'n datgan oedran ieuengaf, sef 16 neu 18 yn nodweddiadol. Os oes gan y gymdeithas reol oedran ieuengaf, mae'n rhaid iddi egluro hyn yn ei dogfen gynnig gyfranddaliadau ac mewn unrhyw lenyddiaeth gysylltiedig sy'n ymwneud â chyfranddaliadau fel rhoddion.

Os bydd cymdeithas yn hyrwyddo gwerthu cyfranddaliadau fel rhodd i rywun iau na'r oedran ieuengaf ar gyfer aelodaeth, dylid gwneud y trefniadau gweinyddol canlynol. Mae'n rhaid i'r rhoddwr fod yn gymwys i fod yn aelod ei hun, oherwydd bydd y cyfranddaliadau'n cael eu prynu yn ei enw ef a'u trin fel ei eiddo ef, ac yn ddarostyngedig i'r un telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cynnig cyfranddaliadau cyfan. Dylai'r prynwr enwebu derbynnydd y rhodd fel ei fuddiolwr (gweler Adran 5.12). Dylai'r gymdeithas gael manylion personol derbynnydd y rhodd. Ar y diwrnod pan ddaw'r derbynnydd yn gymwys i fod yn aelod, dylai'r gymdeithas ysgrifennu at y rhoddwr a'r derbynnydd, gan ofyn i'r rhoddwr gydsynio i godi'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyrannwyd, a gofyn i'r derbynnydd gydsynio i fod yn aelod o'r gymdeithas ac ailfuddsoddi'r cyfalaf cyfranddaliadau. Fel arfer, dylid cael cydsyniad y derbynnydd cyn gofyn am gydsyniad y rhoddwr, rhag ofn na fydd y derbynnydd eisiau derbyn y rhodd ar ffurf cyfranddaliadau. Yn yr achos hwnnw, y rhoddwr fydd i benderfynu beth fydd yn digwydd i'r cyfalaf cyfranddaliadau, yn unol â thelerau ac amodau'r gymdeithas ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau.

## 5.10 PRYNU CYFRANDDALIADAU MEWN RHANDALIADAU

Gallai rhai cymdeithasau, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi pennu isafswm uchel ar gyfer dal cyfranddaliadau, wahodd ceisiadau gan bobl i brynu cyfranddaliadau mewn rhandaliadau. Bydd angen mynd i'r afael â sawl mater wrth sefydlu trefniadau o'r fath. Os yw'r gymdeithas yn gwneud cynnig â chyfyngiad amser ac mae unrhyw bryniad mewn rhandaliadau'n debygol o ymestyn y tu hwnt i ddyddiad cau'r cynnig, bydd angen penderfynu sut y bydd pryniadau o'r fath yn cyfrif tuag at y targedau codi arian, a sut y bydd y gymdeithas yn bodloni ei hanghenion llif arian.

Gallai'r gymdeithas ddatrys hyn trwy gael benthyg cyfalaf ychwanegol gan drydydd parti, i'w adalu gan y pryniadau mewn rhandaliadau. Neu fe allai drin pryniadau mewn rhandaliadau fel buddsoddiad ychwanegol, fel y byddant yn cyfrif tuag at y targed uchaf ond nid yr isaf, ac felly wedi'u cyfyngu i'r ystod rhwng y targed codi arian isaf ac uchaf (gweler Adran 4.5.4).

Nid ystyrir bod trefniadau sy'n galluogi ymgeiswyr i gael benthyg arian i dalu am gyfranddaliadau yn arfer da, oni bai bod y rhwymedigaeth yn cael ei hysgwyddo gan rywun heblaw am yr ymgeiswyr.

Bydd hefyd angen i gymdeithas sy'n cynnig cyfranddaliadau mewn rhandaliadau benderfynu pryd y bydd yr unigolyn yn caffael hawliau aelodaeth. Fel arfer, ni fydd hyn yn digwydd hyd nes y prynwyd y daliad cyfranddaliadau lleiaf. Yn ogystal, bydd rhaid gwneud trefniadau i fynd i'r afael â sefyllfa lle nad yw'r prynwr yn cynnal neu'n cwblhau'r holl rhandaliadau. Byddai gan gymdeithas hawl i wrthod aelodaeth a didynnu taliadau gweinyddol o unrhyw ad-daliad, ar yr amod bod y telerau hyn wedi'u datgan yn eglur ar y ffurflen gais.

## 5.11 CYMHELLION

Mae defnyddio cymhellion i hyrwyddo prynu cyfranddaliadau cymunedol yn dderbyniol ar yr amod bod y cymhellion yn gyson â rheolau'r gymdeithas. Ni ddylai cymdeithas budd cymunedol ddarparu buddion personol i aelodau, felly ni ddylai unrhyw wobrwyon neu gymhellion i brynu cyfranddaliadau fod â gwerth ailwerthu. Ni ddylai cymdeithas sy'n defnyddio safle cyllido torfol seiliedig ar wobrwyon gynnig gwobrwyon y gellid eu hystyried yn rhagdaliad ar gyfer nwyddau neu

wasanaethau'r gymdeithas.

Nid yw hyn yn gwahardd cymdeithas rhag cynnig ei chynhyrchion neu ei gwasanaethau fel gwobrwyon yn ddychwelyd am roddion, ar ffurf rhagdaliad. Ond, os bydd cymdeithas yn penderfynu gwneud hyn, dylai sicrhau bod rhagdaliadau o'r fath yn cael eu hesbonio'n briodol yn ei chynllun busnes ac yn ddarostyngedig i'r un driniaeth dreth ag unrhyw fath arall o incwm masnachu.

Gallai cymdeithas benderfynu cynnig ei nwyddau neu ei gwasanaethau yn lle llog cyfranddaliadau a/neu ddifidendau. Mae hyn yn dderbyniol, ond gallai taliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i dreth incwm (gweler Adran 8.3) a dylid dweud wrth aelodau sut i ddatgan yr incwm hwn i HMRC.

Gallai cymdeithas hefyd ddewis rhoi cymhellion ar gyfer aelodaeth trwy gynnig gostyngiadau i aelodau ar gynhyrchion neu wasanaethau, neu gynnig mathau eraill o gynigion arbennig iddynt. Mae hyn yn dderbyniol, os nad yw cymhellion o'r fath yn gysylltiedig â faint o gyfalaf cyfranddaliadau y mae'r aelod wedi'i fuddsoddi, na lefel ei drafodion â'r gymdeithas. Dylid ystyried y mathau hyn o gymhellion fel cost marchnata a hyrwyddo, neu'n rhan o strategaeth brisio'r gymdeithas.

## 5.12 ENWEBU BUDDIOLWYR

Mae rhai cymdeithasau'n dewis cynnwys adran yn eu ffurflen gais cyfranddaliadau sy'n annog yr ymgeisydd i enwebu un neu fwy o fuddiolwyr ar gyfer ei gyfranddaliadau yn achos marwolaeth yr enwebwr. Gallai hyn gael ei ystyried yn dacteg hyrwyddol i annog ymgeiswyr i feddwl am gyfalaf cyfranddaliadau fel buddsoddiad tymor hir er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, mae Adrannau 37-40 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu bod cymdeithasau'n cadw cofnod o'r bobl a enwebwyd gan aelodau i etifeddu eu heiddo yn y gymdeithas ar adeg eu marwolaeth. Mae'r hawliau enwebu hyn yn ymestyn i bob math o eiddo yn y gymdeithas, gan gynnwys benthyciadau, ernesau a chyfranddaliadau. Mae hawliau enwebu'n berthnasol i'r £5,000 gyntaf o eiddo aelod yn unig; bydd rhaid i unrhyw swm uwch na hwnnw gael ei ddosbarthu yn unol â phrofiant yr ymadawedig. Mae Adran 40 yn caniatáu i gymdeithas ddosbarthu eiddo hyd at £5,000 ymhlith y cyfryw unigolion sydd â hawl i'w dderbyn, heb unrhyw enwebiad o dan Adran 37, na llythyrau gweinyddu neu brofiant. Os yw'r buddiolwr eisoes yn aelod o'r gymdeithas, bydd y rheol ynglŷn â daliad cyfranddaliadau unigol mwyaf yn berthnasol o hyd, ac os eir yn fwy nag ef, dylai unrhyw weddill gael ei dalu mewn arian parod neu ei drosi'n fenthyciad.

## 6 LLOG CYFRANDDALIADAU A DEFNYDDIO ELW NEU ARIAN DROS BEN

### 6.1 EGWYDDORION ARWEINIOL

Mae proffidioldeb yn ganolog i gynaliadwyedd ariannol tymor hir pob menter. Mae'n galluogi mentrau i greu cronfeydd wrth gefn rhydd, ariannu cost cyfalaf, darparu enillion i gyfranddalwyr, a chefnogi buddiolwyr. Bydd colledion parhaus yn dihybyddu cyfalaf cyfranddalwyr ac yn bygwth dyfodol y fenter fel busnes gweithredol yn y pen draw.

Mae diben a defnydd elw mewn cymdeithas yn wahanol iawn i'w ddiben a'i ddefnydd mewn cwmni cyfyngedig preifat neu gyhoeddus. Mewn menter breifat, y diben yw cynyddu cyfoeth cyfranddalwyr i'r eithaf trwy gynhyrchu elw ac enillion cyfalaf. Nid felly mewn cymdeithasau. Yn ôl Adran 2(3) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, *"nid yw cymdeithas gydweithredol yn cynnwys cymdeithas sy'n cynnal busnes, neu'n bwriadu cynnal busnes, gyda'r nod o wneud elw yn bennaf i dalu llog, difidendau neu daliadau bonws ar arian sydd wedi'i fuddsoddi yn y gymdeithas neu unrhyw unigolyn arall, ei adneuo gyda hi/gydag ef, neu ei fenthyca iddi/iddo."* Mae Adran 2(2)(ii) yn diffinio diben cymdeithas budd cymunedol fel cymdeithas sy'n *"cael ei chynnal, neu y bwriedir iddi gael ei chynnal, er budd y gymuned"*.

Mae talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau a ddelir mewn cymdeithas yn cael ei ystyried yn draul weithredu yn ôl disgrisiwn, ac nid yn ddosbarthu elw. Dylai cymdeithas fod yn ofalus wrth bennu cyfraddau llog cyfranddaliadau, gan osod y gyfradd isaf sy'n ddigonol i ddenu'r cyfalaf y mae arni ei angen, ac egluro wrth aelodau y bydd y gyfradd hon yn cael ei thalu dim ond os yw'n fforddiadwy i'r gymdeithas.

Mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol yn sefydliadau nid-er-elw-preifat, sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r gyfraith elusennau, ac mae ganddynt agwedd wahanol at ddefnyddio arian dros ben. Amlinellir hyn yn y Datganiad o Arfer Argymelledig (SORP), a gynhyrchwyd ar y cyd gan y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban, sy'n rhoi argymhellion ynglŷn â'r safonau cyfrifyddu ac adrodd sy'n berthnasol i elusennau. Mae incwm dros ben ar ôl gwariant yn cael ei ystyried yn adnodd ar gyfer gweithgareddau elusennol yn y dyfodol, na ddylid ei ddosbarthu at ddibenion eraill. Mae llog a delir i gyfranddalwyr mewn cymdeithas budd cymunedol elusennol yn draul a ganiateir, yn amodol ar y darpariaethau a ddisgrifir yn Adran 6.5.

Mae Adran 14(12) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu bod pob cymdeithas yn sefydlu rheolau sy'n datgan *"sut y bydd elw'r gymdeithas yn cael ei ddefnyddio"* (gweler Adran 3.2.12). Fel arfer, mae rheolau enghreifftiol cymdeithasau cydweithredol yn cynnwys y pŵer i dalu difidend i aelodau sy'n deillio o elw, yn gymesur â thrafodion yr aelodau â'r gymdeithas gydweithredol; nid yw'r dewis hwn ar gael i gymdeithasau budd cymunedol. Fel rheol, bydd gan bob cymdeithas reolau sy'n caniatáu i'r gymdeithas fuddsoddi rhywfaint o'r elw yn natblygiad y gymdeithas, ac i ddefnyddio rhywfaint er budd y gymuned ehangach.

Mae'n rhaid i gymdeithasau budd cymunedol a chymdeithasau budd cymunedol elusennol ddefnyddio eu harian dros ben ar gyfer buddion cymunedol neu amcanion elusennol. Gellir cyflawni hyn trwy ailfuddsoddi yn y gymdeithas, gwario arian dros ben ar weithgareddau elusennol neu fudd cymunedol (cyflenwi mewnol), neu roi'r arian dros ben i sefydliadau cymunedol neu



elusennau eraill sydd â'r un amcanion neu amcanion tebyg (cyflenwi allanol).

Mae enghreifftiau o gyflenwi mewnol yn cynnwys sefyllfa lle mae cymdeithas ynni cymunedol, sy'n ymwneud â masnach cynhyrchu trydan, yn penderfynu cyflogi rhywun i roi cyngor ar arbed ynni i'r gymuned leol. Mae gwariant o'r fath yn draul weithredu gyfreithlon i'r gymdeithas, os yw'n gysylltiedig â chyflawni ei hamcanion, a dylai gael ei osod yn erbyn arian dros ben o fasnachu.

Pan fydd cymdeithas yn defnyddio dulliau cyflenwi allanol er budd cymunedol neu elusennol, dylai geisio gwneud hynny mewn ffordd effeithlon o ran treth, gan sicrhau bod rhoddion yn manteisio ar rodd cymorth lle bynnag y bo'n bosibl.

Fel mater o arfer da, dylai cymdeithas roi adroddiad blynyddol i'w haelodau sy'n manylu ar faint o'i harian dros ben o fasnachu sy'n cael ei ddefnyddio er budd cymunedol neu elusennol trwy ddulliau cyflenwi mewnol ac allanol.

Dylai cymdeithasau hefyd sefydlu darpariaethau ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau yn y dyfodol, trwy ddefnyddio arian dros ben i greu cronfeydd arian parod wrth gefn (gweler Adran 2.3). Dylai'r cronfeydd wrth gefn hyn fod yn ddigonol i fodloni'r telerau codi cyfalaf cyfranddaliadau a bennir yn rheolau'r gymdeithas (gweler Adran 3.2.9).

Nid yw Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn ymdrin â'r amgylchiadau pryd y gellir talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau. Fodd bynnag, ni fyddai'r FCA fel arfer yn ystyried bod talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau yn gyfystyr â dosbarthu elw. Mae safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a HMRC yn trin y llog sy'n daladwy ar gyfalaf cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir ei godi fel traul weithredu fusnes cyn-elw hefyd. Mae llog a delir ar gyfalaf cyfranddaliadau mewn cymdeithas yn draul fusnes ddi-dynadwy cyn unrhyw rwymedigaeth i dreth gorfforaeth.

Mae'r is-adrannau canlynol yn rhoi mwy o arweiniad ar sut y dylai pob un o'r tri phrif fath o gymdeithas ddefnyddio a dosbarthu elw, a ragflaenir gan is-adran ar yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â llog a delir ar gyfalaf cyfranddaliadau.

## 6.2 LLOG AR GYFALAF CYFRANDDALIADAU

Caniateir i bob un o'r tri math o gymdeithas dalu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau aelodau. Mae'r is-adran hon yn berthnasol i gymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn unig. Mae llog ar gyfalaf cyfranddaliadau mewn cymdeithasau budd cymunedol elusennol yn ddarostyngedig i arweiniad ar wahân a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (gweler Adran 6.5).

Mae canllawiau cofrestru newydd yr FCA, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, yn gosod dau ofyniad ar gymdeithasau: *"bod y gyfradd llog uchaf a delir ar gyfranddaliadau yn cael ei datgan cyn y cyfnod pryd y bwriedir ei thalu, boed hynny yn ei rheolau neu mewn man arall"* ac mai'r *"gyfradd llog uchaf a ddatganwyd yw'r gyfradd isaf sy'n ddigonol i gael yr arian angenrheidiol gan aelodau sy'n ymroddedig i gyflawni amcanion y gymdeithas"*.

Nid yw Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu

bod cymdeithasau'n datgan cyfradd llog uchaf ar gyfalaf cyfranddaliadau yn eu rheolau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rheolau enghreifftiol sy'n addas ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn datgan cyfradd uchaf. Yn nodweddiadol, mynegir hyn fel "2% uwchlaw cyfraddau banc sylfaenol", ac mae rhai rheolau enghreifftiol yn ychwanegu, "neu 5%, pa un bynnag sydd uchaf". Yn ôl un gyfres o reolau enghreifftiol, "ni fydd [cyfraddau llog cyfranddaliadau] yn fwy na'r gyfradd uchaf ar gyfer benthyciadau busnes tymor sefydlog a gyhoeddir gan y Co-operative Bank".

Nid yw rhai rheolau enghreifftiol yn ymdrin â chyfraddau llog cyfranddaliadau. Os nad yw cymdeithas yn datgan cyfradd uchaf yn ei rheolau, bydd yr FCA yn disgwyl iddi ddatgan cyfradd uchaf mewn man arall, sef yn ei dogfennau cynnig cyfranddaliadau yn ôl pob tebyg, ymhell cyn i unrhyw log ar gyfranddaliadau gael ei dalu.

Nid yw'r FCA yn cynnig arweiniad ar sut y gallai cymdeithas bennu'r gyfradd llog isaf ar gyfranddaliadau a fydd yn ddigonol i gynhyrchu'r arian angenrheidiol, na sut y bydd yr FCA yn penderfynu p'un a yw cymdeithas wedi torri'r canllawiau hyn. Mae hyn yn awgrymu bod yr FCA o'r farn bod y mater hwn yn benodol i amgylchiadau pob cymdeithas. Ategir hyn gan dystiolaeth hanesyddol, sy'n dangos bod polisiau cyfradd llog cymdeithasau yn amrywio'n fawr. Yn 2015, dadansoddodd yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol 192 o ddogfennau cynnig cyfranddaliadau, a gyhoeddwyd rhwng 2009 a 2014. Dangosodd hyn ystod eang o bolisiau cyfradd llog cyfranddaliadau, o gymdeithasau a oedd yn datgan na fyddent byth yn talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau (14% o'r sampl), i gymdeithasau a oedd yn anelu at dalu cyfraddau llog cyfranddaliadau o fwy na 7.5% y flwyddyn (10% o'r sampl), gan gynnwys nifer fach o gymdeithasau a oedd yn anelu at dalu mwy na 10% o log cyfranddaliadau y flwyddyn.

O ystyried yr anawsterau sy'n gysylltiedig â phrofi beth fyddai'r gyfradd llog isaf ar gyfer cynnig cyfranddaliadau, yr unig ddewis arall dibynadwy yw i gymdeithas gymharu ei chyfraddau ar gyfer cynnig cyfranddaliadau â chyfraddau benthycia masnachol ar gyfer yr un cynnig buddsoddi. Os yw aelodau ac ymgeiswyr yn fodlon derbyn cyfradd sydd yr un fath â'r gyfradd fasnachol neu'n is na'r gyfradd honno, byddai hyn yn profi bod aelodau'n ymroddedig i gyflawni amcanion y gymdeithas ar draul eu buddiannau ariannol eu hunain. Atgyfnerthir hyn gan y ffaith bod gan aelod-gyfranddalwyr lai o sicrwydd o lawer na benthyciwr masnachol. Mae llawer o gymdeithasau'n gwneud trefniadau cyllido wrth gefn pan fyddant yn cynllunio cynnig cyfranddaliadau, rhag ofn na fydd y cynnig yn cyrraedd ei dargedau. Felly, bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau'n ymwybodol o gost fasnachol amgen cyfalaf, a gellid defnyddio hyn fel sail i sefydlu'r gyfradd llog uchaf ar gyfer cyfranddaliadau.

Ni ddylai llog ar gyfalaf cyfranddaliadau fyth gael ei drin fel dosbarthu elw. Yn lle hynny, dylai llog cyfranddaliadau gael ei drin fel traul weithredu yn ôl disgrisiwn, sy'n daladwy os gall y gymdeithas fforddio gwneud hynny yn unig, ar ôl ystyried rhwymedigaethau eraill y gymdeithas, a'r angen i ailfuddsoddi yn y gymdeithas. Mae'r FCA yn pwysleisio na ddylai cymdeithas dalu cyfradd llog uwch na'r gyfradd uchaf a ddatganwyd, hyd yn oed os yw wedi gwneud mwy o elw na'r disgwyl, neu wedi talu llai na'r gyfradd uchaf yn y blynyddoedd blaenorol.

At ei gilydd, mae'r FCA yn argymhell y dylai cymdeithas ddatgan cyfradd llog cyfranddaliadau uchaf yn ei rheolau a/neu ei dogfen gynnig gyfranddaliadau. Dylai ymrwmo i dalu hyd at y gyfradd llog cyfranddaliadau uchaf hon dim ond pan fydd sefyllfa ariannol y gymdeithas yn hysbys, a'i bod yn fodlon y gall fforddio talu'r gyfradd a gynigiwyd heb greu rhwymedigaethau i gredydwyr eraill, gan

ystyried telerau ac amodau'r gymdeithas ar gyfer codi cyfalaf cyfranddaliadau, a'r defnyddiau eraill ar gyfer elw a gynigiwyd gan y gymdeithas. Fel mater o arfer da, dylai'r pwyllgor rheoli gynnig cyfradd llog cyfranddaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd dan ystyriaeth yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y gymdeithas, yn enwedig os yw'r gyfradd a gynigir yn llai na'r gyfradd llog cyfranddaliadau uchaf a ddatganwyd. Dylai'r rhesymau dros gynnig y gyfradd is hon gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer defnyddio elw (gweler Adran 3.2.12). Yn achos cymdeithasau cydweithredol, gallai un o'r defnyddiau a gynigir ar gyfer elw gynnwys talu difidend i aelodau yn seiliedig ar eu trafodion â'r gymdeithas, sef mater yr ymdrinnir ag ef yn yr adran nesaf.

Heblaw am gyfraddau llog, mae nifer o faterion eraill i'w hystyried wrth benderfynu ar bolisiau cymdeithas ar daliadau llog. Mae llawer o gymdeithasau'n credydu taliadau llog i gyfrifon cyfranddaliadau aelodau yn hytrach nag anfon sieciau taliad llog. Mae hyn yn cynyddu'r cyfalaf cyfranddaliadau yn y gymdeithas, ac yn gwella hylifedd cyfalaf os nad yw'r arian wedi'i gloi mewn asedau sefydlog.

Fel arfer, telir llog ar gyfalaf cyfranddaliadau ar sail gros gyda threth incwm personol (gweler Adran 8.3). Aelodau sy'n gyfrifol am roi gwybod i HMRC am unrhyw log ar gyfalaf cyfranddaliadau a delir iddynt neu a gredydir i'w cyfrif cyfranddaliadau. Dylai cymdeithasau gadw hyn mewn cof wrth lunio cynlluniau i ganiatáu i aelodau ildio llog ar gyfalaf cyfranddaliadau neu ei roi i achos da. Er na fydd yr aelod yn derbyn y llog, mae'n bosibl y bydd yn atebol am dreth incwm ar y taliad hwnnw o hyd.

Caiff cymdeithas sydd â mwy nag un dosbarth o gyfranddaliadau dalu gwahanol gyfraddau llog, os bydd hynny'n helpu i gyflawni nodau'r gymdeithas. Er enghraifft, gallai cymdeithas gyhoeddi dosbarth newydd o gyfalaf cyfranddaliadau i ariannu is-gwmni a berchenogir yn llwyr, gyda'r holl risg yn cael ei hysgwyddo gan y cyfalaf newydd hwn. Er mwyn denu'r cyfalaf hwn, mae'n bosibl y bydd angen cynnig cyfradd llog wahanol i honno sy'n berthnasol i gyfranddaliadau eraill yn y gymdeithas.

Efallai y bydd rhai cymdeithasau'n cael eu hariannu gan fenthyciadau aelodau yn ogystal â chyfalaf cyfranddaliadau aelodau. Mewn achosion o'r fath, mae'n arferol i gymdeithas adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn amlygiad i risg trwy osod cyfradd llog is ar y cyfalaf benthyciadau na'r cyfalaf cyfranddaliadau. Hyd yn oed os yw'r benthyciadau'n ddiwarant ac yn agored i'r un risgiau â chyfalaf cyfranddaliadau, ni ddylai cymdeithas dalu cyfradd llog uwch ar fenthyciadau na chyfranddaliadau. Yr unig eithriad yw pe byddai gan y gymdeithas sail i gredu na fyddai'n gallu denu cyfalaf ychwanegol oni bai ei bod yn cynnig cyfradd llog uwch ar gyfalaf cyfranddaliadau.

### 6.3 DOSBARTHU MEWN CYMDEITHASAU CYDWEITHREDOL

Anaml iawn y bydd cymdeithasau cydweithredol yn defnyddio'r term elw gan nad yw'n cyd-fynd yn dda â gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Yn lle hynny, defnyddir y term arian dros ben gan Ddatganiad y Gynghair Gydweithredol Ryngwladol (ICA) ar Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol, sy'n datgan sut y dylai arian wrth gefn gael ei ddefnyddio:

*"Mae aelodau'n dyrannu arian dros ben at un o'r dibenion canlynol, neu bob un ohonynt: datblygu eu cymdeithas gydweithredol, trwy sefydlu cronfeydd wrth gefn o bosibl, y byddai rhan ohonynt o leiaf yn anwahanadwy; rhoi budd i aelodau yn gymesur â'u trafodion â'r gymdeithas gydweithredol;*

*a chefnogi gweithgareddau eraill a gymeradwyir gan yr aelodau."*

Mae hyn yn awgrymu y dylai cymdeithasau cydweithredol ddsbarthu arian dros ben cyfredol yn unig, neu y dylent sefydlu polisi o leiaf sy'n cyfyngu ar ddsbarthu cronfeydd wrth gefn hanesyddol.

Gellir ddsbarthu arian dros ben i aelodau yn gymesur â'u trafodion â'r gymdeithas gydweithredol. Cyfeirir at hyn fel difidend neu ad-daliad fel arfer. Dim ond cymdeithas gydweithredol a gaiff ddsbarthu arian dros ben yn y modd hwn; ni all cymdeithas budd cymunedol ddsbarthu elw ar ffurf difidend ar drafodion aelodau.

Mae rheolau cymdeithas yn disgrifio pwy sy'n gallu bod yn aelod, a'r sail i berthynas drafodaethol yr aelod â'r gymdeithas, er enghraifft, pryniadau gan aelod-gwsmeriaid, gwerthiannau gan aelod-gyflenwyr a chyflogau aelod-gyflogeion. Nid yw faint o gyfalaf cyfranddaliadau a ddelir gan aelod o gymdeithas gydweithredol yn dylanwadu ar y difidend y gallai ei dderbyn. Yn lle hynny, mae difidendau fel arfer yn gymesur â lefel trafodion aelod â'r gymdeithas.

Mae'r egwyddor hon yn galluogi cymdeithasau cydweithredol i arfer doethineb ariannol wrth gynnal trafodion ag aelodau. Gall hefyd fod yn ffynhonnell bwysig o fantais gystadleuol, gan annog ffyddlondeb ymhlith aelodau a gwobrwyo eu cyfranogiad. Bydd aelodau'n cynnal trafodion am brisiau sy'n gwella'r tebygolrwydd y bydd eu cwmni cydweithredol yn gwneud arian dros ben. Os a phryd y cyflawnir hynny, gellir dychwelyd rhywfaint ohono i aelodau yn gymesur â'u trafodion. Felly, bydd yr arian dros ben a delir gan aelodau'n cael ei ad-dalu iddynt ar ffurf difidend. Gallai aelodau cwmni cydweithredol defnyddwyr fod yn barod i dalu prisiau uwch gan wybod y bydd rhywfaint o'r arian dros ben a gynhyrchir yn cael ei ddychwelyd iddynt ar ffurf difidend.

Mae cymdeithas gydweithredol yn rhydd i osod difidendau ar ba gyfradd bynnag y mae'n ystyried ei bod yn rhesymol, gan ystyried yr arweiniad a ddarperir yn Natganiad yr ICA ar Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol. Nid yw'r FCA yn cynnig arweiniad ar y mater hwn, ac nid yw deddfwriaeth cymdeithasau'n gosod unrhyw derfynau. Mae gan bwyllgor rheoli cymdeithas gydweithredol ddyletswydd i bennu cyfradd a fydd yn cyflawni amcanion y gymdeithas. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y pwyllgor rheoli'n argymhell cyfradd difidend i'w chymeradwyo yn ystod cyfarfod cyffredinol blynyddol yr aelodau.

Os bydd rheolau cymdeithas yn caniatáu, gellir talu difidendau i gyfrif cyfranddaliadau'r aelod, a fydd yn cynyddu'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddelir gan y gymdeithas. Mae difidendau'n cael eu trin fel traul cyn-elw ac maen nhw'n ddiynadwy at ddibenion treth gorfforaeth. Mae Adran 8.3 yn esbonio sut mae incwm difidendau cydweithredol yn cael ei drin o ran treth incwm.

Yn wahanol i ddifidendau, mae llog ar gyfalaf cyfranddaliadau'n cyflawni swyddogaeth lai pwysig mewn cymdeithasau cydweithredol. Yn ôl Datganiad yr ICA ar Hunaniaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol, *"bydd aelodau'n derbyn digollediad cyfyngedig fel arfer, os o gwbl, am gyfalaf sy'n cael ei gyfrannu fel amod aelodaeth."* Gellid tybio bod hyn yn golygu ei fod yn berthnasol i'r gofyniad buddsoddi lleiaf yn unig, yn hytrach na'r union swm o gyfalaf cyfranddaliadau a ddelir gan aelod.

Gallai cymdeithas gydweithredol sy'n masnachu â'i haelodau yn unig, ac sy'n ddsbarthu arian dros ben i aelodau yn unig ar ffurf difidendau, fod yn gymwys i gael statws masnachu cydfuddiannol a

chael ei heithrio rhag talu Treth Gorfforaeth ar ei helw (gweler Adran 8.10.2).

## 6.4 DEFNYDDIO ELW MEWN CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL

Mae'n rhaid i holl elw cymdeithas budd cymunedol gael ei ddefnyddio er budd y gymuned. Cyflawnir hyn fel arfer trwy gadw ac ailfuddsoddi'r elw yng ngweithgareddau busnes y gymdeithas. Gallai cymdeithasau ddarparu buddion cymunedol trwy weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes hefyd. Gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio dulliau cyflenwi mewnol a/neu allanol.

Cyflenwi mewnol yw pan fydd cymdeithas yn ymrwymo rhan o'i harian dros ben o fasnachu i weithgareddau budd cymunedol sy'n gyson ag amcanion y gymdeithas. Bydd hyn yn lleihau elw net y gymdeithas. Felly, dylai cymdeithas sy'n defnyddio'r dull hwn ddatgan yn ei chyfrifon blynyddol pa gyfran o wariant refeniw a neilltuwyd i weithgareddau budd cymunedol nad oeddent yn ymwneud â masnachu.

Cyflenwi allanol yw pan fydd y gymdeithas yn rhoi elw i sefydliadau eraill sydd â'r un amcanion neu amcanion tebyg. Bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau'n ceisio gwneud hyn mewn ffordd sy'n effeithlon o ran treth, felly mae'n bosibl y byddant yn dewis ei roi i sefydliadau elusennol.

Traul weithredu yw talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau, nid dosbarthu elw. Fodd bynnag, gall cymdeithas budd cymunedol gynyddu ei helw trwy leihau'r swm y mae'n ei wario ar log cyfranddaliadau. Felly, fel mater o arfer da, dylai cymdeithas budd cymunedol wneud argymhellion ynglŷn â chyfraddau llog cyfranddaliadau, a defnyddio elw, i aelodau mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol, ar ôl cyflwyno'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Dylai'r cyfrifon hyn ddatgan elw net y gymdeithas, a chynnig pa gyfran o'r elw hwn y dylid ei hailfuddsoddi yn y gymdeithas, ei defnyddio er budd y gymuned, neu ei rhoi i sefydliadau eraill sydd ag amcanion cymunedol tebyg.

Yn rhan o'i hadroddiad blynyddol, dylai'r gymdeithas esbonio sut y bydd yr ailfuddsoddiad arfaethedig, neu'r defnydd arfaethedig o arian, o fudd i'r gymuned. Mae'r un peth yn wir am unrhyw roddion y bwriedir eu cyflwyno i sefydliadau eraill. Gallai'r adroddiad blynyddol ddefnyddio technegau cyfrifyddu cymdeithasol, neu ddulliau eraill sy'n helpu'r aelodau i ddeall sut mae'r gymdeithas o fudd i'r gymuned.

## 6.5 LLOG AC ARIAN DROS BEN MEWN CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL ELUSENNOL

Yn yr un modd â phob elusen, mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol neilltuo ei hadnoddau i gyflawni ei hamcanion elusennol. Dylai incwm dros ben gael ei ailfuddsoddi yn y gymdeithas neu ei ddefnyddio i gefnogi ei hamcanion elusennol mewn rhyw ffordd arall. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau yn gost weithredu, ac nid dosbarthu arian dros ben.

Mae'r Comisiwn Elusennau a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban wedi cytuno ar y polisi canlynol mewn perthynas â thalu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau gan gymdeithasau sy'n elusennau cofrestredig gyda Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban neu sydd wedi'u cydnabod yn elusennau eithriedig gan HMRC:

*“Yn marn y rheoleiddiwr, nid yw pŵer cymdeithas budd cymunedol i dalu llog ar gyfranddaliadau yn anghydnaws â statws elusennol, ar yr amod bod rheolau'r gymdeithas yn mynnu'r nodweddion canlynol:*

- 1. Bod y gyfradd llog yn cael ei gosod ar lefel nad yw'n gymhelliad i brynu cyfranddaliadau ynddi'i hun ac y gall ymddiriedolwyr yr elusen gyfiawnhau ei bod er budd yr elusen gan gyfeirio at gyfraddau masnachol sydd ar gael ar gyfer benthyca.*
- 2. Bod y gost yn rhan o dreuliau referniw'r gymdeithas ac yn cael ei thalu cyn i'r arian dros ben gael ei bennu.*
- 3. Bod y cyfraddau'n cael eu datgan cyn y cyfnod pryd y byddant yn daladwy, yn yr un modd ag ar gyfer cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, a byth yn ôl-weithredol.*
- 4. Bod pŵer i atal taliadau llog er budd y gymdeithas.*
- 5. Bod gan y gymdeithas bŵer i wrthod ad-dalu'r cyfranddaliadau, naill ai dros dro neu am gyfnod amhenodol, ac i leihau'r gwerth islaw'r £1 enwol.*
- 6. Nid yw'r daliad cyfranddaliadau'n rhoi unrhyw hawliau i asedau sylfaenol y gymdeithas.*
- 7. Yn achos diddymiad solfent, ni ellir talu mwy na gwerth enwol eu cyfranddaliadau i gyfranddalwyr.”*

Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â rheolau'r gymdeithas, ac yn pennu'r gyfradd llog uchaf sy'n daladwy ar gyfalaf cyfranddaliadau. Fel arfer, bydd gan y pwyllgor rheoli bwerau disgrisiwn i dalu llai na'r uchafswm hwn.

## 7 RHEOLEIDDIO A CHANLLAWIAU

### 7.1 CYFLWYNIAD

Nid yw cynnig cyfranddaliadau cymunedol, neu'n fwy penodol, cyfranddaliadau anhrosoglwyddadwy y gellir eu codi mewn cymdeithas, yn weithgaredd a reoleiddir ac nid yw'n dod o fewn cwmpas Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000. Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn datblygu a hyrwyddo safonau arfer da ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn rhan o'i hymrwymiad i hunanreoleiddio gwirfoddol. Mae'r adran hon o'r Llawlyfr yn amlinellu'r cyd-destun rheoleiddiol ar gyfer datblygu'r arweiniad a'r rheoleiddio gwirfoddol hyn.

Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n llywodraethu'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Amcanion yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yw diogelu defnyddwyr, gwella uniondeb y sector gwasanaethau ariannol, a hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol. Mae diogelu defnyddwyr yn hollbwysig er mwyn i'r cyhoedd deimlo'n hyderus ynglŷn â chyfrifon cynilo ac ernesau. Mae angen i gynhyrchion buddsoddi, lle mae'r risgiau a'r gwobrwyon posibl yn fwy, gydymffurfio â safonau cyffredin er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol ac i helpu'r cyhoedd i ddeall beth maen nhw'n ei brynu.

Heb reoleiddio da, mae perygl y gallai'r cyhoedd golli hyder mewn gwasanaethau bancio ac ariannol, a fyddai'n cael effaith fawr ar yr economi. Yn ôl yr FCA, mae rheoleiddio ariannol da wedi'i seilio ar wyth egwyddor allweddol: effeithlonrwydd a darbodaeth; cymesuroledeb; twf cynaliadwy; cyfrifoldeb defnyddwyr; cyfrifoldeb uwch reolwyr; cydnabod y gwahaniaethau yn y busnesau a gynhelir gan wahanol unigolion a reoleiddir; bod yn agored a datgelu; a thryloywder.

Nid yw cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn cael eu rheoleiddio gan yr FCA. Gallai'r diffyg rheoleiddio ffurfiol hwn danseilio hyder y cyhoedd mewn cyfranddaliadau cymunedol ac arwain at bryderon y gallai rhai cymdeithasau ymddwyn mewn ffordd anghyfrifol. Mae tri pheth yn rhwystro hyn rhag digwydd. Mae gan yr FCA, sy'n cofrestru cymdeithasau cydfuddiannol, bwerau i ddatgofrestru cymdeithas os yw'n credu nad yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth cymdeithasau. Crynhoir y pwerau hyn yn Adran 7.5. Mae unrhyw gynnig neu gymhelliad i fuddsoddi mewn cyfranddaliadau cymunedol yn ddarostyngedig i gyfraith contractau. Esbonnir hyn yn Adran 7.4. Ac mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi ymrwmo i hyrwyddo hunanreoleiddio gwirfoddol ymhlith cymdeithasau sy'n gwneud cynigion cyfranddaliadau cymunedol. Mae wedi cyflwyno Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol ac yn trwyddedu ymarferwyr sy'n gallu dyfarnu'r Marc hwn i gynigion sy'n cyrraedd y safonau. Amlinellir y darpariaethau hyn yn Adran 7.6. Gyda'i gilydd, dylai'r mesurau hyn ddarparu'r amodau ar gyfer hunanreoleiddio gwirfoddol, ac i arfer da fod drechaf.

Mae Adran 7.3 yn esbonio sut mae cyfranddaliadau cymunedol yn berthnasol i Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a'r rheolau sy'n rheoleiddio hyrwyddiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyrwyddiadau ariannol yn gyfathrebiadau sy'n annog pobl i ymwneud â gweithgareddau buddsoddi. Ni fwriedir iddynt roi arweiniad cynhwysfawr i'r ddeddfwriaeth, a chynghorir ymarferwyr i geisio barn gyfreithiol arbenigol os ydynt yn llunio hyrwyddiadau ariannol a allai brofi ffiniau'r canllawiau hyn.

Mae rheoleiddio gwirfoddol yn gosod cyfrifoldeb ar gymdeithasau i fod yn agored a thryloyw ynglŷn â'u gweithgareddau. Mae Adran 7.2 yn amlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth am aelodaeth a pherfformiad ariannol cymdeithas, ac yn rhoi arweiniad ar sut y gellir ymestyn egwyddorion bod yn agored ac yn dryloyw i weithgareddau codi arian cymdeithas.

## 7.2 BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW

Mae Adran 89 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn gosod dyletswydd ar gymdeithas i gyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r FCA o fewn saith mis o ddiwedd ei blwyddyn ariannol. Mae'r wybodaeth flynyddol yn cynnwys mantolen a chyfrif refeniw ar gyfer y gymdeithas, yn ogystal ag adroddiad yr archwilydd (neu gyfatebol) a ffurflen flynyddol AR30 yr FCA. Mae Adran 90 Deddf 2014 yn mynnu bod cymdeithasau'n sicrhau bod y wybodaeth flynyddol hon ar gael i bob aelod ac unrhyw un arall sy'n gofyn am gael ei gweld. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i gyflawni'r ddyletswydd hon trwy gyhoeddi'r copi diweddaraf o'r wybodaeth flynyddol ar wefan y gymdeithas.

Mae Adrannau 103 a 104 Deddf 2014 yn mynnu bod cymdeithas yn sicrhau bod ei chofrestr aelodau ar gael i'w harchwilio gan aelodau ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y ddogfen hon. Nid yw hyn yn cynnwys yr hawl i weld manylion cyfrif cyfranddaliadau aelod na'i berthnasoedd ariannol eraill â'r gymdeithas, oni bai bod yr aelod wedi rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig i ddatgelu'r wybodaeth hon.

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn argymhell y dylai pob cymdeithas sy'n derbyn buddsoddiad cymunedol sicrhau, fel mater o arfer da, fod y wybodaeth ganlynol ar gael ar wefan y gymdeithas fel arfer:

- Copïau o'i chyfrifon blynyddol ar gyfer y tair blynedd blaenorol o leiaf (os yw'n berthnasol), ynghyd ag adroddiad yr archwilydd, neu adroddiad cyfatebol
- Copïau o'r wybodaeth flynyddol a gyflwynwyd i'r FCA (AR30) ar gyfer y tair blynedd blaenorol o leiaf, neu gopi cyfredol wedi'i gwblhau o'r templed crynodeb cyllid a gynhyrchwyd gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol ar gyfer cynigion cyfranddaliadau y dyfarnwyd y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol iddynt
- Rhestr gyfredol o swyddogion y gymdeithas ac aelodau ei phwyllgor rheoli, gan gynnwys manylion sut i gysylltu â nhw
- Copi cyfredol o reolau'r gymdeithas
- Copi o unrhyw ddogfen gynnig cyfranddaliadau cymunedol a gyhoeddwyd yn ystod y pum mlynedd blaenorol
- Copi o unrhyw gynllun busnes a gyhoeddwyd ar y cyd â dogfen gynnig yn ystod y pum mlynedd blaenorol
- Copi o unrhyw daliadau cofrestredig cyfredol dros asedau'r gymdeithas.

Mae'n rhaid i gymdeithas budd cymunedol elusennol sydd wedi'i chofrestru â Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban gydymffurfio â threfniadau adrodd y rheoleiddiwr hwnnw hefyd, gan gynnwys y gofyniad statudol i ddarparu copi o'i chyfrifon blynyddol. Yn ogystal, mae Adran 23 Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 yn datgan bod rhaid i'r elusen ddarparu copi o'i chyfansoddiad a'i chyfrifon i unigolyn sy'n gofyn am gael copi ohonynt.



## 7.3 DEDDF GWASANAETHAU A MARCHNADOEDD ARIANNOL 2000

### 7.3.1 Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA), a deddfwriaeth gysylltiedig, yn darparu'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Creodd y Ddeddf yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol fel y rheoleiddiwr ar gyfer busnes yswiriant, bancio a buddsoddi. Olynwyd y corff hwn gan yr FCA, sy'n canolbwyntio ar reoleiddio'r sector gwasanaethau ariannol defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, a throsglwyddwyd pwerau eraill i'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a Banc Lloegr. Mae'r FCA hefyd yn cofrestru cymdeithasau cydffuddiannol; cyfrifoldeb nad yw'n gysylltiedig â'i ddyletswyddau fel rheoleiddiwr.

Ymhlith amryw bethau eraill, mae'r FSMA yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i ystod o weithgareddau, gan gynnwys cynnig gwarannau, fel cyfranddaliadau a bondiau. Mae tri phrif ofyniad i fod yn ymwybodol ohonynt: yr hyn sy'n weithgaredd a reoleiddir, ac sydd felly o fewn cwmpas yr FSMA; y cyfyngiadau ar hyrwyddiadau ariannol, hynny yw, sut mae cyfleoedd buddsoddi'n cael eu hyrwyddo neu eu cyfleu i'r cyhoedd; a'r gofynion i gyhoeddi prospectws a gymeradwyr gan yr FCA. Mae'r FSMA hefyd yn amlinellu ystod o esemptiadau ac eithriadau o'r gofynion hyn, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i gymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol sy'n cyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol.

Nid yw esemptiad o'r gofynion prospectws yn golygu esemptiad o'r gofynion hyrwyddo ariannol. Felly, er enghraifft, efallai y bydd cymdeithas budd cymunedol sy'n cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy wedi'i hesemptio o'r gofynion prospectws, ond nid o'r gofynion hyrwyddiadau ariannol. Esbonnir y materion hyn yn fanylach isod.

### 7.3.2 Gweithgareddau a reoleiddir

Mae Adran 19 yr FSMA yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar unrhyw unigolyn sy'n cynnal, neu'n honni ei fod yn cynnal, gweithgaredd a reoleiddir. Mae Adran 22 yr FSMA yn diffinio pa fathau o wasanaethau ariannol sy'n weithgareddau a reoleiddir gan gyfeirio at Orchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) 2001. Mae Erthygl 76 y Gorchymyn hwn yn datgan bod cyfranddaliadau trosglwyddadwy mewn cymdeithas yn fuddsoddiad penodedig a bod cynnig y math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau'n dod o fewn cwmpas gweithgareddau a reoleiddir. Ond nid yw mathau eraill o gyfranddaliadau mewn cymdeithasau, fel cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir eu codi, wedi'u cynnwys.

Mae erthygl 18 y Gorchymyn hefyd yn eithrio cwmni sy'n gwneud trefniadau i gyhoeddi ei gyfranddaliadau ei hun, neu unrhyw unigolyn sy'n cyhoeddi dyledebau, o ofynion rheoleiddio. Er nad yw'r rhain yn weithgareddau a reoleiddir, gallai cynnig y cyfryw gyfranddaliadau neu ddyledebau fod yn ddarostyngedig i reoliadau hyrwyddo ariannol o hyd. Mae adran 755 Deddf Cwmnïau 2006 yn gwahardd cynnig gwarannau mewn cwmni preifat i'r cyhoedd.

---

### 7.3.3 Hyrwyddiadau ariannol

---

Mae Adran 21 yr FSMA yn gosod cyfyngiadau ar sut y gellir gwneud hyrwyddiadau ariannol. Yn ei hanfod, mae'n rhaid i gynnwys unrhyw fath o gyfathrebu sy'n annog y cyhoedd i fuddsoddi gael ei gymeradwyo gan unigolyn a awdurdodwyd gan yr FCA. Mae hyn yn berthnasol i bob gweithgaredd gwasanaethau ariannol heblaw am y rhai hynny nad ydynt yn weithgareddau a reoleiddir.

Mae Erthygl 35 Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol (Hyrwyddo Ariannol) 2005 yn egluro nad yw'r cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol yn berthnasol i unrhyw gyfathrebu gan gymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol sy'n ymwneud ag unrhyw fath o offeryn dyled, fel dyledebau, stoc benthyciadau a bondiau, gan gynnwys offerynnau dyled trosglwyddadwy, lle mae cyfathrebiadau wedi'u cyfyngu i gyfathrebiadau nad ydynt yn amser real neu gyfathrebiadau amser real a geisiwyd. Ond mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gyfranddaliadau trosglwyddadwy mewn cymdeithas, ac unrhyw fath o dderbyn ernes, y mae'r ddau'n fuddsoddiadau a reolir (gweler Atodlen 1 paragraffau 14 a 15). Mae cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir eu codi y tu allan i'r diffiniad o fuddsoddiad a reolir at ddiben y rheolau hyrwyddo ariannol, felly nid yw'r cyfyngiadau'n berthnasol i'r math hwn o gyfalaf cyfranddaliadau.

Sut bynnag, mae Erthygl 62 Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol (Hyrwyddo Ariannol) 2005 yn datgan nad yw'r cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol yn berthnasol i werthu'r corff corfforaethol. Mae'n diffinio hyn fel gwerthu 50% neu fwy o'r cyfranddaliadau pleidleisio mewn corff corfforaethol, ac o ystyried, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y bydd cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn arwain at gynnydd o fwy na 50% yn nifer yr aelodau pleidleisio mewn cymdeithas, nid yw'r cyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol yn berthnasol.

Mae'r Gorchymyn Hyrwyddo Ariannol hefyd yn esemptio cyfathrebu ag ystod eang o bobl fel unigolion gwerth net uchel ardystiedig, buddsoddwyr soffistigedig hunanardystiedig, a "grŵp buddiannau cyffredin" cwmni. Gallai'r esemptiadau hyn fod yn arwyddocaol i fentrau cymdeithasol sy'n gwneud hyrwyddiadau ariannol nad ydynt yn gymdeithasau cydweithredol neu'n gymdeithasau budd cymunedol. Mae cyfathrebiadau a wneir gan drydydd partiön, gan gynnwys "cyfryngau yn unig", cyfathrebiadau gan newyddiadurwyr, a chyfathrebiadau cyffredinol wedi'u hesemptio hefyd. Cyfrwng yn unig yw rhywun sy'n cyfathrebu deunyddiau a luniwyd ac a ddarparwyd yn gyfan gwbl gan bobl eraill.

---

### 7.3.4 Gofynion prosiectws

---

Mae Adran 85 yr FSMA yn mynnu bod sefydliadau sy'n gwneud hyrwyddiad ariannol yn cyhoeddi prosiectws a gymeradwywyd gan yr FCA os ydynt yn cynnig gwarannau trosglwyddadwy. Nid yw'r gofynion prosiectws yn berthnasol i warannau anhrosglwyddadwy, fel cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn cymdeithasau. Mae esemptiadau ar gyfer y canlynol hefyd:

- Gwarannau trosglwyddadwy a gyhoeddir gan elusennau
- Gwarannau trosglwyddadwy a gyhoeddir gan gymdeithasau budd cymunedol, os yw'r arian a godir yn cael ei ddefnyddio i gyflawni amcanion y cyhoeddwr yn unig
- Gwarannau trosglwyddadwy a gynigir gan gymdeithasau nid-er-elw neu gyrff tebyg i elusennau a chymdeithasau budd cymunedol, y gellid tybio ei bod yn golygu unrhyw sefydliad sydd â chlo

asedau a ddiffiniwyd yn statudol, fel Cwmni Budd Cymunedol

- Cynigion gwarannau trosglwyddadwy lle mae'r cynnig yn cael ei wneud i fuddsoddwyr cymwys yn unig, neu i lai na 150 o bobl, neu lle mae'r cyfanswm a geisir yn llai na'r hyn sy'n cyfateb i €2,500,000 mewn sterling.

Bydd cymdeithasau budd cymunedol wedi'u heithrio o reoleiddio pan fyddant yn cynnig cyfranddaliadau trosglwyddadwy i'r cyhoedd dim ond os "*bydd elw'r cynnig yn cael ei ddefnyddio i gyflawni amcanion y cyhoeddwr*" (gweler Atodlen 11A, yr FSMA). Tybir bod hyn yn golygu amcanion y gymdeithas, fel y'u datganir yn ei rheolau. Fodd bynnag, nid yw cyfranddaliadau trosglwyddadwy'n cyd-fynd â'r diffiniad o gyfranddaliadau cymunedol (gweler Adran 1.2.2). Mae Adran 2.2.3 yn esbonio pam yr ystyrir bod cyfranddaliadau trosglwyddadwy y tu allan i gylch gorchwyl yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

---

### 7.3.5 Derbyn ernesau

---

Mae Adran 4 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn datgan: "*ni chaniateir i gymdeithas sydd ag unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi gael ei chofrestru gyda'r bwriad o gynnal busnes bancio.*" Mae Adran 67 yr un Ddeddf yn ailddatgan y gwaharddiad hwn ond hefyd yn creu eithriad ar gyfer symiau bach sy'n llai na £400.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i unrhyw gymdeithas sy'n cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi sicrhau nad yw'n ymwneud â busnes bancio. Atgyfnerthir hyn gan Adran 2(1) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 sy'n mynnu bod cymdeithasau cofrestredig yn cynnal "*busnes, diwydiant neu fasnach*". Gall fodloni'r gofyniad hwn trwy sicrhau bod ei chyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei dynnu yn cael ei ddefnyddio i ariannu ei gweithgareddau masnachu ei hun yn unig, ac nid i ariannu gweithgareddau masnachu endidau eraill. Nid yw hyn yn golygu na all cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol fuddsoddi mewn endid cyfreithiol arall mewn unrhyw amgylchiadau. Mae Adran 2.8 y Llawlyfr yn nodi ar ba sail y gall cymdeithas fuddsoddi mewn endid cyfreithiol arall.

Mae'n anodd diffinio'r hyn a olygir wrth fusnes bancio a derbyn ernesau. Gallai cynhyrchu cyfalaf cyfranddaliadau dim ond i fuddsoddi mewn endidau cyfreithiol eraill, neu i wneud benthyciadau personol i aelodau, gael ei ddehongli fel busnes bancio, a dylai cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol osgoi hynny yn gyffredinol.

Mae cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth a'u rheoliadau eu hunain, ac maen nhw y tu allan i gwmpas y Llawlyfr hwn.

---

### 7.3.6 Gwyngalchu arian

---

Mae'r FSMA yn rhoi pwerau i'r FCA lunio rheolau sy'n ceisio atal a chanfod gwyngalchu arian mewn cysylltiad â chynnal gweithgareddau a reoleiddir gan unigolion awdurdodedig. Nid yw hyn yn berthnasol i gymdeithas sy'n cyhoeddi cyfranddaliadau y gellir eu codi gan nad yw'n weithgaredd a reoleiddir.

Nid yw Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 yn berthnasol i gymdeithasau pan fyddant yn cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi (gweler Rheoliad 4). Mae hyn yn cael gwared â'r baich o orfod gwirio pwy yw ymgeiswyr a dilyn gweithdrefnau eraill a osodir gan y rheoliadau hyn. Er hynny, ystyrir bod mesurau syml fel derbyn taliad am gyfranddaliadau cymunedol trwy gyfrif banc yn y Deyrnas Unedig, neu gyfrif cyfatebol, yn unig yn arfer da.

Mae cymdeithasau defnyddwyr sy'n aelodau o Co-operatives UK wedi cytuno ar God Arfer Gorau ar gyfer Cyfalaf Cyfranddaliadau y gellir ei Godi, sy'n golygu bod rhaid iddynt gadarnhau pwy yw unrhyw unigolyn sy'n buddsoddi mwy na £500 trwy fynnu dau fath gwahanol o brawf adnabod, un sy'n profi pwy yw'r unigolyn, ac un arall sy'n profi ble mae'n byw.

---

### 7.3.7 Diogelu defnyddwyr

---

Sefydlodd yr FSMA y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (Rhan 15) a'r Cynllun Ombwdsmon (Rhan 16), er mwyn rhoi rhai hawliau cwyno a digolledu i gwsmeriaid cwmnïau gwasanaethau ariannol awdurdodedig mewn sefyllfaoedd lle na all y cwmni gytuno ar hawliad yn ei erbyn. Mae'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS) yn diogelu ernesau cwsmeriaid banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd awdurdodedig rhag ofn y byddant yn mynd yn ansolfent. Mae'r FSCS hefyd yn berthnasol i gwmnïau gwasanaethau ariannol awdurdodedig sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir fel yswiriant, buddsoddiadau a morgeisi. Nid yw'n berthnasol i unrhyw un o weithgareddau cymdeithas.

Mae'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, a sefydlwyd o dan y Cynllun Ombwdsmon, yn helpu i ddatrys anghydfodau rhwng defnyddwyr a chwmnïau gwasanaethau ariannol awdurdodedig. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu datrys yn anffurfiol. Os bydd Ombwdsmon yn gwneud penderfyniad terfynol a dderbynnir gan y defnyddiwr, bydd y penderfyniad hwnnw'n gyfrwymol ar y ddau barti ac yn orfodadwy yn y llys. Nid oes gan ddefnyddiwr sy'n prynu cyfranddaliadau cymunedol hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth i ddatrys anghydfod yn ymwneud â chyfranddaliadau cymunedol.

Mae Adran 4.2 yn argymhell y dylai pob dogfen gynnis gyfranddaliadau egluro "y gallai unrhyw un sy'n prynu cyfranddaliadau cymunedol golli rhywfaint o'r arian a fuddsoddir ganddynt, neu'r cyfan ohono, heb amddiffyniad Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol y llywodraeth, a heb allu troi at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol. Dylai'r rhybudd hwn gael ei leoli mewn man amlwg ym mhob dogfen gynnis a'i fynegi mewn iaith syml ac eglur. "

## 7.4 CYFRAITH CONTRACT

Er gwaethaf absenoldeb rheoleiddio statudol, mae cymdeithas sy'n cynnis cyfranddaliadau cymunedol yn ddarostyngedig i gyfraith contract o hyd. Bydd rhaid i'r rhai hynny sy'n cyfathrebu gwybodaeth am gyfle buddsoddi neu sy'n cynghori pobl ynglŷn â chynnis dalu iawndal, ac efallai diddymu'r contract buddsoddi, os cyflawnwyd camweddau twyll neu gamliwio esgeulus, os torrwyd un o delerau contract, neu os yw Deddf Camliwio 1967 yn berthnasol. Gallai hyn fod yn wir os cafwyd colledion gan fuddsoddwr a ddibynnodd ar y ddogfen, y wybodaeth, neu'r cyngor wrth benderfynu llunio'r contract buddsoddi, ac os oedd y golled o ganlyniad i ddatganiad ffeithiol anwir

neu gamarweiniol neu unrhyw ddatganiad esgeulus. Felly, mae'n hollbwysig bod yr holl wybodaeth a ddarperir mewn dogfennau, ar fideos neu ar wefannau, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac mewn unrhyw gyfathrebiadau eraill â darpar fuddsoddwyr yn gywir ac yn ffrwyth ystyriaeth ofalus, ac nad yw'n gamarweiniol.

Mae'r diffyg rheoleiddio statudol, ac felly'r amddiffyniad mwy cyfyngedig i fuddsoddwyr, ond yn cryfhau'r achos dros ddatblygu safonau cadarn ar gyfer rheoleiddio gwirfoddol ac arfer da; cyfrifoldeb a ysgwyddwyd gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

## 7.5 YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL

### 7.5.1 Y Tîm Cwmnïau Cydfuddiannol

Mae'r Tîm Cwmnïau Cydfuddiannol yn yr FCA yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol, gan gynnwys cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, cymdeithasau adeiladu, cymdeithasau cyfeillgar ac undebau credyd. Fel cofrestrydd, mae ganddo bwerau i ganslo cofrestriad cymdeithas, yn ogystal â chofrestru cymdeithasau newydd.

Trosglwyddwyd rôl y cofrestrydd o'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i'r FCA o dan bwerau Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012 (Cymdeithasau Cydfuddiannol) 2013. Yn ôl paragraff 5(1) Atodlen 1, "*mae'n rhaid i'r FCA gynnal trefniadau a gynlluniwyd i'w alluogi i bennu p'un a yw unigolion yn cydymffurfio â'r gofynion a osodwyd arnynt gan y ddeddfwriaeth neu o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymdeithasau cydfuddiannol*".

Mae hyn yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr FCA i sefydlu systemau i bennu p'un a yw cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y gyfraith cymdeithasau ai peidio. Gallai cofrestriad unrhyw gymdeithas nad yw'n cyflawni ei dyletswyddau o dan y gyfraith cymdeithasau, fel y'u mynegir yn ei rheolau cofrestredig, gael ei ganslo (gweler Adran 7.5.2). Gallai hyn gynnwys materion yn ymwneud â chyfalaf cyfranddaliadau cymdeithas, felly, i'r graddau hyn, mae gan yr FCA a'i Dîm Cwmnïau Cydfuddiannol gyfrifoldeb i sicrhau bod cymdeithasau'n gweithredu o fewn y gyfraith cymdeithasau wrth wneud cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

### 7.5.2 Archwiliadau ac ymchwiliadau

Mae Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol ac Undebau Credyd (Ymchwiliadau) 2014 yn rhoi'r un pwerau i'r FCA ymchwilio i faterion cymdeithas ag a ddilir ar hyn o bryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ymchwilio i gwmnïau o dan Ran 14 Deddf Cwmnïau 1985. Mae hyn yn cynnwys pwerau i orchymyn cymdeithas i gyflwyno dogfennau neu wybodaeth, neu awdurdodi ymchwilydd i fynd i mewn i safle cymdeithas i gael tystiolaeth o'r fath. Mae'n drosedd i ddinistrio neu ffugio gwybodaeth yn ymwneud â materion y gymdeithas. Ar gais deg aelod o leiaf, sydd hefyd yn cytuno i warantu cost y dasg, gall yr FCA benodi unigolyn proffesiynol i archwilio materion ariannol cymdeithas ac adrodd arnynt. Mae gan yr FCA bwerau i orchymyn bod yr ymgeiswyr, y gymdeithas, neu ei swyddogion, yn talu am gostau'r archwiliad pan wyddys ei ganlyniad.

Mae Adran 106 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn rhoi pwerau i'r FCA benodi arolygwyr i ymchwilio i faterion y gymdeithas, os gofynnir am hynny gan 10% o aelodau'r gymdeithas o leiaf, neu 100 o aelodau o leiaf, p'un bynnag yw'r rhif isaf. Gellir cyfarwyddo'r arolygwyr i gyflwyno adroddiad i'r FCA neu gyfarfod arbennig o'r gymdeithas. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr warantu cost yr ymchwiliad, yn amodol ar benderfyniad yr FCA ar bwy ddylai dalu'r gost pan wyddys canlyniad yr ymchwiliad. Mae gan yr arolygwyr bwerau pellgyrhaeddol i archwilio cyfrifon a dogfennau'r gymdeithas, ac i holi swyddogion, cyflogeion ac aelodau'r gymdeithas ar lw.

---

### 7.5.3 Sancsiynau

---

Gall methiant cymdeithas, ei swyddogion, aelodau ei phwyllgor rheoli neu ei huwch gyflogeion i gydymffurfio â deddfwriaeth cymdeithasau, ei rheolau ei hun, neu unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill sy'n berthnasol i'r gymdeithas, arwain at orfodi sancsiynau sifil neu droseddol. Gall hyn gynnwys diswyddo swyddogion ac aelodau'r pwyllgor rheoli, a'u datgymhwysu yn y pen draw.

Ar 6 Ebrill 2014, ymestynnwyd Deddf Datgymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 i gynnwys cymdeithasau. Mae hyn yn golygu y gall aelod o bwyllgor rheoli cymdeithas gael ei ddatgymhwysu o wasanaethu fel aelod o bwyllgor rheoli unrhyw gymdeithas, neu fod yn gyfarwyddwr cwmni, am gyfnod a bennir gan orchymyn llys, neu ryw fath arall o ymgymeriad cyfreithiol rwymol.

---

### 7.5.4 Atal a chanslo cofrestriad

---

Mae Adrannau 5 i 8 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn rhoi'r pŵer i'r FCA atal neu ganslo cofrestriad cymdeithas. Mae'r pŵer canslo hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn achos cymdeithasau sy'n methu â chyflwyno gwybodaeth a chyfrifon blynyddol dro ar ôl tro. Mae methiant i gyflwyno gwybodaeth a chyfrifon blynyddol i'r FCA o fewn saith mis ar ôl diwedd blwyddyn cymdeithas yn drosedd y gellir ei chosbi trwy ddirwy o hyd at £1,000 fesul trosedd.

Gall yr FCA hefyd atal neu ganslo cofrestriad cymdeithas nad yw'n bodloni amodau ei chofrestriad fel cymdeithas gydweithredol, cymdeithas budd cymunedol neu gymdeithas a gofrestrwyd cyn 2014. Gall hyn gynnwys cymdeithasau sydd wedi cofrestru trwy dwyll neu gamgymeriad, sy'n bodoli at ddibenion anghyfreithlon, neu sy'n torri darpariaethau Deddf 2014 yn fwriadol mewn rhyw ffordd arall.

Mae'r weithdrefn ar gyfer atal neu ganslo cofrestriad cymdeithas wedi'i hamlinellu yn Neddf 2014. Mae hyn yn cynnwys manylion am y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i'r FCA ei roi i gymdeithas o'i fwriad i ganslo neu atal cofrestriad, a hawliau cymdeithas i apelio yn erbyn gweithredoedd yr FCA.

Gall cymdeithas ddewis canslo ei chofrestriad o'i gwirfodd. Esbonnir y weithdrefn ar gyfer hyn yn Adran 2.9.5. Mae'n rhaid peidio â defnyddio canslo i osgoi gweithdrefnau ansolfedd.

## 7.6 CANLLAWIAU'R UNED CYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL

### 7.6.1 Cyflwyniad

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn darparu canllawiau arfer da ac yn hyrwyddo safonau uchel o reoleiddio gwirfoddol ymhlith cymdeithasau sy'n cyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol. Mae'n gwneud hyn trwy gyhoeddi'r Llawlyfr hwn, sef gweithgaredd a oruchwylir gan bwyllgor technegol, a sefydlwyd yn wreiddiol gan yr FCA, ac sydd bellach yn cynnwys cynrychiolwyr o Drysorlys EM, y Comisiwn Elusennau, HMRC a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Er mwyn hybu arfer da ymhellach, mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol wedi cyflwyno'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol ar gyfer cynigion cyfranddaliadau sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a roddir yn y Llawlyfr hwn. Mae'r Marc yn cael ei ddyfarnu gan ymarferwyr trwyddedig i gynigion yr asesir eu bod yn cydymffurfio â meini prawf sefydledig arfer da.

Wrth ddatblygu'r trefniadau hyn, mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn ymwybodol o'r egwyddorion sylfaenol canlynol sy'n berthnasol i reoleiddio gwirfoddol:

- **Cymesur a chost isel:** Dylai'r gofynion a osodir ar gymdeithas sy'n gwneud cynnig cyfranddaliadau cymunedol fod yn gymesur â graddfa'r cynnig, ac nid yn or-feichus. Ni ddisgwylir i gynigion ar gyfer llai na £50,000 ymwneud â'r Marc. Dylai cost cydymffurfio gael ei chadw mor isel â phosibl, a bod yn gymesur â swm y cyfalaf sydd i'w gynhyrchu.
- **Syml:** Mae cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn cael eu targedu at gymunedau lleol, sy'n cynnwys buddsoddwyr ansoffistigedig yn bennaf nad ydynt yn debygol o fod wedi prynu cyfranddaliadau'n uniongyrchol o'r blaen, na defnyddio gwasanaethau cynghorydd ariannol annibynnol. Dylai'r holl ddogfennau a fwriedir ar gyfer y cyhoedd fod yn syml, yn hygyrch ac yn hawdd eu deall heb gyngor arbenigol.
- **Agored:** Dylai cymdeithasau fod yn gwbl dryloyw ynglŷn â phob agwedd ar eu busnes a rhannu data masnachol â chymdeithasau eraill sy'n gweithredu yn yr un sector er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd. Dylai rhannu data busnes a gwybodaeth am y farchnad fod yn sail i arfarnu dogfennau cynnig yn agored.
- **Ymarferol a datblygiadol:** Dylai canllawiau fod yn rhwydd eu deall a'u gweithredu. Dylent fod wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gymdeithasau a chymunedau eraill. Dylai'r canllawiau alluogi cymdeithasau i ddod yn fwy cydnerth a chynaliadwy fel mentrau.
- **Cymorth gan ymarferwyr:** Mae'r cyfrifoldeb am y cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei ysgwyddo gan bwyllgor rheoli'r gymdeithas sy'n gwneud y cynnig, gyda chymorth ymarferwyr yr aseswyd eu bod yn gymwys. Dylai ymarferwyr gael eu hannog i ddatblygu eu cymwyseddau mewn perthynas â chynorthwyo cynigion cyfranddaliadau cymunedol.

### 7.6.2 Y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol

Diben y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol yw creu a chynnal hyder y cyhoedd mewn cynigion cyfranddaliadau cymunedol, trwy sicrhau ymagwedd gyson at safonau gan yr holl gymdeithasau ac ymarferwyr sy'n cymryd rhan. Dyfernir y Marc i gynigion cyfranddaliadau sy'n cydymffurfio â'r canllawiau yn y Llawlyfr Cyfranddaliadau Cymunedol ac sy'n bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer y Marc. Mae'r meini prawf hyn yn mynd i'r afael â dogfen gynnig, ffurflenni cais,

rheolau a chynllun busnes cymdeithas, lle y bo'n berthnasol. Cynhelir yr asesiad gan ymarferydd trwyddedig, gan ddefnyddio templed asesu a luniwyd ac a gynhelir gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

O safbwynt diogelu defnyddwyr, nod y Marc Safon yw sicrhau bod cynigion cyfranddaliadau cymunedol yn cyrraedd y safon ganlynol:

- Bod y ddogfen gynnig a'r ffurflen gais yn rhwydd eu deall.
- Bod defnyddwyr yn cael yr holl ffeithiau y mae arnynt eu hangen i wneud penderfyniad gwybodus.
- Bod y ffeithiau'n cael eu hategu gan gyfrifon blynyddol a/neu gynllun busnes y gymdeithas.
- Nad yw'r dogfennau hyn yn cynnwys unrhyw beth sy'n anghywir, yn ddryslyd nac yn gamarweiniol yn fwriadol.

Gofynnir i gymdeithasau lofnodi Cod Ymarfer sy'n mynnu, ymhlith pethau eraill, eu bod yn rhoi hawl i'r cyhoedd gwyno i'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol. Bydd yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn tynnu'r Marc oddi ar gynigion os dangosir nad yw'r gymdeithas yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Nid yw'r Marc yn warant y bydd y busnes yn llwyddo. Nid yw ychwaith wedi'i fwriadu i fod yn fath o ddiwydrwydd dyladwy neu gyngor buddsoddi. Dylid rhybuddio defnyddwyr o hyd y gallent golli rhywfaint o'r arian a fuddsoddir ganddynt, neu'r cyfan ohono, ac nad oes ganddynt hawl i ddigollediad statudol neu gwyno.

Mae'r Marc yn eiddo i'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol, sy'n gyfrifol am drwyddedu ymarferwyr a monitro eu hasesiadau. Mae cod ymddygiad ar waith ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol sy'n defnyddio'r Marc Safon, sy'n cynnwys hawl i'r cyhoedd gwyno a oruchwylir gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol. Mae'r cod ymddygiad yn gosod safonau ar gyfer hyrwyddo a gweinyddu cynigion cyfranddaliadau cymunedol gan gymdeithasau. Y prif sancsiwn sydd ar gael i'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yw tynnu'r Marc oddi ar ddogfen gynnig cymdeithas, a chanslo trwydded ymarferydd.

Mae'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol yn cael ei hyrwyddo i'r cyhoedd yn y cyhoeddiad, *Buddsoddi mewn Cyfranddaliadau Cymunedol*, yr anogir cymdeithasau sy'n cymryd rhan i'w restru ar eu gwefannau a chyfeirio ato yn eu dogfennau cynnig.

---

### 7.6.3 Trwyddedu ymarferwyr

---

Defnyddir y term ymarferydd i ddisgrifio unigolyn sy'n cynorthwyo cymdeithasau newydd a sefydledig sy'n datblygu cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Gall y cymorth hwn fod ar sawl ffurf, yn amrywio o adolygu cynigion ar gyfer y Marc Safon, i gynghori cymdeithasau ar ddatblygu trefniadau llywodraethu, cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned a strategaethau buddsoddi, llunio ac ysgrifennu dogfennau cynnig a chynlluniau busnes, ac, mewn rhai achosion, darparu cymorth technegol arbenigol mewn sectorau arbenigedd. Mae gan lawer o ymarferwyr brofiad ymarferol fel entrepreneuriaid ac aelodau o bwyllgor rheoli cymdeithasau sydd wedi gwneud cynigion cyfranddaliadau cymunedol llwyddiannus.



Datblygwyd y cynllun trwyddedu ymarferwyr cyfranddaliadau cymunedol gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol er mwyn rhoi'r pŵer i ymarferwyr cymwys ddyfarnu'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol i gynigion cyfranddaliadau sy'n bodloni'r safon ofynnol. Mae ymarferwyr yn mynd trwy broses asesu seiliedig ar gymhwysedd, sy'n canolbwyntio ar eu gwaith cymorth cyfranddaliadau cymunedol gyda chymdeithas sy'n gleient. Mae'n rhaid i ymarferwyr gynnal tri adolygiad arall ar gyfer y Marc Safon o dan oruchwyliaeth yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol cyn iddynt gael eu trwyddedu i gyhoeddi'r Marc eu hunain. Gofynnir i ymarferwyr trwyddedig gytuno ar god ymarfer, sy'n cynnwys gofyniad i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau wrth ddyfarnu'r Marc. Mae hyn yn golygu na all ymarferydd ddyfarnu'r Marc i gynnig cyfranddaliadau y bu'n ymwneud â'i ysgrifennu, nac os yw'n aelod o bwyllgor rheoli'r gymdeithas sy'n gwneud y cynnig.

Mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn cynnal cyfeirlyfr o ymarferwyr trwyddedig ar ei gwefan, sy'n amlygu proffiliau, sectorau arbenigol a rhanbarthau gweithredu'r ymarferwyr.

## 8 TRINIAETH DRETH

### 8.1 CYFLWYNIAD

Mae'r adran hon yn ystyried triniaeth dreth cymdeithasau a'u haelodau, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae hyn yn sylweddol wahanol i driniaeth dreth cwmnïau a'u cyfranddalwyr, a lle y gallai trethiant fod yn ffactor pwysig yn y cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Nid yw'r adran hon yn mynd i'r afael â rhai mathau o dreth, fel Treth ar Werth (TAW), gan fod cwmnïau a chymdeithasau'n cael eu trin yr un fath i raddau helaeth. Rhoddir sylw i fathau eraill o dreth, yn enwedig treth incwm, dim ond mewn meysydd lle mae triniaeth dreth cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol a'u haelodau yn sylweddol wahanol i driniaeth dreth cwmnïau a'u cyfranddalwyr. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu pedwar math o ostyngiad yn y dreth incwm sy'n berthnasol i gyfranddaliadau cymunedol: y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS); y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS); Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (SITR); a Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol (CITR).

Nid yw'r adran hon yn ganllaw cynhwysfawr i driniaeth dreth cymdeithasau a'u haelodau. Ei nod yw tynnu sylw ymarferwyr cyfranddaliadau cymunedol at faterion perthnasol, a'u cyfeirio at y canllawiau manylach sydd ar gael yn Llawlyfrau a Thafleuni Cymorth HMRC (gweler [www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)). Mae HMRC hefyd yn darparu llinellau ffôn penodol ar gyfer cynghorwyr, ac, mewn achosion mwy cymhleth, bydd yn ymateb i geisiadau am Gliriad Busnes Anstatudol, sef cadarnhad ysgrifenedig o safbwynt HMRC ynglŷn â chymhwyso cyfraith treth i drafodyn neu ddiwyddiad penodol.

### 8.2 PRYNU A GWERTHU CYFRANDDALIADAU

Mae'r dreth stamp a threth wrth gefn y dreth stamp yn drethi sy'n daladwy ar drosglwyddo cyfranddaliadau o un parti i un arall. Nid yw'r taliadau hyn yn berthnasol i gyhoeddiad newydd o gyfranddaliadau gan fenter, nac i brynu cyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir eu codi mewn cymdeithas. Fodd bynnag, mae'r dreth stamp yn daladwy ar gyfranddaliadau trosglwyddadwy cymdeithas pan fydd y rhain yn cael eu trosglwyddo rhwng un unigolyn ac un arall, oni bai bod y prynwr yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth neu esemptiad.

Gall gwerthu cyfranddaliadau fod yn agored i dreth enillion cyfalaf os bydd y gwerthwr yn gwneud elw. Ond oherwydd y gellir codi cyfranddaliadau cymunedol am y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau yn unig, neu lai na hynny, nid yw elw cyfalafol yn bosibl, ac nid oes atebolrwydd am dreth enillion cyfalaf. Ni ellir defnyddio unrhyw golledion ar godi cyfalaf cyfranddaliadau o gymdeithas i wrthbwysu enillion cyfalaf a wneir mewn man arall (gweler Taflen Gymorth 286 HMRC).

### 8.3 TRETH INCWM

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'n rhaid i aelodau cymdeithas dalu treth incwm ar eu holl enillion a derbyniadau o'r gymdeithas (gweler Llawlyfr Hawliadau Hunanasesu (SACM) HMRC). Yng

nghyd-destun cyfranddaliadau cymunedol, bydd y derbyniadau hyn fel arfer ar ffurf llog ar gyfalaf cyfranddaliadau. Mae llog ar gyfalaf cyfranddaliadau yn draul ddiynadwy at ddibenion treth gorfforaeth, ond mae'r derbyniad yn agored i dreth incwm sy'n daladwy gan yr aelod. Nid yw HMRC fel arfer yn mynnu bod cymdeithasau'n didynnu treth incwm ar log cyfranddaliadau a dalwyd i aelodau; cyfrifoldeb yr aelodau yw datgan eu henillion a'u derbyniadau gros i HMRC, gan gynnwys unrhyw daliadau llog cyfranddaliadau o'r fath. Mae'n rhaid i gymdeithasau roi gwybod i HMRC am unrhyw daliadau llog gros i aelodau ar gyfranddaliadau neu fenthyciadau sy'n werth hyd at £250 neu fwy y flwyddyn, trwy ddarparu enwau a manylion cyswllt yr aelodau hyn. Os telir llog cyfranddaliadau i aelodau nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid i'r gymdeithas didynnu treth incwm o'r taliad (gweler llawlyfr SAIM 9200 HMRC).

Fodd bynnag, mae llog a delir ar gyfranddaliadau y gellir eu tynnu mewn cymdeithasau yn gymwys ar gyfer y Lwfans Cynilion Personol (PSA) newydd, a gyflwynir ar 6 Ebrill 2016. Bydd y PSA yn cymhwyso cyfradd 0% newydd ar gyfer hyd at £1,000 o gynilion a dderbynnir gan drethdalwyr cyfradd sylfaenol (20%), neu hyd at £500 o incwm cynilion ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch (40%). Ni fydd y PSA yn berthnasol i incwm cynilion a dderbynnir gan drethdalwyr cyfradd ychwanegol 45%.

Os yw aelod eisoes yn talu treth trwy god PAYE, ac mae cyfanswm ei incwm heb ei drethi o gynilion a buddsoddiadau yn llai na £2,500, gall ofyn i unrhyw dreth sy'n ddyledus ganddo gael ei chasglu trwy ei god treth. Os yw ei incwm o'r ffynonellau hyn yn £2,500 neu fwy, bydd angen iddo lenwi ffurflen dreth.

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd cymdeithas gydweithredol yn talu difidend i aelodau (y cyfeirir ato hefyd fel gostyngiad, taliad bonws, neu ad-daliad) yn seiliedig ar eu trafodion â'r gymdeithas. Mae taliadau o'r fath yn draul ddiynadwy at ddibenion treth gorfforaeth. Fodd bynnag, fe allai fod yn incwm trethadwy i'r aelod, neu beidio. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y difidend a natur y trafodion y mae'r difidend wedi'i seilio arnynt. O ran cymdeithasau cydweithredol lle mae'r difidend wedi'i seilio ar bryniadau manwerthu gan aelodau, mae'r difidend yn ostyngiad ar y pris prynu, i bob pwrpas, ac nid yw'n cael ei drin fel incwm trethadwy. Ond o ran cymdeithas gydweithredol lle mae'r difidend wedi'i seilio ar werthiannau neu bryniadau gan aelodau, fel aelodau cymdeithas gydweithredol amaethyddol, bydd y difidend yn cael ei ystyried yn dderbyniad gan yr aelod ac felly'n incwm trethadwy.

## 8.4 Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN MENTRAU

Cyflwynwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) ym 1994 i annog buddsoddiad ecwiti mewn mentrau bach anrhestredig sy'n cynnal masnach gymwys yn y Deyrnas Unedig. (Mae canllawiau manwl ar gael yn Llawlyfr Cynlluniau Cyfalaf Menter VCM10000 HMRC a Thaflen Gymorth HS431 HMRC.)

Gall mentrau cymwys ddefnyddio'r Cynllun i ddenu hyd at £5 miliwn o fuddsoddiad ecwiti yn ystod unrhyw gyfnod deuddeg mis. Mae'n darparu gostyngiad yn y dreth i unigolion (nid cyrff corfforaethol) ac mae'n werth 30% o gost y cyfranddaliadau, i'w wrthbwyso yn erbyn atebolrwydd treth incwm yr unigolyn ar gyfer y flwyddyn dreth pan wneir y buddsoddiad. Mae'n rhaid i'r cyfranddaliadau fod yn gyfalaf newydd ac ychwanegol, ac mae'n rhaid iddynt gael eu dal gan yr

unigolyn am dair blynedd o leiaf ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi neu ar ôl i'r fenter ddechrau masnachu, p'un bynnag sydd hiraf. Mae'n rhaid i'r cyfalaf a gynhyrchir gael ei ddefnyddio i ariannu'r gweithgaredd busnes cymwys. Pe byddai aelod yn codi cyfalaf cyfranddaliadau'n gynnar, byddai'r aelod hwnnw'n colli ei ostyngiad yn y dreth, ond ni fyddai'n peryglu'r gostyngiad yn y dreth i aelodau eraill, yn enwedig os nad oedd y swm a godwyd yn sylweddol, y tybir ei fod yn golygu llai na £1,000. Fodd bynnag, pe byddai'r gymdeithas yn caniatáu i aelodau godi cyfalaf cyfranddaliadau o fewn tair blynedd fel mater o drefn, gan gynnwys aelodau nad oeddent yn derbyn EIS, gallai hyn beryglu cymhwysedd yr holl aelodau i gael gostyngiad yn y dreth. Y gostyngiad uchaf yn y dreth y gall unigolyn ei hawlio yn ystod unrhyw un flwyddyn dreth yw £300,000 ar hyn o bryd.

Er bod EIS wedi'i dargedu'n bennaf at gwmnïau preifat sy'n gyfyngedig drwy gyfranddaliadau, mae cymdeithasau'n gymwys hefyd, yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau a osodir ar gwmnïau, sy'n mynnu bod cyfalaf cyfranddaliadau yn agored i risg yn llwyr, heb unrhyw allanfeydd gwarantedig nac allanfeydd a drefnwyd o flaen llaw ar gyfer y buddsoddwr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gymdeithas feddu ar bwerau i atal neu wrthod ceisiadau i godi cyfalaf cyfranddaliadau. Mae HMRC yn cydnabod nad yw cyfranddaliadau y gellir eu codi yr un fath â chyfranddaliadau adbrynadwy, ac nid yw'n eu trin felly, ar yr amod bod gan y gymdeithas y pwerau hyn.

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2015 nifer o ddiwygiadau i EIS, gan gynnwys meini prawf cymhwyso newydd i gyfyngu'r gostyngiad yn y dreth i fuddsoddi mewn mentrau "gwybodaeth-ddwys" o fewn deng mlynedd o'u gwerthiant masnachol cyntaf, a'r holl fentrau eraill sy'n gymwys o fewn saith mlynedd o'u gwerthiant masnachol cyntaf. Ni fydd hyn yn berthnasol i fentrau lle mae'r buddsoddiad yn cynrychioli mwy na 50% o drosiant wedi'i gyfartalu yn ystod y pum mlynedd blaenorol. Yn ogystal, cyflwynodd gyfyngiad sy'n atal yr arian buddsoddi rhag cael ei ddefnyddio i gaffael busnesau neu asedau busnes presennol. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r meini prawf newydd hyn yn golygu na fydd cynigion a arweinir gan y gymuned i brynu mentrau presennol fel siopau, tafarnau a chlybiau pêl-droed yn gymwys i gael EIS mwyach.

Nid yw mentrau sy'n ymwneud â gweithgareddau anfasnachol, fel cytundebau buddsoddi neu rentu eiddo, yn gymwys i gael EIS. Mae hyn yn golygu nad yw cymdeithasau sy'n caffael asedau, fel tafarnau, sy'n cael eu prydlesu i denant, yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth. Mae'r un peth yn wir am gymdeithasau sy'n cynhyrchu cyfalaf i'w fuddsoddi mewn gweithleoedd a reolir, neu adeiladau cymunedol sy'n cael eu rhentu neu eu prydlesu i grwpiau defnyddwyr. I fod yn gymwys ar gyfer EIS, mae'n rhaid i incwm anfasnachol cymdeithas beidio â bod yn fwy nag 20% o'i hincwm cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o fasnachau'n gymwys, ond nid pob un, a chyfeirir at y rhain fel "gweithgareddau eithriedig". Mae gweithgareddau eithriedig yn cynnwys rhai sy'n boblogaidd iawn ymhlith mentrau cymunedol, fel ffermio, garddio marchnad, rheoli coetir, a datblygu eiddo. Mae unrhyw weithgareddau sy'n cael eu hystyried yn fuddsoddiad yn hytrach na masnach, fel rhentu eiddo, wedi'u heithrio hefyd. Mae rhai gweithgareddau, fel hurio ystafell, yn fwy anodd eu pennu, yn enwedig pan fydd hyn yn rhan o weithgareddau masnachu fel cyfleusterau cynadledda neu wleddoedd priodas. Yn yr achosion hyn, gallai triniaeth TAW y gweithgaredd fod yn ddefnyddiol wrth bennu p'un a yw'n weithgaredd masnachu.

Mae newidiadau a gyflwynwyd i Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 2015 yn golygu, o 30 Tachwedd 2015 ymlaen, nad yw cymdeithasau ynni cymunedol sy'n ymwneud â chynhyrchu neu allforio trydan â

chymhorthdal yn gymwys i gael unrhyw fath o ostyngiad yn y dreth mwyach. Ym mis Ebrill 2016, ymestynnwyd yr eithriad hwn i gynnwys cynhyrchu trydan ac ynni (gwres adnewyddadwy, treulio anaerobig ac ati) heb gymhorthdal.

Mae rheolau hefyd ynglŷn â maint mwyaf y fenter. Mae'n rhaid iddi gyflogi llai na 250 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a rhaid i'r asedau gros beidio â bod yn fwy na £15 miliwn. Mae'n rhaid i'r fenter fod yn endid annibynnol a pheidio â chael ei rheoli gan unigolyn neu endid arall; caniateir iddi gael is-gwmnïau ar yr amod mai'r fenter yw prif berchennog pob un ohonynt, neu ei bod yn berchen ar 90% o leiaf os bwriedir i'r cyfalaf EIS gael ei fuddsoddi yn yr is-gwmni.

Gweinyddir EIS gan y Ganolfan Fenter Cwmnïau Bach (SCEC) yn HMRC. Mae'r SCEC yn gyfrifol am benderfynu a yw menter a'i chyhoeddiad cyfranddaliadau'n gymwys ar gyfer y Cynllun. Mae'n gwneud hyn trwy wirio bod cyfrifon, dogfen lywodraethu, cynllun busnes a dogfennau eraill y fenter yn ymwneud â'i chyhoeddiad cyfranddaliadau, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. Mae'r SCEC yn gweithredu cynllun sicrwydd o flaen llaw, sy'n golygu bod menter yn gallu cyflwyno ei chynlluniau a'i dogfennau o flaen llaw, gan ddefnyddio'r ffurflen EIS(AA), a bydd y SCEC yn cynghori ar b'un a yw'r cynnig cyfranddaliadau arfaethedig yn debygol o fod yn gymwys ai peidio. Nid yw sicrwydd o flaen llaw yn orfodol; gall menter a'i buddsoddwyr fod yn gymwys ar gyfer y cynllun ar ôl i'r cyfranddaliadau gael eu cyhoeddi, ond mae darpar fuddsoddwyr yn debygol o werthfawrogi sicrwydd o flaen llaw wrth benderfynu ynglŷn â buddsoddi.

Nid yw unigolion cysylltiedig yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth trwy EIS. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gyflogai, aelod taledig o'r pwyllgor rheoli, cyfranddaliwr mawr (a ddiffinnir fel rhywun sy'n dal mwy na 30% o'r cyfalaf cyfranddaliadau) yn y fenter, neu unrhyw un sy'n gysylltai unigolyn o'r fath. Diffinnir cysylltai fel priod neu bartner sifil, perthynas neu ddisgynnydd uniongyrchol, partner busnes, neu rai pobl y mae gan yr unigolyn gysylltiadau â nhw trwy ymddiriedolaeth. Mae cyfranddaliwyr ar y cyd (gweler Adran 3.2.4) yn cael eu trin fel petaent wedi buddsoddi'r un swm at ddibenion gostyngiad yn y dreth, hyd yn oed os nad ydynt wedi cyfrannu'n gyfartal at y pryniad ar y cyd. Os prynwyd cyfranddaliadau fel rhodd, y derbynydd sy'n derbyn y gostyngiad yn y dreth, nid y prynwr (gweler Adran 5.9). Dylai dogfennau cynnig ddatgan yn eglur y dylai ymgeiswyr wirio eu bod yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth cyn dibynnu arno. Mae HMRC yn rhoi arweiniad ar y mater hwn yn nhaflen gymorth HS431.

Ni waeth p'un a gafwyd sicrwydd o flaen llaw ai peidio, mae'n rhaid i'r fenter gyflwyno datganiad cydymffurfio (ffurflen EIS1) i'r SCEC ar ôl i'r cyfranddaliadau gael eu cyhoeddi ac mae'r fenter wedi bod yn masnachu am bedwar mis o leiaf. Os yw'r SCEC yn derbyn bod y fenter, ei masnach, a'r cyfranddaliadau oll yn bodloni gofynion y cynllun, bydd yn cyhoeddi ffurflen EIS2 i'r perwyl hwnnw, ac yn cyflenwi digon o ffurflenni EIS3 i'r fenter eu hanfon at y buddsoddwyr fel y gallant hawlio gostyngiad yn y dreth.

Er mwyn hawlio gostyngiad yn y dreth trwy EIS, yn gyntaf, mae'n rhaid i fuddsoddwyr gael ffurflen EIS3 gan y fenter maen nhw wedi buddsoddi ynddi. Dylai'r buddsoddwr ddefnyddio'r ffurflen hon i hawlio'r gostyngiad yn y dreth ar gyfer y flwyddyn pryd y cyhoeddwyd y cyfranddaliadau, neu gellir ei gario'n ôl i'r flwyddyn dreth flaenorol. Os yw'r buddsoddwr yn talu treth incwm trwy PAYE fel arfer ac mae cyfanswm y gostyngiad yn y dreth yn llai na £5,000, gellir hawlio'r gostyngiad yn y dreth mewn un o ddwy ffordd: naill ai fel addasiad i'r cod PAYE os yw'r gostyngiad yn y dreth yn cael ei hawlio yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, neu fel hawliad a gariwyd yn ôl yn erbyn y

dreth incwm ar gyfer y flwyddyn flaenorol, pryd y bydd y gostyngiad yn y dreth yn cael ei ad-dalu i'r buddsoddwr mewn cyfandaliad. Os yw'r buddsoddwr yn hawlio mwy na £5,000 o ostyngiad yn y dreth ac yn talu treth incwm trwy PAYE ar hyn o bryd, gofynnir iddo lenwi ffurflen dreth Hunanasesu. Os yw'r buddsoddwr eisoes yn llenwi ffurflen Hunanasesu flynyddol, dylai hawlio'r gostyngiad yn y dreth y tro nesaf y bydd yn cyflwyno'r ffurflen hon.

Yn ogystal, gall buddsoddwyr elwa o ostyngiad gohirio treth enillion cyfalaf os ydynt yn ailfuddsoddi enillion cyfalaf a wnaed mewn man arall mewn menter sy'n gymwys i gael EIS.

## 8.5 Y CYNLLUN BUDDSODDI CYCHWYNNOL MEWN MENTRAU

Nod y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS) yw annog buddsoddiad ecwiti mewn mentrau bach newydd. (Mae canllawiau manwl ar gael yn Llawlyfr Cynlluniau Cyfalaf Menter VCM30000 ymlaen HMRC.) Lluniwyd y rheolau ar gyfer SEIS i adlewyrchu'r rhai ar gyfer EIS oherwydd disgwylir i fentrau ddymuno symud ymlaen i ddefnyddio EIS ar ôl buddsoddiad cychwynnol o dan SEIS. Mae'r un rheolau'n berthnasol i'r diffiniad o fasnachau cymwys, cyfyngiadau ar unigolion cysylltiedig, perthnasoedd ag is-endidau, a'r cyfnod y mae'n rhaid dal cyfranddaliadau. Mae'r rheolau yn ymwneud ag unigolion cysylltiedig yn golygu bod y buddsoddiad unigol mwyaf a ganiateir o dan SEIS wedi'i gyfyngu i 30% neu £45,000. Mae nifer o wahaniaethau allweddol rhwng SEIS ac EIS. Mae'n rhaid bod y fenter wedi bod yn masnachu am lai na dwy flynedd pan gyhoeddir y cyfranddaliadau SEIS, mae'n rhaid iddi fod ag asedau gros o lai na £200,000 ac mae'n rhaid iddi fod â llai na 25 o gyflogeion. Yr uchafswm y gall ei godi o dan SEIS yw £150,000 ac mae'r ffigur hwn yn cael ei leihau ymhellach gan unrhyw gymorth gwladwriaethol y gallai'r fenter fod wedi'i dderbyn yn ystod y tair blynedd blaenorol. Y gostyngiad yn y dreth sydd ar gael trwy SEIS yw 50%, a'r uchafswm blynyddol y gall unigolyn ei fuddsoddi mewn cyfranddaliadau SEIS yw £100,000. Mae buddsoddwyr sy'n ailfuddsoddi enillion wedi'u heithrio o dreth enillion cyfalaf ar gyfer hanner yr enillion a ailfuddsoddir, hyd at yr uchafswm blynyddol o £100,000.

Mae SEIS yn cael ei weinyddu gan y SCEC yn HMRC, gan ddefnyddio'r un gweithdrefnau â'r rheiny ar gyfer EIS. Gall mentrau wneud cais am sicrwydd o flaen llaw gan ddefnyddio'r un ffurflen gais ag ar gyfer EIS. Ar ôl i'r cyfranddaliadau gael eu cyhoeddi, mae'n rhaid i'r fenter gyflwyno datganiad cydymffurfio (gan ddefnyddio ffurflen SEIS1). Os yw'r SCEC yn fodlon bod y fenter yn bodloni gofynion y cynllun, bydd yn cyhoeddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw ac yn cyflenwi ffurflenni hawlio gostyngiad yn y dreth SEIS3 i'r fenter er mwyn iddi eu rhoi i'r buddsoddwyr.

Gall cymdeithasau sy'n ceisio codi mwy na £150,000 gynnig SEIS ac EIS; bydd y £150,000 cyntaf a godir yn gymwys ar gyfer SEIS a bydd y swm dilynol yn gymwys ar gyfer EIS. Dylai unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu gwneud hyn sicrhau bod ganddi weithdrefn gadarn ar waith i amlygu'r £150,000 cyntaf a fuddsoddir, a dylai'r weithdrefn hon gael ei hegluro yn y ddogfen gynnig.

## 8.6 GOSTYNGIAD YN Y DRETH AR GYFER BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL

Lansiwyd Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (SITR) ym mis Ebrill 2014 er mwyn ceisio annog unigolion digyswllt i fuddsoddi mewn mentrau cymdeithasol. Ar 6 Ebrill 2017, ymestynnwyd y cynllun i ganiatáu i fenter gymdeithasol dderbyn hyd at £1.5 miliwn o

fuddsoddiadau cymwys o dan y cynllun hwn o fewn saith mlynedd o'i gwerthiant masnachol cyntaf. O ran mentrau hŷn, mae'r egwyddor cymorth gwladwriaethol de minimis yn berthnasol o hyd, gan gyfyngu buddsoddiadau cymwys i'r hyn sy'n cyfateb i €344,000 mewn sterling yn ystod unrhyw gyfnod treigl o dair blynedd.

Mae'r rheolau ar gyfer Sitr yn adlewyrchu'r rhai hynny ar gyfer EIS a SEIS, ond nid ym mhob maes. Er enghraifft, mae'r rheolau ynglŷn ag unigolion cysylltiedig ac is-endidau yn debyg iawn.

Yn yr un modd ag EIS a SEIS, mae'n rhaid i'r fenter gymdeithasol fod yn ymwneud â gweithgaredd masnachu cymwys. Mae hyn yn golygu nad yw mentrau gymdeithasol sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar incwm gwirfoddol, incwm trwy roddion neu incwm trwy fuddsoddiadau yn gymwys. Ond mae menter gymdeithasol sydd ag is-gwmni masnachu a berchenogir yn llwyr neu gan fwyafrif yn gymwys, ar yr amod bod yr arian a godir yn cael ei fuddsoddi yn y gweithgaredd masnachu. Mae rhai mân wahaniaethau yn y diffiniad o weithgareddau masnachu cymwys. O dan y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017, mae pob math o weithgareddau cynhyrchu ynni, prydlesu a hurio asedau, darparu gwasanaethau ariannol i fentrau gymdeithasol, a gweithredu neu reoli cartrefi nyrsio neu breswyl, wedi cael eu heithrio. Ond mae darparu gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifeg, a gweithredu neu reoli gwestai neu sefydliadau tebyg yn parhau i fod yn weithgareddau masnachu cymwys. Mae'r llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd yn cyflwyno cynllun achrededig ar gyfer darparu gofal gymdeithasol fforddiadwy, a fydd yn weithgaredd masnachu cymwys at ddibenion Sitr.

Mae gwahaniaethau mawr yn y math o fentrau sy'n gymwys ar gyfer Sitr a natur y buddsoddiadau. Mae Sitr ar gael ar gyfer buddsoddi mewn mentrau gymdeithasol yn unig. Mae Sitr yn diffinio mentrau gymdeithasol fel elusennau, cwmnïau budd cymunedol, a rhai mathau o gymdeithasau budd cymunedol. Yr hyn sydd wrth wraidd y diffiniad hwn yw'r gofyniad bod gan y fenter glo asedau a ddiffiniwyd yn statudol, felly dim ond cymdeithasau budd cymunedol sydd â'r clo asedau rhagnodedig (gweler Adran 2.4) sy'n bodloni'r diffiniad, ynghyd â chymdeithasau budd cymunedol elusennol, y mae eu clo asedau'n cael ei bennu gan y gyfraith elusennau. Nid yw cymdeithasau cydweithredol wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn gan nad oes clo asedau statudol ar gyfer y math hwn o gymdeithas. Mae meini prawf cymhwysedd eraill yn cynnwys gofyniad na chaiff y fenter gymdeithasol fod â mwy na 250 o gyflogeion na mwy na £15 miliwn mewn asedau gros.

Mae Sitr ar gael ar gyfer buddsoddiad dyled ac ecwiti mewn mentrau gymdeithasol. Mae'r ffaith bod cyllid dyled yn gymwys yn golygu bod Sitr yn wahanol iawn i EIS a SEIS, y mae'r ddau ohonynt yn berthnasol i fuddsoddiad ecwiti yn unig. I fod yn gymwys ar gyfer Sitr, mae'n rhaid i gyllid dyled fod yn ddiwarant ac ni chaniateir allanfa a drefnwyd o flaen llaw ar gyfer y buddsoddw'r am dair blynedd o leiaf. Mae'n rhaid iddo fod yn israddol i'r holl ddyledion eraill a ddelir gan y fenter gymdeithasol a pheidio â denu cyfradd llog sy'n fwy na'r gyfradd fasnachol.

Yn yr un modd â SEIS, mae'r uchafswm y gall menter gymdeithasol hŷn ei godi wedi'i gyfyngu i'r terfyn cymorth gwladwriaethol de minimis o €200,000. Ond, yn wahanol i SEIS, sy'n cyfyngu'r uchafswm y gellir ei godi i £150,000, mae Sitr yn defnyddio fformiwla i gyfrifo'r uchafswm, yn seiliedig ar werth y gostyngiadau yn y dreth, llai unrhyw gymorth gwladwriaethol y mae'r fenter gymdeithasol eisoes wedi'i dderbyn yn ystod cyfnod cymhwys treigl o dair blynedd. Yn ôl cyfraddau presennol gostyngiad yn y dreth, mae hyn yn €344,827, neu ychydig dros £250,000.

Yn yr un modd ag EIS, mae Sitr yn ostyngiad yn y dreth ar gyfer unigolion (nid cyrff corfforaethol) ac mae wedi'i osod ar 30% ar hyn o bryd. Yr uchafswm y gall buddsoddwr ei fuddsoddi mewn cynlluniau Sitr yw £1 filiwn y flwyddyn. Nid yw unigolion yn gymwys i fuddsoddi mewn menter gymdeithasol o dan Sitr os ydynt wedi buddsoddi yn yr un fenter yn flaenorol, ac ni wnaed y buddsoddiadau hyn o dan Sitr neu un o'r cynlluniau eraill ar gyfer gostyngiad yn y dreth yr ymdrinnir â nhw yn yr adran hon o'r llawlyfr. Nid yw unigolion cysylltiedig, a ddiffinnir mewn ffordd debyg i EIS a SEIS, yn gymwys ar gyfer Sitr, gan gynnwys unrhyw fuddsoddwr sydd â mwy na 30% o gyfanswm y cyfalaf benthyciadau neu hawliau pleidleisio. Mae buddsoddwyr yn gymwys ar gyfer gostyngiad dal drosodd enillion cyfalaf ar enillion a ailfuddsoddir mewn cynlluniau Sitr, ac am ostyngiad gwaredu enillion cyfalaf ar enillion a wnaed ar fuddsoddiadau Sitr cymwys.

Nid yw Sitr ar gael ar gyfer unrhyw fuddsoddiad y mae'r buddsoddwr eisoes wedi derbyn SEIS, EIS neu Ostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol ar ei gyfer. Ond gall menter gymdeithasol gynnig Sitr ar gyllid dyled ar y cyd â SEIS ar gyfer cyllid ecwiti, ar yr amod nad yw'r budd cronol trwy ostyngiad yn y dreth yn fwy na'r cyfyngiadau uchaf sy'n berthnasol i bob cynllun; er hynny, yn achos mentrau cymdeithasol hyn, mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u seilio ar gymorth gwladwriaethol de minimis, ac mae hyn wedi cael ei ddehongli ychydig yn wahanol ar gyfer pob cynllun, felly mae'n bosibl y bydd angen i HMRC bennu pa fuddsoddiad a wnaed gyntaf er mwyn cyfrifo faint y gellir ei fuddsoddi ym mhob cynllun. Gall menter gymdeithasol hefyd gynnig Sitr ar gyfalaf benthyciadau ar yr un pryd â chynnig EIS ar gyfalaf cyfranddaliadau; mae'r cynlluniau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, ac nid yw EIS yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol de minimis, er ei fod yn ddarostyngedig i reolau oedran y fenter.

Mae Sitr yn cael ei weinyddu gan y SCEC yn HMRC. Mae'r trefniadau'n debyg i'r rhai hynny ar gyfer SEIS ac EIS, gan gynnwys y darpariaethau ar gyfer sicrwydd o flaen llaw. Mae buddsoddiadau cymwys a wnaed ar 6 Ebrill 2014 neu wedi hynny yn gymwys.

## 8.7 TRETH ETIFEDDIANT

Mae cyfranddaliadau mewn cwmnïau anrhestredig yn gymwys ar gyfer gostyngiad ardrethi busnes o dreth etifeddiant, pan fydd y cyfranddaliadau hyn wedi cael eu trosglwyddo yn ystod oes unigolyn neu yn rhan o'i ewyllys. O ran pobl a fu farw ar ôl 6 Ebrill 1996, mae'r gostyngiad ardrethi busnes ar gyfranddaliadau mewn cwmnïau anrhestredig yn 100%. Gallai gostyngiad ardrethi busnes o dreth etifeddiant ymestyn i gyfranddaliadau y gellir eu codi mewn cymdeithasau, ar yr amod bod y gymdeithas yn ymwneud â masnach y mae'n ei chynnal er mwyn gwneud elw. Bydd tystiolaeth o hyn yn cael ei mynegi yn amcanion y gymdeithas, ac yn ei hymddygiad, er enghraifft, trwy dalu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau. Nid yw gostyngiad ardrethi busnes ar gael os yw'r fasnach yn cael ei chynnal heblaw er mwyn gwneud elw; gallai hyn fod yn berthnasol i rai cymdeithasau budd cymunedol elusennol neu gymdeithasau sydd wedi datgan bwriad i fyth talu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau. (Mae arweiniad manwl ar gael yn Llawlyfr Treth Etifeddiant IHTM HMRC.)

## 8.8 GOSTYNGIAD YN Y DRETH AR GYFER BUDDSODDIAD CYMUNEDOL

Diben y Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol (Citr) yw annog unigolion a chorfforaethau i fuddsoddi mewn Sefydliadau Cyllid Datblygiad Cymunedol (CDFIs) achrededig, y



mae'n rhaid iddynt, yn eu tro, fuddsoddi'r cyfalaf mewn mentrau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn y Deyrnas Unedig a/neu sy'n eu gwasanaethu. Gall y buddsoddiad fod ar ffurf dyled neu ecwiti, a gallai gynnwys cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi mewn CDFIs sydd wedi'u strwythuro fel cymdeithasau. Mae CDFIs wedi'u hachredu gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau at ddibenion CITR.

Mae'r gostyngiad yn y dreth, sy'n werth 25% o'r cyfanswm a fuddsoddwyd wedi'i wasgaru ar draws 5 mlynedd, ar gael yn erbyn naill ai'r dreth incwm neu'r dreth gorfforaeth. Mae rheolau cymorth gwladwriaethol de minimis yn berthnasol i'r mentrau sy'n elwa, na chânt dderbyn mwy na €200,000 o gymorth yn ystod unrhyw gyfnod o dair blynedd.

Mae arweiniad manwl ar CITR ar gael yn Llawlyfr Gostyngiad yn y Dreth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol CITM1000 a Thaflen Gymorth HS237 HMRC.

## 8.9 TRINIAETH DRETH CYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL ELUSENNOL

Mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol yn yr Alban yn cael eu cofrestru gyda Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban a'u rheoleiddio ganddo, ac maen nhw'n ddarostyngedig i'r un driniaeth dreth â phob elusen gofrestredig arall. Yng Nghymru a Lloegr, mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol sydd â statws elusen eithriedig yn ddarostyngedig i'r un driniaeth gyllidol ag elusennau cofrestredig. Mae cymdeithasau o'r fath yn cael eu cydnabod fel elusennau eithriedig gan HMRC, a rhoddir cyfeirnod elusen HMRC iddynt. Mae elusennau'n elwa o ystod eang o eithriadau a gostyngiadau, gan gynnwys rhodd cymorth, gostyngiad yn y dreth gorfforaeth a rhai eithriadau o TAW.

Mae HMRC yn darparu arweiniad manwl ar TAW ar gyfer elusennau a mathau eraill o sefydliadau nid-er-elw, gan gynnwys cymdeithasau budd cymunedol elusennol. Mae eithriadau TAW arbennig ar gyfer elusennau sy'n ymwneud â chwaraeon amatur, addysg, digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol, a gwasanaethau llesiant. Mae cyngor neu wybodaeth ynglŷn â llesiant yn ddarostyngedig i gyfradd TAW is o 5%.

Mae'n bosibl y bydd rhoddion a grantiau i gymdeithasau budd cymunedol elusennol yn gymwys ar gyfer Rhodd Cymorth os yw'r incwm gwirfoddol yn cael ei gyfrannu gan unigolyn sy'n drethdalwr yn y Deyrnas Unedig. Tybir bod cyfraniadau Rhodd Cymorth wedi cael eu gwneud gan bobl sydd eisoes wedi talu'r gyfradd dreth sylfaenol ar y rhodd, a gall elusennau cymwys adennill y didyniad treth hwn oddi wrth HMRC ar ei swm cyfwerth gros, sef y swm cyn i'r gyfradd sylfaenol gael ei didynnu. Gall trethdalwyr cyfradd uwch adennill y gwahaniaeth rhwng y gyfradd sylfaenol a'r gyfradd dreth uwch maen nhw'n ei thalu ar y rhodd gros i'r elusen.

Mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol wedi'u heithrio o dalu Treth Gorfforaeth ar elw masnachu elusennol, incwm rhent, llog ac enillion cyfalaf. Nid yw rhoddion a ddefnyddir at ddibenion elusennol yn agored ar gyfer Treth Gorfforaeth. Pan fydd endid corfforaethol yn gwneud rhodd gymwys i elusen, gall y swm a dalwyd gael ei osod yn erbyn ei elw at ddibenion Treth Gorfforaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a wneir gan is-gwmnïau elusennau a berchenogir yn llwyr, ond nid yw'n berthnasol i unrhyw ddifidendau a delir gan yr is-gwmni i'r rhiant-elusen. Mae cymdeithasau budd cymunedol nad ydynt yn elusennol yn drethadwy yn y ffordd arferol, fel y

disgrifir yn Adran 8.10.

## 8.10 TRETH GORFFORAETH

### 8.10.1 Cyflwyniad

Mae cymdeithasau'n ddarostyngedig i Dreth Gorfforaeth ar delerau tebyg i gwmnïau, fwy neu lai. Mae arweiniad manwl ar sut mae trethiant cwmnïau'n berthnasol i gymdeithasau ar gael yn Llawlyfr Trethiant Cwmnïau CTM40500 HMRC. Heblaw am yr eithriadau sy'n bodoli ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol elusennol (gweler Adran 8.9), mae angen i gymdeithasau fod yn ymwybodol o driniaeth dreth cymdeithasau cydweithredol sy'n ymwneud â masnachu cydfuddiannol, a'r amgylchiadau pryd y gellid ystyried bod cymdeithas yn segur at ddibenion Treth Gorfforaeth.

### 8.10.2 Masnachu cydfuddiannol

Masnachu cydfuddiannol yw pan fydd aelodau'n ffurfio cymdeithas gydweithredol i fasnachu er eu budd ei gilydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cydweithfeydd prynu a chydweithfeydd marchnata, lle mae'r aelodau'n dod at ei gilydd i brynu neu werthu nwyddau a gwasanaethau, gan ddefnyddio'r gymdeithas gydweithredol fel cyfrwng, neu asiant, ar gyfer eu masnach. Mae unrhyw arian dros ben a gynhyrchir o'r fasnach hon yn eiddo i'r aelodau yn gymesur â faint o fasnach maen nhw wedi'i chynnal trwy'r gymdeithas gydweithredol.

Nid yw cymdeithas gydweithredol sy'n ymwneud â masnachu cydfuddiannol yn agored i dreth gorfforaeth ar ei harian wrth gefn, ar yr amod ei bod yn bodloni pedwar gofyniad hanfodol a osodwyd gan HMRC. Y cyntaf o'r gofynion hyn yw bod rhaid i unrhyw arian dros ben fynd yn ôl i'r aelodau a gyfrannodd at y fasnach honno, a neb arall. Ni all cymdeithasau budd cymunedol ymwneud â masnachu cydfuddiannol oherwydd bod rhaid i gymdeithasau o'r fath fod o fudd i'r gymuned ehangach ac nid dim ond aelodau. Fodd bynnag, gall cymdeithasau cydweithredol fodloni'r gofyniad hwn os yw eu gweithgareddau masnachu wedi'u cyfyngu i aelodau yn unig ac mae'r gymdeithas dan sylw'n gweithredu fel yr asiant, nid y prif fuddiolwr, ym mhob trafodyn.

Y tri gofyniad arall yw bod rhaid i gyfranwyr at yr arian dros ben a chyfranogwyr ynddo fod yn unfath, bod rhaid i gyfraniadau dros ben a ddychwelir fod yn gymesur â'r cyfraniadau hynny, a bod rhaid i aelodau reoli unrhyw gronfeydd cyffredin. Mae'r olaf o'r gofynion hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gydweithredol bod rhaid i ran o unrhyw gronfeydd wrth gefn fod yn anwahanadwy os yw aelodau'n rheoli'r cronfeydd cyffredin hyn.

Gallai masnachu cydfuddiannol fod yn berthnasol i unrhyw gymdeithas gydweithredol sy'n masnachu â'i haelodau yn unig, ac nad yw'n masnachu â phobl nad ydynt yn aelodau, neu sy'n cyfrif am fasnachu â phobl nad ydynt yn aelodau ar wahân. Gallai hyn gynnwys cymdeithas gydweithredol defnyddwyr sy'n mynnu bod cwsmeriaid yn dod yn aelodau o'r gymdeithas gydweithredol cyn y gallant ddefnyddio ei gwasanaethau.

Mae HMRC yn dehongli masnachu cydfuddiannol mewn ffordd ychydig yn wahanol pan fydd yn ymwneud â chlwb aelodau sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Mae unrhyw

glwb sydd wedi'i gorffori fel cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol yn cael ei ystyried yn glwb aelodau at ddibenion treth. Pan fydd aelodau'n prynu nwyddau a gwasanaethau trwy'r clwb, ac os yw'r gweithgareddau hyn wedi'u cyfyngu i'r aelodau yn unig, a bod unrhyw arian dros ben sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn eiddo i'r aelodau, nid yw HMRC yn ystyried hyn fel masnachu, ond fel traul neu ddefnydd o eiddo'r aelodau eu hunain.

Mae arweiniad manwl ar fasnachu cydfuddiannol ar gael yn Llawlyfr Trethiant Cwmnïau CTM40950 HMRC.

---

### 8.10.3 Segur at ddibenion Treth Gorfforaeth

---

Mae HMRC wedi barnu bod nifer fach o gymdeithasau budd cymunedol yn segur at ddibenion Treth Gorfforaeth. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn agored i dalu Treth Gorfforaeth ar eu helw masnachu.

Mae sawl rheswm pam y gallai HMRC ystyried bod cymdeithas yn segur at ddibenion Treth Gorfforaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cymdeithasau bach sydd ag atebolrwydd Treth Gorfforaeth o £100 neu lai, cymdeithasau newydd nad ydynt wedi dechrau masnachu eto, cymdeithasau sefydledig sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu, neu gymdeithasau a sefydlwyd at ddibenion anfasnachol. Gallai hyn gynnwys cymdeithasau a sefydlwyd i berchen ar asedau, fel tir ac adeiladau, ond pe byddai cymdeithasau o'r fath yn deillio incwm neu enillion cyfalaf o'r asedau hyn, gallent fod yn agored i Dreth Gorfforaeth o hyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd unrhyw gymdeithas sy'n ymwneud â gweithgaredd busnes yn agored i Dreth Gorfforaeth fel arfer, hyd yn oed os yw'r gweithgaredd hwn yn cael ei gynnal at ddibenion heblaw am wneud elw.

Gall fod yn anodd iawn penderfynu a yw cymdeithas yn segur at ddibenion Treth Gorfforaeth. Bydd HMRC yn asesu pob achos yn unigol ac yn caniatáu eithriad consesiynol i unrhyw gymdeithas y mae'n ystyried ei bod yn segur at ddibenion Treth Gorfforaeth.